# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2005/2006

# Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd

Pwrpas y BBC yw cyfoethogi bywydau pobl gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, addysgu a diddanu

Gweledigaeth y BBC yw bod y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd

## Gwerthoedd

- Ymddiriedaeth yw sail y BBC: rydym yn annibynnol, diduedd ac onest
- Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn
- Rydym yn ymfalchïo mewn darparu ansawdd a gwerth am arian
- Creadigrwydd yw enaid ein sefydliad
- Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth fel y gall pob un wneud ei orau
- Un BBC ydym: mae pethau mawr yn digwydd wrth i ni weithio gyda'n gilydd

# Cynnwys


2 Datganiad y Cadeirydd
4 Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
6 Y BBC nawr ac yn y dyfodol
10 Bwrdd y Llywodraethwyr
12 Y Bwrdd Gweithredol
14 Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion
22 Cipolwg ar y BBC

Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau
24 Teledu
32 Radio
40 Cyfryngau Newydd
46 Newyddion
50 BBC World Service a Global News
54 Y Gwledydd a'r Rhanbarthau

58 Arolwg y Llywodraethwyr o'r gweithgareddau masnachol

60 Bod yn atebol ac yn gyfrifol
68 Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* 2005/2006

76 Cydymffurfiad

92 Arolwg ariannol
95 Datganiadau ariannol

140 Ffeithiau a ffigurau darlledu
151 Cysylltu â'r BBC
152 Gwybodaeth arall

# Datganiad y Cadeirydd



Dyma adroddiad blynyddol olaf Bwrdd Llywodraethwyr y BBC, a gaiff ei ddisodli o dan y Siarter Frenhinol newydd ddrafft gan Ymddiriedolaeth y BBC. Hoffwn dalu teyrnged i waith yr holl Lywodraethwyr dros y pedwar ugain mlynedd diwethaf. Mae'r ffaith bod annibyniaeth y BBC yn parhau yn ddyledus, i raddau helaeth, i'w stiwardiaeth gadarn – weithiau yn wyneb ymosodiadau chwerw gan fuddiannau gwleidyddol a masnachol personol.

Cydnabu fy rhagflaenydd fel Cadeirydd, Gavyn Davies, yr angen dybryd i foderneiddio trefniadau llywodraethedd y BBC, a llwyddodd y Bwrdd i adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd ganddo a'i gyd-Lywodraethwyr. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau gan yr Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio'r dulliau newydd sydd ar gael iddi o dan y Siarter newydd: Cylchoedd Gwaith Pwrpas, Trwyddedau Gwasanaeth a Phrofion Gwerth Cyhoeddus (nodir eu manylion yn Y BBC nawr ac yn y dyfodol, tudalen 9).

Mae cydnabyddiaeth gynhenid mai diben yr Ymddiriedolaeth yw cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded yn hytrach na buddiannau cul y BBC fel sefydliad wrth wraidd y trefniadau newydd. Er na chaiff y strwythurau newydd eu rhoi ar waith hyd nes y daw'r Siarter newydd i rym ym mis Ionawr 2007, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr presennol yn llawn gefnogi'r newidiadau ac eisoes yn gweithredu o fewn ysbryd y Siarter newydd.

O ganlyniad, mae'r gydberthynas rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol – sef y rheini sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd – wedi dechrau newid. Bellach ceir rhaniad amlwg rhwng y ddau gorff hyn, gan alluogi'r Bwrdd i oruchwylio gwaith y Pwyllgor Gweithredol mewn ffordd annibynnol. Bydd y drefn hon yn dwysáu yn y dyfodol wrth i'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio ei phwerau newydd i sicrhau y creffir ar waith y Pwyllgor Gweithredol mewn ffordd drylwyr, annibynnol a chwbl dryloyw.

Prif swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth fydd sicrhau y caiff disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded o'r BBC eu bodloni o ran ansawdd a gwerth am arian ei wasanaethau, a bod y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei chwe phwrpas cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter newydd ddrafft. Wrth gynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y buddiannau hyn yn mynd y tu hwnt i'w buddiant uniongyrchol yn y BBC. Nid dim ond arlwy'r cyfryngau a ddarperir gan y BBC sy'n mynd â bryd talwyr ffi'r drwydded. Maent yn gwerthfawrogi'r dewis o wasanaethau a ddarperir gan eraill, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y BBC yn gweithredu mewn ffordd sy'n cydnabod hyn yn llawn.

Yn ddiau, caiff Pwyllgor Gweithredol y BBC ei siomi weithiau gan ganlyniad Prawf Gwerth Cyhoeddus – fel y caiff buddiannau sector preifat eu siomi weithiau. Ein swyddogaeth ni fel Ymddiriedolwyr y BBC fydd sicrhau bod buddiannau ehangaf talwyr ffi'r drwydded yn cael blaenoriaeth dros y buddiannau hynny.

Mae'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn dilyn dwy flynedd o ddadleuon cyhoeddus, gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth, yn arwydd o hyder y cyhoedd yn y BBC. Mae'r Siarter ddeng mlynedd newydd a pharhad ffi'r drwydded yn rhoi sefydlogrwydd aruthrol i'r BBC o fewn tirlun cyfryngau cyfnewidiol. Rydym yn aros i glywed am setliad ffi'r drwydded.

Am y tro cyntaf, bu'r BBC yn gwbl agored â'r cyhoedd ynghylch cais ffi'r drwydded. Roedd ei faint yn seiliedig ar gynllun busnes wedi'i gostio'n llawn adeg ei gyhoeddi, a oedd yn adlewyrchu cynllun y Llywodraeth ar gyfer y BBC a nodwyd ym Mhapur Gwyrdd y

llynedd. Yn ystod y trafodaethau dilynol gyda'r Llywodraeth, mae'r BBC wedi datgan mai ei brif flaenoriaeth yw gallu diwallu anghenion a disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded ar y gost isaf posibl. Ni ddylid ystyried y broses o sicrhau'r setliad uchaf posibl fel ffordd o ennill bathodyn anrhydedd i'r rheini sy'n cynrychioli talwyr ffi'r drwydded ar Fwrdd y BBC.

Canolbwyntiodd llawer o'n gwaith fel Llywodraethwyr eleni ar newid ariannol a sefydliadol wrth baratoi ar gyfer y Siarter newydd. O ganlyniad, rwyf yn hyderus bod y BBC mewn sefyllfa dda yn strwythurol i ddechrau ar gam nesaf ei ddatblygiad. Ar ddiwedd cyfnod y Siarter bresennol, bydd y BBC wedi bodloni ei ymrwymiad i gyflawni sefyllfa fras o ddim dyledion. Mae'r gwaith o gyflawni'r targed hunan-help o £3.3biliwn a osodwyd gan y llywodraeth ar gyfer cyfnod y Siarter bresennol ar y trywydd iawn a bydd yn rhagori arno. A rhagorwyd ar darged arbedion gwerth am arian ychwanegol y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2005/2006, gan roi mwy o sicrwydd y caiff ei darged cyffredinol o gyflawni arbedion blynyddol crynswth parhaus o £355miliwn erbyn 2007/2008 ei gyrraedd.

Yn yr adroddiad hwn, cyflwynwn asesiad gwrthrychol o berfformiad rheolwyr yn ystod y flwyddyn dan sylw. Lle mae angen gwneud mwy, nodwyd hynny gennym. Ond mae'r darlun cyffredinol yn galonogol. Mae cyrhaeddiad cyffredinol gwasanaethau teledu a radio'r BBC yn gymharol sefydlog ar lefel o 92.7%, ac mae cyrhaeddiad gwasanaethau ar-lein y BBC yn parhau i gynyddu'n gyflym. Mewn cyd-destun cynyddol gystadleuol, lle y mae gan gynulleidfaoedd lawer mwy o ddewis, mae hyn yn gyflawniad gwirioneddol. Ac mae'r cyflawniad hwn yn uwch gan nad yw'n adlewyrchu unrhyw ostyngiad o ran ansawdd – yn wir, i'r gwrthwyneb. Gall y BBC ymfalchïo yn ansawdd cynyddol ei ddarllediadau cyffredinol eleni – barn a adlewyrchir yn y llu o wobrau a enillwyd ganddo.

Cyflawnwyd y perfformiad hwn yn erbyn cefndir o bryder dealladwy ymysg y staff o ran y diswyddiadau a'r newidiadau i arferion gwaith yn deillio o raglen gwerth am arian y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a gynlluniwyd i ryddhau cyllid i'w fuddsoddi mewn mwy o gynyrchiadau o ansawdd uwch. Fe'i cyflawnwyd hefyd yng nghyd-destun proses gynhwysfawr – a blinderus weithiau – yr Arolwg o'r Siarter.

Ond nid yw'r darlun yn gwbl gadarnhaol. Un mater a gaiff ei godi dro ar ôl tro yn ein hymgynghoriadau â chynulleidfaoedd ledled y DU eleni yw'r broblem sy'n gysylltiedig â chwmpas cyfyngedig gwasanaethau digidol. Mae talwyr ffi'r drwydded yr effeithir arnynt wedi mynegi anfodlonrwydd cyfiawn nad ydynt yn gallu derbyn y gwasanaethau er eu bod yn cyfrannu at gost darllediadau digidol y BBC. Rydym wedi annog y rheolwyr i gyflymu eu cynlluniau – gan weithio gyda phartneriaid masnachol – i ddatblygu fersiwn loeren gyfatebol o Freeview a fyddai'n datrys y problemau hyn.

Rwyf yn falch mai fi yw Cadeirydd olaf y Llywodraethwyr ac fy mod wedi cael fy mhenodi fel Cadeirydd cyntaf yr Ymddiriedolaeth newydd. Mae cydnabyddiaeth fod llwyddiant parhaus BBC a ariennir gan ffi'r drwydded yn dibynnu nid yn unig ar ddamcaniaeth economaidd neu ddogma wleidyddol ond ar allu'r BBC i gadw cefnogaeth mwyafrif helaeth pobl y DU drwy'r cynnwys a'r gwasanaethau a gynigir ganddo wrth wraidd fy ngweledigaeth i'r BBC.

Gall y cynnwys a'r gwasanaethau hyn fod ar sawl ffurf wrth i'r BBC gyflawni ei gylch gwaith cyhoeddus hanesyddol i hysbysu, addysgu a diddanu. Ond rhaid iddynt oll rannu'r uchelgais o bennu safonau ansawdd newydd, waeth beth fo'r genre neu'r dull dosbarthu.

Yn gynharach eleni, cymerais ran yng ngwasanaeth coffa Ronnie Barker, yr oedd ei yrfa hir gyda'r BBC yn enghraifft wych o hyn. Mae'r rhestr o'i lwyddiannau gyda'r BBC yn anhygoel: *The Navy Lark*, *The Frost Report*, *The Two Ronnies*, *Porridge*, *Open All Hours* – mae'r rhain ymhlith cyflawniadau gorau comedi'r BBC. Yn ogystal ag actor comig gwych, roedd Ronnie Barker yn awdur talentog iawn. Roedd yn ddyn diymhongar, ac hyd yn oed fel seren sefydledig, byddai weithiau'n cyflwyno sgriptiau i'r BBC o dan ffug enw – dywedodd ei fod am sicrhau eu bod yn cael eu derbyn oherwydd eu hansawdd, yn hytrach nag enw eu hawdur. Profodd cyfraniad Ronnie Barker i'r BBC y tu hwnt i bob amheuaeth y gall ansawdd a phoblogrwydd gyd-fodoli. Er mwyn i'r BBC sicrhau cefnogaeth barhaus talwyr ffi'r drwydded dros y deng mlynedd nesaf, bydd angen iddo gofio mai dyma sy'n gwneud darllediadau'r BBC yn arbennig.



Michael Grade
Cadeirydd
14 Mehefin 2006

# Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Mae'r BBC yn byw rhwng dau fyd: byd darlledu radio a theledu traddodiadol a byd newydd a chyffrous y cyfryngau digidol. Yr her sy'n ein hwynebu yw taro'r cydbwysedd cywir o ran adnoddau ac egni creadigol rhwng y ddau fyd hyn a chyflwyno newidiadau ar gyflymder addas.

Os symudwn yn rhy gyflym, gallem fethu â darparu gwasanaeth digonol i'r miliynau o dalwyr ffi'r drwydded sy'n parhau i ddibynnu arnom ni fel y dewis cyntaf am deledu a radio eithriadol. Ond os symudwn yn rhy araf, gallem syrthio ar ei hôl hi a cholli cysylltiad yn llwyr â rhai o'n cynulleidfaoedd.

Roedd 2005/2006 yn flwyddyn lle y datblygodd y chwyldro digidol ymhellach eto. Fis ar ôl mis, cyrhaeddodd gwefan y BBC lefelau cyrhaeddiad uwch nag erioed. Bellach ceir dros dri biliwn o ymweliadau â thudalennau bob mis. Ffrydio byw, lawrlwytho, pod-ddarlledu…croesawodd y cyhoedd bob technoleg newydd a phob arbrawf newydd – nid er mwyn y dechnoleg ei hun, ond fel ffordd newydd o dderbyn cynnwys eithriadol y BBC.

Ar 7 Gorffennaf 2005, adroddwyd hanes poen a dewrder Llundain mewn ffordd glodwiw ar draws gwasanaethau'r BBC, o BBC London 94.9 a Radio Five Live i BBC News 24 a'r *Ten O'Clock News*. Ond cyflwynodd 7 Gorffennaf uchafbwynt newydd i bbc.co.uk yn gyffredinol ac o ran cynnwys clyweledol cyfoethog – gyda sain a lluniau yn cael eu ffrydio'n fyw i ddefnyddwyr y rhyngrwyd. Yn ddiddorol, nid adroddiadau proffesiynol y BBC ei hun a ddenodd y cyhoedd fwyaf y diwrnod hwnnw ond delweddau sigledig o dwneli'r tiwb a bws wedi'i ddinistrio a dynnwyd gan ddefnyddio ffonau symudol.

Arferai newyddiaduraeth y BBC fod yn ddull cyfathrebu un ffordd yn bennaf. Nawr gall llygaid dystion lwytho eu tystiolaeth o fewn eiliadau a gall blogwyr dywys unrhyw ddadl genedlaethol neu fyd-eang ymhell y tu hwnt i'r stiwdio radio neu deledu. BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion mwyaf poblogaidd yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU o hyd a ledled y byd – drwy BBC World Service, bbc.co.uk a BBC World. Mae bellach yn cyrraedd dros 250 miliwn o bobl bob wythnos. Ond mae technoleg a disgwyliadau'r gynulleidfa yn newid rheolau'r gêm o wythnos i wythnos.

Dyna pam, er gwaethaf pwysau cyson digwyddiadau – Etholiad Cyffredinol, y daeargryn ofnadwy yn Pacistan, y ddrama barhaus yn Irac ac yn y blaen – y cymerodd llawer o'n golygyddion a'n newyddiadurwyr amser yn 2005/2006 i roi ystyriaeth ddwys i ddyfodol BBC Newyddion. Ffurfiodd eu casgliadau ran o'r hyn a alwyd gennym yn Ddyfodol Creadigol, ymgais i bennu cyfeiriad i bob un o'n prif feysydd cynnwys dros y pum mlynedd nesaf.

Mae a wnelo Dyfodol Creadigol i raddau helaeth â thechnoleg a'i heffaith greadigol: er enghraifft, yr angen i gomisiynwyr ystyried prosiectau ar draws teledu, radio a'r we, i archwilio cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr, i ystyried sut y dylai gwasanaethau yn ôl y galw effeithio ar yr hyn a wnawn a'r ffordd o'i wneud.

Ond fe'n hatgoffodd hefyd mai'r hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd yw uchelgais creadigol a chywirdeb. Technoleg yw'r cyfrwng o gyflawni'r nod: i'r BBC, y nod bob amser fydd ansawdd y cynnwys ei hun.

Roedd digon o raglenni ar deledu'r BBC eleni a ddangosodd yr hyn y gallwn ei gyflawni wrth gyfuno arloesedd â thalent ac argyhoeddiad. Roedd *Bleak House* yn ffenomenon, addasiad o waith Dickens gyda chymaint o ddyfnder ag unrhyw addasiad o'r fath a wnaed erioed gan y BBC, ond fe'i hystyriwyd fel rhaglen gyfresol feiddgar, cyfoes ei naws a enillodd ei phlwyf fel rhan o amserlen ganol wythnos BBC One

gydag *EastEnders*, a oedd ei hun yn cael adfywiad creadigol. Ac roedd y rhain yn ddim ond dau uchafbwynt yn y flwyddyn gryfaf a gafodd drama teledu'r BBC ers mwy na degawd, a oedd yn cynnwys *To The Ends of The Earth*, *Bodies*, *Life on Mars*, *ShakespeaRe-Told*, a *Dr Who* gyda Doctor newydd gwych.

Er gwaethaf cyfres arloesol a chyffrous arall o *Little Britain*, prin fu'r comedi newydd llwyddiannus ar BBC One, er y bu ymdeimlad gwirioneddol o dalent newydd a syniadau newydd ar y teledu: roedd *The Catherine Tate Show*, *Extras*, *Still Game* gan BBC Scotland a *The Thick Of It* yn llwyddiannau amlwg mewn blwyddyn gref ar BBC Two, BBC Three a BBC Four. O Jonathan Ross i *Strictly Come Dancing*, parhaodd adloniant yn gryf ar BBC One, a pharhaodd sioeau panel BBC Two fel *QI* a fformatau adloniant ffeithiol fel *The Apprentice* i fynd o nerth i nerth. O blith ein gwasanaethau digidol, ffynnodd BBC Four yn arbennig yn ystod 2005/2006, gan ddarganfod cymysgedd ehangach, mwy mentrus o raglenni gyda drama a chomedi yn ategu ei phrif arlwy o raglenni dogfen a diwylliant.

Roedd darllediadau ffeithiol yn gryf ar draws y BBC. Roedd *Planet Earth* yn gyfuniad ardderchog arall o arloesedd technegol a chelfyddyd weledol a naratif o'r radd flaenaf. Roedd rhaglen dwy ran *Arena* am Bob Dylan yn ystod ei ieuenctid, *No Direction Home*, a *Facing the Truth* gan BBC Northern Ireland, a ddaeth â'r rheini a fu'n rhan o wrthdaro'r trafferthion ynghyd, yn uchafbwyntiau o blith arlwy o raglenni dogfen pwerus ac amrywiol.

O blith holl wasanaethau'r BBC, gan Radio 1, i raddau, y mae'r genhadaeth anos: ceisio cynnig rhaglenni arbennig a gwerthfawr i un o rannau prysuraf y farchnad ddarlledu – ac i gynulleidfa fwyaf craff a heriol y DU, mewn sawl ffordd. Bu strategaeth newydd yr orsaf o gymorth iddi deimlo'n fwy hyderus ac yn fwy perthnasol yn 2005/2006. Atgyfnerthodd Radio 2 ei statws fel gorsaf radio fwyaf poblogaidd y wlad, ac adeiladodd Radio 3 ar lwyddiant *The Beethoven Experience* gan gyflwyno *A Bach Christmas*. Hanes Angylion Brixton – carcharorion un o garchardai caletaf Prydain a ddaeth ynghyd i ganu Bach – oedd un o ddarllediadau mwyaf teimladwy'r flwyddyn.


Yn y cyfamser, llwyddodd Radio 4 i arbrofi â dadleuon mwy cyfoes a drama fwy nodedig a phroffil uchel. Wrth benderfynu cael gwared ar ei chadwyn o themâu o'r DU ddechrau'r bore, ysgogodd yr orsaf glasur o anghydfod i'r BBC wrth i newid a ymddangosai'n ddibwys ddod i gynrychioli rhywbeth llawer mwy a phwysicach i'r gwrandawyr. Ar ôl myfyrio gofalus, penderfynodd tîm Radio 4 barhau â'u penderfyniad gwreiddiol, ac yn fy marn i, roeddent yn llygad eu lle yn gwneud hynny. Ond roedd gwers bwysig i'r BBC: ni allwch obeithio plesio pawb drwy'r amser, ond – yn arbennig ar adeg lle y mae ganddynt gymaint o ddewis – ni ddylai'r BBC byth gymryd ei gynulleidfa'n ganiataol.

Parhaodd ein gwasanaethau radio digidol i gryfhau eu cydberthnasau â gwrandawyr, a chafwyd cynnwys cryf ac arloesol yn ein darllediadau chwaraeon a'n harlwy i blant, yn ogystal â chan ein gwasanaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Lansiwyd gwasanaethau newydd hefyd: mae modiwlau cyntaf y Cwricwlwm Digidol (a elwir bellach yn BBC jam) yn cael ymateb cadarnhaol iawn gan fyfyrwyr ac athrawon fel ei gilydd, ac yn ystod y deufis diwethaf dechreuwyd cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth teledu BBC diffiniad uchel gennym – y cynllun cyntaf o'i fath ym myd darlledu, a ffordd arall o geisio gwella'r ansawdd a gaiff y cyhoedd gan y BBC.

Roedd hefyd yn flwyddyn lle y cyrhaeddodd y ddadl ynghylch dyfodol y BBC uchafbwynt gyda'r llywodraeth yn cyhoeddi ei Phapur Gwyn. Cyflwynir darlun o BBC cryf, ond nid un sy'n bodoli ar wahân i weddill y farchnad. Er gwaethaf y darlun y mae rhai o gystadleuwyr y BBC yn hoffi ei awgrymu, gwelwn ddyfodol gyda statws amlycach i bartneriaethau – gyda chyrff cyhoeddus eraill, gyda chynhyrchwyr annibynnol, gyda darlledwyr cyhoeddus eraill a chyda'n cynulleidfaoedd. Mae'r gydberthynas newydd gyda PACT a'r memoranda o gyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gydag amrywiol gyrff dros y flwyddyn ddiwethaf yn arwydd o'r ymagwedd newydd hon.

Er y gall y BBC ymfalchïo yn ei berfformiad i raddau helaeth yn 2005/2006, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau a llongyfarch ein hunain. Mae cynulleidfaoedd yn ein hannog i ddatblygu: yn briodol, maent yn codi eu safonau yn gyson. Mae gennym Ddyfodol Creadigol i'w roi ar waith, y newid i ddigidol i'w dywys, ac mae gennym newidiadau i'n systemau rheoli ein hunain wrth ymateb i'r penderfyniad i gyflwyno Ymddiriedolaeth newydd y BBC.

Rydym newydd wynebu un o'r blynyddoedd prysuraf yn ein hanes. Ond mewn sawl ffordd, megis dechrau y mae'r her go iawn.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
14 Mehefin 2006

# Y BBC nawr ac yn y dyfodol

## Trosolwg

Mae'r Siarter Frenhinol ddrafft yn arwydd o newidiadau pellgyrhaeddol yn y BBC. Mae gan Ymddiriedolaeth newydd y BBC a fydd yn disodli'r Llywodraethwyr ddyletswydd benodol i gynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded. O ganlyniad, bydd rhaniad llawer amlycach rhwng y rheini sy'n gyfrifol am oruchwylio'r BBC a'r rheini sy'n gyfrifol am gyflwyno ei wasanaethau.

Mae newid arwyddocaol arall yn golygu, am y tro cyntaf, y bydd y Siarter newydd yn cynnwys diffiniad o bwrpasau cyhoeddus y BBC, sef:

- Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd
- Hyrwyddo addysg a dysgu
- Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
- Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
- Cyflwyno'r byd i'r DU a'r DU i'r byd
- Adeiladu Prydain ddigidol (gan helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd a chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i deledu digidol)

Fodd bynnag, erys ambell beth, fel y ffordd y caiff y BBC ei ariannu drwy ffi'r drwydded, yr un peth. Mae'r adran hon yn amlinellu'r trefniadau presennol a'r newidiadau arfaethedig.

## Ffi'r drwydded
Talwyr ffi'r drwydded sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r arian a gaiff ei wario gan y BBC – gan gynnwys consesiynau, mae 25 miliwn ohonynt – a bydd y strwythur llywodraethu newydd (gweler isod) yn atgyfnerthu dylanwad talwyr ffi'r drwydded wrth bennu cyfeiriad i'r BBC yn sylweddol. Pennir lefel ffi'r drwydded gan y Llywodraeth.

## Y Senedd
Mae'r Senedd yn gyfrifol am graffu ar faterion y BBC drwy ddadleuon a gynhelir yn y ddau Dŷ a thrwy wrandawiadau pwyllgorau dethol, lle y gofynnir i Lywodraethwyr y BBC – Ymddiriedolwyr y BBC yn y dyfodol – ac aelodau o blith rheolwyr y BBC roi cyfrif am berfformiad y BBC. Bu'r Senedd yn craffu ar y broses o adnewyddu'r Siarter drwy gydol y broses.

## Y Siarter Frenhinol
Ymgorfforir y BBC gan Siarter Frenhinol sy'n nodi amcanion a chyfansoddiad y BBC. Mae Cytundeb ategol yn nodi ei rwymedigaethau yn fanylach. Daw'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb presennol i ben ddiwedd 2006. Bydd y Siarter a'r Cytundeb newydd yn weithredol am ddeng mlynedd hyd ddiwedd 2016 a bydd cyllid ffi'r drwydded hefyd yn parhau am y cyfnod hwnnw. Mae'r Siarter newydd yn rhoi cydnabyddiaeth amlwg i annibyniaeth y BBC.

## Llywodraethu'r BBC
Mae'r Siarter a'r Cytundeb newydd drafft yn gosod newidiadau radical ar y ffordd y caiff y BBC ei lywodraethu.

O dan y Siarter bresennol, mae gan y BBC ddeuddeg Llywodraethwr, a benodwyd gan y Frenhines yn dilyn cyngor gweinidogion yn unol ag egwyddorion Nolan sy'n nodi y dylid gwneud penodiadau cyhoeddus ar sail teilyngdod. Maent oll yn rhan amser. Daw'r Llywodraethwyr ag ystod eang o brofiad ac arbenigedd i Fwrdd y BBC. Mae Llywodraethwyr cenedlaethol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cadeirio Cynghorau Darlledu, ac mae'r Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb arbennig dros Ranbarthau Lloegr yn cadeirio Fforwm Cenedlaethol Lloegr. Caiff safbwyntiau pobl yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar raglenni a gwasanaethau'r BBC eu lleisio drwy'r cyrff hyn. Mae Grŵp Ymgynghori World Service a Global News yn rhoi arolwg annibynnol o amrywiaeth ac ansawdd cynyrchiadau BBC World Service a BBC World i'r Llywodraethwyr.

O dan y Siarter newydd, caiff Bwrdd y Llywodraethwyr ei ddisodli gan Ymddiriedolaeth y BBC a chaiff Bwrdd Gweithredol newydd ei sefydlu'n ffurfiol, y caiff ei rôl a'i gyfrifoldebau eu diffinio yn y Siarter. Bydd rhaniad amlwg rhwng swyddogaethau'r ddau gorff gyda'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn cyfrifoldeb gweithredol. Bydd yr Ymddiriedolaeth, fel y corff sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y BBC, yn craffu ar y strategaethau a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn pennu Cylchoedd Gwaith Pwrpas, ac yn cyhoeddi Trwyddedau Gwasanaeth (gweler tudalen 9) ac yn dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am ei berfformiad wrth gyflwyno gwasanaethau'r BBC yn erbyn telerau ac amodau'r dogfennau hyn.

## Ymddiriedolaeth y BBC
Ymddiriedolaeth y BBC fydd yn bennaf cyfrifol am ffi'r drwydded. Bydd yn gweithredu er budd y cyhoedd, yn cynrychioli safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded, yn diogelu annibyniaeth y BBC ac yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus arbennig. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo neu'n gwrthod strategaethau cyffredinol y BBC, yn pennu cyllidebau blynyddol lefel uchel, ac yn asesu perfformiad Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn ei ddal i gyfrif. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyflwyno Trwyddedau Gwasanaeth yn nodi cylch gwaith a chyllideb pob un o wasanaethau'r BBC a byddant yn comisiynu Profion Gwerth Cyhoeddus (gweler tudalen 9) pan fydd y Bwrdd Gweithredol yn cynnig newidiadau arwyddocaol i wasanaethau presennol neu gyflwyno gwasanaethau newydd.

Bydd deuddeg o Ymddiriedolwyr, a benodir gan y Frenhines yn dilyn cyngor gweinidogion yn unol ag egwyddorion Nolan. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys aelodau a fydd yn gweithredu'n benodol er budd Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi'u cynorthwyo gan Gynghorau Cynulleidfa. Disgwylir i'r Ymddiriedolaeth fod yn agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wna, ac i geisio barn talwyr ffi'r drwydded ac ymgynghori â hwy. Ategir ei hannibyniaeth gan Uned yr Ymddiriedolaeth a fydd yn gweithredu ar sail llawn amser ac a fydd yn seiliedig ar yr Uned Lywodraethu bresennol (gweler tudalen 8).

Mae Ofcom, sef y rheoleiddiwr cyfathrebu, eisoes yn rheoleiddio rhai agweddau ar y BBC a bydd yn parhau i wneud hynny. Er enghraifft, mae'r BBC yn cydymffurfio â safonau a chodau tegwch Ofcom (ac eithrio ar gyfer cywirdeb a natur ddiduedd briodol sy'n parhau i fod yn fater i'r Llywodraethwyr – ac i'r Ymddiriedolwyr yn y dyfodol). O dan y Siarter newydd, Ofcom fydd yn cynnal yr Asesiadau i'r Effaith ar y Farchnad pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn comisiynu Profion Gwerth Cyhoeddus.

## Uned Lywodraethu'r BBC

Mae'r Uned Lywodraethu yn cefnogi gwaith Bwrdd y Llywodraethwyr, gan roi cyngor annibynnol a gwrthrychol iddo. Bydd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn i Ymddiriedolaeth y BBC, o dan yr enw newydd Uned yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Uned yn annibynnol ar reolwyr y BBC. Caiff ei chyfarwyddwr ei benodi gan Fwrdd y Llywodraethwyr – gan Ymddiriedolaeth y BBC yn y dyfodol – ac nid yw staff yr Uned yn rhan o gadwyn reoli'r BBC. Mae'r Uned yn darparu cymorth ar draws amrywiaeth o weithgarwch y BBC gan gynnwys atebolrwydd i gynulleidfaoedd, goruchwylio perfformiad, craffu ariannol, cydymffurfiad, a chwynion ac apeliadau – boed yn rhai golygyddol neu fasnachu teg.

Yn ogystal, mae'r Uned yn defnyddio cynghorwyr allanol ar gyfer prosiectau penodol. Er enghraifft, yn ystod 2005/2006, cynhaliodd cynghorwyr annibynnol arolwg o ddarllediadau o'r gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid, a chafwyd cyngor gan gyfrifwyr o PA Consulting ar y cynnydd a wnaed o ran mesurau effeithlonrwydd rheolwyr y BBC. Buont hefyd yn craffu ar gais ffi'r drwydded y BBC cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Mae gan yr Uned Lywodraethu 33 aelod o staff. Yn 2005/2006, cyfanswm cost yr Uned Lywodraethu oedd £8.3miliwn (£8.4miliwn yn 2004/2005). Roedd hyn yn cynnwys £1.3miliwn ar gyfer y cynghorau ymgynghorol cenedlaethol a rhanbarthol (£1.2miliwn yn 2004/2005).

Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu wrthi ar hyn o bryd yn adolygu cyllideb ac adnoddau'r Uned yn erbyn cyfrifoldebau Ymddiriedolaeth newydd y BBC.

### Bwrdd Gweithredol

O dan y Siarter bresennol, caiff gweithrediadau'r BBC eu rheoli gan Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y BBC. Fe'i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef prif weithredwr a phrif olygydd y BBC. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn atebol i Fwrdd y Llywodraethwyr, sy'n penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

O dan y Siarter newydd, caiff y Bwrdd Gweithredol ei ailgyfansoddi a'i atgyfnerthu drwy benodi lleiafrif sylweddol o gyfarwyddwyr anweithredol, a gaiff eu henwebu gan y Bwrdd a'u cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth. Eu rôl fydd cynorthwyo'r Bwrdd Gweithredol fel 'cyfeillion beirniadol' gan gyflwyno persbectif ac arbenigedd allanol i'w waith. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflwyno ei wasanaethau, cyfeiriad allbwn creadigol a golygyddol, rheolaeth weithredol y BBC, a chyflwyno gwerth am arian.

### BBC

Caiff holl gynyrchiadau'r BBC eu cynhyrchu neu eu comisiynu gan 14 o is-adrannau'r BBC. Ceir naw is-adran ddarlledu. Maent yn rheoli rhwydweithiau'r BBC a'r broses o gomisiynu a chynhyrchu eu rhaglenni. Mae'r is-adrannau hyn fel a ganlyn:

- Teledu
- Radio a Cherddoriaeth
- Newyddion
- Y Gwledydd a'r Rhanbarthau
- Chwaraeon
- Ffeithiol a Dysgu
- Drama, Adloniant a Phlant
- Cyfryngau Newydd a Thechnoleg
- Global News (gan gynnwys BBC World Service a BBC World)

Yn ogystal, ceir pum is-adran sy'n darparu cymorth proffesiynol, sef:

- BBC People
- Cyllid
- Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd
- Strategaeth
- Gweithrediadau

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC – sy'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau ledled y byd er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad ffi'r drwydded – yn perthyn i gwmni ymbarél, sef BBC Commercial Holdings Limited:

- BBC Worldwide Limited
- BBC Resources Limited
- BBC World Limited

Caiff yr elw a wneir gan yr is-gwmnïau hyn ei ddychwelyd i'r BBC er mwyn buddsoddi ym maes gwneud rhaglenni.

### Teledu, radio, ar-lein

Ledled y DU, mae'r BBC yn gweithredu wyth sianel deledu a deg rhwydwaith radio, 46 o orsafoedd radio lleol a chenedlaethol, a'r gwasanaethau rhyngweithiol bbc.co.uk a BBCi.

Yn rhyngwladol, mae BBC World Service yn darlledu ar y radio mewn 33 o ieithoedd; mae BBC World yn darparu gwasanaeth newyddion teledu byd-eang; ac mae'r safle ar-lein bbcnews.com yn cynnig newyddion a sain i gynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae BBC Worldwide hefyd yn gweithredu portffolio o sianelau teledu masnachol mewn marchnadoedd rhyngwladol, gyda rhai ohonynt o dan frand y BBC a rhai ohonynt yn cael eu gweithredu fel cyd-fentrau gyda darlledwyr eraill. Nid ariennir y gwasanaethau hyn gan ffi'r drwydded ond telir amdanynt naill ai gan Gymorth Grant gan y Llywodraeth neu drwy hysbysebion.

Yn ogystal â gwasanaethau darlledu ac ar-lein, mae'r BBC yn gweithio yn y gymuned mewn sawl ffordd wahanol gan gynnwys apêl Plant mewn Angen y BBC sy'n codi llawer o arian i helpu plant difreintiedig yn y DU.

# Cyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC

### Cylchoedd Gwaith Pwrpas

Ar gyfer chwe phwrpas cyhoeddus y BBC (gweler tudalen 6), bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi Cylch Gwaith Pwrpas yn nodi blaenoriaethau uchel ar gyfer y BBC cyfan ar gyfer cyflawni'r pwrpasau a sut y caiff llwyddiant ei fesur. Wrth ddatblygu'r cylchoedd gwaith hyn bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori â'r cyhoedd.

### Trwyddedau Gwasanaeth

Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflwyno Trwyddedau Gwasanaeth yn nodi manylion cyllideb a chylch gwaith pob un o wasanaethau'r BBC, sut y maent yn cyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC, a sut y dylid mesur perfformiad. Caiff yr holl drwyddedau eu cyhoeddi.

### Fframwaith mesur perfformiad

Er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau'r BBC eu cyflwyno yn unol â chylchoedd gwaith a thrwyddedau gwasanaeth, datblygwyd fframwaith mesur perfformiad newydd. Mae'n seiliedig yn rhannol ar fesur canfyddiadau talwyr ffi'r drwydded ac yn rhannol ar fesuriadau empiraidd o ddata ariannol a chynulleidfa. Y nod yw cyflawni asesiadau sy'n wrthrychol, yn drwyadl ac yn dryloyw, gan ystyried pedwar ffactor: cyrhaeddiad, ansawdd, effaith a gwerth am arian.

- Mesur o ddefnydd yw cyrhaeddiad. Mae'n cofnodi canran y boblogaeth sy'n gwylio, gwrando ar neu ddefnyddio gwasanaeth am amser penodol dros gyfnod penodol (15 munud dros gyfnod o wythnos fel arfer ar gyfer y BBC). Mae cyrhaeddiad yn wahanol i'r ffordd draddodiadol o fesur cynulleidfa: cyfran. Cyfran yw canran cyfanswm y gynulleidfa sy'n gwylio neu'n gwrando ar sianel neu wasanaeth penodol dros gyfnod penodol o amser. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod cyrhaeddiad yn well mesur o gyffredinolrwydd ac felly ei fod yn fwy priodol i'r BBC, y bu cyffredinolrwydd (i bawb ac ar gael am ddim i bawb) bob amser yn un o'i egwyddorion allweddol.
- Mae ansawdd yn fesur o ganfyddiad y gynulleidfa yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddata empiraidd. Caiff ei olrhain drwy arolygon sy'n cofnodi cyfran y gynulleidfa sydd o'r farn bod rhaglen neu wasanaeth penodol o "ansawdd uchel" ac yn cynnwys "syniadau ac ymagweddau newydd". Mae asesiadau o ansawdd hefyd yn cynnwys mesurau empiraidd o ran gwreiddioldeb mewn perthynas â chyfran yr oriau sy'n newydd ac yn gynyrchiadau gwreiddiol a gynhyrchwyd yn y DU.
- Mae effaith yn ffordd arall o fesur canfyddiad y gynulleidfa. Caiff ei olrhain drwy arolygon sy'n cofnodi cyfran y gynulleidfa sydd o'r farn bod rhaglen neu wasanaeth penodol yn "bleserus" ac yn "ysgogol". Mae effaith yn anelu at fesur sut y mae cynyrchiadau'r BBC yn cyfoethogi bywydau unigolion a dinasyddion.
- Asesiad ariannol empiraidd yw gwerth am arian yn bennaf. Caiff ei fesur mewn dwy ffordd. Un ffordd yw rhannu cyfanswm cost rhaglen neu gynhyrchiad arall â nifer y gwylwyr, gwrandawyr neu ddefnyddwyr i gynhyrchu cost fesul gwyliwr/gwrandäwr/defnyddiwr. Yr ail ffordd yw rhannu cyfanswm y gost â nifer yr oriau gwylio neu wrando i gynhyrchu cost fesul awr gwylio/gwrando. Ystyrir mesurau ehangach hefyd, megis canfyddiadau'r gynulleidfa o ba mor ddoeth y mae'r BBC wrth wario ffi'r drwydded.

Dechreuwyd defnyddio'r fframwaith mesur perfformiad newydd yn ystod hydref 2004 ac mae'r gwaith o'i ddatblygu yn mynd rhagddo o hyd. Aseswyd y fframwaith gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005. Pan ddaw'r Siarter newydd i rym, bydd y fframwaith mesur newydd yn ffurfio sail ar gyfer Adroddiad Blynyddol y BBC.

### Prawf Gwerth Cyhoeddus

Caiff Profion Gwerth Cyhoeddus eu cymhwyso gan yr Ymddiriedolaeth os bydd rheolwyr y BBC yn awyddus i gyflwyno gwasanaethau newydd neu wneud newidiadau arwyddocaol i wasanaethau presennol. Mae'r profion yn cydnabod er bod gwasanaethau'r BBC yn anelu at greu gwerth cyhoeddus cadarnhaol, y gallant hefyd gael effaith ar y farchnad. Bydd y profion yn asesu gwerth cyhoeddus cadarnhaol posibl y newid arfaethedig ac yn ei bwyso yn erbyn asesiad o'i effaith negyddol bosibl ar y farchnad. Dim ond os bydd y gwerth cyhoeddus posibl a grëir yn fwy na'r effaith negyddol bosibl ar y farchnad y bydd yr Ymddiriedolaeth yn caniatáu'r newid arfaethedig. Caiff yr asesiadau o'r effaith ar y farchnad eu cynnal gan Ofcom a'u goruchwylio gan gyd-grŵp llywio gan gynnwys Ofcom ac Ymddiriedolaeth y BBC. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r dystiolaeth a'r rhesymeg sy'n sail i'w phenderfyniadau.

### Arolwg gwerth cyhoeddus

Yn ogystal â monitro perfformiad yn rheolaidd, bydd Ymddiriedolaeth y BBC, bob tair i bum mlynedd, yn comisiynu arolwg annibynnol mawr yn cynnwys tua 10,000 o ymatebwyr. Bydd yr arolygon yn darparu dangosyddion gwerthfawr o dueddiadau ac anghenion pwysig. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r canlyniadau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y byddant yn dewis eu cymryd o ganlyniad i hynny.

# Bwrdd y Llywodraethwyr

Mae Llywodraethwyr y BBC, wedi'u harwain gan Gadeirydd y BBC, yn cynrychioli budd y cyhoedd. Maent yn gyfrifol am ddal y rheolwyr i gyfrif a sicrhau annibyniaeth y BBC. Fe'u penodir gan y Frenhines ar gyngor gweinidogion yn unol ag egwyddorion Nolan y dylai penodiadau cyhoeddus gael eu gwneud ar sail teilyngdod. Mae'r Llywodraethwyr yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded a'r Senedd. O dan Siarter newydd y BBC, sefydlir corff newydd, sef Ymddiriedolaeth y BBC, yn lle'r Llywodraethwyr (gweler tudalen 6, Y BBC nawr ac yn y dyfodol).














| | | |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 |

**1 Michael Grade CBE**
**Cadeirydd**
Cadeirydd y BBC ers mis Mai 2004 a Darpar Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC ers mis Mawrth 2005. Cadeirydd Pinewood Shepperton a Chadeirydd Hemscott Group, y ddau ers 2000, Cyfarwyddwr Clwb Pêl-droed Charlton Athletic ers 1997. Cyn newyddiadurwr ac asiant theatrig. Yn LWT o 1973 i 1981, fel Cyfarwyddwr Rhaglenni ar ddiwedd y cyfnod hwnnw; Llywydd, Embassy Television yn Hollywood o 1981 i 1984; yn y BBC o 1984 i 1987, fel darpar Reolwr Gyfarwyddwr Teledu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw; Prif Weithredwr Channel 4 o 1988 i 1997; yn First Leisure Corporation o 1997 i 2000, fel Prif Weithredwr ar ddiwedd y cyfnod hwnnw; Cadeirydd Camelot o 2002 i 2004; Cyfarwyddwr SMG o 2003 i 2004; yn y Gorfforaeth Deledu, fel Cadeirydd interim o 2003 i 2004. Gwobr Guild Harvey Lee y Wasg Ddarlledu am gyfraniad eithriadol i ddarlledu yn 1997. Cymrawd o'r RTS a BAFTA ac Is-Lywydd BAFTA ers mis Mehefin 2004. Ganed 1943.

**2 Anthony Salz**
**Dirprwy Gadeirydd**
Dirprwy Gadeirydd ers mis Awst 2004. Cadeirydd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg; Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Cyd-uwch bartner y cwmni cyfreithwyr Freshfields Bruckhaus Deringer tan fis Ionawr 2006, gan barhau fel partner tan fis Ebrill 2006. Cadeirydd Grŵp Ymgynghorol Corfforaethol Oriel Tate o 1997 i 2002 (gan barhau fel aelod o'r grŵp hwnnw) ac un o ymddiriedolwyr Sefydliad Tate. Un o ymddiriedolwyr Prosiect Eden. Un o gyfarwyddwyr Habitat for Humanity GB. Un o ymddiriedolwyr Sefydliad Paul Hamlyn. Ganed 1950.

**3 Deborah Bull CBE**
Llywodraethwr y BBC ers mis Awst 2003. Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Prif Ddawnsiwr y Balé Brenhinol o 1991 i 2001. Cyfarwyddwr, Menter Datblygu Artistiaid y Tŷ Opera Brenhinol o 1999 i 2001. Cyfarwyddwr Creadigol ROH2 ers 2002. Cyn aelod o Gyngor Celfyddydau Lloegr. Ysgrifennodd a chyflwynodd raglenni a chyfresi ar gyfer Teledu'r BBC a Radio'r BBC, gan gynnwys *The Dancer's Body* yn 2002, a chyhoeddodd lyfrau yn ymwneud â'r celfyddydau a maeth. Ganed 1963.

**4 Syr Andrew Burns KCMG**
Llywodraethwr Rhyngwladol y BBC ers mis Gorffennaf 2005. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Cyfarwyddwr anweithredol J P Morgan Chines Investment Trust ers 2003 a Chadeirydd Cyngor Royal Holloway, Prifysgol Llundain ers 2004. Cyn ddiplomat – ymhlith y swyddi a ddaliwyd ganddo roedd Llysgennad i Israel 1992–1995, Dirprwy Is Ysgrifennydd Gwladol FCO 1995–1997, Cwnsler Cyffredinol Hong Kong a Macau 1997–2000, Uchel Gomisiynydd Canada 2000–2003. Llywydd Canada UK Colloquia a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Gardd Hestercombe, y ddau ers 2004. Ganed 1943.

**5 Y Farwnes Deech DBE (Ruth)**
Llywodraethwr y BBC ers mis Hydref 2002. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg. Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch ers 2004. Pennaeth Coleg St Anne, Rhydychen o 1991 i 2004, ar ôl bod yn Gymrawd ac yn Diwtor y Gyfraith yno ers 1970. Meinciwr Anrhydeddus o'r Deml Fewnol, Ymddiriedolwr Mandela Rhodes, a Chymrawd y Gymdeithas Feddygaeth Frenhinol. Cyn Gadeirydd yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg. Ganed 1943.

**6 Dermot Gleeson**
Llywodraethwr y BBC ers mis Tachwedd 2000 (ailbenodwyd ym mis Awst 2004) a Darpar Ymddiriedolwr y BBC. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol; aelod o'r Pwyllgor Archwilio; Dirprwy Gadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Cadeirydd M J Gleeson Group plc. Cadeirydd Major Contractors Group o 2003 i 2005. Cyn gyfarwyddwr y Gorfforaeth Dai a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Cyn Bennaeth Is-adran Materion Cartref Adran Ymchwil y Blaid Geidwadol ac aelod o gabinet Christopher Tugendhat yn y Comisiwn Ewropeaidd 1977 i 1979. Ganed 1949.

**7 Yr Athro Merfyn Jones**
Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Nghymru ers mis Ionawr 2003. Aelod o'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Hanesydd a darlledwr. Athro Hanes Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, yn arbenigo ym maes hanes fodern a chyfoes cymdeithas a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol ers 1998 ac Is-Ganghellor ers 2004. Awdur nifer o lyfrau ac erthyglau. Ganed 1948.

**8 Yr Athro Fabian Monds CBE**
Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yng Ngogledd Iwerddon ers mis Awst 1999 (penodwyd am ail dymor o bedair blynedd o fis Gorffennaf 2003 ymlaen). Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr, y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Cadeirydd ymddiriedolwyr Plant mewn Angen y BBC. Arbenigwr mewn cyfathrebu, systemau gwybodaeth ac astudiaethau entrepreneuraidd. Cadeirydd Canolfan Trawma a Thrawsnewid Gogledd Iwerddon yn Omagh. Cyn Gadeirydd Invest Northern Ireland, a chyn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Ulster. Ganed 1940.

**9 Jeremy Peat**
Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC yn yr Alban ers mis Ionawr 2005 a Darpar Ymddiriedolwr y BBC. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Cadeirydd Ymddiriedolwyr Pensiwn y BBC. Aelod o banel y Comisiwn Cystadleuaeth a Chyfarwyddwr Athrofa David Hume. Cyn Brif Economydd Grŵp Royal Bank of Scotland. Cyn gynghorydd economaidd i'r Trysorlys a Swyddfa'r Alban. Athro Ymweld Ysgol Reoli Prifysgol Caeredin; Athro Anrhydeddus Prifysgol Heriot Watt; Cymrawd Cymdeithas Frenhinol Caeredin; aelod o Gyngor Cymdeithas Economaidd yr Alban. Ganed 1945.

**10 Angela Sarkis CBE**
Llywodraethwr y BBC ers mis Hydref 2002. Aelod o Bwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr. Ymgynghorydd annibynnol; aelod o Gomisiwn Penodiadau Tŷ'r Arglwyddi, a Chynghorydd i'r Adran Addysg a Sgiliau ar reoli baich gwaith athrawon ac arweinyddiaeth ysgolion. Cyn gyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol y Swyddfa Gartref. Cyn Brif Weithredwr Cronfa Drefol yr Eglwysi a chyn Is-Lywydd y Gynghrair Efengylaidd Garibïaidd Affricanaidd. Cadeirydd, Prosiect Amrywiaeth NCVO ac aelod sylfaen yr Uned Allgáu Cymdeithasol. Cyn ymddiriedolwr Plant mewn Angen y BBC. Ganed 1955.

**11 Ranjit Sondhi CBE**
Llywodraethwr y BBC ers mis Awst 1998 (penodwyd am ail dymor o bedair blynedd ym mis Awst 2002) gyda chyfrifoldeb arbennig dros Ranbarthau Lloegr. Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol Lloegr a Phwyllgor y Cynghorau a'r Cyrff Ymgynghorol. Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg Westhill, Prifysgol Birmingham. Un o ymddiriedolwyr yr Oriel Genedlaethol a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Heart of Birmingham. Ymhlith ei swyddi blaenorol bu'n Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac aelod o'r Awdurdod Darlledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio. Ganed 1950.

**12 Richard Tait CBE**
Llywodraethwr y BBC ers mis Awst 2004 a Darpar Ymddiriedolwr y BBC. Cadeirydd Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr. Athro Newyddiaduraeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd. Cyn Brif Olygydd ITN a Golygydd, Channel 4 News. Yn y BBC, golygodd *Newsnight*, *The Money Programme* a rhaglen canlyniadau Etholiad Cyffredinol 1987. Is-Gadeirydd, Sefydliad y Wasg Ryngwladol; Cymrawd, Cymdeithas y Golygyddion a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol. Ganed 1947.

# Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol sy'n rheoli gweithrediadau'r BBC. Fe'i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn atebol i Fwrdd y Llywodraethwyr sy'n penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Cynorthwyir y Bwrdd Gweithredol gan dri is-grŵp: y Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol, y Bwrdd Newyddiaduraeth a'r Bwrdd Masnachol. O dan Siarter newydd y BBC, bydd lleiafrif sylweddol o gyfarwyddwyr anweithredol yn cael eu penodi i'r Bwrdd Gweithredol (gweler tudalen 6, Y BBC nawr ac yn y dyfodol).











| | | |
|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 |

### 1 Mark Thompson

Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Yn cadeirio'r Bwrdd Gweithredol a'r Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr holl is-adrannau'r BBC. Cyn Brif Weithredwr, Channel 4 o 2002. Ymhlith ei swyddi blaenorol yn y BBC mae Cyfarwyddwr Teledu; Cyfarwyddwr Darlledu Cenedlaethol a Rhanbarthol; Rheolwr BBC Two; Pennaeth Rhaglenni Ffeithiol; Pennaeth Rhaglenni Nodwedd; Golygydd, *Panorama,* a Golygydd, *Nine O'Clock News.*

### 2 Mark Byford

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Ionawr 2004. Cadeirydd y Bwrdd Newyddiaduraeth sy'n dod â holl newyddiaduraeth y BBC ar lefel ryngwladol, y DU, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Ymhlith ei swyddi blaenorol yn y BBC mae Cyfarwyddwr, Global News a World Service; Cyfarwyddwr Darlledu Rhanbarthol; Pennaeth y Ganolfan, Leeds a Golygydd Cartref, Newyddion Teledu.

### 3 John Smith

Prif Swyddog Gweithredu'r BBC ers mis Mehefin 2004, yn gyfrifol am holl is-gwmnïau masnachol ac adnoddau'r BBC, yn ogystal ag arwain ei strategaeth eiddo. O fis Mawrth 2005, bu hefyd yn Brif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide Limited. Cyn Gyfarwyddwr Cyllid, Eiddo a Materion Busnes y BBC. Cyfarwyddwr Ariannol y Flwyddyn *AccountancyAge* yn 2001. Cyfarwyddwr anweithredol Severn Trent plc a Chadeirydd eu Pwyllgor Archwilio. Cyn hyn, bu gyda Grŵp Rheilffyrdd Prydain, yn goruchwylio dadgyfuniadau. Aelod o'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu tan fis Tachwedd 2004.

### 4 Jenny Abramsky CBE

Cyfarwyddwr Radio a Cherddoriaeth ers mis Ebrill 2000. Yn gyfrifol am BBC Radio 1, 2, 3, 4, Five Live, BBC Asian Network, BBC 6 Music, 1Xtra, Five Live Sports Extra, BBC 7, cerddoriaeth glasurol ar y teledu, Music Live, Proms y BBC a thair cerddorfa'r BBC a leolir yn Lloegr. Ymhlith ei swyddi blaenorol yn y BBC mae Cyfarwyddwr Newyddion Parhaus; Cyfarwyddwr Radio; Rheolwr, BBC Radio Five Live; Golygydd, Newyddion a Materion Cyfoes Radio, a Golygydd, *Today.*

### 5 Jana Bennett OBE

Cyfarwyddwr Teledu ers mis Ebrill 2002. Yn gyfrifol am sianelau teledu'r BBC – BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four; rhaglennu rhyngweithiol cysylltiedig; ac am oruchwylio cynnwys ar sianelau cyd-fenter UKTV a BBC America a BBC Prime. Ymhlith ei swyddi blaenorol mae Rheolwr Cyffredinol ac Is-Lywydd Gweithredol yn Discovery Communications Inc. yn UDA; Cyfarwyddwr Cynhyrchu yn y BBC; Pennaeth BBC Gwyddoniaeth; Golygydd, *Horizon,* ac Uwch Gynhyrchydd ar *Newsnight* a *Panorama.*

### 6 Tim Davie

Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd ers mis Ebrill 2005. Yn gyfrifol am holl weithgareddau marchnata, cyhoeddusrwydd, y wasg a chysylltiadau cyhoeddus, gwasanaethau cynulleidfaoedd a gweithgareddau ymchwil y BBC i gynulleidfaoedd. Ymddiriedolwr, Apêl Plant mewn Angen y BBC ers mis Medi 2005. Cyfarwyddwr Freeview a Digital UK. Bu'n gweithio i PepsiCo o 1993, yn fwyaf diweddar fel Is-Lywydd, Marchnata a Masnachfraint, PepsiCo Europe. Ymunodd ag adran farchnata Proctor & Gamble yn 1991.

### 7 Ashley Highfield

Cyfarwyddwr Cyfryngau Newydd a Thechnoleg ers mis Hydref 2000. Yn gyfrifol am bbc.co.uk, gwasanaethau teledu rhyngweithiol, llwyfannau newydd (band eang, symudol, ac ati), portffolio technoleg y BBC, dyfeisgarwch technegol, ac ymchwil a datblygu. Cyn Reolwr Gyfarwyddwr Flextech Interactive, is-adran cyfryngau newydd y cwmni teledu tâl. Ymhlith ei swyddi blaenorol mae Pennaeth TG a Chyfryngau Newydd Sianelau NBC yn Ewrop.

### 8 Zarin Patel

Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp ers mis Ionawr 2005. Yn gyfrifol am strategaethau ariannol, gwaith cynllunio, gwaith rheoli, gweithgareddau sy'n ymwneud â llunio adroddiadau corfforaethol a chasglu ffi'r drwydded. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Ymhlith ei swyddi blaenorol gyda'r BBC, bu'n Bennaeth Rheoli Refeniw a Rheolydd Ariannol Grŵp. Fe'i hyfforddwyd fel cyfrifydd siartredig gyda KPMG, lle treuliodd 15 mlynedd cyn ymuno â'r BBC yn 1998. Llywodraethwr, Prifysgol y Celfyddydau Llundain ac aelod o'i Phwyllgor Archwilio.

### 9 Caroline Thomson

Cyfarwyddwr Strategaeth ers mis Ebrill 2005 gan ymgorffori ei chyfrifoldebau blaenorol fel Cyfarwyddwr Dros Dro, Strategaeth a Dosbarthu ers mis Rhagfyr 2004, a Chyfarwyddwr Polisi a Chyfreithiol (Polisi Cyhoeddus yn flaenorol) ers mis Mai 2000. Cyfarwyddwr Arweiniol Tasglu Adnewyddu'r Siarter ers mis Mehefin 2004. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Cyfarwyddwr Freeview a Digital UK. Cyfarwyddwr anweithredol Y Rheoleiddiwr Pensiynau. Ymhlith ei swyddi blaenorol mae Cyfarwyddwr Strategaeth a Materion Corfforaethol, BBC World Service; Golygydd Comisiynu, Gwyddoniaeth a Busnes yn Channel 4 a chynorthwy-ydd gwleidyddol i Roy Jenkins.

*Cyhoeddodd Stephen Dando, cyn Gyfarwyddwr, BBC People, ei ymddiswyddiad ym mis Ionawr 2006 a gadawodd y BBC ym mis Ebrill 2006. Penodwyd Jeremy Nordberg fel Cyfarwyddwr Dros Dro tra'n aros i Gyfarwyddwr newydd gael ei recriwtio.*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion

## Trosolwg

Mae ein cyfrifoldebau fel Llywodraethwyr yn cynnwys pennu amcanion blynyddol i'r BBC. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolwyr yn erbyn yr amcanion hyn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac yn cyhoeddi asesiad ffurfiol yn yr *Adroddiad Blynyddol*. Mae'r Adroddiad hwn yn dilyn y patrwm hwnnw ac yn yr adran hon, cyflwynwn adroddiad ar berfformiad yn erbyn ein hamcanion ar gyfer 2005/2006.

Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd yr Ymddiriedolaeth a fydd yn cymryd lle'r Llywodraethwyr yn defnyddio cyfres newydd o systemau er mwyn dal y BBC i gyfrif (gweler tudalen 6, Y BBC nawr ac yn y dyfodol). Bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth benderfynu a yw'n awyddus i barhau â'r system bresennol o amcanion blynyddol yn ogystal â'r systemau atebolrwydd newydd.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau â llawer o amcanion y llynedd – wedi'u diwygio fel y bo'n briodol – i 2006/2007. Nodir yr amcanion hyn ar dudalen 21.

# 408,415 awr

o Deledu a Radio'r BBC wedi'i ddarlledu yn 2005/2006 – 46.6 awr o ddarlledu ar gyfer pob awr o bob dydd



*Beethoven*
Cyfuno llwyfannau: llwyddodd *Beethoven,* drama-ddogfen BBC Two i ategu *Beethoven Experience* Radio 3 a ddarlledodd holl gerddoriaeth y cyfansoddwr dros gyfnod o wythnos



*Extras*
Cyflwyno comedi newydd i'r BBC: ysgrifennodd, cyfarwyddodd ac ymddangosodd Ricky Gervais a Stephen Merchant, creawdwyr *The Office,* yn eu comedi newydd, *Extras*

## Amcan un

### Strategaeth rhaglenni

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn datblygu strategaeth olygyddol bum mlynedd ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwerth cyhoeddus i'r eithaf.

Yn 2005/2006 bydd hyn yn cynnwys:

- Dechrau gostwng nifer y rhaglenni a gaiff eu hailddarlledu ar BBC One yn ystod oriau brig
- Gwneud gwaith i ddeall pryderon cynulleidfaoedd ynghylch rhaglennu deilliadol yn well, ac yn benodol, gostwng nifer y rhaglenni trawsnewid a ffordd o fyw ar BBC One yn ystod oriau brig
- Dechrau cynyddu'r buddsoddiad cyffredinol mewn comedi a drama wreiddiol o'r DU

Fe'n calonogir gan y dechrau da a wnaed o ran cyflawni'r amcan hwn. Ym mis Mawrth 2005, lansiodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Creadigol, arolwg uchelgeisiol ac eang o genres rhaglenni allweddol. Nod y broses yw troi ymrwymiadau cyhoeddus y BBC o ran ansawdd, creadigrwydd a rhagoriaeth yn strategaeth olygyddol ar gyfer y pump i saith mlynedd nesaf gan ganolbwyntio ar bwrpasau cyhoeddus y BBC fel y'u nodir yn y Siarter newydd. Cyflwynwyd canfyddiadau cychwynnol y gwaith hwn i'r Llywodraethwyr eu trafod yn ystod y flwyddyn. Ym mis Ebrill 2006, gwnaed y cyhoeddiadau cyhoeddus cyntaf yn deillio o'r prosiect Dyfodol Creadigol.

Nododd y cyhoeddiadau hyn gyflymder eithriadol y newid yn nisgwyliadau'r gynulleidfa ac ym maes technoleg gan archwilio sut y byddent yn effeithio ar feysydd cynyrchiadau allweddol: newyddiaduraeth, drama, cerddoriaeth, chwaraeon, comedi, adloniant, plant a phobl ifanc yn eu harddegau a meithrin gwybodaeth. Ymhlith y themâu pwysig yn deillio o'r gwaith roedd: angen i feddwl ar draws llwyfannau gwahanol – hynny yw, ar draws teledu, radio a'r rhyngrwyd o ran cynulleidfaoedd gartref a chynulleidfaoedd symudol; angen i wyro buddsoddiad a ffocws creadigol tuag at wasanaethau 24/7; angen i gydnabod y bydd gwasanaethau yn ôl y galw yn un o'r ffactorau allweddol a fydd yn llywio sut y bydd y BBC yn cyflwyno cynnwys yn y dyfodol a hefyd sut y bydd yn ei gomisiynu; angen i ailddyfeisio ymagwedd y BBC tuag at y rhyngrwyd; ac yn olaf, angen i ddatblygu cydberthynas newydd â chynulleidfaoedd fel partneriaid a chyfranogwyr.

Gwneir rhagor o waith yn ystod y flwyddyn nesaf i droi'r canfyddiadau yn strategaethau gwasanaeth arloesol. Byddwn ni, ac wedi hynny yr Ymddiriedolaeth, yn craffu arnynt wrth iddynt ddatblygu ac yn sicrhau, lle y bo'n briodol, y cynhelir Profion Gwerth Cyhoeddus. Nid yw arloesedd, wrth gwrs, yn nod ynddo'i hun. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl ansawdd uchel gan y BBC yn ogystal ag arloesedd, a byddwn yn sicrhau y rhydd y rheolwyr ystyriaeth lawn i farn y gynulleidfa o ran ansawdd unrhyw gynyrchiadau newydd.

Yn y cyfamser, nodwn fod BBC One yn parhau i wneud cynnydd tuag at leihau nifer yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig. Y lefel yn 2005/2006 oedd 8.9% (9.7% yn 2004/2005). Yn y tymor hwy, disgwylir gostyngiadau sylweddol pellach – gan leihau ailddarllediadau BBC One yn ystod oriau brig i tua 5%. Ond ni fydd y gostyngiadau hyn yn dangos yn llawn ar y sgrîn tan 2008 gan ei bod yn cymryd amser i ganlyniadau comisiynau newydd ddod i'r amlwg ac i ganlyniadau ymgyrch effeithlonrwydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol gynhyrchu'r cyllid buddsoddi newydd sydd ei angen. Nid ydym yn disgwyl gweld gostyngiad o lawer mwy na 0.4% eleni (i lefel islaw 8.5%) ac adlewyrchir hyn yn ein hamcan diwygiedig ar gyfer 2006/2007.

Dengys gwaith ymchwil sy'n mynd rhagddo gan Deledu'r BBC fod gan gynulleidfaoedd deimladau cadarnhaol yn ogystal â theimladau negyddol ynghylch ailddarllediadau. Er bod lefel oddef isel tuag at ailddarllediadau yn ystod oriau brig ar BBC One, dywed bron i hanner yr ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi cyfle i ddal i fyny ar raglenni a gollwyd ganddynt, ac mae bron i ddwy ran o dair yn cytuno bod rhai rhaglenni y byddent bob amser yn fwy na pharod i'w gweld eto. Wrth weithredu ei waith yn y maes hwn, mae angen i'r BBC bennu polisi clir ar gyfer ailddarllediadau sy'n rhoi ystyriaeth lawn i agweddau talwyr ffi'r drwydded a newidiadau mewn technoleg – yn arbennig y symudiad tuag at wasanaethau yn ôl y galw. Mae'r rheolwyr yn gweithio ar hyn.

Am beth amser, bu pryderon gennym o ran gostyngiad yng nghanfyddiadau'r gynulleidfa o ansawdd cynyrchiadau Teledu'r BBC ac rydym yn falch o weld rhywfaint o dystiolaeth bod canfyddiadau yn gwella – gostyngodd nifer y bobl a oedd yn anghytuno â'r datganiad "y BBC sy'n gosod y safonau ar gyfer gwneud rhaglenni yn y DU" o 26% i 23% rhwng C4 2003 a C4 2005.

Un ffactor sy'n effeithio ar ganfyddiadau o ansawdd yw pryder y gynulleidfa o ran rhaglennu deilliadol. Er mwyn ceisio ennyn gwell dealltwriaeth o'r materion, gofynnodd yr Uned Lywodraethu i BBC Audience Research ailarchwilio data a oedd yn bodoli eisoes – yn arbennig arolwg Pulse y BBC (holiadur ar-lein dyddiol a anfonir at 15,000 o wylwyr teledu cynrychioliadol). Cyflwynwyd y canfyddiadau i ni ym mis Mawrth 2006. Daeth yn amlwg

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion

### Cyfanswm y gwariant darlledu 2005/2006 (£miliwn)

| | 2006 | 2005 |
|---|---|---|
| Teledu | 1,443 | 1,456 |
| Radio | 218 | 221 |
| bbc.co.uk | 72 | 69 |
| BBC jam | 36 | 8 |
| Teledu rhyngweithiol (BBCi) | 18 | 17 |
| Radio lleol a theledu rhanbarthol | 370 | 356 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â rhaglenni | 338 | 339 |
| Gorbenion a Digital UK | 315 | 282 |
| Ailstrwythuro | 107 | 51 |
| Costau trosglwyddo a chasglu | 320 | 309 |
| Cyfanswm | 3,237 | 3,108 |

I gael eglurhad pellach o'r ffigurau hyn gweler Nodyn 2b ar dudalennau 106 i 107

o'r ymchwil fod a wnelo pryder y gynulleidfa nid yn unig â rhaglennu unfath ond â hen fformatau diddychymyg a oedd yn dangos diffyg gwreiddioldeb ac arloesedd. Roedd y rheolwyr eisoes wedi dechrau datblygu strategaeth hir dymor i adfywio a gwella uchelgais amserlen min nos oriau brig BBC One a gofynnwyd iddynt ystyried y canfyddiadau hyn yn y gwaith hwn – drwy ganolbwyntio eu hymdrechion ar raglenni neu fformatau a allai fod wedi cyrraedd diwedd eu hoes greadigol. Adlewyrchir hyn yng ngeiriad diwygiedig ein hamcan ar gyfer 2006/2007.

Yn unol â'n hamcan ar gyfer 2005/2006, gostyngodd nifer y rhaglennu trawsnewid a ffordd o fyw yn ystod oriau brig ar BBC One i 6.5% yn 2005/2006 (o 7.7% yn 2004/2005). Adlewyrchir hyn yn arbennig ym mhenderfyniad y rheolwyr i beidio ag ailgomisiynu *Changing Rooms* a *Groundforce*. Fodd bynnag, credwn y dylid cadw rhywfaint o raglennu ffordd o fyw fel rhan o'r gymysgedd ar BBC One – mae'n apelio'n arbennig i'r cynulleidfaoedd y mae'r BBC yn ei chael hi'n anodd eu cyrraedd, gan gynnwys pobl 25 i 34 oed a rhai grwpiau o leiafrifoedd ethnig.

Hefyd yn unol â'n hamcan, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu'r buddsoddiad mewn comedi a drama. Mewn comedi, BBC One (lle y cyhoeddwyd chwe rhaglen gomedi beilot eisoes) a BBC Two fydd yn gweld y budd mwyaf. Mewn drama, mae'r buddsoddiad yn dechrau cael ei weld ar y sgrîn, ond mae'r amserau arwain hwy yn y maes hwn yn golygu na fydd newid sylweddol yn amlwg tan 2007/2008. Mae dros hanner y buddsoddiad ychwanegol yn mynd i BBC One, gyda rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol yn BBC Three.

## Amcan dau

### Datblygu digidol

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn datblygu'r farchnad ar gyfer teledu digidol am ddim, radio digidol a'r cyfryngau newydd wrth barhau i ddiwallu anghenion y gynulleidfa analog yn unig drwy:

- Codi ymwybyddiaeth o sut y mae gwasanaethau digidol y BBC yn ychwanegu gwerth at y portffolio cyffredinol
- Gwella eu hargaeledd
- Gweithio mewn partneriaeth â'r sector masnachol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt

Ategwyd rôl allweddol y BBC yn y maes hwn gan benderfyniad y Llywodraeth i osod chweched pwrpas cyhoeddus ar y BBC yn y Siarter newydd, sef "adeiladu Prydain ddigidol", a gallwn nodi y gwnaed cynnydd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y BBC nifer o rolau i'w chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys: parhau i annog pobl i fanteisio ar wasanaethau digidol drwy ddarparu a marchnata cynnwys digidol o ansawdd uchel; codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bob agwedd ar y broses o newid i ddigidol a darparu gwybodaeth iddynt amdani; a pharhau i gefnogi Digital UK, y corff sy'n cydlynu'r broses o newid i deledu digidol yn y DU.

Bellach, y DU sydd â'r crynodiad teledu digidol uchaf o blith unrhyw wlad yn y byd ac yn ddiau, bu ymdrechion marchnata'r BBC o gymorth i gyflawni'r gamp hon. Erbyn diwedd 2005, roedd gan tua 70% o gartrefi'r DU o leiaf un set deledu a oedd yn gallu derbyn teledu digidol ac roedd 24% ohonynt wedi newid pob un o'u setiau. O'r cartrefi analog yn unig a oedd yn weddill, roedd dros dri chwarter yn ymwybodol o Freeview. Fodd bynnag, gostyngodd ymwybyddiaeth o sianelau digidol y BBC yn y cartrefi hyn rywfaint. Mae hyn bron yn sicr yn adlewyrchu'r tebygolrwydd bod y cartrefi hyn, yn ôl eu diffiniad, bellach yn cynnwys cyfran uwch o'r bobl anos i'w darbwyllo.

Roedd tua un o bob tri chartref yn y DU yn gwbl ddigidol (hynny yw, yn gallu derbyn holl wasanaethau'r BBC drwy'r teledu a band eang) erbyn diwedd 2005. Mae cyrraedd y ffigur hwn yn garreg filltir arwyddocaol, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Er enghraifft, bu twf band eang yn nodedig; fodd bynnag, ymddengys y gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r twf hwn i gartrefi band cul a uwchraddiodd, yn hytrach na chartrefi newydd yn cysylltu â'r rhyngrwyd. Hynny yw, nid yw'n dangos bod rhaniad digidol y rhyngrwyd wedi lleihau yn sylweddol.

Bu'r ffordd orau o ganolbwyntio ei ymdrech farchnata yn fater cynyddol i'r BBC. Ar yr un llaw, mae angen dybryd i annog pobl i gymryd eu camau cyntaf i'r byd digidol; ar y llaw arall, mae angen annog y rheini sydd eisoes wedi cymryd y cam hwnnw i ddatblygu ymhellach a dod yn gwbl ddigidol. Ceir rhywfaint o bryder y gallai'r negeseuon a fwriadwyd i'r grŵp cyntaf godi gwrychyn yr ail grŵp.

Roedd yn bleser gennym nodi o dystiolaeth arolygon yr ystyrir bod sianelau digidol y BBC yn "ddefnydd da o ffi'r drwydded" gan gyfran gynyddol o'r cynulleidfaoedd. Ystyrir yn arbennig bod BBC News 24 yn "ddefnydd da o ffi'r drwydded" gan bron i 70% o'r gynulleidfa (er bod y ganran hon wedi gostwng ychydig eleni). Mae ymwybyddiaeth o radio digidol yn cynyddu ac mae gwerthiannau setiau DAB yn cynyddu'n gyflym – yn gyflymach na'r cynnydd o ran cyrhaeddiad gorsafoedd digidol y BBC. Efallai




BBC News 24
Datblygu digidol: Simon McCoy a Kate Silverton yn cyflwyno BBC News 24, un o bortffolio'r BBC o sianelau ychwanegol i wylwyr digidol



*Urban Classic*
Adeiladu pontydd: MC Purple gyda Cherddorfa Gyngerdd y BBC - cydweithrediad rhwng 1Xtra, un o orsafoedd digidol y BBC, a Radio 3, yn creu cysylltiadau rhwng cynulleidfaoedd gwahanol iawn

**5.4c**

cost fesul awr gwylio/gwrando i'r BBC, yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog

bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai er mwyn gwella derbyniad y mae'r rhan fwyaf o bobl yn prynu setiau, ac nad yw ymddygiad gwrando yn newid yn awtomatig wrth brynu set. Felly rydym wedi gofyn i'r ymdrech farchnata gynnwys rhywfaint o ffocws ar gynnwys gwasanaethau DAB y BBC a'u gwerth unigryw i dalwyr ffi'r drwydded yn ogystal ag ar fynediad i'r gwasanaethau. Llwyddodd bbc.co.uk i gynnal lefelau ymwybyddiaeth uchel ac mae'n bleser gennym nodi cynnydd o ran ymwybyddiaeth o BBCi 24/7 – 48.2% (42.4% 2004/2005) – gan adlewyrchu'r ymdrech farchnata a wnaed i hyrwyddo ei gynyrchiadau newyddion a phlant craidd.

Mae cyfyngiadau technegol ac ariannol yn atal cyfleoedd i wella argaeledd gwasanaethau digidol. Ni ellir cynyddu cwmpas gwasanaethau daearol digidol y tu hwnt i'r 73% presennol tan y bydd y broses o newid i ddigidol wedi'i chwblhau. Mae cynnydd sylweddol pellach yn rhwydwaith DAB y BBC yn dibynnu ar setliad ffi'r drwydded. O ran teledu digidol, mae'r BBC yn parhau â'i ymdrechion – gyda darlledwyr cyhoeddus masnachol – i lansio gwasanaeth lloeren am ddim. Byddai hyn yn ymestyn sianelau digidol y BBC i ardaloedd nad yw Freeview yn eu cyrraedd ar hyn o bryd.

Yn y cyfamser, fe'n calonogwyd gan ymdrechion y BBC i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau digidol drwy feithrin partneriaethau â gweithgynhyrchwyr, adwerthwyr a darlledwyr ar draws teledu, radio, symudol ac ISPs band eang. Yn ogystal, bu'r BBC yn rhan o gonsortiwm Freeview i sicrhau bod technoleg a chynnwys Freeview yn barod ar gyfer y newid. Bu'r BBC hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y broses o sefydlu a lansio Digital UK ('SwitchCo' gynt) a'i strategaeth gyfathrebu.

## Amcan Tri

### Gwerth am arian

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn gweithredu canfyddiadau'r arolwg gwerth am arian drwy:

- Gwneud arbedion o £105miliwn yn 2005/2006 tuag at y targed o gael arbedion blynyddol o £355miliwn erbyn 2008
- Datblygu cynllun manwl tair blynedd i drawsnewid prosesau'r BBC a'i wneud yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion talwyr ffi'r drwydded

Gwnaed cynnydd da tuag at yr amcan hwn. Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol raglen effeithlonrwydd tair blynedd sy'n anelu at gyflawni arbedion arian parod blynyddol crynswth parhaus o £355miliwn erbyn 2007/2008. Rhagorodd y BBC ar ei darged arbedion ar gyfer 2005/2006, sy'n cynnwys £99miliwn o arbedion arian parod parhaus a £7miliwn pellach o newidiadau unigol i'r cymysgedd genre rhaglenni. Mae ar y trywydd cywir i gyflawni ei darged tair blynedd o arbedion blynyddol.

Cyflawnwyd mwyafrif yr arbedion arian parod drwy ddiswyddiadau o fewn is-adrannau cynnwys a gwasanaethau proffesiynol a ostyngodd nifer y staff 917 a 215 yn y drefn honno. Disgwylir y bydd ail flwyddyn y rhaglen yn arwain at fwy o arbedion o ganlyniad i newidiadau trawsffurfiannol i ffyrdd o weithio.

Rhagwelwyd yn y cynllun gwreiddiol y byddai costau gweithredu untro o £197miliwn dros gyfnod y rhaglen tair blynedd. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y rhagamcan hwn £44miliwn i £241miliwn, gyda'r cynnydd yn deillio'n bennaf o gostau cynyddu pensiwn uwch y diswyddiadau. Er bod y gwariant gwirioneddol ar gostau gweithredu yn 2005/2006, sef £34miliwn, yn is na'r hyn a ragwelwyd, mae hyn o ganlyniad i wahaniaethau amseru'r diswyddiadau a disgwylir i'r costau gweithredu untro cyffredinol barhau ar £241miliwn.

Mae'r arbedion a nodwyd uchod yn rhagori ar y targedau hunan-help saith mlynedd cronnol o £3.3biliwn erbyn 2006/2007 y cytunwyd arnynt gyda'r DCMS ar gyfer cyfnod y Siarter bresennol.

Mae'r targedau gwerth am arian yn uchelgeisiol ac yn gofyn am ddulliau rheoli newid cadarn. Cyflogwyd PA Consulting gennym i roi sicrwydd i ni bod cynlluniau tair blynedd y rheolwyr yn ddigon manwl a chadarn i lywio'r newid trawsffurfiannol sydd ei angen i gyflawni'r targedau. Gweithredodd y rheolwyr ar rai o argymhellion PA Consulting: maent wedi cymryd perchnogaeth lawn a phriodol dros y rhaglen newid ac wedi cyflwyno fframwaith monitro cadarn; ac maent wedi atgyfnerthu eu tîm newid canolog sy'n ymgynghori ag arweinwyr ar bob lefel fusnes. Mae cynlluniau newid is-adrannol manwl yn cynnwys mapiau ffordd, cerrig milltir allweddol a mesurau gyda gweithdrefnau rheolaidd ar gyfer cofnodi cynnydd yn eu herbyn i'r rheolwyr a'r Llywodraethwyr.

Bu'r cynnydd tuag at ddatblygu seilwaith fusnes llawn – gan sefydlu'r egwyddorion sy'n sail i weithredu strategaeth gytûn y BBC – yn arafach na'r disgwyl. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol erbyn hyn a disgwylir y caiff y fframwaith llawn ei gwblhau yn ystod yr hydref gan ymgorffori argymhellion Dyfodol Creadigol a setliad ffi'r drwydded.

## Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion

# 1.7 miliwn

o gysylltiadau gan aelodau o'r cyhoedd i BBC Gwybodaeth yn 2005/2006




*Newswatch*
Bod yn agored ac yn atebol: rhydd gwefan *Newswatch* lais i gynulleidfaoedd a allai fod yn anfodlon â BBC Newyddion

## Amcan pedwar

**Bod yn ddiduedd ac yn annibynnol**

Sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o gywirdeb, tegwch a bod yn ddiduedd a ddisgwylir gan gynulleidfaoedd ym mhob un o'i raglenni.

Yn benodol, cryfhau prosesau golygu er mwyn darparu newyddiaduraeth o safon y gellir ymddiried ynddi drwy weithredu argymhellion Adroddiad Neil a gweithredu ar arolygon annibynnol y Llywodraethwyr ar fod yn ddiduedd.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon â'r perfformiad yn erbyn yr amcan hwn. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cyflawnodd darllediadau newyddion y BBC safonau uchel o ran cywirdeb, bod yn ddiduedd ac annibyniaeth, a gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu argymhellion Adroddiad Neil ac arolygon y Llywodraethwyr ar fod yn ddiduedd.

Lluniwyd Adroddiad Neil yn dilyn arolwg gan y rheolwyr o dan arweiniad Ronald Neil – cyn Gyfarwyddwr BBC Newyddion a Materion Cyfoes – i ystyried gwersi golygyddol Ymchwiliad Hutton i farwolaeth Dr David Kelly. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2004 a chymeradwywyd ei argymhellion gennym, a oedd yn cynnwys newidiadau i arferion newyddiaduraeth, ymdrin â chwynion golygyddol a'r ffordd y caiff newyddiadurwyr y BBC eu hyfforddi. Yn arbennig, argymhellodd y dylid sefydlu Coleg Newyddiaduraeth y BBC a gwnaed cynnydd yn hynny o beth (gweler tudalen 64). Roedd yr argymhellion eraill eisoes wedi'u gweithredu.

O ran bod yn ddiduedd, daeth yr her fawr gyntaf ym mis Mai gyda'r Etholiad Cyffredinol. Fel y bu, roedd nifer y cwynion ynghylch bod yn ddiduedd, annhegwch a chydbwysedd yn isel. Daeth y gŵyn proffil uchaf o'r Blaid Geidwadol mewn perthynas â *The Heckler* ar BBC Three, astudiaeth o heclo gwleidyddol gan BBC Newyddion. Anfonodd gwneuthurwyr y rhaglen dri heclwr i gyfarfod cyhoeddus a oedd yn cael ei annerch gan arweinydd y Ceidwadwyr ar y pryd, Michael Howard. Gosodwyd meicroffonau radio ar yr heclwyr i recordio eu hymyriadau ond fe'u gwelwyd gan drefnwyr y cyfarfod a atafaelodd yr offer. Honnodd cwyn y Ceidwadwyr achos o duedd a thorri canllawiau'r BBC. Gwrthbrofodd y rheolwyr y ddau gyhuddiad, ni chyfeiriwyd y gŵyn i'r Llywodraethwyr, a darlledwyd y rhaglen heb unrhyw gwynion pellach.

Dechreuodd yr ymgyrch hunan-fomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf ddadl gyhoeddus ddwys am ddefnydd y BBC o'r gair 'terfysgwr'. Nid yw *Editorial Guidelines* cyhoeddedig y BBC yn gwahardd y gair ond maent yn nodi: "The word 'terrorist' can be a barrier rather than an aid to understanding. We should try to avoid the term, without attribution. We should let other people characterise while we report the facts as we know them." Dadleuodd nifer o sylwebwyr yn erbyn y datganiad hwn, gan awgrymu bod y BBC, mewn gwirionedd, yn cydoddef terfysgaeth drwy betruso ynghylch defnyddio'r gair. Yn dilyn y ddadl gyhoeddus hon, adolygodd y rheolwyr y canllaw cyhoeddedig. Penderfynasant beidio â gwneud unrhyw newid i'r canllaw ond i gyhoeddi nodyn arweiniad i wneuthurwyr rhaglenni'r BBC yn darparu cyd-destun ychwanegol ar werth manwl gywirdeb a chysondeb iaith. Cymeradwywyd yr ymagwedd hon gennym, ac fe'i cyhoeddwyd i ategu'r cyngor yn yr *Editorial Guidelines* (mae testun y nodyn arweiniad ar gael ar dudalen gyngor adran *Editorial Guidelines* bbc.co.uk).

Yn yr haf, creodd Live8, y digwyddiad cerddoriaeth byd-eang a gynhaliwyd i dynnu sylw at ddyled yn y Trydydd Byd yn ystod wythnos uwchgynhadledd G8, her olygyddol arall. Bu'n rhaid i'r BBC ddod o hyd i ffordd o wasanaethu ei gynulleidfaoedd – a oedd yn briodol yn disgwyl gweld a chlywed y digwyddiad hwn – ond gan fodloni ei ymrwymiad i fod yn ddiduedd ar yr un pryd drwy beidio â chaniatáu i'r BBC gael ei weld fel cyfrwng i ddarlledu ymgyrch wleidyddol am ddim. Trafodwyd y materion o ran bod yn ddiduedd mewn fforymau polisi golygyddol o fewn y BBC yn ystod y cyfnod cyn Live8, ac fe'u codwyd gyda ni mewn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. O ganlyniad, yn ogystal â'r digwyddiad ei hun, darlledwyd amrywiaeth o ddeunydd a oedd yn ei osod yn ei gyd-destun ac yn galluogi'r gwylwyr a'r gwrandawyr i lunio barn eu hunain am y materion dan sylw.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd astudiaeth o lwyddiant darllediadau BBC Newyddion o'r gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid wrth fod yn ddiduedd (gweler y blwch), a gofynnwyd i'r rheolwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y cynnydd wrth weithredu canfyddiadau ein hastudiaeth gynharach ar fod yn ddiduedd wrth ddarlledu hynt yr UE (gweler tudalen 65).

O ran canfyddiadau'r gynulleidfa, dengys canlyniadau arolwg olrhain rheolaidd a gynhelir gan MORI fod tua thri chwarter y cyhoedd yn y DU (76%) yn datgan mai yn rhaglenni newyddion y BBC roeddent yn ymddiried fwyaf i roi barn deg, hyddysg a chytbwys ar ddigwyddiadau a materion pwysig o gymharu ag unrhyw raglenni newyddion eraill. Pan ofynnwyd iddynt ystyried yr holl wasanaethau a ddarperir gan y prif ddarlledwyr, yn hytrach na'r newyddion yn unig, cred dros hanner y rheini a arolygwyd mai i'r BBC y mae'r geiriau 'Teg', 'Cywir' a 'Gallu Ymddiried Ynddo' yn fwyaf perthnasol. Mewn arolwg ar wahân, cred tua thri



Sioe deithiol y Llywodraethwyr

Gwrando ar dalwyr ffi'r drwydded: Cadeirydd y BBC, Michael Grade a'i gyd-Lywodraethwyr yn ymateb i gwestiynau mewn cyfarfod cyhoeddus yng Nghaerdydd. Mae gweithgarwch atebolrwydd cyhoeddus yn rhan bwysig o rôl y Llywodraethwyr

chwarter y llunwyr barn (73%) fod y BBC yn ddiduedd ac yn annibynnol.

Mae cyfran y cefnogwyr Ceidwadol sydd o'r farn bod y BBC yn dangos tuedd yn erbyn y Blaid Geidwadol wedi gostwng o 26% yn C2 2005 i 21% yn C1 2006.

Fel yr amlygwyd gan Gadeirydd y BBC yn ei Ddarlith Cyfryngau Goodman ym mis Mai 2005, mae'r BBC yn wynebu heriau newydd o ran bod yn ddiduedd o ganlyniad i newid technolegol a chymdeithasol. Mewn cydweithrediad â rheolwyr y BBC, rydym yn arwain prosiect i gyflwyno cyfres o egwyddorion a fydd yn sail i fod yn ddiduedd yn ystod yr 21ain ganrif. Bydd y prosiect yn ceisio nodi sut y gallwn fod yn ddiduedd mewn ffyrdd sy'n berthnasol ac a all ddarbwyllo gwahanol gynulleidfaoedd y BBC. Bydd y ffocws ar gynulleidfaoedd a chynyrchiadau'r DU a byddwn yn ystyried y goblygiadau i bob genre o raglennu.

Gweler tudalennau 89 i 90 am ragor o wybodaeth am gydymffurfiad golygyddol.

## Gwariant rhaglenni yn ôl genre 2005/2006 (£miliwn)

| | 2006 | 2005 |
|---|---|---|
| Ffeithiol a dysgu | 394 | 351 |
| Newyddion a materion cyfoes | 485 | 458 |
| Adloniant | 253 | 267 |
| Chwaraeon | 372 | 438 |
| Plant | 140 | 134 |
| Drama | 427 | 398 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | 241 | 245 |
| Llafar – Radio Lleol | 182 | 175 |
| Cyfanswm | 2,494 | 2,466 |

Mae Addysg i blant wedi'i gynnwys o fewn Plant; mae Ffilm wedi'i gynnwys o fewn Drama; mae Crefydd wedi'i gynnwys o fewn Ffeithiol a dysgu

## Darllediadau BBC Newyddion o'r gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid

Ym mis Hydref 2005, comisiynwyd panel annibynnol gennym wedi'i gadeirio gan Syr Quentin Thomas, Llywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, i "asesu pa mor ddiduedd y bu darllediadau BBC Newyddion a Materion Cyfoes o'r gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid gan roi ystyriaeth arbennig i gywirdeb, tegwch, cyd-destun, cydbwysedd a thuedd, boed yn wirioneddol neu'n ganfyddedig."

Cyflwynodd y panel eu hadroddiad i ni ym mis Ebrill 2006 ac fe'i cyhoeddwyd gennym yn llawn yn fuan wedi hynny. Ei brif ganfyddiad oedd na fu unrhyw duedd bwriadol na systemataidd.

Fodd bynnag, aeth y panel ymlaen i ddweud fod y gynulleidfa yn teimlo nad ydynt yn deall y gwrthdaro ac, efallai am y rheswm hwnnw, nad ydynt o'r farn ei fod yn bwysig nac yn ddiddorol. Roedd y panel o'r farn bod angen gohebu llawn a theg er mwyn bod yn ddiduedd ac yn hynny o beth, nodwyd ganddynt bod darllediadau'r BBC yn anghyson, nad oeddent bob amser yn darparu'r darlun cyflawn ac yn yr ystyr hwnnw, eu bod yn gamarweiniol. Gwnaeth y panel nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r BBC ddarparu mwy o gyd-destun i dalwyr ffi'r drwydded er mwyn gwella eu dealltwriaeth o gymhlethdodau'r gwrthdaro.

Rhoesom yr adroddiad i'r rheolwyr gan ofyn iddynt ymateb i ni erbyn mis Mehefin 2006, gyda'r ymateb hwnnw yng nghyd-destun Adroddiad Neil. Mae adroddiad y panel ar gael ar wefan Llywodraethwyr y BBC: www.bbcgovernors.co.uk. Caiff ymateb y rheolwyr hefyd ei gyhoeddi ar y wefan, ynghyd â'n casgliadau ni.

## Amcan pump

### Atebolrwydd i gynulleidfaoedd

Darparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd i dalwyr ffi'r drwydded yn 2005/2006 drwy'r dulliau canlynol yn benodol:

- Cael y rheolwyr i sicrhau bod y newidiadau i'r broses o ymdrin â chwynion yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad
- Sicrhau bod y Llywodraethwyr yn datblygu Trwyddedau Gwasanaeth fel y prif offeryn ar gyfer gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol

Fe'n calonogwyd gan y cynnydd ar yr amcan hwn ac edrychwn ymlaen at ddatblygiadau pellach i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd pan gaiff yr Ymddiriedolaeth ei sefydlu.

Gwnaed newidiadau i'r system ymdrin â chwynion ym mis Chwefror 2005 ac maent bellach wedi ymsefydlu'n gadarn ar draws y BBC. Nod y system yw sicrhau bod y BBC yn ymdrin â chwynion golygyddol yn effeithiol, gan gynnwys ymateb i achwynwyr o fewn deg diwrnod gwaith. I ddechrau, ymdrinnir â chwynion naill ai gan y rhaglen dan sylw, neu gan BBC Gwybodaeth. Gall achwynwyr sy'n anfodlon â'r ymateb gysylltu â'r Uned Cwynion Golygyddol annibynnol, ac, os byddant yn dal yn anfodlon, â Phwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr, sef y llys apêl terfynol.

Yn 2005/2006, derbyniodd 91% o'r holl gwynion i'r BBC ymateb o fewn deg diwrnod gwaith – gwelliant o 88% ar ddechrau'r flwyddyn. I weld yr adroddiad llawn ar gwynion golygyddol yn 2005/2006, gweler tudalen 62.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion

**Cymeradwyaeth y gynulleidfa i'r BBC**

| | |
|---|---|
| 2005/2006 | 6.6 |
| 2004/2005 | 6.5 |
| 2003/2004 | 6.7 |
| 2002/2003 | 6.8 |
| 2001/2002 | 6.8 |
| 2000/2001 | 6.5 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC cyfan, 15+ oed
Noder: Mae'r ffigurau yn sgôr cymedrig allan o ddeg

**Cyrhaeddiad misol cyfun Teledu'r BBC, Radio'r BBC a bbc.co.uk (%)**

| | |
|---|---|
| 2005/2006 | 94.3 |
| 2004/2005 | 95.6 |
| 2003/2004 | 96.6 |
| 2002/2003 | 96.2 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC cyfan, defnydd honedig

Fodd bynnag, mae'r system hon ar gyfer cwynion golygyddol yn unig ac nid yw'n ymdrin â materion fel trwyddedu'r teledu neu gwynion ynghylch digwyddiadau oddi ar yr awyr. Mae'r Cytundeb newydd drafft, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Siarter newydd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ac ymgynghori ar fframwaith cwynion sy'n cynnwys diffiniad clir o'r gwahanol gategorïau o gwynion. Fe'i datblygir yn ystod 2006 a chynhelir ymgynghoriad unwaith y bydd yr Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu.

Rydym wedi ceisio cynyddu ein gweithgarwch atebolrwydd cyhoeddus eleni. Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf erioed yn Llundain ac ers hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus gennym yn Glasgow, Caerdydd a Belfast. Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd ein gwefan ein hunain gennym: www.bbcgovernors.co.uk. Bu ymgynghoriadau â'r cyhoedd hefyd yn ddatblygiad allweddol eleni gyda nifer yn cael eu lansio ers haf 2005. Nodir manylion yr ymgynghoriadau hyn – a'r materion a godwyd gan dalwyr ffi'r drwydded yn ein cyfarfodydd cyhoeddus – ar wefan y Llywodraethwyr.

Un maes lle yr oeddem am wybod mwy am farn talwyr ffi'r drwydded oedd eu hymateb i gais y BBC am ffi'r drwydded (gyda ffi'r drwydded yn cynyddu i £150, yn nhermau punnoedd 2005, yn 2013/2014). Roeddem hefyd am ddeall ymateb talwyr ffi'r drwydded i gynllun y Llywodraeth i ariannu help wedi'i dargedu drwy ffi'r drwydded. Comisiynwyd yr Athro Patrick Barwise gennym i gynnal ymchwiliad annibynnol i'r ddau faes hyn. Daeth ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2006, i'r casgliadau canlynol:

- Nid oes unrhyw un pwynt penodol lle y byddai parodrwydd i dalu yn gostwng yn ddramatig
- Po fwyaf y bydd defnyddwyr yn ei wybod am wasanaethau newydd arfaethedig y BBC, y mwyaf cadarnhaol yw eu hagwedd
- Pan ofynnwyd iddynt ei ystyried, a phe byddai'n rhaid iddynt ddewis rhwng talu ffi'r drwydded a cholli gwasanaethau'r BBC, byddai'r rhan fwyaf o dalwyr ffi'r drwydded, pe byddai'n rhaid iddynt, yn talu'n sylweddol uwch na'r £10 y mis a delir ar hyn o bryd am wasanaethau presennol y BBC
- Pe cynyddai ffi'r drwydded i £150 y flwyddyn (yn nhermau punnoedd 2005) yn 2013/2014 byddai cyfran y bobl a fyddai'n barod i dalu am wasanaethau presennol yn gostwng o tua 75–80% heddiw i tua 65-70% yn 2013/2014. Mae'r lefel hon yn cynyddu i 70–75% os ychwanegir y gwasanaethau newydd arfaethedig
- Pan ofynnwyd iddynt am atodiad ffi'r drwydded i dalu am help i bobl ddiamddiffyn yn ystod y broses o newid i wasanaethau digidol, mae 53% o'i blaid a 47% yn ei erbyn. Fodd bynnag, os bydd y Llywodraeth yn penderfynu bwrw ati â'r cynnig hwn, ni fyddai pawb o reidrwydd yn gwrthwynebu'n llwyr

Un o'r dulliau atebolrwydd allweddol sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yw'r Trwyddedau Gwasanaeth. Bydd y trwyddedau yn nodi manylion cyllideb a chylch gwaith pob un o wasanaethau'r BBC, sut y maent yn cyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC, a sut y dylid mesur perfformiad. Roedd ein gwaith yn hyn o beth yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd ar y fframwaith yn ystod rhan olaf 2005. Mae'r ymatebion (y gellir eu gweld ar wefan y Llywodraethwyr) yn cael eu hystyried ar hyn o bryd wrth ddrafftio'r Trwyddedau Gwasanaeth eu hunain. Mae Trwyddedau Gwasanaeth yn rhan o'r trefniadau llywodraethu newydd a fydd yn dod i rym adeg cyflwyno'r Ymddiriedolaeth a'r Siarter newydd.

Rydym wedi gwneud llawer o waith i ddatblygu ein hatebolrwydd wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo'r awenau i'r Ymddiriedolaeth. Mae atebolrwydd i dalwyr ffi'r drwydded yn holl bwysig ar draws y BBC a bydd yn un o flaenoriaethau penodol yr Ymddiriedolaeth.

Ers ei benodi, sicrhaodd Cadeirydd y BBC ei fod ar gael yn rheolaidd i dalwyr ffi'r drwydded ei holi ar eitemau ffonio i mewn ar radio'r BBC ac rydym yn datblygu ffyrdd newydd eraill o ymgysylltu â chynulleidfaoedd mewn perthynas â gweithgareddau atebolrwydd. Caiff cynnydd ei fonitro yn ystod y flwyddyn bresennol fel rhan o Amcan Atebolrwydd i Gynulleidfaoedd y Llywodraethwyr ar gyfer 2006/2007.

# Amcanion y Llywodraethwyr ar gyfer 2006/2007

Mae Siarter bresennol y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni bennu amcanion blynyddol a chyflwyno adroddiad arnynt. Mae'r amcanion ar gyfer 2006/2007 yn canolbwyntio ar flaenoriaethau pwysig ar draws y BBC cyfan.

O dan y Siarter newydd, bydd gan Ymddiriedolaeth y BBC gyfres newydd o systemau ar gyfer dal y BBC i gyfrif yn seiliedig ar gylchoedd gwaith pwrpas, trwyddedau gwasanaeth a Datganiadau o Bolisi Rhaglenni.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn dod i benderfyniad o ran pa un a oes rôl barhaus i amcanion corfforaethol blynyddol i'r BBC. Yn y cyfamser, rydym wedi penderfynu y dylai amcanion 2006/2007 gwmpasu'r un blaenoriaethau strategol â 2005/2006, wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn ogystal â mentrau newydd ar gyfer y flwyddyn drosiannol i ddod – a gaiff eu cymeradwyo lle bo angen gan y Llywodraethwyr neu'r Ymddiriedolaeth.

### 1 Strategaeth rhaglenni

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn parhau i ddatblygu strategaeth olygyddol bum mlynedd ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC drwy droi canfyddiadau Dyfodol Creadigol yn strategaethau gwasanaeth a chynigion ar gyfer y BBC cyfan a dechrau rhoi'r strategaeth honno ar waith.

Ym maes Teledu, parhau â'r cynnydd tuag at yr amcanion manwl a osodwyd yn 2005/2006:

- Gostwng nifer y rhaglenni a gaiff eu hailddarlledu ar BBC One yn ystod oriau brig i lefel yn is na 8.5% yn 2006/2007 (tuag at darged o 5% yn 2008/2009)[1]
- Parhau i gynyddu'r buddsoddiad cyffredinol mewn comedi a drama wreiddiol o'r DU
- Adfywio darllediadau min nos BBC One, gan roi sylw arbennig i gylch oes rhaglenni neu fformatau

*[1] Y diffiniad o raglenni a gaiff eu hailddarlledu i gynnwys trosglwyddiadau digidol o BBC Three a BBC Four, ond nid rhaglenni a ddangosir ar ddigidol am y tro cyntaf (ee Spooks)*

### 2 Datblygu digidol

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn paratoi ar gyfer newid i wasanaethau digidol ac yn datblygu'r farchnad ar gyfer teledu digidol am ddim, radio digidol a'r cyfryngau newydd wrth barhau i ddiwallu anghenion y gynulleidfa analog yn unig drwy:

- Godi ymwybyddiaeth o sut y mae gwasanaethau digidol y BBC yn ychwanegu gwerth at y portffolio cyffredinol
- Gwella eu hargaeledd
- Gweithio mewn partneriaeth â'r sector masnachol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt

### 3 Gwerth am arian

Sicrhau bod rheolwyr y BBC yn cyflawni arbedion gwerth am arian tra'n diogelu cynyrchiadau o ansawdd. Yn 2006/2007, caiff hyn ei fesur yn erbyn y nodau canlynol:

- Nifer y staff: Cyflawni'r targedau i leihau nifer y staff 2,055 yn 2006/2007, tuag at y targed o 3,763 ar gyfer y tair blynedd hyd at 2007/2008
- Arbedion: Gwneud arbedion arian parod cronnol crynswth o £211miliwn yn 2006/2007, gan gynnwys arbedion arian parod crynswth newydd o £112miliwn, tuag at darged o arbedion arian parod crynswth blynyddol o £355miliwn erbyn 2007/2008 (ar ôl tair blynedd)
- Costau gweithredu: Sicrhau na fydd y costau gweithredu yn fwy na £148miliwn yn 2006/2007 o'r cyfanswm costau gweithredu untro o £241miliwn sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynllun tair blynedd
- Model busnes: Datblygu seilwaith fusnes gydlynus sy'n sail i'r broses o drawsnewid y BBC
- Cynllunio ariannol: Gweithredu cynllun ariannol sy'n sicrhau y caiff arian y BBC ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddiwallu anghenion talwyr ffi'r drwydded, sy'n dechrau pennu targedau ar gyfer gwelliant parhaus ac sy'n ddigon hyblyg i ymdrin â blaenoriaethau newydd gan y gynulleidfa a phwysau cost. Yn arbennig:
- Worldwide i wella'r elw a ddychwelir ganddo i'r BBC drwy ddarparu twf dau ddigid yn yr elw sylfaenol (hy ac eithrio eitemau eithriadol) ynghyd â thwf parhaus mewn gwerthiannau ac i gyflawni lefelau perfformiad cystadleuol, gan gyflawni elw ar werthiannau o 10% o leiaf ac enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio o 22% o leiaf
- Gwerthiannau ffi'r drwydded net i gynyddu 1.04%, gydag achosion o osgoi talu yn gostwng o 4.7% yn 2005/2006 i 4.6%

### 4 Bod yn ddiduedd

Sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o gywirdeb, tegwch a bod yn ddiduedd a ddisgwylir gan gynulleidfaoedd. Yn benodol, ymateb i arolygon annibynnol y Llywodraethwyr ar fod yn ddiduedd er mwyn sicrhau prosesau golygyddol cadarn a hyfforddiant sy'n darparu newyddiaduraeth o safon y gellir ymddiried ynddi.

### 5 Atebolrwydd

Canolbwyntio ar wella atebolrwydd y BBC i gynulleidfaoedd. Yn arbennig:

Uned Lywodraethu'r BBC i:

- Datblygu a chynnal arolwg cyhoeddus mawr i ystyried agweddau tuag at y BBC, i'w ystyried gan Ymddiriedolaeth y BBC
- Gan baratoi ar gyfer sefydlu'r Ymddiriedolaeth, gweithio gyda'r Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr i ddatblygu cynllun gweithredu i ymgysylltu'n ehangach â chynulleidfaoedd, codi proffil y Cynghorau a rhoi cyngor sy'n ymwneud â phob un o bwrpasau cyhoeddus y BBC

Rheolwyr y BBC i:

- Ddatblygu strategaethau gwasanaeth newydd mewn ymateb i'r prosiect Dyfodol Creadigol gan sicrhau bod pob cynulleidfa yn cael ei gwasanaethu'n dda ac yn arbennig, i ddarparu ffocws digonol ar wella canfyddiadau ymhlith y cynulleidfaoedd hynny sydd ag agweddau llai ffafriol tuag at y BBC

# Cipolwg ar y BBC

## Teledu

Nod BBC One yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu a werthfawrogir fwyaf yn y DU, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o ansawdd o blith unrhyw rwydwaith prif ffrwd yn y DU.

Nod BBC Two yw cyflwyno teledu heriol a deallus i gynulleidfa eang drwy gyfuno pynciau ffeithiol difrifol ac arbenigol â chomedi arloesol a drama arbennig.

Nod BBC Three yw cynnig cynnwys a thalent Brydeinig arloesol, gan ddarparu cymysgedd eang o raglenni a anelir at gynulleidfaoedd iau yn bennaf.

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu orau o ran cyfoeth deallusol a diwylliannol ym Mhrydain, gan gynnig cymysgedd arbennig o raglenni dogfen, perfformiadau, cerddoriaeth, ffilm a rhaglenni nodwedd cyfoes.

Nod Sianel CBBC yw cynnig amserlen gymysg arbennig i blant 6-12 mlwydd oed, gan eu hannog i ddatblygu diddordebau sydd ganddynt eisoes a diddordebau newydd a'u helpu i ddeall a manteisio ar y byd o'u hamgylch.

Nod CBeebies yw cynnig cymysgedd o raglenni o ansawdd uchel a gynhyrchir yn y DU a gynllunnir i annog dysgu drwy chwarae i blant pump oed neu iau, mewn amgylchedd cyson ddiogel.

## Radio

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc sy'n cyfuno'r gerddoriaeth newydd orau, amrywiaeth cynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a darllediadau o wyliau, ac allbwn llafar wedi'i deilwra.

Nod BBC Radio 2 yw cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol sy'n canolbwyntio ar dalent Brydeinig a pherfformiadau byw i wrandawyr, a ategir gan amrywiaeth eang o allbwn llafar.

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, ac mae hefyd yn anelu at ddarparu amrywiaeth eang o gerddoriaeth jazz a cherddoriaeth y byd, drama a'r celfyddydau, ac yn cynnwys perfformiadau byw a pherfformiadau wedi'u recordio'n arbennig.

Mae BBC Radio 4 yn defnyddio grym y gair llafar i gynnig rhaglennu sylweddol sy'n ceisio ymgysylltu ac ysbrydoli gyda chymysgedd unigryw o raglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi.

Mae BBC Radio Five Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, a'i nod yw cyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd mewn modd hygyrch, gyda phwyslais arbennig ar dargedu pobl rhwng 25 a 44 mlwydd oed.

Rhwydwaith rhan amser yw BBC Five Live Sports Extra sy'n darparu darllediadau chwaraeon ychwanegol drwy hawliau sydd eisoes yn eiddo i BBC Radio Five Live er mwyn sicrhau gwerth uwch i dalwyr ffi'r drwydded.

Nod 1Xtra yw chwarae'r goreuon o blith cerddoriaeth ddu gyfoes, gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o Brydain.

Nod BBC 6 Music yw ymgysylltu â phobl sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC ynghyd â cherddoriaeth gyfredol nad yw'n gerddoriaeth brif ffrwd, wedi'i hategu gan newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

Gwasanaeth radio digidol llafar yw BBC 7 sy'n cynnig comedi, drama a darlleniadau o archif sain y BBC yn bennaf. Dyma gartref radio llafar i blant hefyd.

Nod BBC Asian Network yw cynnig cymysgedd gyfoes o gerddoriaeth a deunydd llafar, gyda phwyslais penodol ar drafodaethau heriol a pherfformiadau byw, i Asiaid Prydeinig ifanc.

## Cyfryngau Newydd

Nod bbc.co.uk yw darparu cynnwys ar-lein arloesol ac arbennig, gan hyrwyddo'r defnydd o'r rhyngrwyd i ddatblygu perthynas agosach â thalwyr ffi'r drwydded ac atgyfnerthu atebolrwydd y BBC.

Mae BBCi yn cynnig y cynnwys diweddaraf drwy gydol y dydd i gynulleidfaoedd teledu digidol gan gynnwys newyddion, y tywydd, dysgu, adloniant a rhaglennu rhyngweithiol.

Gwasanaeth ar-lein am ddim yw BBC jam sy'n darparu adnoddau rhyngweithiol o ansawdd uchel a strwythurir o gwmpas elfennau allweddol y cwricwlwm ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc 5 i 16 oed.

## Newyddion

Nod BBC News yw darparu'r newyddiaduraeth orau yn y byd a cheisio sicrhau ei le fel y sefydliad newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd: yn gywir, yn ddiduedd ac yn annibynnol.

Nod BBC News 24 yw darparu newyddion, dadansoddiadau a mewnwelediad, gyda chymorth gweithrediadau casglu newyddion y BBC, drwy gydol y dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn.

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymroddedig i ddarllediadau o fyd gwleidyddiaeth, gan gynnwys dadleuon, pwyllgorau a gwaith siambrau datganoledig y DU.

Mae BBC World Service yn darparu newyddion rhyngwladol, dadansoddiadau a gwybodaeth yn Saesneg a 32 o ieithoedd eraill ar y radio a'r rhyngrwyd.

Sianel deledu newyddion a gwybodaeth 24 awr ryngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol yw BBC World.

## Y Gwledydd a'r Rhanbarthau

### BBC English Regions

Mae BBC English Regions yn gwasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau trefol a gwledig ar y teledu, ar y radio ac ar-lein a'i nod yw sicrhau mai ef yw'r darlledwr lleol mwyaf creadigol a'r un yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn Lloegr.

### BBC Scotland

Nod BBC Scotland yw cynhyrchu amrywiaeth eang o raglenni teledu a radio nodedig ar gyfer pob grŵp oedran sy'n adlewyrchu natur amrywiol yr Alban yn briodol.

### BBC Cymru Wales

Mae BBC Cymru yn ymrwymedig i gynhyrchu gwasanaethau sy'n adlewyrchu diwylliant a hanes unigryw Cymru, a'i thirlun cymdeithasol a gwleidyddol.

### BBC Northern Ireland

Nod BBC Northern Ireland yw darparu rhywbeth o werth i bawb yn y gymuned drwy ei bortffolio eang o raglenni a gwasanaethau sy'n adlewyrchu diddordebau a phrofiadau lleol.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Teledu

## Trosolwg

Mae Teledu'r BBC yn wynebu cystadleuaeth sylweddol gynyddol wrth i nifer y sianelau digidol dyfu'n gyflym. Mae cynulleidfaoedd BBC One a BBC Two wedi gostwng ac nid yw nifer gynyddol y bobl sy'n gwylio sianelau digidol BBC Three a BBC Four wedi llwyddo i wneud iawn am y colledion hynny hyd yma. Collwyd gwylwyr ifancach mewn niferoedd arbennig o uchel – pan fyddant yn newid o analog i ddigidol maent yn tueddu hefyd i wylio llai o deledu. Mae ffocws amlwg y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddenu cynulleidfaoedd ifancach yn ôl fel blaenoriaeth i'r cyfnod sydd i ddod yn rhoi tawelwch meddwl i ni.

O ran creadigrwydd, cafodd BBC One flwyddyn eithriadol. Mae BBC Two yn parhau i fireinio ei hamserlen er mwyn cynyddu ei hapêl a'i chyrhaeddiad tra'n parhau i fodloni ei chylch gwaith. Mae cynulleidfa BBC Three yn parhau i dyfu'n gadarn – yr her yw ehangu ei chyrhaeddiad drwy apelio i gynulleidfaoedd ifanc. Cafodd BBC Four flwyddyn dda iawn ac mae ei chynulleidfaoedd yn ei chanmol yn uchel iawn. O ran teledu i blant, mae creadigrwydd Sianel CBBC yn parhau yn gryf a llwyddodd i barhau i gynyddu ei chynulleidfa. Cofnododd CBeebies ostyngiad mewn cyrhaeddiad, adlewyrchiad o'r angen dybryd i adnewyddu creadigrwydd y sianel ac o'r gystadleuaeth gynyddol am ei chynulleidfa.

Mae Teledu'r BBC bellach yn defnyddio deunydd o amrywiaeth eang o ffynonellau y tu mewn a'r tu allan i'r BBC. Gwnaeth BBC Cymru gyfraniad arbennig o gryf i ddarllediadau drama'r BBC eleni.

# 20 miliwn

o bobl – y nifer a wyliodd o leiaf 15 munud o *Planet Earth* (BBC One, Mawrth-Ebrill 2006)



*Bleak House*
Dangos drama glasur o ansawdd uchel: aelodau cast *Bleak House* – cafodd BBC One effaith fawr drwy ddarlledu'r clasur cyfresol hwn gan Dickens fel opera sebon, ymagwedd a oedd yn unol â dull cyhoeddi gwreiddiol y nofel



*Strictly Come Dancing*
Gwneud adloniant cryf i deuluoedd: y cricedwr Darren Gough, enillydd *Strictly Come Dancing* 2005, gyda'i bartner Lilia Kopylova. Mae fformat y gyfres wedi cael llwyddiant rhyngwladol fel un o allforion teledu Prydeinig

## BBC ONE

**Cylch gwaith**
**Nod BBC One yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu a werthfawrogir fwyaf yn y DU, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o ansawdd o blith unrhyw rwydwaith prif ffrwd yn y DU. Mae'r sianel yn ymrwymedig i ehangu apêl pob genre drwy sicrhau bod amrywiaeth o bynciau yn hygyrch i gynulleidfa eang. Mae BBC One yn ymrwymedig i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon a materion cyffredinol cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddarparu llwyfan ar gyfer rhaglenni nodedig ac archwilio ffyrdd newydd o gyflwyno pynciau arbenigol.**

Erys y broses barhaus o foderneiddio BBC One, sef gwasanaeth teledu blaenllaw'r Gorfforaeth, yn flaenoriaeth allweddol i'r BBC. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cafodd y sianel rai llwyddiannau creadigol eithriadol. Fodd bynnag, ni lwyddodd y llwyddiannau hyn i atal gostyngiad pellach yng nghyrhaeddiad cyffredinol y gynulleidfa. Ymhob cartref, gostyngodd cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC One i wylwyr 4+ oed 2.2 pwynt canran, neu bron i un filiwn o bobl. Cyfartaledd y cyrhaeddiad yn 2005/2006 oedd 79.7% neu 44.5 miliwn o bobl (81.9%/ 45.4 miliwn yn 2004/2005)[1].

Mae angen ystyried y ffigurau hyn yn eu cyd-destun. Mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol, mae BBC One yn parhau i gyrraedd mwy o wylwyr nag unrhyw sianel deledu arall mewn cartrefi analog ac amlsianel. Mewn cartrefi amlsianel, lle mae'r dewis gwylio yn ôl ei ddiffiniad yn llawer ehangach, mae dros dri o bob pedwar gwyliwr yn dal i wylio BBC One. Mae lledaeniad cyflym teledu digidol, a'r rhaniad anochel i'r gynulleidfa sydd ynghlwm â hynny, yn golygu efallai bod rhywfaint o ostyngiad o ran cyrhaeddiad yn anochel dros amser, ac mae'r twf o ran cyrhaeddiad sianelau digidol y BBC ei hun yn gwneud iawn i ryw raddau (er nad yn llwyr) am y gwylwyr y mae BBC One yn eu colli. Serch hynny, o gofio maint cyllideb y sianel a'i phwysigrwydd o ran cynyddu bodlonrwydd cyffredinol talwyr ffi'r drwydded â'r BBC, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae problem arbennig gyda gwylwyr ifanc sy'n tueddu fwyfwy i wylio llai o deledu pan fyddant yn newid o analog i ddigidol. Nodwn ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad ym maes drama boblogaidd ac adloniant teuluol sy'n denu cynulleidfa iau. Bydd hyn yn golygu parhau i gymryd risgiau creadigol, a pharhau yn benderfynol pan na fyddant yn llwyddo. Er enghraifft, yn y pen draw, aflwyddiannus fu ymgais BBC One i sefydlu Davina McCall mewn lleoliad anghyfarwydd, ond roedd yr ymgais yn werth ei gwneud.

Gwelwyd llwyddiannau creadigol mewn amrywiaeth eang o genres gan gynnwys drama, adloniant a ffeithiol. Mewn drama, mae tri theitl – oll yn wahanol iawn eu natur – yn dod i'r amlwg: *Bleak House*, *Doctor Who* a *Life on Mars*. Maent wedi helpu BBC One i gynnal ei statws fel y "sianel ddrama orau" o blith holl sianelau'r DU yn ymchwil y BBC i gynulleidfaoedd.

Roedd *Bleak House* yn gyfuniad o'r holl bethau y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gan ddrama wisg glasurol gan y BBC: actio gwych (a chastio llawn dychymyg), ysgrifennu cadarn, cyfarwyddyd deallus a'r gwerthoedd cynhyrchu uchaf. Yr hyn a'i gwnaeth yn wahanol oedd y penderfyniad i'w darlledu fel opera sebon, gyda rhifynnau hanner awr o hyd yn cael eu darlledu drwy'r wythnos a rhifyn omnibws ar benwythnosau. Roedd yn syniad ysbrydoledig a oedd yn unol ag egwyddor cyhoeddi wreiddiol nofel Dickens, a gyhoeddwyd mewn rhannau, gyda phob rhifyn yn gorffen mewn ffordd gyffrous, a llwyddodd i ddenu cynulleidfaoedd mawr a gwerthfawrogol. Mae rhaglenni o'r fath yn diffinio'r cysyniad o ansawdd ar y BBC.

Mae *Doctor Who* wedi parhau i ddifyrru teuluoedd sy'n gwylio fin nos ar nos Sadwrn – gan ddangos ffraethineb a dawn go iawn. Er y gallai ymadawiad Christopher Eccleston o'r brif ran fod wedi achosi problemau, manteisiwyd ar y cyfle a llwyddwyd i osod David Tennant yn y rôl mewn pryd i gymryd rhan mewn rhifyn arbennig dros gyfnod y Nadolig cyn iddo ddechrau cyfres newydd yn 2006/2007. Ategir darllediadau teledu *Dr Who* gan wefan gyfoethog a chynhaliwyd arbrofion llawn dychymyg gydag elfennau rhyngweithiol – ategwyd y rhifyn arbennig dros gyfnod y Nadolig gan antur ryngweithiol a ysgrifennwyd yn arbennig ac a welwyd drwy bwyso'r botwm coch. Llwyddwyd i ddenu cynulleidfa o bron hanner miliwn. Yn ein hymgynghoriadau â gwylwyr a gwrandawyr, maent yn aml yn nodi rhaglenni fel *Dr Who* fel adloniant da gan y BBC i'r teulu. Mae *Strictly Come Dancing*, a gafodd gyfres lwyddiannus arall, yn rhaglen arall sy'n denu canmoliaeth ddigymell debyg gan gynulleidfaoedd.

Roedd *Life on Mars* hefyd yn seiliedig ar y syniad o deithio drwy amser – y tro hwn i ailddyfeisio un o'r genres teledu mwyaf sefydlog, y gyfres dditectif. Llwyddodd i osod synwyrusrwyddau'r 21ain ganrif yn erbyn realiti'r 1970au (gan gynnwys ffasiwn y 1970au) drwy ddefnyddio plot lle yr anfonwyd ditectif modern yn ôl mewn amser. Roedd ei gafael ar ymwybod y cyhoedd yn amlwg yn nifer yr erthyglau barn mewn papurau newydd a ddefnyddiodd deitl y gyfres fel man cychwyn ar gyfer erthyglau hiraethlon yn cymharu ffyrdd y presennol a'r gorffennol.

Un o gryfderau mawr BBC One yw ei hamrywiaeth – nid yn unig o ran drama ac adloniant, ond o ran crefydd, ffeithiol, rhaglenni dogfen, newyddion a materion cyfoes, plant, chwaraeon a mwy – a'r ffaith y gall gyflwyno

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Teledu




**Live8**
Llwyfannu digwyddiadau mawr: roedd cyngerdd Live8 yn Hyde Park, a drefnwyd ar fyr rybudd, yn brawf mawr – ond nid anorchfygol – i'r BBC



***Planet Earth***
Rhoi ffocws arbennig i fyd natur: cyflwynodd cyfres ddiweddaraf David Attenborough, *Planet Earth*, olwg fanwl o fyd natur, gan gynnwys lluniau unigryw o lewpard eira yn yr Himalayas, nas gwelir yn aml ac na chafwyd lluniau tebyg ohono erioed o'r blaen

ansawdd drwyddi draw, nid dim ond mewn rhai genres penodol. Ymhlith y darllediadau ffeithiol cofiadwy roedd *Planet Earth*, gyda llais David Attenborough, a ddefnyddiodd dechnolegau newydd ym maes gwneud ffilmiau i roi golwg agos anhygoel i'r gynulleidfa o elfennau o natur nas gwelir yn aml. Roedd dilyniant y dyn camera Mark Smith o lewpard eira yn hela gafr fynydd fry yn yr Himalayas – sef uchafbwynt ymdrech blwyddyn o hyd – yn gyflawniad eithriadol. Gwelwyd doniau gwych David Attenborough fel cenhadwr dros y byd naturiol a dehonglydd ohono hefyd yn ei gyfres ar fyd y pryfed, *Life in the Undergrowth*, ar BBC One.

Roedd nifer o ddigwyddiadau hysbys mawr yn ystod y flwyddyn. Dathlwyd 60 mlynedd ers Diwrnod VE a Diwrnod VJ yn llwyddiannus gyda chymysgedd o ddarllediadau awyr agored o'r digwyddiadau cyhoeddus mawr a darllediadau yn archwilio'r cyd-destun hanesyddol. Gwelwyd tystiolaeth o allu'r BBC i gyflwyno darllediadau awyr agored mawr ar fyr rybudd ac i ymdopi â phroblemau logisteg cymhleth dros gyfnod o 48 awr ym mis Ebrill gyda darllediadau clodwiw o angladd Pab John Paul II yn Rhufain, wedi'u dilyn y diwrnod canlynol gan ddarllediadau yr un mor gofiadwy o briodas Tywysog Charles a Camilla Parker Bowles yn Windsor. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, trefnwyd Live8, y cyngerdd yn Hyde Park i dynnu sylw at dlodi yn Affrica yn ystod wythnos uwchgynhadledd y G8, ar fyr rybudd eithriadol ac roedd darllediadau'r BBC hyd yn oed yn fwy nodedig o gofio hynny.

Affrica hefyd oedd thema tymor *Africa Lives* y BBC. Darlledwyd y dathliad a'r archwiliad hwn o fywyd a diwylliant Affrica ar draws holl sianelau a llwyfannau'r BBC ond fe'i harweiniwyd gan BBC One. Roedd yn cynnwys darllediadau o sawl gwahanol genre, gan gynnwys *The Girl in the Café*, comedi ramantus a ysgrifennwyd gan Richard Curtis; *Geldof in Africa*, taith bersonol gan Bob Geldof, a rhan o stori yn *Holby City* a anfonodd ddau gymeriad i Ghana.

Er bod y darllediadau yn amrywiol o ran ansawdd, ar y cyfan, roedd hon yn fenter gyhoeddus o uchelgais clodwiw, ac o faint a chwmpas na allai ond y BBC fod wedi'u cyflwyno. Drwy hap, cynhaliwyd *Live8* yn ystod tymor Affrica ac o ganlyniad, codwyd rhai materion o ran ein gallu i fod yn ddiduedd – dengys ein hadroddiad ar dudalen 18 sut y'u rheolwyd.

Ymhlith y darllediadau celfyddydol poblogaidd nodedig roedd *A Picture of Britain*, dathliad o dirlun Prydain fel y'i gwelwyd drwy lygaid artistiaid, awduron a chyfansoddwyr. Cyflwynwyd y gyfres hon, cydweithrediad â Tate Britain, gan David Dimbleby, a ddangosodd fod ei ymagwedd arbennig yn gweithio'n dda ar ddeunydd gwahanol iawn i'w arlwy arferol sef gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Denodd gynulleidfa newydd i raglennu celfyddydol ar BBC One. Daeth *The Queen, by Rolf*, a oedd yr un mor gofiadwy, â chamerâu'r BBC i Balas Buckingham i wylio Rolf Harris yn paentio portread o'r Frenhines i ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed – un o'r cyfuniadau mwyaf hynod o fynediad, cast ac achlysur i'w weld unrhyw le ar deledu Prydain yn ystod y flwyddyn.

Dychwelodd *Little Britain* i BBC One am gyfres lwyddiannus arall. Fodd bynnag, er i'r sianel lwyddo i gynnal ei statws ymhlith ei holl gystadleuwyr yn y DU fel y "sianel gomedi orau" yn ymchwil y BBC i gynulleidfaoedd, mae angen dybryd i gyflwyno comedïau newydd eraill sy'n denu cynulleidfaoedd prif ffrwd ac yn bodloni disgwyliadau'r gynulleidfa o BBC One yn y genre rhaglenni allweddol hwn. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi nodi comedi ar BBC One fel blaenoriaeth uchel ar gyfer buddsoddiad ychwanegol ac mae nifer o raglenni peilot newydd yn yr arfaeth.

Erys *EastEnders* yn rhan bwysig o amserlen BBC One ac yn ddull pwysig o lywio canfyddiadau o'r sianel yn gyffredinol. Y llynedd, bu rhywfaint o amheuon o ran ei pherfformiad. Eleni, ymddengys ei fod wedi sefydlogi. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod sgoriau BBC One wedi sefydlogi pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd pa sianel oedd orau o ran operâu sebon – roedd y sgoriau hyn wedi gostwng yn sylweddol yn 2004/2005 – a chan y gwobrau a enillwyd, gan gynnwys Bafta. Fodd bynnag, ITV yw'r sianel flaenllaw yn y maes hwn o hyd, gan adlewyrchu'n rhannol y ffaith ei bod yn darlledu llawer mwy o operâu sebon. Mynegodd gwylwyr werthfawrogiad cryf a digymell o rifyn arbennig o *EastEnders* i ddathlu Diwrnod y Cadoediad.

Yn ystod blwyddyn gymharol dawel o ran chwaraeon ar BBC One, dangosodd darllediadau o Rygbi'r Chwe Gwlad a Gemau'r Gymanwlad unwaith eto bod digwyddiadau chwaraeon mawr yn boblogaidd iawn o hyd.

Mae cynulleidfaoedd yn aml yn sôn am ailddarllediadau yn ein hymgynghoriadau ac fe'n calonogir gan gynnydd parhaus BBC One wrth leihau nifer yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig. Am ragor o wybodaeth, gweler ein hadroddiad ar dudalennau 15 i 16.

[1] *Cynyddodd y boblogaeth 4+ oed 400,000 rhwng 2004/2005 a 2005/2006*



*Springwatch*
Olrhain newidiadau rhwng tymhorau: llwyddodd Bill Oddie a Kate Humble i gynnwys y gynulleidfa wrth gofnodi dechrau'r gwanwyn – helpodd miloedd o bobl i greu darlun manwl o ddyfodiad y tymor ledled y DU



*The Catherine Tate Show*
Buddsoddi mewn comedi arbennig: sioe sgetsys Catherine Tate, a gafodd ei hail dymor yn 2005 – rhan o ymateb y BBC i bwysau gan y gynulleidfa i ddatblygu talent comedi newydd o'r DU

**6 miliwn**

oedd cyfartaledd y gynulleidfa ar gyfer rhifyn olaf *The Apprentice* (BBC Two, Chwefror-Mai 2006)

## Cylch gwaith

**Nod BBC Two yw bod yn sianel genre cymysg sy'n cyfuno pynciau ffeithiol difrifol ac arbenigol â chomedi arloesol a drama arbennig i gyflwyno teledu heriol a deallus i gynulleidfa eang.**

Yn 2003, cymeradwywyd strategaeth newydd gennym ar gyfer BBC Two a oedd yn anelu at bwysleisio ei rôl gyhoeddus arbennig fel sianel a oedd yn cynnig cymysgedd mwy heriol o ddarllediadau na BBC One ac, yn arbennig, gyda chraidd ffeithiol cadarn ac arbennig. Cyflawnwyd hyn drwy wyro cyllid o adloniant, lleihau nifer y rhaglenni ffordd o fyw a chynyddu'r amser a neilltuwyd i'r celfyddydau a materion cyfoes yn ystod oriau brig.

Cyflawnwyd y broses adleoli ond o ganlyniad, gwelwyd gostyngiad o ran nifer y gynulleidfa, a waethygwyd gan gystadleuaeth gynyddol am wylwyr gan y nifer gynyddol o sianelau digidol. Parhaodd cyrhaeddiad y gynulleidfa i ostwng, er bod cyfradd y gostyngiad wedi arafu a gallai hyn fod yn arwydd bod cynulleidfaoedd yn sefydlogi, er bod problemau o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ifancach a chynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed ymhob cartref oedd 59.1% neu 33 miliwn o bobl (61.4%/34 miliwn yn 2004/2005)[2]. Fodd bynnag, dim ond cyfartaleddau yw'r ffigurau hyn. Mae'r cyrhaeddiad yn uwch mewn cartrefi analog yn unig, ond yn sylweddol is mewn cartrefi lloeren. Awgryma hyn fod BBC Two yn wynebu bygythiadau pellach i'w statws gyda'r gynulleidfa wrth i'r DU symud tuag at gael gwared ar deledu analog yn llwyr.

Yn *Adroddiad Blynyddol* y llynedd, nodwyd gennym fod rheolwr newydd y sianel yn adolygu'r broses o weithredu'r strategaeth gyda'r nod o ehangu ei hapêl. Cyflwynwyd y canlyniadau i ni ym mis Gorffennaf 2005.

Y brif her a nodwyd oedd cysylltu â chynulleidfaoedd digidol a rhagweld sut y byddai technolegau yn ôl y galw yn ehangu. Er bod gwerthfawrogiad ymhlith y gynulleidfa yn uchel, ac y bu rhywfaint o arloesi ym maes cerddoriaeth, y celfyddydau a chrefydd yn ogystal â thwf o ran materion cyfoes am 9pm, roedd swm y drama a'r comedi gwreiddiol wedi gostwng. Er mwyn gwrthbwyso hyn, cynlluniwyd buddsoddiad pellach yn y ddau genre hwn, ynghyd ag arloesi pellach ym maes rhaglenni ffeithiol. Ar yr un pryd, dechreuodd treialon i archwilio buddiannau posibl technolegau yn ôl y galw drwy gyflwyno rhaglenni ar fand eang drwy'r wefan ar ei newydd wedd. Dylai hyn gynyddu cyrhaeddiad gan y bydd cynulleidfaoedd yn gallu gwylio y tu allan i'r slot ar yr amserlen. Cymeradwywyd y cynigion hyn gennym i esblygu'r sianel ymhellach a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, darlledodd BBC Two amrywiaeth eang o gynyrchiadau eithriadol, gan gynnwys *Elusive Peace: Israel and the Arabs*, cyfres tair rhan yn archwilio'r wyth mlynedd diwethaf ym mhroses heddwch y Dwyrain Canol drwy gyfweliadau ag ymgyrchwyr allweddol. Roedd *Coast*, a oedd yn ganlyniad partneriaeth gydweithredol ar draws y BBC, yn gyfres uchelgeisiol yn archwilio hanes a daearyddiaeth forol arfordir y DU. Ymhlith y cyfresi comedi cryf roedd *Extras*, antur ddiweddaraf Ricky Gervais i gomedi hunan-dwyll, ac atgyfnerthodd Catherine Tate ei henw da gyda chyfres newydd o *The Catherine Tate Show*, a gyflwynodd fwy o'u harwyddeiriau i'n hiaith bob dydd. Addaswyd trioleg arwrol William Golding o nofelau *To the Ends of the Earth* i greu drama glasur gofiadwy. Ysgogodd rhaglen ddogfen ddiddorol Martin Scorsese ar Bob Dylan, *Arena: No Direction Home*, ddiddordeb aruthrol. Roedd *Holocaust – A Music Memorial Film from Auschwitz* yn deyrnged deimladwy i'r cerddorion Iddewig a fu farw yn y gwersylloedd marwolaeth. Gemau Olympaidd y Gaeaf oedd uchafbwynt chwaraeon ar y sianel yn ystod y flwyddyn.

Llwyddodd *Springwatch*, a gyflwynwyd gan Bill Oddie, i ddenu cynulleidfa fawr gyda'i hymagwedd wreiddiol tuag at fyd natur i gynulleidfaoedd teuluol. Anogodd y gwylwyr i gyfrannu eu harsylwadau eu hunain o fyd natur drwy ei harolwg cenedlaethol o ffenomena'r gwanwyn.

Denodd *The Monastery* gynulleidfaoedd mawr a gwerthfawrogol wrth iddi ddilyn pum dyn lleyg a oedd yn treulio 40 diwrnod a noson mewn mynachlog Fenedictaidd yn ceisio darganfod a oedd gan ddisgyblaethau mynachol unrhyw beth i'w gynnig iddynt hwy. Roedd y rhaglen yn enghraifft annisgwyl, ystyrlon a theimladwy o sut y gellid defnyddio technegau teledu realiti i archwilio themâu ysbrydol difrifol. Daeth *Top Gear*, un o gonglfeini hirsefydledig yr amserlen â ffraethineb, asbri ac arddulliau cynhyrchu llawn dychymyg i'w ddarllediadau o geir ac unrhyw beth cysylltiedig. Dychwelodd *The Apprentice* a *Dragon's Den* am ail gyfresi llwyddiannus, gan gyflwyno'r byd busnes ac entrepreneuriaeth mewn ffordd arloesol i gynulleidfaoedd newydd. Bu *The Apprentice* yn un o lwyddiannau'r treial band eang ar bbc.co.uk/bbctwo, lle y rhoddwyd cyfle i bobl lawrlwytho rhaglenni cyfan – roedd y galw cychwynnol gan y cyhoedd yn arwydd o apêl bosibl rhaglennu cyfryngau gwahanol.

[2] *Cynyddodd y boblogaeth 4+ oed 400,000 rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Teledu



*Funland*
Comisiynu drama arloesol: Ian Pulestone-Davies a Frances Barber yn y ddrama arswyd gomig dywyll *Funland* – rhan o ymrwymiad BBC Three i gyflwyno drama newydd arbennig i'w chynulleidfaoedd



*Naked City*
Gohebu celfyddydol arloesol: daeth 1,700 o wirfoddolwyr noeth ynghyd ar y Quayside yn Gateshead er mwyn i'r artist o'r UD Spencer Tunick dynnu llun ohonynt – cydweithrediad rhwng BBC Three a Chanolfan Celf Gyfoes Baltic

## Cylch gwaith

**Nod BBC Three yw cynnig cynnwys a thalent Brydeinig arloesol a anelir at gynulleidfaoedd iau yn bennaf. Mae'r sianel yn ymrwymedig i amserlen gymysg o newyddion, materion cyfoes, cerddoriaeth, y celfyddydau, cynnwys ffeithiol i feithrin gwybodaeth a darlledu materion rhyngwladol, yn ogystal â drama, comedi ac adloniant newydd ac arbennig o ansawdd uchel.**

Mae cynulleidfaoedd BBC Three yn parhau i dyfu. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed mewn cartrefi amlsianel oedd 16.1% neu 6.8 miliwn o bobl (14.8%/5.6 miliwn yn 2004/2005)[3].

Adeg ei lansio yn 2004, rhoddwyd cylch gwaith heriol iawn i BBC Three – roedd yr amodau cymeradwyaeth a osodwyd arni gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn llawer manylach nag ar gyfer sianelau teledu digidol eraill y BBC. Yn gyffredinol, mae wedi gwneud yn dda gan lwyddo i gynnal ei hymrwymiad i gynnwys a gynhyrchir yn y DU a'i chylch gwaith i arloesi a chymryd risgiau. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd rhannau o'r amserlen yn darparu gwerth am arian, yn arbennig y *7 O'Clock News*. Fel y nodwyd gennym yn *Adroddiad Blynyddol* y llynedd, gofynnwyd i'r rheolwyr ystyried rôl newyddion ar BBC Three yn y dyfodol a chyflwynwyd eu casgliadau i ni ym mis Mehefin 2005.

Y prif argymhelliad oedd cael gwared ar y newyddion am 7pm a chau ei wefan. Er y dylid canmol ei arloesedd, ni lwyddodd y bwletin na'i wasanaethau newyddion rhyngweithiol cysylltiedig i ddenu cynulleidfa sylweddol. Nid felly rhaglen newyddion arall y sianel bob awr, *60 Seconds*, a fu'n fformat llwyddiannus ar gyfer cyflwyno newyddion i'r cynulleidfaoedd o oedolion ifancach a dargedwyd gan y sianel. Ni fu arbrofion i newid amser darlledu'r bwletin hwy ac addasu ei fformat a'r ffordd o'i gyflwyno yn llwyddiannus o ran cynyddu ei effaith yn sylweddol.

Ail argymhelliad y rheolwyr oedd y dylid newid cylch gwaith y sianel. Roedd y geiriad gwreiddiol yn ymrwymo'r sianel i nifer o is-genres ffeithiol penodol gan gynnwys addysg, gwyddoniaeth, crefydd a moeseg, a busnes. Yn ymarferol, gwelodd rheolwyr y sianel fod y nifer uchel hon o ymrwymiadau cul yn eu llesteirio yn hytrach na'u helpu i gyflwyno cynnwys ffeithiol o ansawdd uchel i'w cynulleidfaoedd. Nid oedd rhai o gynyrchiadau ffeithiol mwyaf llwyddiannus BBC Three yn gweddu'n hawdd i'r is-genres penodedig. Er enghraifft, nid oedd yn glir pa un a ddylid dosbarthu *Little Angels* (ar sgiliau magu plant) neu *Body Hits* (ar faterion iechyd) fel addysg neu wyddoniaeth. Ym marn y rheolwyr, byddai'n fwy cynhyrchiol cyfuno eu hymrwymiadau i greu un categori 'meithrin gwybodaeth' ac i gynyddu eu hymrwymiadau o ran oriau yn y maes hwn.

Cymeradwywyd y ddau argymhelliad gennym. Gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol newidiwyd geiriad y cylch gwaith (nodir y geiriad newydd ar frig yr arolwg hwn).

Mae ymrwymiad y sianel i gynyrchiadau ffeithiol sy'n meithrin gwybodaeth wedi arwain at rai llwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn dan sylw gan ddilyn thema gyffredinol hunan-wella. Maent yn cynnwys *Honey We're Killing the Kids* (ar rôl rhieni yn arferion bwyta afiach eu plant, gydag arddangosfa gysylltiedig yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth); *Spendaholics* (ar ddyled bersonol); a *Dog Borstal* (ar hyfforddi anifeiliaid anwes).

Parhaodd perfformiad BBC Three yn gryf gyda chomedi cartref. Mae *Two Pints of Lager and a Packet of Crisps*, *Tittybangbang*, *Man Stroke Woman*, *Ideal* a chyfres newydd o lwyddiant sefydledig y sianel *Little Britain* yn enghreifftiau da o frwdfrydedd y sianel wrth fynd i'r afael â'r genre anodd hwn sy'n llawn risg. Ymhlith drama gryf roedd y gomedi dywyll *Funland*.

Ailadroddwyd fformat *Flashmob – the Opera* yn llwyddiannus, y tro hwn yn Sheffield gyda fersiwn o hanes Faust wedi'i berfformio yng ngŵydd pobl a oedd yn siopa yng nghanolfan siopa Meadowhall. Recordiodd *Naked City*, cydweithrediad â Chanolfan Celf Gyfoes Baltic ar Tyneside, brosiect yr artist Spencer Tunick i gynnull 1,700 o wirfoddolwyr noeth ar lan y cei a thynnu llun ohonynt.

Gwnaeth BBC Three waith arloesol i ehangu ei chynyrchiadau y tu hwnt i ddarlledu, er enghraifft, drwy ddangos y gyfres newydd o'i chomedi *The Mighty Boosh* am y tro cyntaf ar fand eang drwy bbc.co.uk.

Rhaid canmol llwyddiant cyffredinol y sianel. Fodd bynnag, mae meysydd o bryder. Mae gan y sianel gylch gwaith penodol i apelio i gynulleidfaoedd iau ond mae oedran ei chynulleidfa ar gyfartaledd tuag at ben hŷn yr ystod oedran targed. Mae'r rheolwyr yn bwriadu canolbwyntio o'r newydd ar gynulleidfaoedd iau, a gallai ailbwyslais ar gymryd risgiau a chynyrchiadau gwreiddiol nodedig o ansawdd uchel fod yn allweddol yn hyn o beth.

Ni all y sianel fforddio unrhyw ostyngiad hir dymor yng nghanfyddiadau'r gynulleidfa o'i gwreiddioldeb.

*[3] Cynyddodd nifer yr unigolion mewn cartrefi amlsianel 5 miliwn i 42.5 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*



*The Jitterbug Years*
Olrhain hanes drwy gerddoriaeth: defnyddiodd BBC Four ganeuon cyfoes a deunydd archif i gyflwyno stori Prydain ar ôl y rhyfel – rhan o dymor 'Lost Decade' y sianel yn archwilio diwylliant Prydain o 1945–1955



*Fantabulosa*
Drama i ysgogi'r meddwl: Michael Sheen fel Kenneth Williams yn *Fantabulosa*, portread cymhellgar yn datgelu ochr dywyllach y digrifwr clodwiw

# 127 awr

o raglennu addysgol newydd wedi'i ddarlledu ar BBC Three yn 2005/2006

BBC FOUR

**Cylch gwaith**
**Nod BBC Four yw gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n chwilio am fwy o ddyfnder ac amrywiaeth yn yr hyn y maent yn ei wylio. Gan anelu at yr uchelgais mai hi fydd y sianel deledu orau o ran cyfoeth deallusol a diwylliannol ym Mhrydain, mae BBC Four yn anelu at gydbwyso cymysgedd arbennig o raglenni dogfen, perfformiad, cerddoriaeth, ffilm a rhaglenni nodwedd cyfoes fel dewis amgen boddhaol i raglennu mwy prif ffrwd.**

Mae cynulleidfaoedd BBC Four yn parhau i gynyddu. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed mewn cartrefi amlsianel oedd 6.1% neu 2.6 miliwn o bobl (4.8%/1.8 miliwn yn 2004/2005)[4].

Mae BBC Four wedi parhau i wella ei henw da am gynyrchiadau gwybodus, deallus a heriol digywilydd yn gyson. Awgryma ymchwil y BBC i gynulleidfaoedd fod gwylwyr BBC Four o'r farn bod y sianel yn well na'i holl gystadleuwyr yn y DU, yn cynnwys sianelau daearol a sianelau digidol, o ran ansawdd uchel ei rhaglenni.

Mae'r sianel wedi cael effaith drwy ddatblygu dramâu unigol ar themâu a phersonoliaethau cyfoes. Roedd *Fantabulosa* yn bortread llwm a chofiadwy o'r digrifwr Kenneth Williams yn seiliedig ar ei ddyddiaduron, a chafwyd dramateiddiad tryloyw a diddorol o'r treial yn 1963 am anlladrwydd yn nofel D H Lawrence yn *The Chatterly Affair. The Quatermass Experiment* oedd y ddrama fyw gyntaf ar deledu'r BBC ers sawl blwyddyn. Daeth *A View from a Hill* ag ias foddhaus i gyfnod y Nadolig gydag addasiad clodwiw o glasur ysbrydion M R James.

Mae rhaglenni dogfen yn un o nodweddion cryfaf y sianel. Denodd maes *Storyville* (a rannwyd gyda BBC Two) ganmoliaeth haeddiannol am ei gomisiynu eclectig. Yn ogystal â *Storyville*, roedd rhaglenni dogfen cofiadwy yn cynnwys *Monsoon Railway*, portread atgofus o reilffordd Assam a Bengal a rhai o'r bywydau sy'n gysylltiedig â hi.

BBC Four yw cartref ffilm ryngwladol ar y BBC. Dangosodd y sianel dair rhan *Heimat* (cronicl coffaol Edgar Reitz o hanes yr Almaen fodern) a pharhaodd ei hymrwymiad i Wobrau Sinema'r Byd. Mae hyn ochr yn ochr â'i chefnogaeth i Wobrau Grierson am raglenni dogfen a Gwobr Samuel Johnson am raglenni nad ydynt yn ffuglen fel rhan o ymwneud ehangach y sianel â'r genres hyn.

Mae'r sianel yn ceisio ehangu ei hapêl tra'n bodloni ei chylch gwaith mewn sawl ffordd, gan gynnwys comedi arloesol, a dangosodd ail gyfres y rhaglen ddychan wleidyddol graff *The Thick of It* yr hyn y gellir ei gyflawni yn y maes hwn. Mae'r sianel hefyd yn ceisio cynyddu ei heffaith gyda thymhorau o gynyrchiadau cysylltiedig. Roedd 'The Lost Decade' yn gyfres o raglenni dogfen a oedd yn agoriad llygad a archwiliodd wahanol agweddau ar fywyd ym Mhrydain rhwng 1945 ac 1955; ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd rhyw, sensoriaeth, bwyd, gwleidyddiaeth, chwaraeon, hamdden a diwylliant. Adeiladodd tymor Bob Dylan ar y momentwm a grëwyd gan raglen ddogfen Scorsese ar BBC Two mewn ffordd llawn dychymyg gan ddefnyddio casgliad o ffilmiau newydd ac archif. Dathlodd *Folk Britannia* gerddoriaeth draddodiadol y DU drwy gyfres gysylltiedig o raglenni dogfen, rhaglennu archif a pherfformiadau byw.

[4] *Cynyddodd nifer yr unigolion mewn cartrefi amlsianel 5 miliwn i 42.5 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Teledu



*Jonny's Hotshots*
Annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon: chwaraewr rhyngwladol Lloegr Jonny Wilkinson yn rhannu cyfrinachau rygbi gyda gwylwyr CBBC

56%

o blant 7-15 oed ym Mhrydain Fawr – y nifer a ymwelodd â bbc.co.uk/CBBC ym mis Rhagfyr 2005

**Cylch gwaith**
**Nod Sianel CBBC yw cynnig amserlen gymysg arbennig i blant 6 i 12 mlwydd oed, gan eu hannog i ganfod mwy am ddiddordebau sydd ganddynt eisoes neu eu hysbrydoli i ddatblygu rhai newydd a'u helpu i ddeall a manteisio ar y byd o'u hamgylch. Rhydd y sianel bwyslais ar annog cyfranogiad.**

Parhaodd cynulleidfaoedd Sianel CBBC i gynyddu. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed mewn cartrefi amlsianel oedd 6.0% neu 2.6 miliwn o bobl (5.6%/2.1 miliwn yn 2004/2005)[5].

Erys natur arbennig y sianel ynghlwm â'i hansawdd uchel, ei hamrywiaeth (gan gynnwys newyddion, addysg a drama), ei lefel isel o ailddarlledu, y ffaith nad oes hysbysebion arni a'i chyfran uchel o ddeunydd gwreiddiol o ansawdd a gynhyrchir yn y DU drwy gydol y dydd. Yn ystod y flwyddyn, darlledwyd mwy o gynnwys newydd o ansawdd, yn enwedig drama, am y tro cyntaf ar Sianel CBBC – a CBeebies – yn hytrach nag ar BBC One neu BBC Two.

Mae arddull gyflwyno'r sianel yn fywiog ac yn egnïol ac mae'n gweithio'n galed i fod yn ymwybodol o ofynion ei chynulleidfaoedd. Yn adroddiad y llynedd, nodwyd gennym yr amheuon a godwyd gan yr Athro Patrick Barwise yn ei adolygiad annibynnol o'r sianel a gomisiynwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o ran tôn llais Sianel CBBC, a gofynnwyd i'r rheolwyr ymateb yn ffurfiol i ni mewn perthynas â hynny. Cyflwynwyd eu hadroddiad i ni ym mis Gorffennaf 2005.

Nododd y rheolwyr rai problemau penodol gyda chyflwynwyr amhrofiadol (er iddynt nodi ei bod yn ofynnol i'r sianel ddatblygu talent newydd ar yr awyr) gan dderbyn o bryd i'w gilydd fod y sioe bore Sadwrn *Dick and Dom in da Bungalow* wedi croesi terfynau chwaeth. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd ganddynt fod rheolaethau priodol ar waith, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu, canllawiau golygyddol a fforymau adolygu rhaglenni. Bu i ni gymeradwyo eu hymagwedd at dôn ac arddull gyflwyno gan gefnogi perfformiad cyffredinol y sianel, a fu'n ychwanegiad llwyddiannus iawn i bortffolio'r BBC sy'n cael adborth cadarnhaol iawn gan rieni.

Athroniaeth Sianel CBBC yw "dysgu drwy hwyl". Mae elfen o ddysgu a datblygu sgiliau bywyd yn treiddio i ran helaeth o'i chynyrchiadau, gan gynnwys drama a rhaglenni ffeithiol. Mae *Blue Peter*, *Newsround* a *Short Change* yn enghreifftiau o ochr ddifrifol y sianel. Mae *Short Change* yn ymdrin â materion defnyddwyr ac yn galluogi plant i wneud dewisiadau hyddysg. Bellach mae gan *Newsround* elfen ymchwiliol, sy'n archwilio problemau megis yfed dan oed yn y DU. Lansiwyd gwefan 'Newsround Press Pack', gan roi cyfle i blant ddysgu hanfodion newyddiaduraeth a chyhoeddi eu gwaith, a bu'r safle yn boblogaidd iawn. Yn ogystal, lansiodd y sianel Sportsround, sioe chwaraeon wythnosol sy'n annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn *Jonny's Hotshots*, cynhaliodd chwaraewr rygbi rhyngwladol Lloegr Jonny Wilkinson feistr ddosbarthiadau rygbi i grŵp o blant. Mae'r amserlen hefyd yn cynnwys *Class TV*, bloc pedair awr o raglenni i ysgolion a ddarlledir bob dydd yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor. Bwriedir i'r rhaglenni hyn gael eu defnyddio'n bennaf yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn canolbwyntio ar y cwricwlwm ysgol.

Mae sianelau digidol newydd sy'n cael eu lansio wedi'u hanelu at garfanau o gynulleidfa graidd CBBC yn golygu y gallai fod angen i'r sianel weithio'n galed i gynnal ei chyrhaeddiad yn ystod y cyfnod sydd i ddod. Fodd bynnag, ar sail tystiolaeth y flwyddyn ddiwethaf, mae mewn sefyllfa dda i ymateb i'r her honno, ac mae'r rheolwyr wedi dechrau ar raglen o adfywio'r sianel, gan gynnwys dod â rhai rhaglenni hirsefydledig a llwyddiannus i ben.

*[5] Cynyddodd nifer yr unigolion mewn cartrefi amlsianel 5 miliwn i 42.5 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*



*Charlie and Lola*
Dysgu am fywyd: llyfrau poblogaidd Lauren Child i blant am gydberthnasau teuluol, wedi'u cyflwyno mewn cyfres newydd wedi'i hanimeiddio yn y DU ar CBeebies

**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau Teledu'r BBC 2005/2006 (% unigolion)**

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| Teledu'r BBC | 85.3 | 86.6 |
| BBC One | 79.7 | 81.9 |
| BBC Two | 59.1 | 61.4 |
| BBC Three | 11.8 | 9.4 |
| BBC Four | 4.5 | 3.0 |
| Sianel CBBC | 4.2 | 3.5 |
| CBeebies | 6.4 | 5.8 |
| BBC News 24 | 5.4 | 4.2 |
| BBC Parliament | 0.2 | 0.2 |

Ffynhonnell: BARB. TNS/Infosys, 4+ oed Pob Cartref, cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud 2005/2006

## Cylch gwaith

**Nod CBeebies yw cynnig cymysgedd o raglenni newydd a nodedig o ansawdd uchel a gynhyrchir yn y DU i addysgu a diddanu cynulleidfa ieuengaf y BBC. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o raglennu wedi'i gynllunio i annog dysgu drwy chwarae i blant pump oed neu iau, mewn amgylchedd cyson ddiogel.**

Gostyngodd cyrhaeddiad CBeebies ychydig yn ystod y flwyddyn, er i nifer y bobl a oedd yn gwylio'r sianel gynyddu o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cartrefi a all dderbyn y sianel[6]. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed mewn cartrefi amlsianel oedd 8.8% neu 3.7 miliwn o bobl (9.0%/3.4 miliwn yn 2004/2005). Gan fod llawer o'r gwylwyr o dan bedair oed, mae'r ffigurau hyn yn tanamcangyfrif gwir faint y gynulleidfa.

Athroniaeth y sianel yw "dysgu drwy chwarae" ac mae'r holl raglennu, fwy neu lai, yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cyfnod Sylfaen y Llywodraeth. Ymhlith rhaglennu newydd eleni roedd *Lazytown*, yn annog iechyd a ffitrwydd, a *Charlie and Lola*, animeiddiad newydd o'r DU sy'n edrych ar gydberthnasau teuluol drwy lygaid plentyn – cynhyrchiad swynol a gwreiddiol. Adferwyd *Muffin the Mule*, gan helpu ei gwylwyr i ddeall gwerth ffrindiau a gweithio fel tîm. Ymhlith y cyfresi cryf a ddychwelodd roedd *Boogie Beebies* (dawnsio a chanu); *The Roly Mo Show* (drama a straeon); a *Tweenies* (sgiliau cymunedol a chymdeithasol).

Gwasanaeth rhyngweithiol CBeebies yw'r gwasanaeth rhyngweithiol gan y BBC a ddefnyddir fwyaf ond un, sef y gwasanaeth Newyddion, ac mae'r sianel yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o fanteisio ar bosibiliadau addysgol prosesau ar-lein. Cynlluniwyd gwefan *Something Special* a'r rhaglenni cysylltiedig i helpu plant ag anawsterau dysgu. Ategir yr iaith a ddefnyddir yn y rhaglenni gan arwyddion a symbolau Makaton, sydd wedi'u cynllunio i blant yng nghamau cynnar datblygu iaith eu deall ac maent yn cael eu cydnabod fel ffordd effeithiol o feithrin sgiliau cyfathrebu pobl ag anawsterau dysgu.

Mae rhieni yn cydnabod llwyddiant CBeebies gan nodi'n rheolaidd mai hi yw'r sianel orau i blant. Fodd bynnag, er mai hi yw arweinydd y farchnad o hyd o ran yr holl sianelau i blant, mae'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn ystod y flwyddyn dan sylw yn arwydd clir ei bod yn dechrau wynebu problemau mewn byd digidol cynyddol gystadleuol. Mae rhai o'i rhaglenni wedi cyrraedd diwedd eu hoes greadigol ac mae angen dybryd i adfywio'r portffolio. Mae'r rheolwyr wedi datgan eu bod yn ymwybodol o'r mater yn eu *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* a nodwn eu hymrwymiad i ddarparu mwy o gynnwys i'r ystod oedran hŷn o blith gwylwyr CBeebies.

[6] *Cynyddodd nifer yr unigolion mewn cartrefi amlsianel 5 miliwn i 42.5 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Radio

## Trosolwg

Mae'r tirlun radio yn parhau i newid ar gyflymder aruthrol, gyda'r sector masnachol yn dod at ei gilydd, a ffyrdd newydd o wrando yn prysur ledaenu. Yn gynyddol, mae cynulleidfaoedd iau yn gwrando drwy lwyfannau digidol, gan ddisgwyl cael cynnig deunyddiau gweledol ategol yn ychwanegol at y gerddoriaeth, ac mae Radio'r BBC wedi dechrau arbrofi gan ddefnyddio teledu rhyngweithiol. Mae hefyd wedi ehangu ei dreial pod-ddarlledu – caiff y treial hwn ei gynnwys yn y Prawf Gwerth Cyhoeddus a gymhwysir i'r BBC iPlayer.

Ar y cyfan, erys perfformiad Radio'r BBC yn gryf – yn wir, mae ei gynyrchiadau mwyaf poblogaidd yn denu cynulleidfaoedd ar yr un raddfa â sioeau teledu poblogaidd. Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn gadarn, er bod y darlun yn amrywio ar draws y portffolio a bod poblogrwydd cynyddol cerddoriaeth wedi'i lawrlwytho yn bygwth cyrhaeddiad i wrandawyr iau a all gael eu cerddoriaeth o leoedd eraill heblaw'r radio. Mae gorsafoedd digidol yn unig y BBC yn llwyddiannus ar y cyfan ac maent yn dechrau gwneud cyfraniad i gyrhaeddiad cyffredinol Radio'r BBC. Cytunwyd gennym ar gylch gwaith newydd i BBC Asian Network i ymdrin â rhai o'r problemau a wynebwyd ganddo.

Buom bob amser o'r farn bod eu natur arbennig wrth wraidd cylchoedd gwaith Radio 1 a Radio 2. O dan y system lywodraethu bresennol, credwn ein bod wedi llwyddo i sicrhau bod y rheolwyr wedi cyflwyno cynyrchiadau arbennig i'r ddau rwydwaith. Gan ddefnyddio'r systemau sydd ar gael i'r Ymddiriedolaeth, credwn y bydd yn haws cynnal y sefyllfa hon – a darparu mwy o fesurau perfformiad gwrthrychol yn hyn o beth.




*Sunday Surgery*
Hyrwyddo rhyw mwy diogel: teithiodd *The Radio 1 Sex Tour*, cydweithrediad gyda'r Brifysgol Agored, ledled y DU gan ymchwilio i agweddau rhywiol fel rhan o *Sunday Surgery* Radio 1 – yma, yn Londonderry, gyda Kemal o *Big Brother*



*One Big Weekend*
Cerddoriaeth ar daith: Zane Lowe, un o gyflwynwyr *Big Weekend* Radio 1 yn Sunderland, yn mynd â'r gerddoriaeth newydd orau i ardal a gaiff ei diystyru'n aml gan y gwyliau mawr

# 356

o sesiynau newydd a pherfformiadau *Live Lounge* wedi'u darlledu ar Radio 1 yn 2005/2006

BBC RADIO 1

## Cylch gwaith

**Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth cyffrous, o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc. Mae'n ymrwymedig i chwarae'r gerddoriaeth newydd orau a chyflwyno amrywiaeth cynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a darllediadau o wyliau. Nod y rhwydwaith yw cwmpasu holl genres arwyddocaol cerddoriaeth ifanc gyda rhestr chwarae eang a thîm amrywiol o DJs arbenigol. Mae hefyd yn cyflwyno darllediadau llafar wedi'u teilwra gan gynnwys newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori, gyda gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol integredig.**

Mae Radio 1 yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi'r BBC i gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc ac mae llwyddiant yr orsaf yn hanfodol i lwyddiant Radio'r BBC yn gyffredinol. Rydym yn falch bod y strategaeth newydd a gymeradwywyd gennym ar gyfer Radio 1 yn 2003 yn parhau i ddwyn ffrwyth. Mae'r orsaf wedi gwyrdroi'r gostyngiadau blynyddol mewn cynulleidfaoedd a gofnodwyd rhwng 2000 a 2003. Yn 2005/2006, roedd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud Radio 1 i oedolion 15+ oed ar gyfartaledd yn 10.2 miliwn o bobl neu 20.6% (10 miliwn/20.4% yn 2004/2005)[1].

Cyflawnwyd hyn heb unrhyw ostyngiad yn ymrwymiad Radio 1 i amserlen arbennig gydag ymrwymiad cryf i gerddoriaeth arbenigol, cerddoriaeth o'r DU, cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw. Er mwyn sicrhau bod ei natur arbennig yn cael ei chynnal, mae Radio 1 yn monitro ei darllediadau yn barhaus ac yn ogystal, caiff Radio 1 a Radio 2 eu monitro gan asiantaeth allanol am wythnos sampl ddwywaith y flwyddyn i asesu eu natur arbennig – yn erbyn ei gilydd ac yn erbyn gorsafoedd masnachol allweddol. Mae'r Uned Lywodraethu wedi astudio canfyddiadau'r asiantaeth allanol sy'n dangos bod Radio 1 yn dal gafael ar amserlen arbennig. O gymharu â gorsafoedd masnachol allweddol, roedd darllediadau Radio 1 yn ystod y dydd (sy'n cynnwys amseroedd gwrando brig) yn cynnwys llawer mwy o ganeuon newydd a llai o draciau yn cael eu hailadrodd, cyfran uwch o gerddoriaeth newydd gan unigolion a grwpiau o'r DU ac ymrwymiad llawer uwch i gerddoriaeth fyw. Rydym yn gadarn o'r farn y dylid cynnal y natur arbennig hon, gan gynnwys yn ystod oriau brig, ac y dylid lleihau unrhyw achosion o orgyffwrdd â Radio 2 i'r eithaf.

Mae'r orsaf wedi ehangu ystod ac amrywiaeth ei digwyddiadau byw. Roedd *Big Weekend* Radio 1 o Sunderland yn arbennig o nodedig, gan gyflwyno'r goreuon o blith cerddoriaeth newydd i ardal sydd wedi'i thanwasanaethu.

Mae cyflwynwyr cryf yn un o ffactorau allweddol llwyddiant Radio 1 ac mae'r grŵp a gasglwyd ynghyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sail i amrywiaeth a chryfder creadigol yr orsaf. Helpodd cyflwynwyr fel Zane Lowe (a gydnabuwyd eleni gyda Gwobr Aur Sony) i ddenu gwrandawyr i gerddoriaeth newydd. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod ymwybyddiaeth o rai rhaglenni arbenigol yn isel a nodwn ymrwymiad y rheolwyr i fynd i'r afael â hyn yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni*.

Er y bydd cerddoriaeth bob amser yn greiddiol i Radio 1, mae cyfran sylweddol o'r darllediadau wedi'i neilltuo i eitemau llafar. Mae *Newsbeat*, sy'n darparu newyddion a dadansoddiadau o'r DU ac yn rhyngwladol wedi'u teilwra'n arbennig i gynulleidfa ifanc, yn parhau â'i waith ardderchog i gyflwyno gwerthoedd golygyddol y BBC i gynulleidfa y mae'r BBC yn ei chael hi'n anodd ei chyrraedd drwy sianelau eraill. Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol, darlledodd *Newsbeat* dair rhaglen estynedig arbennig gydag arweinwyr y pleidiau.

Mae'r orsaf hefyd yn parhau i gynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol effeithiol. Roedd *The Radio 1 Sex Tour* yn ymgais uchelgeisiol i fynd i'r afael ag anwybodaeth ymhlith pobl ifanc o ran iechyd rhywiol. Darlledodd yn fyw o Wrecsam, Glasgow, Sunderland a Londonderry, gan gynnwys cynulleidfaoedd byw, gwesteion arbennig, cyfraniadau gan wrandawyr drwy negeseuon testun, ebost a galwadau ffôn, a dadl ystafell sgwrsio fyw ar-lein. Cefnogodd y Brifysgol Agored y daith gyda chyrsiau ar-lein byr. Roedd *Don't Panic* yn ymgyrch tair wythnos o hyd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod canlyniadau arholiadau gan gynnig help a chyngor arbenigol. Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn cydweithrediad â llinell gymorth yr Adran Addysg a Sgiliau. Derbyniodd yr Adran bron i 12,000 o alwadau a nodwyd Radio 1 fel y prif reswm dros ffonio.

Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu Radio 1 yw poblogrwydd cynyddol cerddoriaeth a gaiff ei lawrlwytho sy'n rhoi lleoliad heblaw radio i bobl gael gafael ar y gerddoriaeth y maent am ei chlywed. Mae'r orsaf yn arbrofi â'i harlwy digidol ei hun fel rhan o dreial pod-ddarlledu'r BBC. Am y tro cyntaf, gellir cael gafael ar gynnwys drwy ffonau symudol ac arbrofwyd hefyd â deunydd gweledol i ategu'r arlwy ar yr awyr.

[1] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Radio



*Live and Exclusive*
Llwyfannu'r dalent ryngwladol orau: y canwr-gyfansoddwr Motown enwog Stevie Wonder yn perfformio yn Abbey Road Studios ar gyfer cyfres *Live and Exclusive* Radio 2

**50**

oed gwrandawyr Radio 2 ar gyfartaledd

## Cylch gwaith

**Nod BBC Radio 2 yw cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth i wrandawyr, gyda chefnogaeth i artistiaid o Brydain; cerddoriaeth fyw, drwy gyngherddau a sesiynau stiwdio; a chyfansoddi caneuon. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnig newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, comedi, darlleniadau, allbwn crefyddol a gweithredu cymdeithasol, wedi'u cynllunio i apelio at gynulleidfa eang.**

Mae cynulleidfa Radio 2 wedi gostwng ychydig, ond hi yw'r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yn y DU o hyd gyda chyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 13.1 miliwn o bobl neu 26.5% yn 2005/2006 (13.3 miliwn/27.2% yn 2004/2005)[2]. Nodwn ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i barhau i geisio denu cynulleidfa fwy amrywiol o ran ei hethnigrwydd drwy ddewis o bynciau, cyfranwyr a chyfweliadau.

Rydym yn ymrwymedig i gynnal natur arbennig Radio 2. O ran darllediadau cerddoriaeth yr orsaf, mae ei natur arbennig yn bennaf cysylltiedig ag ehangder y gerddoriaeth – cynigir dros 20 genre o gerddoriaeth, gan gynnwys roc, pop, soul, gwlad, jazz, gwerin, band pres a theatr gerddorol – a'i hymrwymiad i gerddoriaeth fyw, yn bennaf o'r DU, drwy'r amserlen. Caiff Radio 2 ei monitro gan asiantaeth allanol am wythnos sampl ddwywaith y flwyddyn i asesu ei natur arbennig. Mae'r Uned Lywodraethu wedi astudio canfyddiadau'r asiantaeth allanol sy'n dangos bod gan ddarllediadau Radio 2 yn ystod y dydd (sy'n cynnwys amseroedd gwrando brig) lawer mwy o draciau unigol nag unrhyw orsaf sampl arall, fod ganddi gyfradd ailadrodd llawer is, a'i bod yn chwarae cyfran uchel iawn o draciau nas chwaraewyd ar unrhyw orsaf arall. Roedd achosion o orgyffwrdd rhwng traciau â Radio 1 yn isel iawn. Chwaraewyd dros 50 o draciau byw – prin iawn oedd y gerddoriaeth fyw gan y gorsafoedd nad oeddent yn rhan o'r BBC, os o gwbl. Credwn y dylid cynnal y natur arbennig hon ac y dylid lleihau unrhyw achosion o orgyffwrdd â Radio 1 i'r eithaf. Bydd cyflwyno Trwyddedau Gwasanaeth yn rhoi sicrwydd pellach y cynhelir natur arbennig yr orsaf.

Ymhlith darllediadau cerddorol nodedig roedd *Stevie Wonder Live and Exclusive* a *Paul McCartney Sold on Song* – recordiwyd ill dau yn Abbey Road Studios. Roedd sesiwn McCartney yn rhan o fenter *Sold on Song* Radio 2 i annog celfyddyd cyfansoddi caneuon, sy'n cynnwys gwefan o gyngor ac arweiniad i gyw gyfansoddwyr. Llwyddodd sesiwn arall a recordiwyd yn arbennig, *David Gilmour Live and Exclusive*, i ddenu 400,000 o lawrlwythiadau ar-lein. Adfywiodd *Radio Ballads* – cymysgedd bwerus o atgofion, eitemau llafar a cherddoriaeth – ffurf a gyflwynwyd gyntaf gan BBC Home Service yn y 1950au a'i defnyddio i gyflwyno materion cymdeithasol gan gynnwys HIV/Aids, dirywiad y diwydiant dur a'r frwydr sectyddol yng Ngogledd Iwerddon mewn ffordd fywiog.

Mae cyfran uchel o ddarllediadau Radio 2, yn eitemau llafar, gan gynnwys rhaglenni dogfen, rhaglennu celfyddydol, comedi a newyddion, materion cyfoes a thrafodaethau o ansawdd uchel, hefyd yn anelu at fod yn arbennig eu natur. Ymhlith darllediadau llafar nodedig roedd *Amadeus*, cyfraniad pellgyrhaeddol gan Radio 2 i ddathlu 250 mlynedd ers geni Mozart. Addaswyd drama Peter Shaffer i greu darlleniad dramatig mewn wyth rhan a ddarllenwyd gan F Murray Abraham, gan ail-greu ei rôl ffilm fel Salieri a enillodd Oscar iddo. Roedd *Malcolm McLaren's Musical Map of London* yn bortread annisgwyl ac atmosfferig o'r brifddinas gan un o sylfaenwyr y diwylliant 'punk'.

[2] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

## Cylch gwaith

**Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol ac mae hefyd yn anelu at ddarparu amrywiaeth eang o jazz, cerddoriaeth y byd, drama a rhaglenni celfyddydol. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig o bob cwr o'r DU a thu hwnt, gan gynnwys cyfraniadau gan grwpiau perfformio'r BBC.**

Mae cynulleidfa Radio 3 yn gymharol sefydlog: cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 2 filiwn o bobl neu 4.1% yn 2005/2006 (2 filiwn/4.2% yn 2004/2005)[3].

Yn olygyddol, bu'n flwyddyn llawn arloesedd, uchelgais a chyflawniad i Radio 3. Dau o uchafbwyntiau'r flwyddyn iddi – yn wir dau o uchafbwyntiau blwyddyn y BBC – oedd *The Beethoven Experience* (yr holl gerddoriaeth dros gyfnod o saith niwrnod) a'r *Bach Christmas* (yr holl gerddoriaeth sydd wedi goroesi dros gyfnod o ddeg diwrnod).

Bu rhywfaint o ddadlau ynghylch *The Beethoven Experience*. Cyflwynwyd y naw symffoni, a chwaraewyd gan Gerddorfa Symffoni'r BBC, i'w lawrlwytho am ddim am gyfnod penodedig ac o ganlyniad gwnaed 1.4 miliwn o lawrlwythiadau – a oedd yn llawer uwch na'r nifer a ragwelwyd. O ganlyniad, cwynodd rhai o fewn y diwydiant recordiau fod y BBC yn difetha eu busnes yn annheg drwy ddarparu cynnyrch am ddim yr oeddynt hwy yn ceisio eu gwerthu. Derbyniodd y rheolwyr er y bu iddynt hysbysu rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant o'r cynllun ac na fynegwyd unrhyw amheuon ganddynt, na chynhaliwyd unrhyw ymgynghori ffurfiol – proses y byddid wedi'i chynnal pe byddent



*Pitch Perfect*
Torri tir newydd: plant ysgol yn cymryd rhan mewn gwaith corawl ac offerynnol newydd a gomisiynwyd gan Radio 3 mewn cydweithrediad â BBC Chwaraeon i ddathlu pêl-droed

# 321 awr

o gomedi wreiddiol wedi'i darlledu ar Radio 4 yn 2005/2006



*The Raj Quartet*
Gwneud drama radio glasur: Prasanna Puwanarajah, Mark Bazely ac Anna Maxwell Martin yn nramateiddiad Radio 4 o nofel Paul Scott, *The Raj Quartet*

wedi llwyddo i ragweld yn gywir nifer y bobl a fyddai'n manteisio ar y cynllun. Nid ailadroddwyd yr arbrawf lawrlwytho yn ystod *Bach Christmas*.

Ni ddylid caniatáu i'r ddadl hon – y dysgwyd gwersi pwysig ohoni – gysgodi uchelgais anhygoel y ddau brosiect eu hunain. Ategwyd y perfformiadau – cymysgedd o recordiadau hanesyddol a chyngherddau a gomisiynwyd yn arbennig – gan sylwebaethau craff gan amrywiaeth eang o lefarwyr, yn gerddorion ac yn bobl nad ydynt yn gerddorion. Fel rhan o'r 'Bach Christmas', gwahoddodd Radio 3 organyddion o bob cwr o'r DU i chwarae'r Toccata a Fugue yn D Leiaf ar 18 Rhagfyr, a derbyniodd dros 500 y gwahoddiad hwnnw. Cynhaliwyd cyngerdd cofiadwy a theimladwy hefyd o Garchar Brixton gyda charcharorion yn canu'r coral o Gantata Bach i nodi cyfnod byr y cyfansoddwr ei hun yn y carchar.

Cydweithiodd y dramodwr Harold Pinter a'r cyfansoddwr James Clarke ar *Voices*, darn a gomisiynwyd gan Radio 3. Roedd y cast yn cynnwys Pinter ei hun. Roedd y darn tywyll ac anesmwyth hwn – geiriau arteithwyr a phobl a gafodd eu harteithio ochr yn ochr â sgôr radioffonig iasol – yn gwbl gymhellgar a digyffaddawd.

Yn gyferbyniad llwyr, roedd *Pitch Perfect* yn ddarn o waith corawl ac offerynnol newydd yn cynnwys nifer fawr o ysgolion a dau glwb pêl-droed, a gomisiynwyd i ddathlu pêl-droed mewn partneriaeth â BBC Chwaraeon. Bu Cantorion y BBC a Cherddorfa Gyngerdd y BBC yn ymarfer gyda'r disgyblion ysgol – gan gynnwys dwy sesiwn enfawr yn Stadiwm Highbury a Stamford Bridge – ar gyfer perfformiad ar 18 Tachwedd fel rhan o noson *Plant mewn Angen*.

Cafodd Proms y BBC flwyddyn arall gref, er gwaethaf yr ymgyrch fomio yn Llundain. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd perfformiadau cyntaf Placido Domingo a Ravi Shankar yn y Proms.

[3] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

## Cylch gwaith

**Cylch gwaith BBC Radio 4 yw defnyddio grym y gair llafar i gynnig rhaglenni sylweddol sy'n synnu, yn ymchwilgar, yn ddadlennol ac yn diddanu. Nod y rhwydwaith yw cynnig newyddion a materion cyfoes manwl ac ystyrlon ac mae'n ceisio denu ac ysbrydoli ei gynulleidfa gyda chymysgedd unigryw o raglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi.**

Mae cynulleidfaoedd Radio 4 yn gymharol sefydlog. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 9.5 miliwn o bobl neu 19.2% (9.4 miliwn/19.3% yn 2004/2005)[4].

Mae Radio 4 yn enwog am deyrngarwch ei wrandawyr ac am eu hawydd i leisio barn pan gynigir newidiadau i rannau o'r amserlen y mae rhai gwrandawyr yn eu gwerthfawrogi'n arbennig. Pan gyhoeddodd y rheolwyr y byddai'r 'UK Theme' (cadwyn o alawon gwerin a gaiff ei chwarae am 5.30am bob dydd) yn dod i ben er mwyn gallu darlledu bwletin newyddion, gwelwyd colofnau golygyddol di-ri mewn papurau newydd, ymgyrch groch i gadw'r gerddoriaeth, ac hyd yn oed cwestiynau yn y Senedd. Ni theimlwyd gennym fod y mater yn ddigon pwysig i gyfiawnhau ymyrraeth gan y Llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae'r ymdeimlad dwys hwn o berchnogaeth gan ei wrandawyr yn golygu fod yn rhaid ymdrin ag unrhyw awydd i foderneiddio'r rhwydwaith gan ddangos gofal a thact arbennig.

Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu ac adfywio unrhyw amserlen, ac mae hyn yr un mor wir am Radio 4 ag am unrhyw ran arall o'r BBC. Mae mentrau arloesol fel y rhaglen coflithoedd wythnosol *Last Word* a chyflwyno slot *Profile* yn rhan o ymgais gyffredinol i sicrhau bod yr orsaf yn ymateb yn well i ddigwyddiadau. Gellir gweld yr un awydd yn yr ymgais i gyflwyno drama gyfoes ag amserlen gynhyrchu gyflym a gwell ymdeimlad o amseroldeb mewn rhaglenni nodwedd.

Fodd bynnag, ar yr un pryd erys sawl un o raglenni blaenllaw cyfarwydd yr amserlen gan barhau i berfformio'n gryf. Dathlodd *The Archers* – y ddrama radio a fu'n darlledu hiraf yn y byd – ei phen-blwydd yn 55 oed ym mis Ionawr 2006.

Newyddiaduraeth – yn brif ffrwd ac yn arbenigol – yw asgwrn cefn yr amserlen o hyd. Yn *Coming Home*, rhan o ddarllediadau'r BBC i ddathlu 60 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, cyflwynodd Charles Wheeler bum dehongliad personol o ystyr yr achlysur. Yn *The Race is On*, adroddodd Peter White yr hanes y tu ôl i gais llwyddiannus Llundain i gynnal y Gemau Olympaidd, gan gynnal trafodaethau helaeth â'r gwneuthurwyr penderfyniadau.

Ar wahân i newyddiaduraeth, erys amrywiaeth amserlen Radio 4 yn un o'i chryfderau mawr. Eleni, er enghraifft, denodd Melvyn Bragg gryn sylw am ei arolwg barn o wrandawyr *In Our Time* i ganfod yr athronydd pwysicaf (gyda Karl Marx yn enillydd annisgwyl). Ymhlith comedi newydd gref roedd *Ed Reardon's Week*, dyddiaduron awdur aflwyddiannus ond nas trechwyd; ymhlith y rhaglenni cyfresol clasurol cofiadwy roedd dramateiddiad coeth o nofel Paul Scott am India yn y 1940au, *The Raj Quartet*; a dechreuodd y rhwydwaith hanes naratif uchelgeisiol a chymhellol mewn 90 rhan o ymerodraeth Prydain, *This Sceptred Isle: Empire*. Ategir y gyfres olaf gan wefan fanwl iawn sy'n cynnwys archif gwerthfawr o hanesion personol gwrandawyr o'r Ymerodraeth.

[4] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Radio



**Buddugoliaeth Olympaidd**
Ar leoliad: cyflwynodd Radio Five Live ddarllediadau helaeth o'r gystadleuaeth i gynnal Gemau Olympaidd 2012 – ac roedd yn Sgwâr Trafalgar pan gyhoeddwyd buddugoliaeth Llundain



***Weekend Business***
Creu newyddion: y teicŵn cyfryngau rhyngwladol Rupert Murdoch yn rhoi cyfweliad estynedig prin i sioe fusnes wythnosol Five Live *Weekend Business*

BBC RADIO FIVE LIVE

**Cylch gwaith**
**Mae BBC Radio Five Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan anelu at gyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd mewn arddull fodern, deinamig a hygyrch. Mae'n anelu at gwmpasu pynciau cenedlaethol a rhyngwladol yn drylwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddadansoddiadau a dadleuon i lywio, diddanu a chynnwys dilynwyr newyddion a chwaraeon o bob oed, gyda phwyslais penodol ar bobl 25 i 44 mlwydd oed. Mae'r rhwydwaith hefyd yn darparu darllediadau cynhwysfawr o ddigwyddiadau byw, wedi'u cefnogi gan weithrediadau casglu newyddion byd-eang y BBC a'i bortffolio o hawliau chwaraeon.**

Gostyngodd cynulleidfaoedd Radio Five Live. Cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 5.9 miliwn o bobl neu 12.0% yn 2005/2006 (6.2 miliwn/12.7% yn 2004/2005)[5].

Cafodd Radio Five Live flwyddyn dda yn olygyddol, o ran ei darllediadau chwaraeon a'i darllediadau newyddion a materion cyfoes. Roedd ei darllediadau o'r ymgyrch fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf yn arbennig o gryf. Roedd yr orsaf wrthi'n cynnal ei rhaglen ffonio i mewn a ddarlledir bob bore yn ystod yr wythnos pan dorrodd y newyddion. Ymatebodd y cyflwynydd, Matthew Bannister, gydag awdurdod a deallusrwydd digyffro wrth iddo dywys y darllediad ar ffurf newyddion treigl a barodd am sawl awr. Mae pob enghraifft o ddarlledu yn ymdrech gan dîm, ond gellir priodoli llwyddiant tîm Five Live y diwrnod hwnnw i berfformiad Bannister. Mae cryfder y rhwydwaith yn amlwg yn y ffaith iddo ddarlledu diwrnod o ddarllediadau aml-leoliad uchelgeisiol a bywiog cofiadwy dim ond y diwrnod cyn hynny o'r cyhoeddiad yn Singapôr o enillydd y gystadleuaeth i gynnal Gemau Olympaidd 2012.

Darlledodd yr orsaf hefyd ohebu cryf o ymgyrchoedd yr Etholiad Cyffredinol, gan gydweithredu'n ddefnyddiol â 1Xtra a'r Asian Network. Cyflawnodd *Weekend Business*, a gyflwynir gan Jeff Randall, gamp nodedig drwy gynnal cyfweliad gyda Rupert Murdoch. Cytunodd Llywydd FIFA Sepp Blatter, nad yw'n aml yn rhoi cyfweliadau hir, byw, eang eu cwmpas, i gael ei gyfweld gan Brian Alexander ar *Sport on Five* – a chafodd y cynnwys sylw ar dudalennau blaen y papurau newydd.

Ymhlith y digwyddiadau chwaraeon nodedig a ddarlledwyd roedd Wimbledon, Cynghrair y Pencampwyr a sylwebaeth Five Live ar Gêm Brawf yr Oval – y gêm a fyddai'n penderfynu enillydd cyfres gyffrous y Lludw. Daeth holl raglenni'r orsaf yn ystod y dydd yn fyw o'r Oval a llwyddodd y darllediadau, a anogodd ryngweithio cryf gyda'r gynulleidfa drwy negeseuon testun ac ebost, i ategu'r darllediadau mwy traddodiadol ar *Test Match Special* ar Radio 4. Mae *Fighting Talk* yn parhau i wella ei enw da am drafodaeth fywiog a diddorol am faterion a digwyddiadau chwaraeon.

Y prif fater i Radio Five Live yw ei dibyniaeth ar y donfedd ganol lle mae derbyniad yn wael mewn rhai rhannau o'r DU. Nodwn ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i wneud mwy o ymdrech i annog y gynulleidfa i wrando drwy gyfrwng llwyfannau digidol.

[5] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

BBC FIVE LIVE SPORTS EXTRA

**Cylch gwaith**
**Estyniad rhan amser o BBC Radio Five Live yw BBC Five Live Sports Extra, sy'n anelu at roi gwell dewis i ddilynwyr chwaraeon. Mae'n darparu gwerth uwch am arian i dalwyr ffi'r drwydded o hawliau chwaraeon sydd eisoes yn eiddo i'r BBC drwy gynnig sylwebaethau amgen i'r rhai a ddarperir ar Five Live.**

Mae Five Live Sports Extra wedi ymsefydlu fel chwaer orsaf werthfawr i Five Live, gan ddarparu gwerth uwch am arian i dalwyr ffi'r drwydded o hawliau chwaraeon presennol y BBC. Nid yw'r BBC yn prynu unrhyw hawliau chwaraeon ychwanegol i'w defnyddio ar Five Live Sports Extra yn unig. Mae ei chynulleidfaoedd yn tyfu: yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 0.47 miliwn o bobl neu 1.0% (0.41 miliwn/0.8% yn 2004/2005)[6].

Mae'r gwasanaeth wedi galluogi'r BBC i ehangu dewis i wrandawyr, er enghraifft drwy barhau i ddarlledu sylwebaethau chwaraeon pan fydd yn rhaid rhoi'r gorau i ddarlledu chwaraeon ar Five Live er mwyn gallu darlledu newyddion sy'n digwydd ar y pryd yn llawn. Mae hefyd yn galluogi'r BBC i gynnig mwy o ddewis o gemau a digwyddiadau i ddilynwyr chwaraeon, er enghraifft gêm wahanol o'r Uwch Gynghrair i'r un a ddarlledir ar Five Live y rhan fwyaf o benwythnosau. Cynigiodd hefyd ddarllediadau di-dor o gemau criced Prawf ac o rowndiau cymhwyso Fformiwla Un.

[6] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*




Darlledu o'r carnifal
Ehangu'r profiad: ehangodd 1Xtra ei darllediadau o Garnifal Notting Hill drwy arbrofi gyda darllediadau teledu rhyngweithiol drwy'r botwm coch

**Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau Radio'r BBC 2005/2006 (% oedolion 15+)**

| | **2005/ 2006** | 2004/ 2005 |
|---|---|---|
| Radio'r BBC | **66.5** | 66.6 |
| BBC Radio 1 | **20.6** | 20.4 |
| BBC Radio 2 | **26.5** | 27.2 |
| BBC Radio 3 | **4.1** | 4.2 |
| BBC Radio 4 | **19.2** | 19.3 |
| BBC Radio Five Live | **12.0** | 12.7 |
| Radio Cenedlaethol/Lleol y BBC | **20.5** | 20.8 |
| BBC Five Live Sports Extra | **1.0** | 0.8 |
| 1Xtra | **0.7** | 0.6 |
| 6 Music | **0.6** | 0.5 |
| BBC 7 | **1.2** | 0.9 |
| BBC Asian Network | **0.9** | 1.0 |
| BBC World Service | **2.6** | 2.6 |

Ffynhonnell: RAJAR, 15+ oed, cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud 2005/2006

## Cylch gwaith

**Nod 1Xtra yw chwarae'r goreuon o blith cerddoriaeth ddu gyfoes, gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o Brydain. Daw 1Xtra hefyd â gwasanaeth newyddion wedi'i deilwra'n arbennig, rhaglenni trafod rheolaidd a rhaglenni dogfen wedi'u comisiynu'n arbennig i wrandawyr, ynghyd â gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged ifanc, yn benodol – er nad yn unigryw – y rheini o leiafrifoedd ethnig.**

Mae cynulleidfaoedd 1Xtra yn tyfu: yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 0.36 miliwn o bobl neu 0.7% (0.31 miliwn/0.6% yn 2004/2005)[7].

Parhaodd hyder, uchelgais ac enw da 1Xtra i gynyddu – a pharhaodd i gyrraedd cynulleidfaoedd y mae'r BBC yn draddodiadol wedi ei chael hi'n anodd iawn eu denu. Mae'n chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth ddu gyfoes, y mwyafrif ohoni yn newydd (hy llai na mis ers ei rhyddhau) a chyfran uchel ohoni yn gerddoriaeth o'r DU. Mae ei darllediadau cerddoriaeth fyw yn elfen arbennig o gryf o fewn yr amserlen, gan amrywio o nosweithiau clwb bach i deithiau stadiwm gan sêr rhyngwladol a digwyddiadau fel Carnifal Notting Hill. Ceir amrywiaeth da o gerddoriaeth arbenigol, gan gynnwys darllediadau estynedig fel 'Hip Hop Weekend'.

Yn ein dau *Adroddiad Blynyddol* diwethaf, mynegwyd pryderon gennym am ansawdd rhai o ddarllediadau llafar 1Xtra. Fe'n calonogir gan y cynnydd da a wnaed yn ystod y flwyddyn dan sylw a nodwn ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i barhau i wella dyfnder ac amrywiaeth rhaglennu llafar. Yn arbennig, mae'r eitem ddogfen yn y rhaglen materion cyfoes a ddarlledir yn ystod yr wythnos, *TX Unlimited*, wedi darlledu newyddiaduraeth arbennig ar amrywiaeth o bynciau sensitif gan gynnwys anorecsia, plant sy'n filwyr yn Affrica a rhes yr angau yn yr UD. Gwnaeth yr orsaf waith defnyddiol yn ei hymgyrch gweithredu cymdeithasol lawn gyntaf, *Between the Sheets*, cyfres mis o hyd o raglenni, cyfweliadau, eitemau nodwedd a rhaglenni dogfen yn archwilio pob agwedd ar iechyd rhywiol.

Roedd cyfraniad yr orsaf at dymor Affrica'r BBC yn uchelgeisiol iawn, gan ddarlledu'n fyw o Dde Affrica, Kenya a Ghana, a defnyddio cerddoriaeth i arwain at bynciau eraill.

Gwnaeth 1Xtra ddefnydd da o'i gwefan, sef y wefan fwyaf boblogaidd o blith gwefannau gorsafoedd digidol y BBC. Mae'n gartref i holl negesfyrddau cerddoriaeth ddu'r BBC – prosiect newydd sy'n anelu at ddod â chymunedau cerddorol ynghyd. Llwyddodd *Taggerz*, drama arloesol wedi'i hanimeiddio ar-lein am grŵp o artistiaid graffiti, i ddenu 200,000 o ddefnyddwyr unigol dros gyfnod o chwe mis. Arbrofodd 1Xtra hefyd â theledu rhyngweithiol – roedd darllediadau o Garnifal Notting Hill ar gael drwy'r botwm coch ar deledu digidol.

*[7] Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Radio



**Curadur y dydd**
Rhoi rhwydd hynt i dalent: canwr Franz Ferdinand, Alex Kapranos gyda DJ BBC 6 Music Nemone. Rhoddwyd cyfrifoldeb i aelodau Franz Ferdinand am yr orsaf am ddiwrnod, gan ddewis cerddoriaeth o arwyddocâd penodol i'r band

**510 awr**

o raglennu materion cyfoes wedi'i ddarlledu ar 1Xtra yn 2005/2006

## Cylch gwaith

**Nod BBC 6 Music yw ymgysylltu â phobl sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd, gan gynnig y gerddoriaeth ddiweddaraf iddynt nad yw'n gerddoriaeth brif ffrwd, traciau cyngerdd a sesiwn newydd a cherddoriaeth o archif sain y BBC. Mae'n canolbwyntio ar gerddoriaeth ac artistiaid nad ydynt yn cael cefnogaeth gref gan orsafoedd radio eraill, ac mae'n ymrwymedig i ddarparu cyd-destun ar gyfer y gerddoriaeth mae'n ei chwarae, drwy newyddion, rhaglenni dogfen a thrafodaethau am gerddoriaeth a chynnwys rhyngweithiol ysgogol.**

Mae cynulleidfaoedd BBC 6 Music yn tyfu. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed oedd 0.32 miliwn o bobl neu 0.6% (0.25 miliwn/0.5% yn 2004/2005)[8].

Mae twf cynulleidfa 6 Music yn cadarnhau ei le o fewn portffolio Radio'r BBC fel gwasanaeth arbennig a werthfawrogir yn fawr gan ei wrandawyr. Mae ei allu i ddenu enwau mawr yn arwydd o'i statws yn y busnes cerddoriaeth ehangach. Cytunodd Franz Ferdinand a Kaiser Chiefs i gymryd cyfrifoldeb am yr orsaf am ddiwrnod – gan ddewis albwm y dydd, dethol sesiynau a thraciau cyngerdd o archif y BBC a chwarae cerddoriaeth a oedd wedi dylanwadu arnynt. Mae rhestr gref yr orsaf o gyflwynwyr – gan gynnwys Phill Jupitus, Steve Lamacq a Tom Robinson – yn ychwanegu at ei hawdurdod. Daw *Freak Zone* gyda Stuart Maconie, sy'n darparu ar gyfer chwaethau mwy arbrofol, â naws eclectig hyddysg i ddarllediadau dydd Sul.

Cafodd yr orsaf gryn lwyddiant gyda rhaglenni arbennig i ddathlu achlysuron arbennig, gan gynnwys pedwar diwrnod o ddarllediadau i ddathlu 30 mlynedd o'r diwylliant 'punk', a diwrnod i goffáu chwarter canrif ers llofruddiaeth John Lennon – gan gynnwys yr unig gyfweliad gyda'i weddw, Yoko Ono, a digwyddiad i ddangos deunydd archif Lennon ar Sgrîn Fawr y BBC yn Lerpwl.

Un mater sy'n peri pryder yw'r diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gynulleidfa, gyda 70% ohoni yn ddynion. Mae'r orsaf yn anelu at apelio at bawb sy'n mwynhau cerddoriaeth, a nodwn ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i ehangu apêl y rhwydwaith, yn arbennig o ran y cydbwysedd dynion/merched o ran gwrandawyr.

[8] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

## Cylch gwaith

**Gwasanaeth radio digidol llafar yw BBC 7 sy'n cynnig comedi, drama a darlleniadau, o archif y BBC yn bennaf. Strwythurir y rhwydwaith o amgylch mathau o raglenni fel bod pobl yn gwybod y bydd math penodol o allbwn bob amser ar gael ar adegau penodol o'r dydd. Nod BBC 7 hefyd yw bod yn gartref i radio llafar i blant, gyda rhaglenni dyddiol byw i blant.**

Mae cynulleidfaoedd BBC 7 yn tyfu a hi yw'r orsaf y gwrandewir arni fwyaf o blith holl orsafoedd digidol yn unig y BBC. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC 7 i oedolion 15+ oed oedd 0.59 miliwn neu 1.2% (0.44 miliwn/0.9% yn 2004/2005)[9].

Archif y BBC sy'n darparu craidd y darllediadau o hyd ac mae'r orsaf wedi dod o hyd i ffyrdd dychmygus o amserlennu hyn er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. Datgelodd tymor Oscar Wilde gyfoeth o waith gan gynnwys drama, ffuglen a llythyrau; cyflwynwyd tymor Alan Bennett gan gynnwys *40 Years On*, *Kafta's Dick* ac *An Englishman Abroad*; cyflwynodd yr actor Bill Nighy ddetholiad o'i amrywiaeth trawiadol o waith radio; a darlledodd yr orsaf ganon llawn gwaith Syr Arthur Conan Doyle.

Yn ogystal â darllediadau o'r archif, mae BBC 7 yn gyfrifol am gomisiynu rhai darllediadau gwreiddiol. Mae comedi newydd yn arbenigedd. Ymhlith Gwobrau Comedi Newydd y BBC roedd chwiliad am dalent digrifwr byw newydd ledled y DU, gyda'r enillwyr yn cael y cyfle i ysgrifennu ar gyfer sioe gomedi radio. Lansiwyd rhaglen drafod hefyd, *Serious About Comedy*. Mae ffuglen wyddonol a ffantasi yn faes lle y mae BBC 7 yn anelu at ddarparu ar gyfer cynulleidfa a danwasanaethir a, chan weithio gyda menter




Gwobr Gomedi'r BBC
Chwilio am dalent newydd: Tom Allen, a ddewiswyd o blith 400 o gystadleuwyr fel Digrifwr Byw Talent Newydd y BBC 2005. Yn wobr, cafodd ef a'r pum digrifwr a gyrhaeddodd y rownd derfynol gyfle i ysgrifennu ar gyfer un o sioeau comedi Radio'r BBC



*The Hype Show*
Gwneud cerddoriaeth arbennig: mae gan DJ Kayper, un o DJs benywaidd mwyaf blaenllaw'r DU, slot wythnosol rheolaidd, *The Hype Show*, ar BBC Asian Network. Ailwampiwyd yr orsaf i gynyddu ei hapêl i Asiaid Prydeinig ifanc

37%

o oedolion wedi gwrando ar y radio drwy deledu digidol (C1 2006)

ystafell awduron y BBC, darlledodd yr orsaf ddeg drama wreiddiol 15 munud gan ddramodwyr o'r DU a oedd yn newydd i radio rhwydwaith cenedlaethol. Darlledwyd dros 20 o ddarlleniadau newydd, a daeth Gŵyl San Steffan yn Ddiwrnod Narnia, gyda dramateiddiad wyth awr o bedair rhan gyntaf *Chronicles of Narnia* C S Lewis. Roedd ei gast o enwogion yn cynnwys Paul Scofield a David Suchet.

Mae'r gwasanaeth i blant wedi parhau i ddatblygu'n dda, gyda chyfleoedd newydd i blant ysgrifennu ar gyfer y radio ac ymddangos ar yr awyr. Denodd cystadleuaeth 'Storyteller' 2,000 o ymgeiswyr a daeth yr enillwyr i'r stiwdio radio i helpu i gynhyrchu'r darlleniadau o'u straeon.

[9] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

BBC ASIAN NETWORK

## Cylch gwaith

**Nod BBC Asian Network yw diddanu a hysbysu Asiaid Prydeinig ifanc gyda chymysgedd gyfoes o gerddoriaeth a deunydd llafar. Er mai'r brif gynulleidfa darged yw Asiaid Prydeinig o dan 35 oed, mae'r rhwydwaith yn anelu at apelio'n ehangach i bawb sy'n rhannu diddordeb mewn materion, cerddoriaeth a diwylliant Asiaidd Prydeinig. Mae'r rhwydwaith yn ymrwymedig i weithredu fel y prif fforwm ar gyfer trafodaethau hyddysg ynghylch newyddion a materion sy'n berthnasol i Asiaid Prydeinig. Mae'n chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth â dylanwad De Asia, gyda phwyslais penodol ar berfformiadau byw ac artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd. Darperir rhaglennu mewn amrywiaeth o ieithoedd o Dde Asia, er mwyn adlewyrchu'r dylanwadau ieithyddol ar Asiaid Prydeinig ifanc.**

Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC Asian Network i oedolion 15+ oed oedd 0.44 miliwn o bobl neu 0.9% (0.5 miliwn/1.0% yn 2004/2005)[10].

Beirniadwyd yr Asian Network rywfaint yn arolwg annibynnol y Llywodraeth o wasanaethau digidol y BBC, ac yn ystod y flwyddyn, datblygodd rheolwyr y BBC gyfres o newidiadau i raglenni a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2006. Newidiwyd cylch gwaith y gwasanaeth i ystyried hyn (nodir y cylch gwaith newydd ar frig yr adran hon).

Prif fyrdwn y newidiadau yw egluro'r brif gynulleidfa darged (Asiaid Prydeinig o dan 35 oed) a phennu tri maes lle y mae'n rhaid gwella perfformiad: uchelgais golygyddol, lefel yr arloesi a sicrhau natur arbennig o gymharu â gorsafoedd radio Asiaidd masnachol.

Ymhlith y mentrau allweddol mae mesurau i gynyddu natur arbennig y darllediadau cerddorol, yn arbennig o fewn rhaglennu yn ystod y dydd, gan gynnwys buddsoddi mewn cerddoriaeth fyw a datblygu talent newydd; trawsnewid lefel y newyddiaduraeth drwy feithrin cysylltiadau cryf gyda BBC Newyddion a phwysleisio straeon gwreiddiol a newyddiaduraeth ymchwiliol; a newid naws ac arddull y rhaglenni iaith er mwyn cynyddu eu hapêl i'r gynulleidfa darged.

Rydym wedi croesawu'r newidiadau hyn, a ddeilliodd o ymgynghori eang â chynulleidfaoedd a staff.

Eisoes ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y newyddiaduraeth yn dod yn fwy uchelgeisiol – er enghraifft, anfonodd yr Asian Network ei ohebwyr ei hun i adrodd ar y daeargryn yn Pacistan. Mae cynyrchiadau eraill yn parhau i wneud yn dda, gan gynnwys yr opera sebon ddyddiol arloesol, *Silver Street*. Byddwn yn adolygu cynnydd yr Asian Network tuag at ei gylch gwaith newydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn nesaf.

[10] *Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed 0.5 miliwn i 49.4 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Cyfryngau Newydd

## Trosolwg

Mae'n edrych yn gynyddol debygol mai gwasanaethau 'yn ôl y galw' fydd dyfodol darlledu – sef darparu rhaglenni a deunydd arall ar adeg, mewn lleoliad ac ar ffurf sy'n gyfleus i gynulleidfaoedd, yn aml gydag elfen ryngweithiol gysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cynhaliodd y rheolwyr dreial mawr o BBC iPlayer arbrofol y BBC, sy'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr weld rhaglenni Teledu'r BBC am hyd at wythnos ar ôl iddynt gael eu darlledu. Bydd y gwasanaeth hwn yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn y byddwn ni neu'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu pa un a ddylid ei gymeradwyo i'w lansio'n llawn ai peidio. Bu datblygiadau newydd hefyd o ran darparu deunydd y BBC i ddyfeisiau symudol fel ffonau a PDAs.

Gwnaeth bbc.co.uk gynnydd da tuag at ail-lunio ei hun i fodloni'r cylch gwaith newydd a thynnach a bennwyd gennym iddo'r llynedd er mwyn sicrhau ffocws cliriach ar gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae BBCi – y gwasanaethau rhyngweithiol mewn testun, fideo a sain sydd ar gael drwy'r botwm coch – yn parhau i ddatblygu. Lansiwyd BBC jam (y Cwricwlwm Digidol gynt).

Mae gan reolwyr y BBC record da o ran partneriaethau gyda chwmnïau'r cyfryngau newydd yn y sector preifat a chroesawn eu hymrwymiad i barhau i ddatblygu partneriaethau o'r fath. Eglurwyd gennym y bydd y Llywodraethwyr, ac yn y dyfodol yr Ymddiriedolaeth, yn rhoi sylw manwl i weithgareddau cyfryngau newydd y BBC er mwyn sicrhau bod y BBC yn gweithredu mewn ffordd sy'n gochel rhag atal gweithgarwch entrepreneuraidd yn y DU yn y sector hwn.




*Coast*

Darparu llwyfannau newydd: Ategwyd *Coast*, y gyfres hanes morol ar BBC Two, gyda chynnwys arloesol a oedd ar gael drwy ffôn symudol i wylwyr a oedd am ddilyn llwybrau'r rhaglen ar droed

### Cyrhaeddiad misol bbc.co.uk, gwasanaethau 24/7 a gwasanaethau teledu datblygedig BBCi (miliynau)

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| bbc.co.uk* | 13.7 | 10.6 |
| Teledu rhyngweithiol BBCi** | 10.7 | dd/g |
| Teledu datblygedig BBCi*** | 3.2 | 3.5 |

Ffynhonnell: *BMRB Access (cyrhaeddiad misol 15+ oed ym Mhrydain Fawr) ** TNS/Astudiaeth Olrhain Teledu Rhyngweithiol (cyrhaeddiad misol oedolion 16+ oed ym Mhrydain Fawr mewn cartrefi lloeren ddigidol, Freeview a chebl digidol. Dim ond ers mis Hydref 2005 y bu'r mesur newydd hwn ar gael) ***BARB, gwylwyr 4+ oed mewn cartrefi lloeren ddigidol. Perfformiad lloeren ddigidol yn unig rhaglenni teledu datblygedig BBCi (ee Gemau Olympaidd y Gaeaf, Sioe Flodau Chelsea)

## Is-adran Cyfryngau Newydd

Mae prosiect Dyfodol Creadigol y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnig newidiadau sylweddol i wasanaethau ar-lein y BBC. Un o'r argymhellion allweddol yw y dylid ail-lansio gwefan y BBC i gynnwys elfen fwy personol, cynnwys clyweledol gwell a mwy o gynnwys wedi'i gynhyrchu gan y defnyddiwr. Bydd angen rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ddod o hyd i gynnwys yn y byd gwasanaethau yn ôl y galw arfaethedig ac mae'r BBC yn datblygu dulliau chwilio a llywio gwell. Yn ogystal, mae'n ystyried creu pwyntiau mynediad hawdd i gynulleidfaoedd drwy byrth band eang ar gyfer meysydd cynnwys allweddol fel chwaraeon, cerddoriaeth, meithrin gwybodaeth, iechyd a gwyddoniaeth. Byddwn yn sicrhau y creffir ar y datblygiadau hyn ac y cânt gymeradwyaeth briodol.

Mae'r byd darlledu yn prysur symud tuag at wasanaethau 'yn ôl y galw' – gan alluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar gynnwys ar adeg, mewn lleoliad ac mewn ffordd sy'n gyfleus iddynt hwy. Un o'r datblygiadau mwyaf diddorol gan Gyfryngau Newydd y BBC yn ystod y flwyddyn dan sylw oedd ei threial o Chwaraeydd Cyfryngau Integredig arfaethedig y BBC neu'r iMP, sydd bellach yn rhan o'r prosiect BBC iPlayer. Mae'n rhoi cyfle i ddefnyddwyr lawrlwytho rhaglenni teledu'r BBC yn ôl y galw am hyd at saith niwrnod ar ôl eu darlledu. Cynhaliwyd y treial, gan ddefnyddio panel o 5,000 o bobl o bob cwr o'r DU, rhwng mis Tachwedd 2005 a mis Chwefror 2006 gan ddefnyddio detholiad o raglenni'r BBC, gan gynnwys operâu sebon, comedi, drama, newyddion a rhaglenni ffeithiol, a chafodd ymateb cadarnhaol iawn.

Cynhaliwyd treial technegol y BBC iPlayer mewn partneriaeth â nifer o weithredwyr rhwydwaith y rhyngrwyd – rhan o'r ymrwymiad gan bbc.co.uk i ddatblygu partneriaethau â'r gymuned ar-lein er mwyn cefnogi arloesedd a thwf yn y farchnad ar-lein drwy rannu dysg y BBC. Mae'r canlyniadau yn cael eu hasesu o hyd gan y BBC a'i bartneriaid.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol, a gyhoeddwyd eisoes, yn dangos bod unigolion ar gyfartaledd wedi gwylio dwy raglen yr wythnos – tua awr o gynnwys, sy'n gyfwerth â 6% o wylio wythnosol cartref nodweddiadol. Y prif reswm dros ei ddefnyddio, yn ôl y disgwyl, oedd dal i fyny ar hoff raglenni, ond, yn arwyddocaol, defnyddiodd llawer o unigolion y chwaraeydd hefyd i wylio cynyrchiadau a oedd yn anghyfarwydd iddynt – fe'i defnyddiwyd gan bron i draean ohonynt i wylio rhaglen nad oeddent wedi clywed amdani erioed. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r BBC iPlayer ddenu cynulleidfaoedd newydd i gynyrchiadau niche.

Mae'r BBC iPlayer yn codi materion polisi sylweddol, a bydd yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad gan Ofcom, cyn y byddwn ni neu'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu pa un a ddylid ei gymeradwyo i'w lansio'n llawn ai peidio.

Mae'r is-adran Cyfryngau Newydd hefyd yn gwneud gwaith arloesol gyda llwyfannau newydd, gan gynnwys cyflwyno cynnwys y BBC i ddyfeisiau symudol.


Er enghraifft, ategwyd cyfres hanes morol poblogaidd BBC Two *Coast* gan gynnwys symudol. Gellid lawrlwytho manylion am 12 o lwybrau cerdded arfordirol fel ffeiliau MP3 i'w defnyddio fel canllaw sain. Yn ogystal, gosodwyd placiau'r BBC ar bwyntiau arfordirol dethol gan nodi rhif y gallai defnyddwyr ffonau symudol ei ffonio i glywed hanes y safle, a oedd weithiau'n cynnwys ailgread dramatig o adegau hanesyddol allweddol.

Enghraifft arall oedd y safle WAP dros dro a grëwyd ar fyrder adeg yr ymgyrch hunan-fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf. Roedd yn cynnig penawdau, gwybodaeth gyswllt frys, y wybodaeth drafnidiaeth ddiweddaraf, sylwadau o safle *Have Your Say* BBC Newyddion – a delweddau o'r adladd. Bu'r safle yn weithredol am 18 diwrnod ac ymddengys iddo ddiwallu angen gwirioneddol – derbyniodd ei dudalennau dros 2.5 miliwn o ymweliadau.

Cynhaliwyd treialon hefyd o'r cysyniad Archif Creadigol – a gynlluniwyd i alluogi talwyr ffi'r drwydded i weld cynnwys dethol o archif y BBC am ddim at ddibenion anfasnachol. Mae'r BBC wedi gweithio gyda darlledwyr eraill i gytuno ar drefniadau trwyddedu cyffredin ar gyfer rhyddhau deunydd.

Roedd rhan o'r treial archif creadigol, *Superstar VJs*, yn gydweithrediad â Radio 1 a 1Xtra, lle y rhyddhawyd 100 o glipiau o raglenni. Gwahoddwyd y 15,000 o bobl a gofrestrodd i ddefnyddio'r deunydd yn ei creawdau eu hunain a'u cyflwyno i gystadleuaeth – gyda'r enillydd yn ymddangos ar wefan Radio 1. Ers hynny, rhyddhawyd amrywiaeth o glipiau o archif BBC Newyddion ac mae deunydd o genres eraill, gan gynnwys gwyddoniaeth a natur, hefyd yn cael ei ryddhau. Anogir defnyddwyr i ychwanegu eu deunydd eu hunain – lluniau, sain a thestun. Mae gan y prosiect botensial amlwg – yn arbennig ym maes addysg – ond mae hefyd yn codi materion polisi sylweddol o ran ei effaith ar gyflenwyr deunydd archif masnachol. Cynhelir Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn y byddwn ni neu'r Ymddiriedolaeth yn ei gymeradwyo i'w lansio'n llawn.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Cyfryngau Newydd




*Jamie Kane*

Cyflwyno cynnwys newydd i gynulleidfaoedd: Mae *Jamie Kane* yn brosiect ffuglennol rhyngweithiol arloesol ar y we wedi'i anelu at ferched ifanc yn eu harddegau – cynulleidfa y gall y BBC ei chael yn anodd i'w chyrraedd gyda chynnwys mwy traddodiadol

**13.4 miliwn**

o ymweliadau â thudalennau gwefan Glastonbury 2005 (19eg Mehefin-2il Gorffennaf 2005)

bbc.co.uk BBC

**Cylch gwaith**

**Nod bbc.co.uk yw bodloni chwe phwrpas y BBC, gyda phwyslais ar werth democrataidd ac addysgol, drwy ddarparu cynnwys arloesol a nodedig, sydd ar gael i bawb. Fel dechreubwynt ar y rhyngrwyd ac fel arweiniad i'r cyfrwng, mae bbc.co.uk yn annog pobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn datblygu cydberthynas ddyfnach â thalwyr ffi'r drwydded ac er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd y BBC.**

Mae defnydd o bbc.co.uk yn parhau i ddangos twf cadarn. Cyfartaledd y cyrhaeddiad misol oedd 13.7 miliwn neu 53% o gynulleidfa ar-lein Prydain yn 2005/2006, ac erbyn diwedd y cyfnod hwnnw roedd wedi cyrraedd 56%. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd o 10.6 miliwn neu 46% yn 2004/2005. Y safle yw'r chweched safle mwyaf poblogaidd yn y DU yn seiliedig ar gyrhaeddiad cynulleidfa unigryw i ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y cartref.

Yn 2004, cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei harolwg annibynnol o wasanaethau ar-lein y BBC, a gynhaliwyd gan Philip Graf. Un argymhelliad allweddol oedd y dylid llunio cylch gwaith newydd, tynnach, wedi'i alinio'n agos â phwrpasau cyhoeddus y BBC, i'r gwasanaethau ar-lein (mae'r cylch gwaith ar frig yr adran hon yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn). Yn ein hymateb i Adroddiad Graf, nodwyd yn glir gennym y dylid cynnwys darparu cynnwys arloesol a nodedig sydd ar gael i bawb fel un o gonglfeini'r cylch gwaith newydd hwn. Fe'n calonogwyd gan y brwdfrydedd a welwyd wrth fynd i'r afael â'r nod hwn yn ystod y flwyddyn dan sylw.


Un enghraifft dda yw *Jamie Kane*. Stori ddirgelwch am ganwr pop ifanc a gaiff ei ladd mewn damwain hofrennydd yw'r 'ffuglen ryngweithiol' hon i ferched ifanc yn eu harddegau. Caiff y naratif ei strwythuro fel gêm – sy'n cymryd pythefnos i'w chwarae – a chaiff y stori ei dadlennu drwy gliwiau mewn negeseuon ebost, negesfyrddau, gwelogiau ffug a galwadau ffôn go iawn. Ategir y stori gan gofnodion ffuglennol am Kane ar safleoedd cerddoriaeth y BBC a detholiad o gerddoriaeth wedi'i chyfansoddi'n arbennig y gellir ei lawrlwytho o wefan 'swyddogol' Jamie Kane ei hun. Mae *Jamie Kane* yn gyflawniad nodedig, o ran ei ddefnydd creadigol o'r fformat gemau fideo a'i soffistigeiddrwydd technegol.

Gwnaeth y BBC ymrwymiad cyhoeddus i gynyddu ei weithgarwch gyda phartneriaid allanol fel rhan o'i genhadaeth ddigidol – gan fanteisio ar allu technoleg ddigidol i gyflwyno cynnwys yn well a galluogi i asedau gael eu rhannu, sydd o fudd i dalwyr ffi'r drwydded ac i bartneriaid y BBC. Enghraifft dda yw'r cydweithredu rhwng y BBC a diwydiant ffilm y DU a arweiniodd at greu'r safle *Film Network* a lansiwyd yn 2005. Mae'r safle yn llwyfan i wneuthurwyr ffilm newydd o Brydain. Mae'n cyhoeddi tair ffilm fer newydd bob wythnos ac yn annog gwylwyr i drafod y darllediadau ac i gyfnewid gwybodaeth a syniadau, gan greu cymuned sy'n cefnogi diwydiant ffilm y DU ac yn meithrin talent newydd. Gellir defnyddio'r *Film Network* hefyd drwy ddyfeisiau symudol – gall defnyddwyr weld ffilmiau byr iawn wedi'u creu'n arbennig ar gyfer ffonau symudol. Yn yr un modd, mae safle newydd arall, *Comedy Soup*, yn annog defnyddwyr i greu eu fideos comig a'u hanimeiddiadau eu hunain a'u cyhoeddi ar y safle. Mae bbc.co.uk/comedysoup yn cynnwys deunydd ffynhonnell am ddim o archif y BBC, gan gynnwys delweddau ac effeithiau sain sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Enghraifft arall o gydweithrediad y BBC â phartneriaid yw prosiect BBC Backstage. Drwy'r prosiect, gall gwe ddatblygwyr a dylunwyr y tu allan i'r BBC gael gafael ar gynnwys a rhyngwynebau rhaglenni cymwysiadau (APIs – y protocolau a'r dulliau cyfrifiadurol ar gyfer llunio cymwysiadau meddalwedd) y BBC. Y nod yw hyrwyddo trafodaeth adeiladol ac agored gyda'r gymuned ddatblygu ar-lein gan ddefnyddio cynnwys a systemau'r BBC i ddarparu gwerth cyhoeddus. Mae'r safle yn annog pobl o'r tu mewn a'r tu allan i'r BBC i rannu gwybodaeth, syniadau a phrototeipiau ac mae wedi ysgogi nifer fawr o syniadau newydd. Comisiynwyd un o'r syniadau hyn, *BBC Homepage Archive* ac mae bellach yn weithredol (bbc.co.uk/homearchive). Mae'r safle yn cofnodi sut y mae hafan y BBC yn newid fesul awr a fesul diwrnod; drwy roi parhad i gynnyrch sy'n newid yn barhaus, mae'n darparu cronicl cymhellgar o farn y BBC ar y byd ar unrhyw un adeg benodol.

Datblygiad cysylltiedig fu cyhoeddi Catalog Rhaglenni'r BBC ar-lein – ffynhonnell gwybodaeth anhygoel sy'n cynnwys dros 900,000 o raglenni o'r 1930au hyd heddiw. Gellir chwilio'r safle – sydd ar ffurf arbrofol o hyd ar hyn o bryd – felly gall defnyddwyr weld pa raglenni, gan gynnwys bwletinau newyddion, a ddarlledwyd ar ddiwrnod penodol a phwy a ymddangosodd. Gellir defnyddio'r data hwn mewn ffyrdd creadigol. Mae un datblygwr meddalwedd allanol, er enghraifft, wedi defnyddio data'r catalog i ddylunio ffordd raffigol o gymharu nifer ymddangosiadau dau berson dros gyfnod ar y BBC – dangosydd o enwogrwydd cymharol neu bwysigrwydd yr unigolion o ran newyddion.

Nododd Adroddiad Graf y gallai strwythur rheoli'r BBC ei gwneud hi'n anodd i rywun o'r tu allan gysylltu â'r sefydliad mewn ffordd adeiladol, a gwnaed newidiadau i ymateb i'r feirniadaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys




*RaW*
Hyrwyddo llythrennedd: Ategir *RaW* (Read and Write), sef ymgyrch tair blynedd gan y BBC i annog llythrennedd, gan wefan *RaW* sy'n cynnwys gemau, cwisys, deunydd cefndir a chysylltiadau i weithgareddau lleol




*Comedy Soup*
Dod o hyd i ffyrdd newydd o annog talent: mae gwefan *Comedy Soup* yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr wneud fideos ac animeiddiadau comig gan ddefnyddio deunydd ffynhonnell am ddim o archif y BBC a gweld y canlyniadau wedi'u cyhoeddi ar y wefan

**575,000**

o bobl mewn cartrefi lloeren ddigidol yn defnyddio Proms Interactive 2005 drwy'r 'botwm coch' ar eu teclyn rheoli'r teledu o bell

penodi pennaeth Cyflenwadau Allanol i weithredu fel un pwynt cyswllt i gyflenwyr cynnwys a thechnoleg allanol. Mae bbc.co.uk yn ymrwymedig i gwota gwirfoddol i sicrhau bod 25% o'r gwariant cymwys ar gynyrchiadau allanol o 2006/2007. I gael adroddiad ar gynnydd, gweler tudalen 150.

Rhan bwysig o genhadaeth ddigidol y BBC yw sicrhau mynediad i'r rhyngrwyd i bawb a gwnaed gwaith gwerthfawr yn ystod y flwyddyn i wella mynediad i bobl ag anableddau. Mae'r safle *My Web, My Way* yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng bbc.co.uk a AbilityNet, elusen gyfrifiadureg ac anabledd flaenllaw yn y DU. Mae'r safle yn rhoi cyngor a help i unrhyw un a fyddai'n cael budd o wneud newidiadau i'w porwr, eu system gweithredu neu eu cyfrifiadur er mwyn i'r rhyngrwyd fod yn fwy hygyrch. Rhydd arweiniad ar galedwedd fel bysellfyrddau a llygod amgen, a meddalwedd fel adnabod llais, darllen sgriniau a phroffwydo geiriau.

Caiff math gwahanol o fynediad ei hyrwyddo gan *Action Network*, sy'n darparu ffordd i bobl drefnu ymgyrchoedd cymunedol drwy'r rhyngrwyd. Mae'n rhoi unigolion â phryderon mewn cysylltiad ag eraill yn eu hardal a allai fod â'r un pryderon, gan roi gwybodaeth, cyngor ac arbenigedd cyffredin o ymgyrchoedd llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r safle bellach yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth eang iawn o ymgyrchoedd, gan gynnwys troseddau, tai, trafnidiaeth ac addysg, ac mae'n datblygu gwerth dinesig gwirioneddol. Caiff y risgiau golygyddol posibl eu rheoli'n dda a cheir systemau labelu clir i bwysleisio'r ffaith fod y BBC yn gweithredu fel hwylusydd diduedd ac nad yw'n cymeradwyo unrhyw ymgyrchoedd ei hun. Yn ddefnyddiol, mae'r safle wedi datblygu'n ffynhonnell werthfawr o straeon newyddion i raglenni newyddion lleol a chenedlaethol y BBC.


Mae ein cylch gwaith ar gyfer bbc.co.uk yn cyfeirio at y rôl bwysig y dylai'r gwasanaeth ei chwarae fel dechreubwynt ar y rhyngrwyd ac arweiniad i'r cyfrwng. Yn ei ran o'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* yn 2005/2006, ymrwymodd bbc.co.uk ei hun i ymgyrch fawr i hybu dealltwriaeth o'r cyfryngau digidol, gan weithio gyda phartneriaid, i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhyngrwyd a sut i ddechrau arni. Fel y bu, ni weithredwyd yr ymgyrch benodol hon, er i weithgareddau yn ystod 2005/2006 gynnwys lansio *Webwise/Computer Tutor*, canllaw syml ar y sgrîn i'r rheini sy'n newydd i'r rhyngrwyd a gaiff ei ddefnyddio gan lyfrgelloedd cyhoeddus sy'n cynnal sesiynau dysgu. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu a chyflwyno gwaith y BBC ar ddealltwriaeth o'r cyfryngau i'r is-adran Ffeithiol a Dysgu, ac yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd angen iddynt ystyried y ffordd orau o gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Yn ein hymateb i Adroddiad Graf, addawyd gennym y byddem yn cynnal arolwg mawr o bob rhan o bbc.co.uk bob pum mlynedd gydag arolwg tymor canolig ar ôl tair blynedd. Disgwylir i'r arolwg tymor canolig gael ei gynnal yn 2007 a byddem yn rhagweld mai'r Ymddiriedolaeth fyddai'n cyflawni'r ymrwymiad hwn, gan seilio ei gwaith ar ymchwil fanwl i'r gynulleidfa, ac ymgynghoriadau cyhoeddus a chan ystyried gwaith sy'n mynd rhagddo fel rhan o'r prosiect Dyfodol Creadigol.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Cyfryngau Newydd




**Gemau Olympaidd y Gaeaf**
Rhoi mwy o ddewis: rhoddodd gwasanaeth teledu datblygedig y BBC fwy o reolaeth i wylwyr Gemau Olympaidd y Gaeaf dros yr hyn a wyliwyd ganddynt – gallent ddewis pa ddigwyddiadau i'w dilyn o'r ddewislen ar y sgrîn




***Your Stories***
Annog creadigrwydd y gynulleidfa: mae llwyfan *Your Stories* BBCi ar loeren ddigidol yn cyhoeddi pedair neu bum stori bob dydd a gynhyrchwyd gan wylwyr a chanddynt thema gyffredin

## BBCi

**Cylch gwaith**
**Nod BBCi yw cynnig y newyddion, tywydd, addysg, adloniant a chynnwys gwybodaeth arall diweddaraf drwy'r dydd i'r holl gynulleidfaoedd teledu digidol. Mae'n anelu at wella gwerth cynnig teledu a radio'r BBC i gynulleidfaoedd digidol drwy fideo, sain, lluniau a thestun rhyngweithiol.**

Mae'r BBC yn cynnig dau fath o wasanaeth teledu rhyngweithiol: BBCi 24/7 a BBCi eTV (teledu datblygedig). Mae BBCi 24/7 yn cynnig newyddion, tywydd, chwaraeon, gwybodaeth am raglenni ac ati. Mae'r rhain ar gael drwy'r adeg. Mae BBCi eTV yn cynnig gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rhaglenni teledu a digwyddiadau penodol – er enghraifft, darllediadau ychwanegol o ddigwyddiadau chwaraeon neu brofion gwybodaeth gyffredinol rhyngweithiol.

Cyfartaledd y cyrhaeddiad misol mewn cartrefi teledu digidol ar gyfer BBCi 24/7 oedd 11.05 miliwn yn C1 2006 (nid oes data cymharol ar gyfer 2004/2005 gan ein bod wedi newid y fethodoleg – gweler isod). Cyfartaledd cyrhaeddiad misol BBCi eTV oedd 3.2 miliwn (3.5 miliwn yn 2004/2005). Gwelwyd lefel defnydd uwch yn ystod 2004/2005 o ganlyniad i'r Gemau Olympaidd yn Athen.

Mae cynnwys golygyddol y gwasanaeth rhyngweithiol datblygedig wedi parhau i ddatblygu'n dda. Cymhwyswyd y gwersi a ddysgwyd o lwyddiant nodedig Wimbledon a'r Gemau Olympaidd yn Athen nid yn unig i chwaraeon (Gemau Olympaidd y Gaeaf a Gemau'r Gymanwlad) ond hefyd i newyddion (yr Etholiad Cyffredinol) ac i ddigwyddiadau cerddoriaeth byw fel Live8 a Glastonbury. Rhoddodd y cymhwysiad fwy o ddewis i wylwyr – er enghraifft, gallent weld darllediadau Live8 o'r lleoliadau rhyngwladol eraill neu gemau Wimbledon o amrywiaeth o gyrtiau. Y cymhwysiad mawr arall yw'r fformat 'playalong' sy'n galluogi gwylwyr rhaglenni gwybodaeth gyffredinol a chwis i sefyll profion personol neu gystadlu yn erbyn cystadleuwyr yn y stiwdio drwy deledu rhyngweithiol. Defnyddiwyd y cymhwysiad hwn mewn ffordd llawn dychymyg yn ystod rhaglenni fel *Test the Nation* a chwis y Loteri Genedlaethol *Come and Have a Go*.

Mae BBCi yn cynhyrchu nifer o wasanaethau llwyddiannus i blant. Ar ran CBeebies, mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o straeon a gemau, â phob un ohonynt yn bodloni athroniaeth y sianel o "ddysgu drwy chwarae". Yn ystod y flwyddyn dan sylw, lansiodd BBCi wasanaeth i blant hŷn gyda CBBC Extra. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cynnwys rhyngweithiol, gan gynnwys cystadlaethau talent, ar ffurf cylchgrawn. BBCi hefyd oedd canolbwynt rhyngweithiol yr Etholiad Cyffredinol gan gynnig newyddion, dadansoddiadau a chanlyniadau etholaethau drwy gymysgedd arloesol o fideo, testun a deunydd rhyngweithiol. Mae *Your Stories* yn darparu llwyfan ar BBCi i straeon gan y gynulleidfa. Caiff pedair neu bum stori bersonol eu cyhoeddi bob dydd oll â thema gyffredin. Dim ond drwy loeren ddigidol y gellir defnyddio'r gwasanaeth.

Ni fodlonwyd ymrwymiad i wella amseroedd mynediad ac er mwyn parhau i leihau'r amseroedd mynediad bydd angen buddsoddiad ychwanegol. Cred Cyfryngau Newydd y gellir darparu gwerth cyhoeddus gwell drwy ganolbwyntio buddsoddiad newydd ar feysydd eraill. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gadw amseroedd mynediad ar lefelau 2005/2006 o leiaf.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd Cyfryngau Newydd fethodoleg newydd ar gyfer mesur cyrhaeddiad BBCi 24/7 i gynnwys Freeview a chebl digidol yn ogystal â lloeren ddigidol (yr unig lwyfan lle y gellid gwneud mesuriadau cywir yn flaenorol). Yn dilyn cyfnod dilysu, rhoddwyd y gorau i'r fethodoleg flaenorol. Er nad yw'r fethodoleg newydd yn caniatáu cymariaethau uniongyrchol flwyddyn ar flwyddyn, rydym yn falch bod yr ymagwedd newydd yn fesur cadarnach a dengys arwyddion cynnar dwf mewn cyrhaeddiad dros y chwe mis diwethaf ers cyflwyno'r arolwg olrhain newydd.



BBC jam
Cefnogi dysgu ffurfiol i blant 5 i 16 oed: mae BBC jam yn defnyddio cymeriadau fel Earwax i ddenu'r dysgwyr ieuengaf i'w gynnwys addysgol o ansawdd uchel a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag athrawon a chyflenwyr addysgol o'r sector preifat




Gwelog BBC Newyddion
Cyflwyno'r BBC: rhydd y dyddiadur rhyngrwyd neu'r welog a gedwir gan olygydd gwleidyddol y BBC Nick Robinson gipolwg i gynulleidfaoedd ar y ffordd y llunnir barn ar y newyddion gan annog trafodaethau yn eu cylch

# 5.3 miliwn

o ddefnyddwyr yr wythnos yn ymweld â bbc.co.uk/news ym mis Mawrth 2006

## Cylch gwaith

**Gwasanaeth ar-lein am ddim yw BBC jam sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan anelu at ddarparu adnoddau rhyngweithiol o ansawdd uchel y gellir eu defnyddio gartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned. Wedi'u strwythuro o amgylch elfennau allweddol o'r cwricwlwm ysgol i blant 5 i 16 oed, ei nod yw cynnig adnoddau sy'n ychwanegu gwerth at ddysgu i blant o bob gallu.**

Lansiwyd BBC jam, y Cwricwlwm Digidol gynt, ym mis Ionawr 2006. Mae'n cyflwyno deunydd fideo, sain, gemau ac animeiddiadau o ansawdd uchel drwy'r rhyngrwyd – yn ddelfrydol drwy fand eang – wedi'u cysylltu â meysydd allweddol o'r cwricwlwm ac wedi'u cynllunio i bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol.

Megis dechrau y mae'r gwasanaeth. Fe'i lansiwyd gyda phedwar pwnc, gan ychwanegu atynt i greu portffolio llawn erbyn 2008. Bwriedir iddo gynnwys rhai deunyddiau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Mae'r ymateb i'r pynciau cychwynnol yn cael ei olrhain yn ofalus a chaiff y canfyddiadau eu hystyried wrth gyflwyno'r pynciau eraill.

Mae gan y gwasanaeth botensial addysgol aruthrol ac mae'n ategu safleoedd dysgu eraill y BBC fel *BBC Bitesize* (adolygu) a *BBC Blast* (annog creadigrwydd) yn ogystal â chynnyrch e-ddysgu nad ydynt yn gysylltiedig â'r BBC sydd eisoes ar y farchnad. Datblygir y gwasanaeth gyda'r proffesiwn addysg a darparwyr eraill yn y diwydiant – caiff hanner y gyllideb gynnwys ei gwario gyda chyflenwyr y sector preifat.

Pan gymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y prosiect yn 2003, pennwyd amodau caeth. Rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r amodau hyn yn ogystal â'r amodau a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd pan gymeradwyodd y gwasanaeth. Ceir adroddiad cydymffurfiad ar dudalen 90.

## bbc.co.uk/news

Parhaodd safle newyddion ar-lein y BBC i wella ei enw da. Yn gynyddol, dyma'r pwynt cyfeirio cyntaf amlwg pan fydd straeon mawr yn torri – fel y gwelwyd ar ddiwrnod yr ymgyrch hunan-fomio yn Llundain pan gafodd ymron i 116 miliwn o ymweliadau â'i dudalennau – fwy na dwywaith ei record flaenorol.

Mae'r gwasanaeth, a gaiff ei reoli gan BBC Newyddion, a'i ategu gan newyddion o dimau lleol o bob cwr o'r DU a'r byd, yn parhau i arloesi gyda mentrau fel Diwrnod Irac (gweler ein harolwg o. BBC Newyddion, tudalennau 47 i 48). Mae hefyd yn datblygu deialog werthfawr gyda thalwyr ffi'r drwydded, gan roi cyfle iddynt ryngweithio â gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol o fewn BBC Newyddion. Mae'r gwelogiau, sydd bellach yn cael eu hysgrifennu gan nifer o ohebwyr y BBC, gan gynnwys golygydd gwleidyddol y BBC Nick Robinson, yn enghraifft dda o ymdrechion clodwiw BBC Newyddion i fod yn fwy agored a thryloyw o ran ei ffordd o weithredu.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Newyddion

## Trosolwg

Parhaodd darllediadau BBC Newyddion ar deledu, radio ac ar-lein yn gryf ac yn hyderus, gydag ymatebion nodedig i straeon a oedd yn datblygu a digwyddiadau hysbys gartref a thramor, a darnau coeth o ohebu ymchwiliol.

Fodd bynnag, mae'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio BBC Newyddion, a'u disgwyliadau o'r gwasanaethau a ddarperir, yn newid yn gyflym ac fe'n calonogir gan ymdrechion yr is-adran yn ystod y flwyddyn i ddeall y newidiadau hyn yn llawn fel y gall ymateb yn briodol drwy ei gwaith Dyfodol Creadigol. Mae'r penderfyniad i osod News 24 wrth wraidd gweithrediad newyddion teledu'r BBC eisoes yn dwyn ffrwyth.

Mae natur ddiduedd ac annibyniaeth olygyddol y BBC yn elfennau y mae talwyr ffi'r drwydded yn teimlo'n gryf iawn yn eu cylch, fel yr eglurwyd ganddynt sawl gwaith yn ein gwaith atebolrwydd yn ystod y flwyddyn. Fe'n calonogir gan ymdrech barhaus BBC Newyddion i sicrhau bod ei newyddiadurwyr yn anelu at y safonau uchaf o ran bod yn ddiduedd, yn gywir ac yn annibynnol. Parhaodd ein cyfres o arolygon annibynnol o ddarllediadau am faterion arbennig o ddadleuol (gweler tudalennau 18 i 19) ac rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth fawr yn y maes hwn yn 2006/2007, gyda'r rheolwyr, er mwyn sicrhau na chaiff gallu'r BBC i fod yn ddiduedd ac yn annibynnol ei roi yn y fantol gan rai o'r datblygiadau newydd sy'n rhan o'r chwyldro digidol.




*One Day in Iraq*
Darparu cyd-destun: aeth *One Day in Iraq* y tu ôl i'r penawdau dyddiol gan ddefnyddio teledu, radio ac ar-lein i gyflwyno digwyddiadau diwrnod penodol fel y'u gwelwyd drwy lygaid pobl sy'n byw yn Irac



*Panorama Special – Undercover Nurse*
Ymchwilio i gamdriniaeth: Gwnaeth Margaret Haywood, nyrs gofrestredig, waith cudd i *Panorama* er mwyn ymchwilio i gwynion gan gleifion am amodau ar ward feddygol aciwt mewn ysbyty a oedd yn methu

# 40.5 miliwn

o oedolion yn defnyddio BBC Newyddion drwy wasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC yn 2005/2006

BBC NEWS

## Cylch gwaith

**Nod BBC Newyddion yw mai ef fydd y sefydliad newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd: yn gywir, yn ddiduedd ac yn annibynnol. Mae'n anelu at fod yn deg a dweud y gwir, gan gynnig newyddiaduraeth sy'n archwilio safbwyntiau amrywiol ac yn rhoi llais i amrywiaeth eang o farn er mwyn gwasanaethu pob cynulleidfa. Ceisia BBC Newyddion weithredu er budd y cyhoedd ac ymwrthod â phwysau gan bleidiau gwleidyddol, carfannau pwyso neu fuddiannau masnachol.**

Gostyngodd cynulleidfaoedd cyffredinol BBC Newyddion rywfaint, er bod y darlun yn amrywio'n sylweddol rhwng y cyfryngau. Yn fras iawn, mae cynulleidfaoedd bwletinau newyddion a rhaglenni materion cyfoes teledu'r BBC yn gostwng, er bod cynulleidfaoedd BBC News 24 yn cynyddu; mae cynulleidfaoedd newyddion ar-lein ac yn ôl y galw yn parhau i gynyddu ar gyflymder aruthrol, ac mae cynulleidfaoedd newyddion radio'r BBC yn parhau yn gryf.

Gan ystyried cyfanswm ei holl ddarllediadau teledu, radio ac ar-lein, cofnododd BBC Newyddion gyrhaeddiad wythnosol honedig yn 2005/2006 o 79% o boblogaeth oedolion 15+ oed y DU (81% yn 2004/2005); mae 79% yn cynrychioli 40.5 miliwn o oedolion. Mae'r cyrhaeddiad wythnosol honedig yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr sy'n cofio iddynt weld/clywed/defnyddio BBC Newyddion yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ar gyfer BBC Newyddion (gwasanaethau rhwydwaith yn unig, hy nid gwasanaethau'r gwledydd a'r rhanbarthau) oedd:

- Teledu – Pedair prif raglen newyddion BBC One: 49.1% (50.6% yn 2004/2005); mae 49.1% yn gyfwerth â 22.9 miliwn o oedolion
- Teledu – BBC News 24: 8.6% mewn cartrefi amlsianel (7.8% yn 2004/2005); mae 8.6% yn gyfwerth â 2.8 miliwn o oedolion
- Radio – 47.6% (47.5% yn 2004/2005); mae 47.6% yn gyfwerth â 23.5 miliwn o oedolion
- Ar-lein – 15% o'r boblogaeth (9% yn 2004/2005); mae 15% yn gyfwerth ag 8.6 miliwn o unigolion 4+ oed

O ran newyddion, caiff y flwyddyn ei chofio am ddwy stori yn arbennig: yr ymgyrch hunan-fomio yn Llundain a Chorwynt Katrina ar arfordir Gwlff yr UD. Ar y cyfan, ymatebodd BBC Newyddion yn dda ar deledu, radio ac ar-lein – i'r digwyddiadau cychwynnol ac i'r adladd gwleidyddol a chymdeithasol dilynol. Enillodd *Ten O'Clock News* y BBC wobr Bafta am y Darllediad Newyddion Gorau am ei ohebu ar ddigwyddiadau 7 Gorffennaf. Ysgogodd yr ymgyrch hunan-fomio ddadl olygyddol ynghylch defnydd y BBC o'r gair 'terfysgwr' (gweler Arolwg y Llywodraethwyr o'r amcanion, tudalen 18). Cafwyd darllediadau cryf hefyd o ddigwyddiadau pwysig eraill, gan gynnwys marwolaeth Pab John Paul II, daeargryn trychinebus yn Pacistan a Kashmir a'r broses o ethol arweinwyr newydd i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

O'r digwyddiadau hysbys, mae darllediadau'r Etholiad Cyffredinol yn enghraifft amlwg. Am y tro cyntaf daeth rhifyn arbennig o *Question Time* ag arweinwyr y tair prif blaid wyneb yn wyneb â chynulleidfa stiwdio yn yr un rhaglen. Cyflwynodd cyfweliadau Jeremy Paxman â'r arweinwyr yr arddull heriol hon yn llwyddiannus i BBC One. Defnyddiodd BBC Newyddion yr Etholiad Cyffredinol i gynnal peilot o system newydd ar gyfer mesur effaith newyddiaduraeth y BBC ar y gynulleidfa o ran hyrwyddo dinasyddiaeth hyddysg. Canfu fod 85% o'r ymatebwyr yn cytuno bod "gwylio, gwrando ar neu ddarllen newyddion a materion cyfoes o'r BBC yn fy ngalluogi i ddod yn fwy hyddysg am y digwyddiadau a'r materion sy'n wynebu'r wlad ar hyn o bryd". Cafodd y darllediadau ganmoliaeth gref gan y cyhoedd am eu tegwch a'u natur ddiduedd.

Wynebodd Newyddion Teledu'r BBC benderfyniad golygyddol anodd wrth ohebu ar y protestiadau helaeth gan Foslemiaid yn dilyn penderfyniad papur newydd Danaidd i argraffu cartwnau o'r Proffwyd Muhammad. Y cwestiwn oedd pa un a ddylid dangos y cartwnau ai peidio. Ar y naill law: a ellid cyflwyno'r stori yn llawn heb wneud hynny? Ar y llaw arall: oni fyddai dangos y cartwnau yn peri tramgwydd difrifol i rai gwylwyr? Fel y bu, defnyddiodd bwletinau newyddion ddilyniant cryno o luniau symudol o bapur newydd Ffrengig a oedd wedi ailargraffu'r cartwnau er mwyn rhoi rhyw syniad o gyd-destun cyhoeddi'r cartwnau heb eu dangos yn ormodol heb gyfiawnhad, ac ni ddangosodd bbc.co.uk/news y cartwnau, er iddo ddarparu cysylltiadau â gwefannau papurau newydd a oedd wedi'u cyhoeddi.

Ysgogodd y penderfyniadau hyn sawl cwyn o sawl gwahanol safbwynt. Beirniadodd rhai y BBC am beidio â dangos y cartwnau yn llawn. Beirniadodd eraill y BBC am ddangos unrhyw ran ohonynt. Ymosododd eraill ar y BBC am ei fod – yn eu barn hwy – wedi dangos mwy o bryder tuag at sensitifrwydd Moslemiaid i'r portread o Muhammad nag a ddangoswyd tuag at Gristnogion dros y portread o Grist yn *Jerry Springer – the Opera*. Cawsom adroddiad ar y darllediadau gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror. Gan y gallai'r mater hwn gael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr, ni fynegwyd barn gennym ar y materion canolog.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Newyddion



**Cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr**
Dod o hyd i ffynonellau newyddion newydd: pan ddechreuodd y tân yn nepo storio olew Buncefield, anfonodd gwylwyr lawer o ddelweddau a gymerwyd gan ddefnyddio ffonau symudol – defnyddiwyd rhai ohonynt ar ddarllediadau BBC Newyddion

# 976 miliwn

o ymweliadau â thudalennau bbc.co.uk/news ym mis Gorffennaf 2005

Er yr ymddengys bod chwant y gynulleidfa am raglenni teledu materion cyfoes traddodiadol yn gostwng, mae'r genre hwn yn dal i gael effaith olygyddol ac o ran cynulleidfaoedd. Ar BBC Two, roedd *Children of Beslan* yn ailgread teimladwy a thrist o'r gyflafan mewn ysgol yng Ngogledd Ossetia yn seiliedig ar atgofion y goroeswyr ifanc flwyddyn yn ddiweddarach – cafodd y sgôr gwerthfawrogiad uchaf o blith holl raglenni'r BBC y mis hwnnw ac enillodd sawl gwobr ers hynny. Datgelodd *Panorama Special – Undercover Nurse* fethiannau ysgytiol yn nhriniaeth cleifion oedrannus ar ward aciwt yn un o ysbytai'r GIG yn Sussex. Gwyliodd 4.6 miliwn o bobl y rhaglen, a dderbyniodd gryn sylw yn y wasg ar ôl ei darlledu, a chafodd y sgôr gwerthfawrogiad uchaf erioed gan gynulleidfa i rifyn o *Panorama*. Cafodd *When Satan Came to Town*, rhifyn o *Real Story* yn ymchwilio i honiadau anghyfiawn o gam-drin plant yn satanaidd yn Rochdale, sylw helaeth yn y wasg. Er mwyn cynnal yr ymchwiliad buddiol a phwysig hwn, bu'n rhaid i'r BBC ennill brwydr gyfreithiol i ddiddymu gwaharddeb gagio hirsefydledig. Yn *Facing the Truth* ar BBC Two, daeth yr Archesgob Desmond Tutu â dioddefwyr a chyflawnwyr trais sectyddol Gogledd Iwerddon ynghyd. Bu rhywfaint o ddadlau ynghylch y gyfres hon gan BBC Northern Ireland – cyn dechrau ffilmio, mynegodd nifer o sefydliadau a oedd yn cynrychioli dioddefwyr a goroeswyr amheuon am ddoethineb y fenter. Cyfarfu Archesgob Tutu â hwy yn breifat i drafod eu pryderon cyn recordio'r rhaglenni. Fel y bu, cyflawnwyd y gyfres hon, a oedd yn deimladwy a phoenus i'w gwylio, gydag integredd, sensitifrwydd a gofal clodwiw tuag at y cyfranogwyr.

Ar Radio 4, cydnabuwyd rhagoriaeth gyson y *Six O'Clock News* – awdurdodol, eang ei gwmpas, pwyllog, cryno a chrefftus, a'r safon euraid ar gyfer bwletinau newyddion radio ers blynyddoedd – wrth iddo ennill Gwobr Aur Sony. Rhoddodd cyfres Edward Stourton *A Year in the Arab-Israeli Crisis* gipolwg cymhellgar i'r ffordd y caiff digwyddiadau beunyddiol eu rheoli yn y Dwyrain Canol, yn seiliedig ar gyswllt helaeth â gweinidogion cabinet, diplomyddion a chynghorwyr Israelaidd a Phalestinaidd. Ymhlith uchafbwyntiau eraill o ran materion cyfoes ar Radio 4 roedd cyfres gref, *Koran and Country*, am effaith gyfoes Islam; ac *Analysis Special – How Islam got political* gyda Frank Gardner, archwiliad ystyrlon o wreiddiau'r broses o radicaleiddio rhai o Foslemiaid Prydain.

Roedd *One Day in Iraq* yn ymgais arloesol, o dan arweiniad y tîm Newyddion Rhyngweithiol, i gyflwyno'r hanes y tu ôl i'r penawdau gydag adnoddau cyfun ar-lein, radio a theledu i ohebu ar ddigwyddiadau un diwrnod – 7 Mehefin 2005 – drwy lygaid pobl sy'n byw yn Irac. Ar-lein, cyhoeddwyd dyddiaduron gan amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys myfyriwr meddygol yn Basra, peiriannydd dŵr yn Baghdad a chontractwr Prydeinig yn Mosul, yn ogystal â detholiadau o bapurau newydd yn Irac a gwelogiau. Darlledodd Radio Five Live ddyddiaduron sain o Irac a chafwyd darllediadau ar BBC News 24 hefyd. O'r darnau hynod amrywiol hyn, cafwyd darlun gwybodus o fywyd beunyddiol yn Irac – prosiect gwerthfawr a ychwanegodd liw a dyfnder i'r gohebu dyddiol mewn perthynas â'r stori bwysig hon. Ers hynny, ailadroddwyd yr arbrawf yn llwyddiannus a chynhaliwyd ymarfer tebyg yn Affganistan.

Un datblygiad a allai fod yn arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd twf cyflym y deunydd newyddion a ddarparwyd gan wylwyr a gwrandawyr – sef "cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr". Mae'r datblygiad yn deillio'n bennaf o dechnoleg ffonau symudol, sy'n galluogi cynulleidfaoedd i hysbysu'r BBC am newyddion drwy neges testun, ac yn gynyddol i ddarparu delweddau a chlipiau fideo gan ddefnyddio camerâu ar ffonau symudol. Gellir gweld graddfa syfrdanol twf y ffenomenon o'r ystadegau: yn dilyn yr ymgyrch hunan-fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf, cafwyd tua mil o ddelweddau a chlipiau ebost gan aelodau o'r cyhoedd ddiwrnod yr ymosodiad; ym mis Rhagfyr, yn dilyn y tân enfawr yn nepo storio olew Buncefield y tu allan i Lundain, cafwyd pum gwaith y nifer honno cyn amser cinio.

Mae cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr a "newyddiaduraeth dinasyddion" yn werthfawr fel ffynhonnell o ddeunydd ac fel ffordd o ddadlennu prosesau cynhyrchu newyddion. Ond mae iddo hefyd broblemau moesegol a allai fod yn arwyddocaol. Mae dilysu'r ffynhonnell yn amlwg yn bwysig, yn ogystal â pharhau i fod yn ddiduedd. Mae BBC Newyddion yn llygad ei le wrth groesawu cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr fel ffynhonnell newydd a gwerthfawr o ddeunydd ac fel ffordd o gyflwyno ei brosesau i'w gynulleidfaoedd. Yr her yw llunio fframweithiau golygyddol cadarn sy'n sicrhau y dychwelir y gwerth golygyddol uchaf posibl i dalwyr ffi'r drwydded gan y cyfraniadau hyn ond na chaiff gwerthoedd craidd newyddiaduraeth y BBC, sef bod yn ddiduedd, yn gywir ac yn annibynnol, eu rhoi yn y fantol. Mae materion iechyd a diogelwch pwysig i'w hystyried hefyd – ni ddylai'r BBC annog pobl heb eu hyfforddi i gymryd risgiau diangen er mwyn darparu deunydd i'w fwletinau newyddion.

Mae BBC Newyddion yn wynebu rhai heriau mawr. Er ei fod yn olygyddol gadarn o hyd, bydd yn rhaid iddo weithio'n galed i fodloni disgwyliadau cyfnewidiol y gynulleidfa – yn arbennig yr awydd cynyddol am newyddion yn ôl y galw, a gyflwynir ar adeg ac ar ffurf sy'n gyfleus i'r gynulleidfa. Yn ogystal, bydd yn rhaid iddo ddatblygu fformatau newydd i'w alluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd y mae bellach yn ei chael hi'n anodd uniaethu â hwy – yr ifanc, y rheini mewn cartrefi digidol a'r rheini yn y grwpiau cymdeithasol-economaidd is. A bydd yn rhaid iddo wneud hyn heb golli ei afael ar ei werthoedd golygyddol craidd. Mae BBC Newyddion wedi dechrau ymdrin â'r materion hyn drwy ei waith Dyfodol Creadigol.




**Yr ymgyrch fomio yn Llundain ar BBC News 24**
Cyflwyno newyddion sy'n digwydd ar y pryd: yn sgîl darllediadau BBC News 24 o'r ymgyrch fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf enillodd y sianel wobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol am Sianel Newyddion y Flwyddyn

### Cynulleidfa ar gyfartaledd ar gyfer bwletinau newyddion rhwydwaith 2005/2006 (miliynau)

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| One O'Clock News y BBC | 2.7 | 2.7 |
| Newyddion amser cinio ITV1 | 1.2 | 1.4 |
| Six O'Clock News y BBC | 4.5 | 4.8 |
| Newyddion min nos ITV1 | 4.1 | 4.3 |
| Ten O'Clock News y BBC | 4.6 | 4.8 |
| Newyddion nosol ITV1 | 2.7 | 2.8 |

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed

## BBC NEWS 24

**Cylch gwaith**
**Nod BBC News 24 yw darparu newyddion, dadansoddiad a mewnwelediad, gyda chymorth gweithrediadau casglu newyddion y BBC ledled y DU a'r byd, drwy'r dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn. Mae'n anelu at ddarparu darllediadau cyflym, cynhwysfawr o ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd – yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – a dadansoddiadau arbenigol i roi'r newyddion yn ei gyd-destun.**

Parhaodd BBC News 24 i wneud cynnydd da, gan adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan y rheolwyr i osod y sianel wrth wraidd gweithrediadau teledu BBC Newyddion. Fe'n calonogir gan y cynnydd parhaus o ran cyrhaeddiad y gynulleidfa. Yn 2005/2006, cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol i 15 munud i wylwyr 4+ oed mewn cartrefi aml-sianel oedd 7.4% neu 3.1miliwn o bobl (6.7%/2.5miliwn yn 2004/2005).[1] Fe'n calonogir hefyd gan y parch cynyddol tuag at y sianel ymhlith llunwyr barn. Cydnabuwyd cyflawniadau golygyddol News 24 wrth iddi ennill gwobr Sianel Newyddion y Flwyddyn y Gymdeithas Deledu Frenhinol – y tro cyntaf i News 24 ennill gwobr o'r fath.

Ymatebodd y sianel yn dda i straeon mawr newydd y flwyddyn. Rhoddodd ei darllediadau o'r daeargryn yn Pacistan a Kashmir bwyslais arbennig ar adlewyrchu profiadau teuluoedd yn y DU yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng.

Rydym yn parhau o'r farn y dylai natur arbennig y sianel fod yn seiliedig ar agenda sy'n fwy dadansoddol, yn fwy rhyngwladol ac yn fwy amrywiol nag agenda ei chystadleuwyr, gan roi blaenoriaeth uwch i newyddiaduraeth gymhellgar a difrifol. Gan gofio hyn, roeddem yn falch o nodi ymrwymiad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i gynnwys mwy o ddarllediadau newyddion rhyngwladol na Sky News, ac i gynnwys mwy o newyddion lleol a rhanbarthol drwy roi safbwyntiau rhanbarthol i straeon cenedlaethol. Caiff perfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau hyn ei fesur drwy ddadansoddiadau rheolaidd o ddarllediadau News 24 gan arbenigwyr annibynnol.

Un mater sy'n dod i'r amlwg o ran News 24 yw i ba raddau y gellir cyfiawnhau adroddiadau nas cadarnhawyd ar y sianel. Rhaid ystyried pa un a yw gofal traddodiadol y BBC yn y maes hwn yn gwbl briodol i sianel newyddion parhaus, lle y gallai fod yn adlewyrchiad cywirach o realiti, yn ystod camau cynnar llawer o straeon newydd, i ddarlledu ansicrwydd ac esboniadau gwahanol o ddigwyddiadau yn hytrach na glynu at un fersiwn – swyddogol fel arfer – o ddigwyddiadau oni chânt eu profi'n anghywir a hyd nes y digwydd hynny.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cynulleidfaoedd yn ystyried newyddion parhaus mewn ffordd wahanol i'r ffordd yr ystyriant fwletinau wedi'u trefnu ymlaen llaw. O ran bwletinau maent yn disgwyl i'r darlledwr – yn enwedig y BBC – lynu'n gadarn at y ffeithiau ac nid ar chwarae bach y maddeuir anghywirdeb. Fodd bynnag, o ran newyddion parhaus, ymddengys fod cynulleidfaoedd yn fwy parod i dderbyn fod cyflwyno stori sy'n datblygu ar y pryd, yn arbennig yn ystod y camau cynnar, yn debygol o gynnwys rhywfaint o ansicrwydd. Mae'r ddadl hon wedi codi rhai materion pwysig a byddwn yn monitro datblygiadau yn fanwl. Ni ddylid rhoi enw da'r BBC am gywirdeb yn y fantol – ond, ar yr un pryd, dylid ystyried disgwyliadau'r gynulleidfa yn llawn.

I weld ein hadroddiad ar bbc.co.uk/news gweler tudalen 45.

[1] *Cynyddodd nifer yr unigolion mewn cartrefi amlsianel 5 miliwn i 42.5 miliwn rhwng 2004/2005 a 2005/2006*

## BBC PARLIAMENT

**Cylch gwaith**
**BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymrwymedig i ddarlledu gwleidyddiaeth. Caiff dadleuon o'r ddau Dŷ yn San Steffan, gwaith siambrau seneddol datganoledig y DU a gwrandawiadau rhai Pwyllgorau Dethol eu darlledu'n ddi-baid. Mae'r sianel hefyd yn darlledu gwaith Senedd Ewrop.**

Mae BBC Parliament wedi ehangu ei gwaith gwerthfawr. Am y tro cyntaf, darlledodd y sianel yn fyw o Senedd yr Alban ac ychwanegwyd dau lif band eang pellach ar gyfer darllediadau byw o Dŷ'r Arglwyddi, dadleuon Tŷ'r Cyffredin yn Neuadd San Steffan, a Phwyllgorau Dethol.

Ers rhai blynyddoedd buom yn pwyso am welliant yn y profiad gwylio ar Freeview lle nad yw'r golwg chwarter sgrîn yn foddhaol. Rydym yn falch o nodi penderfyniad y rheolwyr yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* i wella materion yn ystod y flwyddyn nesaf.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – BBC World Service a Global News

## Trosolwg

Daw is-adran Global News y BBC â radio BBC World Service, teledu BBC World, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC a BBC Monitoring ynghyd.

Bu'n flwyddyn o newid mawr mewn sawl rhan o'r is-adran – newid wedi'i lywio gan yr angen dybryd i ymateb yn gyflym ac yn llawn dychymyg i ddatblygiadau pwysig ym maes technoleg, cynulleidfaoedd a geowleidyddiaeth. Effeithiodd hyn yn arbennig ar y World Service, a gynhaliodd un o'r prosesau trawsnewid mwyaf yn ei hanes. Fe'n calonogir, er gwaethaf y newidiadau hyn, bod cynulleidfaoedd gwasanaethau newyddion yr is-adran wedi cyrraedd eu lefelau uchaf erioed.

Cynhyrchodd yr is-adran Global News adroddiadau a dadansoddiadau ystyrlon a chywir o brif straeon newyddion y flwyddyn a llwyddodd i ddwysáu'r effaith drwy ddefnyddio ei thri chyfrwng i ddatblygu un thema newyddion unigol mewn ffordd gydlynus.

Caiff y Llywodraethwyr eu cynghori'n annibynnol hefyd gan Grŵp Ymgynghorol BBC World Service a Global News. Ceir eu hadroddiad ar dudalen 62.



**Corwynt Katrina**
Darllediadau newyddion byd-eang o'r radd flaenaf: adladd Corwynt Katrina – mae cynulleidfaoedd ledled y byd yn troi at y BBC am ddarllediadau o straeon fel hon




**BBCUrdu.com**
Darparu llwyfan: derbyniodd gwefan Wrdw'r BBC lawer o negeseuon ebost yn dilyn y daeargryn yn Kashmir, gyda llawer ohonynt gan bobl a oroesodd yr argyfwng

# 163 miliwn

o wrandawyr i BBC World Service mewn wythnos gyffredin yn 2005/2006

## Is-adran Global News

Mae cynulleidfaoedd gwasanaethau Global News y BBC yn cynyddu er gwaethaf cystadleuaeth fyd-eang gynyddol. Cofnodwyd y ffigurau cyrhaeddiad uchaf erioed gan y tri gwasanaeth – radio BBC World Service, teledu BBC World a gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC. Noda arolygon annibynnol fod cyfanswm cyrhaeddiad wythnosol y tri chyfrwng yn uwch na 210 miliwn, gyda rhai yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith i fwy na 4 miliwn o wrandawyr gael eu colli o ganlyniad i ddiddymu deg o wasanaethau iaith World Service.

Fe'n calonogir bod enw da y BBC am ymddiriedaeth a gwrthrychedd yn parhau'n gryf. Yn ôl arolygon annibynnol, rhagorodd perfformiad y BBC ar berfformiad ei gystadleuwyr rhyngwladol o ran canfyddiadau'r gynulleidfa o ymddiriedaeth a gwrthrychedd ymron pob prif farchnad. Yr eithriad oedd yr Aifft lle yr oedd llunwyr barn o'r farn bod gwrthrychedd CNNI yn well.

Mae'r is-adran yn gweithredu mewn amgylchedd cynyddol heriol sy'n adlewyrchu newidiadau cyflym o ran disgwyliadau'r gynulleidfa, technoleg a'r tirlun cymdeithasol a gwleidyddol byd-eang. Ymatebodd yr is-adran drwy ddatblygu strategaeth pum mlynedd. Mae'r broses yn cynnwys arolwg treiddgar i sicrhau y caiff ei gwasanaethau eu strwythuro i ddarparu'r ymateb gorau posibl i anghenion y gynulleidfa, yn arbennig ym maes gwasanaethau yn ôl y galw, ac archwiliad o'r portffolio gwasanaethau iaith. Edrychwn ymlaen at ystyried strategaeth yr is-adran yn ddiweddarach eleni.

BBC WORLD SERVICE

## BBC World Service

Cyrhaeddodd amcangyfrif o gynulleidfa fyd-eang wythnosol BBC World Service, yn seiliedig ar arolygon annibynnol, 163 miliwn – 10 miliwn yn uwch na'r lefel uchaf flaenorol yn 2001. Cafwyd cynnydd cryf ym marchnadoedd allweddol Affrica gan gynnwys Nigeria, i fyny 3.6 miliwn i 23.8 miliwn; Tansania, i fyny 2.7 miliwn i 12.9 miliwn; a Kenya, i fyny 1.5 miliwn i 6 miliwn. Cynyddodd cynulleidfaoedd yn sylweddol hefyd yn Indonesia, India a Sri Lanka, er iddynt ostwng yn Bangladesh a Pacistan, gan adlewyrchu twf parhaus teledu yn y gwledydd hynny. Mae'r ffigur cyffredinol yn cynnwys canlyniadau'r arolwg cenedlaethol cyntaf yn Burma, a roddodd gyrhaeddiad wythnosol o 23.1% i'r BBC gyda 7.1 miliwn o wrandawyr, ac arolwg mwy o faint yn Nepal, a ychwanegodd 2.6 miliwn o wrandawyr eleni.

Cynulleidfaoedd tonfedd fer yw dwy ran o dair o wrandawyr BBC World Service o hyd, ond mae clywadwyedd ar FM yn hanfodol mewn ardaloedd trefol lle ceir y gystadleuaeth fwyaf dwys gan orsafoedd lleol a chenedlaethol. Mae strategaeth hir dymor BBC World Service i fuddsoddi yn y maes hwn yn dwyn ffrwyth: cynyddodd cyfanswm cynulleidfaoedd FM 12 miliwn. Mae BBC World Service bellach ar gael ar FM mewn 150 o brifddinasoedd, i fyny o 144 yn 2004.

Cyhoeddodd BBC World Service gynigion ar gyfer newidiadau radical yn ystod y flwyddyn. Yn eu plith, bwriedir lansio gwasanaeth teledu iaith Arabeg yn 2007. Cafwyd cynigion hefyd i gynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau cyfryngau newydd yn ôl y galw, dosbarthiad radio FM, canolfannau newyddion tramor a marchnata mwy effeithiol. Caiff y cynlluniau hyn eu hariannu'n rhannol o arbedion effeithlonrwydd. Cyflawnodd BBC World Service yr arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn, sef £7.1 miliwn, drwy weithredu arferion gwaith newydd a gwneud arbedion dosbarthu a darlledu. Gwneir arbedion ychwanegol ym maes rhaglenni Saesneg a chymorth busnes.

Ond nid yw'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn ddigon i ariannu'r cynllun strategol. Gwnaeth BBC World Service benderfyniad anodd i gau gwasanaethau mewn deg iaith – Bwlgareg, Croatieg, Groeg, Hwngareg, Kazakh, Pwyleg, Slofak, Slofen, Thai a Tsiec. Ymhlith y rhesymeg roedd newid geowleidyddol (sydd wedi gwanhau'r cyfiawnhad dros wasanaethau mewn rhai ieithoedd Ewropeaidd), ac effaith gymharol isel gwasanaethau'r BBC yn ieithoedd Kazakh a Thai.

Cefnogwyd y newidiadau cyffredinol hyn gennym fel yr ymateb priodol i'r heriau mawr sy'n wynebu'r World Service ac fe'u cymeradwywyd gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Amharodd y penderfyniad i gau'r gwasanaethau iaith ar lawer o unigolion. Hoffwn ddiolch yn ddidwyll i staff y gwasanaethau hynny, yn y gorffennol a'r presennol, am eu cyfraniad at greu a chynnal enw da eithriadol y BBC yn rhyngwladol.

Mewn rhai ardaloedd, wynebodd darlledwyr BBC World Service anawsterau difrifol. Mae gohebu o Irac ac Affganistan yn parhau yn heriol. Mae Canol Asia yn gynyddol ffrwydrol. Yn Wsbecistan, caewyd rhai o weithrediadau'r BBC. Tynnwyd BBC Wrdw oddi ar orsafoedd partner FM yn Pacistan yn dilyn y daeargryn yn Ne Asia, er bod gwasanaeth cyfyngedig bellach wedi'i adfer. Yn ystod yr aflonyddwch yn Nepal, ataliodd yr awdurdodau orsafoedd partner FM rhag darlledu rhaglenni'r BBC am gyfnod.

Mae BBC World Service yn cyhoeddi ei arolwg blynyddol ei hun sydd ar gael ar-lein yn bbc.co.uk/worldservice/us/annual_review.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – BBC World Service a Global News




*Newshour*
Cyflwyno newyddion byd-eang i gynulleidfaoedd rhyngwladol: mae George Alagiah yn cyflwyno rhaglen newyddion awr o hyd yn ystod yr wythnos i BBC World. Mae'r cynulleidfaoedd targed yn cynnwys UDA ac Asia



Daeargryn Kashmir
Ymateb i'r digwyddiadau mawr: caiff adnoddau newyddion byd-eang y BBC eu rhoi ar waith ar unwaith pan ddaw straeon mawr fel y daeargryn yn Kashmir i'r amlwg

### Safleoedd newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o safleoedd newyddion rhyngwladol y BBC.

Denodd y safleoedd y nifer uchaf erioed o ymweliadau â thudalennau y mis ym mis Mawrth 2006, sef 499 miliwn, o gymharu â 324 miliwn o ymweliadau â thudalennau ym mis Mawrth 2005. Mae hyn yn gynnydd o 54% yn ystod y flwyddyn.

Mae'r safleoedd bellach yn denu 32.8 miliwn o ddefnyddwyr unigol bob mis, i fyny o tua 21 miliwn o ddefnyddwyr unigol bob mis flwyddyn yn ôl.

O ganlyniad i fuddsoddiad mewn technoleg ryngweithiol, gellir prosesu nifer sylweddol uwch o ddefnyddwyr yn ystod cyfnodau o ddiddordeb brwd, fel yr achos o ddadlau ynghylch cyhoeddi cartwnau o'r Proffwyd Muhammad.

Mae rhyngweithedd bellach yn rhan allweddol o lawer o raglenni. Mewn sawl gwlad yn Affrica, lle mae'r defnydd o ffonau symudol yn cynyddu'n gyflym ac mae'n gymharol rhad anfon neges destun, ceir diddordeb brwd mewn cymryd rhan mewn darllediadau sefydledig fel *Network Africa* a *Focus on Africa*. Lansiwyd rhaglenni rhyngweithiol a safleoedd ar-lein newydd eleni, fel *World Have Your Say* ac *Africa Have Your Say*. Mae'r rhaglenni yn rhan o genhedlaeth newydd o raglennu rhyngweithiol, gan hyrwyddo sgyrsiau byd-eang rhwng pobl o wahanol ddiwylliannau, ieithoedd a chefndiroedd. Mae deialog â chynulleidfaoedd hefyd yn rhoi rhybudd cynnar i dimau newyddion am faterion a allai droi'n straeon newyddion pwysig.

Mae'r rhaglen ddeugyfrwng ddyddiol newydd yn Sbaeneg, *BBC Enlace*, a gynhyrchir o ganolfan Miami, yn dangos sut y mae rhaglennu rhyngweithiol yn gwella'r gydberthynas gyda chynulleidfaoedd radio ac ar-lein. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd dros 30 o orsafoedd partner FM yn darlledu'r rhaglen sy'n trafod pynciau – yn amrywio o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau i ansicrwydd trefol – a gynigir gan ddefnyddwyr ar-lein.

Derbyniodd BBCUrdu.com fwy na 4,000 o negeseuon ebost yn dilyn y daeargryn yn Kashmir. Roeddent yn cynnwys nifer o hanesion gan lygaid dystion a chlipiau fideo o'r daeargryn. Gwelodd y safle rhyngwladol hefyd gynnydd sylweddol yn y swm o gynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr. Trefnodd 'gyswllt gliniadur' o Muzaffarabad – y ddinas a ddioddefodd waethaf yn sgîl y daeargryn – lle y rhoddwyd cyfle i blant ysgol o Bradford a defnyddwyr eraill y wefan holi cwestiynau i'r rheini yn yr ardal yr effeithiwyd arni.

Denodd y refferendwm a'r etholiadau yn Irac gryn dipyn o gynnwys gan ddefnyddwyr ar BBCArabic.com a safleoedd rhyngwladol eraill y BBC. Roedd gan y gwefannau baneli lle y gallai pobl sôn am eu bwriadau o ran pleidleisio, eu hofnau o ran diogelwch a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Fodd bynnag, ni ellir cymryd mynediad ar-lein i wasanaethau newyddion y BBC yn ganiataol. Mae Tsieina yn dal i atal defnyddio gwefannau newyddion y BBC a dechreuodd Iran wneud yr un peth am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2006, gan amddifadu llawer o bobl yn Iran o ffynhonnell wybodaeth annibynnol, am ddim, y gellid ymddiried ynddi, ar adeg o densiwn rhyngwladol cynyddol.

### BBC World

Mae BBC World – y sianel newyddion a gwybodaeth Saesneg ryngwladol a ariennir yn fasnachol – yn parhau i ddangos twf sylweddol o ran cyrhaeddiad y gynulleidfa a dosbarthiad mewn cartrefi, ac mae ansawdd ei darllediadau golygyddol yn gwella.


Bellach saif cyfanswm cynulleidfa wythnosol BBC World ar ei lefel uchaf erioed, sef 65 miliwn, i fyny 6 miliwn o'r llynedd. Mae'r sianel ar gael 24 awr y dydd mewn 138.8 miliwn o gartrefi, i fyny o 127.3 miliwn y llynedd (cynnydd o 9%), tra y gall 140 miliwn o gartrefi ychwanegol weld BBC World yn rhan amser. Daw hyn â chyfanswm y dosbarthiad i 278.8 miliwn o gartrefi, i fyny o 270 miliwn y llynedd. Cynyddodd dosbarthiad mewn ystafelloedd gwestai fwy na 13% i fwy nag 1.2 miliwn o ystafelloedd.

Fe'n calonogir gan gynnydd BBC World tuag at ei hamcan allweddol o sicrhau dosbarthiad 24 awr yng Ngogledd America. Fis Tachwedd diwethaf, llofnododd y sianel gytundeb pwysig gyda Discovery i gynrychioli'r sianel yn yr UD. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae BBC World eisoes wedi lansio ar rwydwaith Cablevision ar sail 24 awr, gan ddarparu mynediad i'r sianel i 2 filiwn o danysgrifwyr yn ardal Efrog Newydd. Mae trafodaethau yn parhau gyda phartïon eraill.

Dengys cyfraddau diweddar yn yr UD fod cyfartaledd o 927,000 o bobl yn gwylio newyddion BBC World drwy PBS a BBC America bob nos. Mae cynulleidfa BBC World i'w fwletinau min nos yn uwch nag unrhyw raglen unigol ar CNN, heblaw *Larry King*.




*Have Your Say*
Rhoi llais i'r gynulleidfa: mae mentrau fel y wefan *World Have Your Say* yn galluogi cynulleidfaoedd o bob cwr o'r byd i gymryd rhan mewn dadleuon ar faterion byd-eang



BBC Monitoring
Gwrando ar y byd: ym Mhencadlys BBC Monitoring yn Caversham, caiff deunydd cyfryngau o bob cwr o'r byd eu hystyried a'u dadansoddi ar ran amrywiaeth eang o gwsmeriaid

**Dosbarthiad BBC World i gartrefi â mynediad 24 awr (miliynau)**

| | |
|---|---|
| 2006 | 139 |
| 2005 | 127 |
| 2004 | 112 |
| 2003 | 102 |
| 2002 | 101 |

Ffynhonnell: Adran Dosbarthiad BBC World, data amrywiol ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth

Parhaodd cynulleidfaoedd i dyfu yn Ewrop gyda chyrhaeddiad o 11.4% yn yr arolwg annibynnol diweddaraf. Yn Nwyrain Asia, cynyddodd cyrhaeddiad BBC World fwy na 30% mewn blwyddyn.

Bu ffocws golygyddol parhaus ar newyddion a dadansoddiadau diduedd ac awdurdodol, gyda mwy o ddarllediadau newyddion a busnes byw. Llwyddodd dadl BBC World yn Davos i ddenu panel proffil uchel.

Yn ariannol, mae trosiant wedi cynyddu 25.5% i £36miliwn eleni ac mae'r golled am y flwyddyn (cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol) wedi gostwng 7.0% i £15miliwn. Y golled ar ôl llog a threthiant yw £11miliwn (£11miliwn 2004/2005).

## BBC Monitoring

Mae BBC Monitoring yn darparu newyddion, gwybodaeth a sylwebaeth a gesglir o gyfryngau cyfun o amgylch y byd. Gan weithredu 24 awr y dydd, mae'n monitro dros 3,000 o ffynonellau radio, teledu, y wasg, rhyngrwyd ac asiantaethau newyddion yn systemataidd, gan gyfieithu hyd at 100 o ieithoedd, er mwyn darparu safbwynt awdurdodol o ddigwyddiadau'r byd.

Rhydd canolfannau BBC Monitoring mewn sawl gwlad fynediad i'r cyfryngau nad ydynt fel arall ar gael yn gyffredinol. Talodd gallu BBC Monitoring i olrhain ffynonellau newyddion o rai o ranbarthau anos y byd ar ei ganfed yn ystod blwyddyn eithriadol mewn ardaloedd allweddol gan gynnwys Irac, Iran, Affganistan a gwledydd yr hen Undeb Sofietaidd fel Belarws, Georgia, Wcrain ac Wsbecistan. Yn ystod y flwyddyn, darparodd ddeunydd ffynhonnell allweddol ar ddigwyddiadau byd-eang hollbwysig i randdeiliaid gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a'r BBC.

Cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet arolwg o rôl, prosesau goruchwylio a threfniadau ariannu BBC Monitoring ar ran ei holl randdeiliaid. Daeth yr arolwg, a arweiniwyd gan Syr Quentin Thomas, i'r casgliad bod BBC Monitoring yn cynrychioli "gwerth rhagorol am arian" ac y dylai rhoi sefydlogrwydd a hyder i BBC Monitoring, gan alluogi iddi ganolbwyntio ar ddatblygu gweithrediad sy'n diwallu anghenion cynyddol ei rhanddeiliaid am wybodaeth 'ffynhonnell agored' ymhellach fod yn "un o amcanion y DU".

O ganlyniad, Swyddfa'r Cabinet bellach yw prif randdeiliad BBC Monitoring, yn hytrach na'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Mae cytundeb ariannu pum mlynedd bellach ar waith.

Mae grant penodedig wedi disodli'r model ariannu presennol drwy danysgrifiadau. Mae'r cynnydd ariannu cyffredinol gyfwerth â chyfartaledd o £23.8miliwn y flwyddyn rhwng 2006/2007 a 2010/2011. Fodd bynnag, bydd angen lleihau costau £2filiwn y flwyddyn erbyn mis Mawrth 2007 o hyd.

Ar ôl cyhoeddi'r arolwg, dechreuodd BBC Monitoring drawsnewid ei gwasanaethau. Cyhoeddwyd manylion newidiadau strwythurol, swyddi a thimau newydd ym mis Mawrth 2006. Mae'r newidiadau yn cynnwys dod â 69 o swyddi i ben, er bod llawer ohonynt wedi'u gadael heb eu llenwi er mwyn lleihau nifer y diswyddiadau.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Y Gwledydd a'r Rhanbarthau

## Trosolwg

Nod Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC yw darparu rhaglenni a gwasanaethau lleol, rhanbarthol a rhwydwaith o ansawdd uchel a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd ledled y DU, sy'n eu cysylltu â'u cymunedau ac sy'n cyfrannu at eu hymdeimlad o berthyn.

Bydd yr ymdeimlad hwn o gysylltiad rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd yn cael ei atgyfnerthu yn ystod y blynyddoedd i ddod drwy gynyddu gwaith comisiynu a chynhyrchu ar draws y DU a thrwy symud rhannau sylweddol o sylfaen gynhyrchu'r BBC allan o Lundain. Erbyn diwedd cyfnod y Siarter nesaf mae'r BBC yn bwriadu gwario mwy na £1biliwn y flwyddyn ar raglenni a wneir y tu allan i Lundain – cynnydd o fwy na thraean.

Yn dilyn gwaith ymchwil a wnaed gan y BBC a ddangosodd ddymuniad cynyddol am fwy o newyddion teledu lleol, lansiwyd gwasanaeth peilot ar fand eang a lloeren ddigidol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn 2005. Caiff y canlyniadau eu hasesu tua diwedd y flwyddyn. Cynhelir Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn y byddwn ni neu'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu pa un a ddylid cytuno i lansio'r gwasanaeth ledled y DU.


Cydnabuwyd ymrwymiad hir dymor y BBC i gefnogi ieithoedd lleiafrifol y DU ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth. Disgwylir gwelliannau sylweddol i wasanaethau ymhob iaith frodorol yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, er enghraifft, drwy bartneriaeth strategol newydd gydag S4C a gwasanaeth digidol newydd yng Ngaeleg.

# 6,460 awr

o raglenni teledu'r BBC yn cael eu gwneud a'u darlledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2005/2006 (ac eithrio ailddarllediadau)




BBC Radio Devon
Adlewyrchu'r gymuned: Simon Furber a John Coates yn darlledu'n fyw o ŵyl 'Navy Days' yn Plymouth i ddathlu treftadaeth lyngesol y sir




*Lleol i Mi*
Darparu gwybodaeth frys i gynulleidfaoedd lleol: daeth gwefannau Lleol i Mi y BBC yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol yn dilyn yr ymgyrch fomio yn Llundain, gan helpu pobl yr effeithiwyd arnynt i ymdopi'n well â'r argyfwng

## BBC English Regions

**Cylch gwaith**
**Nod BBC English Regions yw sicrhau mai ef yw'r darledwr cymunedol mwyaf creadigol, yr ymddiriedir ynddo fwyaf, yn Lloegr, gan wasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau trefol a gwledig. Mae'n anelu at ddarparu gwasanaeth newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth, celfyddydau a cherddoriaeth, crefydd, chwaraeon a thywydd hygyrch ond awdurdodol ar deledu rhanbarthol, radio lleol ac ar-lein.**

Mae gan rwydwaith y BBC o 40 o orsafoedd radio lleol yn Rhanbarthau Lloegr nifer fawr o wrandawyr ffyddlon. Radio Lleol y BBC yw unig gyswllt dros draean o'r gwrandawyr â gwasanaethau radio'r BBC. Mae ffigurau'r gynulleidfa yn gymharol sefydlog. Cyrhaeddiad wythnosol Radio Lleol y BBC ar gyfartaledd oedd 19.5% neu 7.8 miliwn o bobl yn 2005/2006 (19.9%/7.8 miliwn o bobl yn 2004/2005)[1].

Mae'r darllediadau yn nodedig, yn fwyaf amlwg o ran eu dibyniaeth ar lafar – mae ei gystadleuwyr masnachol yn cynnig cerddoriaeth gan fwyaf. Er enghraifft, mae darllediadau amser brecwast Radio Lleol y BBC yn gwbl llafar yn ystod yr wythnos. Mae ansawdd y newyddiaduraeth yn arwydd arall nodedig. Mae Radio Lleol y BBC yn ymfalchïo yn ei allu i ddarparu gwasanaeth newyddion lleol, y DU a byd-eang y gellir ymddiried ynddo yn ei fwletinau, yn ogystal ag archwilio materion lleol a dal y rheini mewn grym yn y cymunedau a wasanaethir gan bob gorsaf i gyfrif. Mae'r gorsafoedd hefyd yn gweithio'n galed i feithrin ymdeimlad o gymuned leol drwy elfennau fel darllediadau o ansawdd uchel o chwaraeon lleol, gan ddarparu gwybodaeth eang am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned, pwyslais cryf ar alluogi unigolion i gymryd rhan wrth helpu eraill, a phwyslais ar gynnwys gwrandawyr wrth gyfrannu at y darllediadau. Yn ogystal, ceir amrywiaeth da o ddarllediadau mewn ieithoedd arbenigol sy'n briodol i'r cymunedau a wasanaethir gan orsafoedd unigol – gan gynnwys Mandarin, Cernyweg, Ffrangeg Guernsey, Pwyleg a'r prif ieithoedd Asiaidd. Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol, gwnaeth Radio Lleol y BBC waith da, gan gyflwyno darllediadau byw o gyfarfodydd cyhoeddus o bob cwr o Loegr gan ddod ag etholwyr ac ymgeiswyr lleol ynghyd, yn ogystal â sesiynau *Question Time* lle y rhoddwyd cyfle i wrandawyr ffonio eu stiwdio BBC leol i holi eu hymgeiswyr.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i ehangu ei rwydwaith o orsafoedd radio lleol i nifer gyfyngedig o ardaloedd a danwasanaethir, ac mae rheolwyr y BBC yn cynnal gwaith paratoadol ar gyfer gorsafoedd newydd yng Ngwlad yr Haf, Dorset a Swydd Gaer.

Newyddion a materion cyfoes a gwleidyddiaeth ranbarthol yw'r rhan fwyaf o gynyrchiadau teledu Rhanbarthau Lloegr. Yn 2005/2006, gostyngodd cynulleidfaoedd ychydig. Y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ar gyfartaledd i newyddion min nos y BBC oedd 20.4% neu 9.5 miliwn o bobl (21%/9.75 miliwn yn 2004/2005) ond roedd yn parhau'n llawer uwch nag ITV ymhob rhanbarth yn Lloegr. Mae'r rhaglenni materion cyfoes wythnosol a gynhyrchir ymhob rhanbarth yn Lloegr ac a ddarlledir o dan y teitl *Inside Out* wedi parhau i wella eu henw da am newyddiaduraeth fywiog a hygyrch sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o bynciau a lleoedd. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig roedd archwiliad o gyllid y Baltic Centre for Contemporary Art gan BBC North East, ac ymchwiliad i gamerâu diogelwch gan BBC South West. Cafodd *Inside Out* ganmoliaeth gref gan Gynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol y BBC a Fforwm Cenedlaethol Lloegr.

Ymatebodd tair cangen newyddiaduraeth BBC London – teledu, radio ac ar-lein – yn dda i'r ymgyrch hunan-fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf, o ran darllediadau newyddion pwerus a dadansoddiadau ac hefyd o ran darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am broblemau teithio ac ati, gan alluogi pobl Llundain i ymdopi'n well â'r argyfwng.

Fel y nodwyd gennym yn *Adroddiad Blynyddol* y llynedd, mae'r BBC yn ymrwymedig i ymateb i alw'r gynulleidfa am wasanaethau newyddion teledu mwy lleol (yn hytrach na rhanbarthol). Dechreuodd cynllun peilot naw mis o wasanaeth newyddion teledu lleol gan y BBC wedi'i gyflwyno drwy loeren ddigidol a band eang ym mis Rhagfyr 2005 gan gwmpasu chwe ardal yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr: Swydd Stafford, Swydd Amwythig, Cofentri a Swydd Warwig, Henffordd a Chaerwrangon, Birmingham a'r Ardal Ddu. Yn ogystal â newyddion a gwybodaeth, mae pob gwasanaeth yn cynnig cynnwys a wneir gan bobl leol gyda chymorth cynhyrchwyr y BBC neu gynhyrchwyr annibynnol.

Un o nodau newyddion teledu lleol yw datrys y broblem olygyddol barhaol sy'n deillio o raglenni newyddion rhanbarthol – lle y mae pryderon gwylwyr mewn un rhan o ranbarth mawr ac amrywiol yn aml yn wahanol iawn i bryderon gwylwyr mewn rhan arall. Drwy ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol llai, gallai'r gwasanaethau newyddion teledu lleol gyflawni ffocws agos gorsafoedd Radio Lleol y BBC (mae'r cynlluniau peilot yn cael eu goruchwylio gan olygyddion Radio Lleol y BBC). Caiff canlyniadau'r cynllun peilot eu hasesu tua diwedd 2006 a gallai'r broses arwain at gyflwyno 60 o wasanaethau teledu digidol lleol newydd ledled y DU. Bu rhywfaint o wrthwynebiad i gynigion teledu lleol y BBC o fuddiannau cyfryngau yn y sector preifat, er bod rhai grwpiau papur newydd rhanbarthol wedi llunio trefniadau partneriaeth â'r BBC. Rydym yn ymrwymedig i gymhwyso Prawf Gwerth Cyhoeddus, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad a gynhelir gan Ofcom, cyn y byddwn ni neu'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu pa un a ddylid cymeradwyo'r gwasanaeth i'w lansio ledled y DU.

*[1]Cynyddodd nifer yr oedolion 15+ oed yn yr ardal a gwmpesir gan Radio Lleol y BBC 0.5 miliwn i 39.8 miliwn yn 2005/2006*

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Y Gwledydd a'r Rhanbarthau



*Colin and Cumberland*
Cefnogi ieithoedd brodorol: mae cefnogaeth y BBC i ddarlledu Gaeleg yn cynnwys *Colin and Cumberland*, sy'n rhoi cyflwyniad i'r Gaeleg drwy deledu ac ar-lein



*Dr Who*
Cynyddu cynyrchiadau o'r tu allan i Lundain: caiff *Dr Who*, gyda Billie Piper a David Tennant, ei wneud yng Nghaerdydd. Mae'r BBC yn ymrwymedig i gynyddu nifer y rhaglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25

## BBC Scotland

**Cylch gwaith**
**Nod BBC Scotland yw cynhyrchu amrywiaeth cyfoethog ac eang o gynnwys arbennig o ansawdd uchel ar y teledu, radio ac ar-lein ar gyfer pob grŵp oedran, gan adlewyrchu natur amrywiol yr Alban yn briodol a dathlu pob agwedd ar ddiwylliant a threftadaeth yr Alban ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban a ledled y DU.**

Parhaodd darllediadau newyddion a materion cyfoes BBC Scotland i berfformio'n dda. Ar y radio, cyrhaeddiad wythnosol *Good Morning Scotland* ar gyfartaledd oedd 11.4% neu 0.48 miliwn o bobl (10%/0.42 miliwn yn 2004/2005). Ar y teledu, cyrhaeddiad wythnosol 15 munud y rhaglen newyddion min nos *Reporting Scotland* ar gyfartaledd oedd 23.2% neu 1.1 miliwn o bobl (24.4%/1.15 miliwn yn 2004/2005), gostyngiad bach yn ystod y flwyddyn ond yn uwch nag ITV. Ymhlith yr enghreifftiau o newyddiaduraeth nodedig roedd wythnos o ddarllediadau thema ar draws y llwyfannau ar anghenion ynni'r Alban yn y dyfodol.

Mae *River City* bellach wedi ymsefydlu'n gadarn fel rhan o'r tirlun operâu sebon ar y teledu yn yr Alban gan gyrraedd cynulleidfaoedd yn yr Alban a allai fod wedi'u tanwasanaethu gan ddarllediadau teledu eraill y BBC. Fe'i gwerthfawrogir am ei gwreiddioldeb a'i chynrychiolaeth unigryw o'r Alban. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gallai naws ysgafnach helpu'r rhaglen i ddenu cynulleidfaoedd uwch ac anelir at y nod hwn yn ystod 2006/2007. Mynegwyd rhywfaint o bryder yn ein cyfarfod gyda Chyngor Darlledu'r Alban bod y gyfres ddrama hir – sefydledig *Monarch of the Glen* wedi dod i ben yn 2005 heb fod unrhyw gomisiwn rhwydwaith arall yn dod yn ei le. Nodwyd yn y drafodaeth bod llwyddiant *River City* wedi helpu i ddatblygu sylfaen dalent gref ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Dylai'r sylfaen dalent gref hon fod o fudd i BBC Scotland o ran datblygu rhaglenni rhwydwaith newydd.

Parhaodd cefnogaeth BBC Scotland i ddarlledu Gaeleg yn gryf a chydnabu'r Papur Gwyn diweddar ar y BBC rôl hanfodol y BBC o ran diogelu treftadaeth ddiwylliannol Gaeleg. Ceir slot min nos rheolaidd ar nos Iau ar BBC Two, ac mae Radio nan Gaidheal a gwefan BBC Alba yn boblogaidd. Rhydd *Colin and Cumberland* gyflwyniad i'r iaith Gaeleg drwy deledu ac ar-lein. Mae'r wefan yn cynnwys dysgwyr drwy gemau rhyngweithiol ac yn rhoi canllaw sain i'r ffordd o ynganu. Ym mis Ebrill 2006, cymeradwywyd cynnig gennym i ddechrau cynllunio gwasanaeth digidol newydd ar gyfer cynulleidfaoedd Gaeleg. Mae'r prosiect hwn yn brosiect ar y cyd gyda Gaelic Media Services (GMS) a phartneriaid Gaeleg eraill a bydd yn cynnwys deunydd teledu, radio ac ar-lein.

Bellach ehangwyd prosiect 'Island Blogging' BBC Scotland, a ddarparodd lwyfan ar-lein i drigolion ynys Gogledd Argyll yn wreiddiol, i gwmpasu holl ynysoedd yr Alban ac mae ar gael yn Saesneg a Gaeleg. Mae'r cofnodion, gyda sawl un ohonynt yn cynnwys lluniau, yn darparu ffenestr i mewn ac allan o gymunedau sy'n aml wedi'u hynysu ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfa ryngwladol.

Codwyd pryder y gynulleidfa ynghylch darllediadau newyddion rhwydwaith o faterion sy'n ymwneud â'r Alban gyda ni yn ystod ein gwaith atebolrwydd. Fel y nodwyd gennym mewn rhan arall, mae BBC Newyddion yn datblygu modiwl hyfforddiant ar ohebu ar y DU ddatganoledig.

## BBC Cymru Wales

**Cylch gwaith**
**Nod BBC Cymru yw cynhyrchu gwasanaethau arbennig, o ansawdd uchel, sy'n adlewyrchu diwylliant a hanes unigryw Cymru a'i thirlun cymdeithasol a gwleidyddol. Ei huchelgais allweddol yw meithrin cyfranogiad cynhwysol a chyfranogol gyda chynulleidfaoedd yng Nghymru ar draws amrywiaeth ei gwasanaethau.**

Newyddion yw conglfaen BBC Cymru o hyd. Cyrhaeddiad wythnosol 15 munud y bwletin newyddion teledu min nos *Wales Today* ar gyfartaledd oedd 22.2% neu 0.6 miliwn o bobl yn 2005/2006 (26%/0.71miliwn o bobl yn 2004/2005), gostyngiad yn ystod y flwyddyn ond yn sylweddol uwch nag ITV.

Gostyngodd cyrhaeddiad Radio Wales ychydig. Y cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd oedd 17.2% neu 0.42 miliwn o bobl yn 2005/2006 (18.4%/0.44 miliwn yn 2004/2005). Cyrhaeddiad wythnosol Radio Cymru oedd 6.9% neu 0.17 miliwn o bobl ar gyfartaledd yn 2005/2006 (7.1%/0.17 miliwn yn 2004/2005).

Bu BBC Cymru yn arbennig o lwyddiannus wrth ddarparu rhaglennu cofiadwy i'r rhwydwaith ar draws amrywiaeth o genres. Bu drama yn arbennig o gryf ac mae'n cynnwys rhai o uchafbwyntiau BBC One, fel *Dr Who a Life on Mars*. Roedd *Tribe*, ar gyfer BBC Two, yn gyfres ddogfen arbennig lle y bu'r cyflwynydd Bruce Parry yn byw gyda chwech o'r llwythau mwyaf ynysig yn y byd. Ymhlith rhaglennu poblogaidd i gynulleidfa BBC Cymru ei hun roedd *Wales at War*, a gyflwynwyd gan John Humphrys a chyfres newydd o'r gomedi sefyllfa *High Hopes*. Roedd *Gwynfor: Yr Aelod Dros Gymru* yn rhaglen ddogfen glodwiw ar fywyd cyn Lywydd ac AS cyntaf Plaid Cymru, Gwynfor Evans, a gynhyrchwyd ar gyfer S4C.

### Cynulleidfa ar gyfartaledd ar gyfer bwletinau newyddion rhanbarthol ledled y DU 2005/2006 (miliynau)

| | 2005/2006 | 2004/2005 |
|---|---|---|
| Newyddion rhanbarthol amser cinio BBC One | 3.0 | 2.9 |
| Newyddion rhanbarthol amser cinio ITV1 | 1.1 | 1.4 |
| Newyddion rhanbarthol min nos BBC One | 5.3 | 5.4 |
| Newyddion rhanbarthol min nos ITV1 | 3.6 | 3.9 |
| Newyddion rhanbarthol hwyrnos BBC One | 4.7 | 4.9 |
| Newyddion rhanbarthol hwyrnos ITV1 | 2.5 | 2.9 |

Ffynhonnell: BARB, TNS/Infosys, 4+ oed



*Facing the Truth*
Helpu i uno pobl: yn *Facing the Truth*, daeth y cyflwynydd Fergal Keane a'r Archesgob Desmond Tutu â dioddefwyr a chyflawnwyr trais sectyddol yng Ngogledd Iwerddon wyneb yn wyneb er mwyn ceisio cymodi

Mae'r Papur Gwyn ar y BBC yn egluro sefyllfa unigryw'r BBC o ran darparu gwasanaethau i gefnogi ieithoedd lleiafrifol a gwyddom fod gan siaradwyr Cymraeg feddwl uchel o ymrwymiad y BBC i'r Gymraeg. Mae dyletswydd hirsefydledig ar y BBC i ddarparu 520 o oriau'r flwyddyn o raglennu a ariennir gan y drwydded am ddim i S4C. Mae hyn yn cynnwys llawer o ddarllediadau mwyaf arwyddocaol S4C, fel opera sebon boblogaidd y sianel, *Pobol y Cwm*, a'i gwasanaethau newyddion – gan gynnwys rhaglen canlyniadau Gymraeg ar noson yr Etholiad Cyffredinol. Rydym yn gweithio tuag at bartneriaeth strategol newydd gydag S4C.

Nodwyd gennym y pryder a fynegwyd i ni drwy Gyngor Darlledu Cymru o ran y ffaith na all pawb dderbyn gwasanaethau'r BBC ac, yn arbennig, y ffaith bod llai na hanner y boblogaeth yn gallu derbyn Radio Wales neu Radio Cymru ar DAB. Un o amcanion allweddol strategaeth radio digidol y BBC yw y gellir derbyn ei holl wasanaethau yng Nghymru ar DAB, ac mae'r BBC yn cefnogi ymgais bresennol Ofcom i drafod y posibilrwydd o ryddhau mwy o'r sbectrwm ar gyfer gwasanaethau amlbleth lleol.

## BBC Northern Ireland

**Cylch gwaith**
**Nod BBC Northern Ireland yw darparu rhywbeth o werth i bawb yn y gymuned drwy amrywiaeth eang o raglenni a gwasanaethau sy'n llywio ac yn ysgogi dadl, yn dathlu ac yn cefnogi bywyd diwylliannol a chwaraeon, ac yn adlewyrchu diddordebau a phrofiadau lleol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon a ledled gweddill y DU.**

Mae cynulleidfaoedd y bwletin newyddion teledu min nos *Newsline* yn sefydlog. Y cyrhaeddiad 15 munud ar gyfartaledd oedd 20% neu 0.3 miliwn o bobl yn 2005/2006 (19.8%/0.3 miliwn o bobl yn 2004/2005). Yn draddodiadol, mae BBC Northern Ireland wedi wynebu cystadleuaeth gref unigryw nid dim ond yn lleol ond hefyd o ochr draw'r ffin, a dyma'r un ardal yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau lle nad yw rhaglen newyddion min nos y BBC yn denu cynulleidfaoedd uwch na'i chystadleuwyr masnachol. Llwyddodd *Newsline* i ddarlledu rhai straeon nodedig cyn unrhyw ddarlledwr arall yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys diwedd y broses o ddadgomisiynu arfau'r IRA a chafodd cyfres o *Newsline Specials*, yn ymchwilio'n fanylach i straeon, effaith ar gynulleidfaoedd.

Cynyddodd cyrhaeddiad Radio Ulster a Radio Foyle. Cyrhaeddiad wythnosol cyfun y ddwy orsaf ar gyfartaledd oedd 41% neu 0.56 miliwn o bobl yn 2005/2006, sef y lefel uchaf erioed (37%/0.5 miliwn yn 2004/2005). Mae'r ffigurau hyn yn arwydd o flwyddyn arall o dwf trawiadol – cyrhaeddiad chwarter olaf 2005 oedd 45% neu 0.61 miliwn. Radio Ulster yw'r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yng Ngogledd Iwerddon o bell ffordd o hyd. Enillodd y cyflwynydd Stephen Nolan ei bedwaredd gwobr Aur Sony ers ymuno â'r orsaf yn 2004, a'i ail wobr gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol ar gyfer BBC Northern Ireland.

Mae BBC Northern Ireland wedi cynhyrchu darllediadau llwyddiannus ar gyfer y rhwydwaith ar draws amrywiaeth o genres. Efallai mai'r mwyaf nodedig o'u plith oedd y gyfres BBC Two *Facing the Truth* lle y daeth dioddefwyr a chyflawnwyr y gwrthdaro sectyddol yng Ngogledd Iwerddon wyneb yn wyneb. Ymhlith cyfresi drama rhwydwaith a ddychwelodd roedd *Messiah IV*. Ymhlith y darllediadau cofiadwy ar gyfer cynulleidfa BBC Northern Ireland ei hun, roedd *From Belfast to Dachau*, a enillodd wobr RTS, a archwiliodd hanes un o filwyr cyntaf y Gynghrair a aeth i mewn i'r gwersyll gorfod; rhaglennu helaeth yn sgîl marwolaeth y peldroediwr o Belfast George Best; a *Supergoose*, cyfres bywyd gwyllt arbennig yn olrhain taith fudo gwyddau Brent.

Nodwyd gennym y pryder a fynegwyd i ni drwy Gyngor Darlledu Gogledd Iwerddon ynghylch y broblem barhaus gydag argaeledd DAB a DTT yng Ngogledd Iwerddon a'r diffyg lle ar DAB i Radio Foyle. Un o amcanion allweddol strategaeth radio digidol y BBC yw y gellir derbyn ei holl wasanaethau yng Ngogledd Iwerddon ar DAB, ac mae'r BBC yn cefnogi ymgais bresennol Ofcom i drafod y posibilrwydd o ryddhau mwy o'r sbectrwm ar gyfer gwasanaethau amlbleth lleol.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gweithgareddau masnachol

## Trosolwg

Bu hon yn flwyddyn o newidiadau sylweddol pellach yng ngweithgareddau masnachol y BBC yn dilyn yr arolwg mawr yn 2004/2005 a argymhellodd broses ailstrwythuro eang.

Un argymhelliad allweddol oedd nad oedd angen i'r BBC fod yn berchen ar BBC Resources na BBC Broadcast. Ym mis Awst 2005, gwerthwyd BBC Broadcast, a oedd yn darlledu gwasanaeth chwarae allan a gwasanaethau eraill, ac mae bellach yn gweithredu o dan yr enw Red Bee Media Limited. Ni chaiff BBC Resources ei werthu cyn mis Mehefin 2007.

Argymhellodd yr arolwg masnachol y dylid cadw BBC Worldwide ac aeth gwaith rhagddo i symleiddio strwythur y cwmni a gwella ei berfformiad ariannol. Caiff elw o BBC Worldwide ei ail-fuddsoddi er budd talwyr ffi'r drwydded.

Mae BBC Worldwide yn cyhoeddi ei arolwg blynyddol ei hun sydd ar gael ar-lein yn www.bbcworldwide.com



Tonau ffôn *The Office*
Defnyddio asedion y BBC er budd talwyr ffi'r drwydded: mae cytundebau BBC Worldwide, fel y cytundeb gydag Orange i droi arwyddeiriau *The Office* yn donau ffôn, yn cynhyrchu cyllid i'w fuddsoddi mewn darlledu cyhoeddus

### Elw BBC Worldwide cyn llog a threth (£miliwn)

| | |
|---|---|
| 2005/2006 | 89.4 |
| 2004/2005 | 55.2 |
| 2003/2004 | 36.7 |
| 2002/2003 | 32.4 |
| 2001/2002 | 25.7 |

Ffynhonnell: BBC Worldwide. Elw cyn llog a threth yn seiliedig ar weithrediadau parhaus. Nid yw'n cynnwys BBC World a beeb.com

### Llif arian parod BBC Worldwide i'r BBC (£miliwn)

| | |
|---|---|
| 2005/2006 | 185 |
| 2004/2005 | 145 |
| 2003/2004 | 141 |
| 2002/2003 | 123 |
| 2001/2002 | 106 |

Ffynhonnell: BBC Worldwide

## BBC Worldwide

BBC Worldwide yw prif is-gwmni masnachol y BBC. Mae'n defnyddio asedau cynnwys, brandiau ac eiddo deallusol y BBC ledled y byd, gan ddod â gwerth i'r BBC er budd talwyr ffi'r drwydded. Mae'r BBC yn ail-fuddsoddi enillion ei weithgareddau masnachol mewn darlledu cyhoeddus.

Ymhlith y datblygiadau i wella tryloywder a llywodraethedd Worldwide mae'r broses o gyhoeddi arolwg blynyddol mwy agored a chyflwyno cyfarwyddwyr anweithredol allanol. Penodwyd Cadeirydd anweithredol annibynnol, Etienne de Villiers, ym mis Awst 2005 a chaiff penodiadau anweithredol pellach eu cyhoeddi maes o law.

Rhagorwyd ar darged BBC Worldwide i ddyblu ei elw dros ddwy flynedd o fis Ebrill 2004 gydag elw o £89miliwn – cynnydd o 144% dros y ddwy flynedd a 62% flwyddyn ar flwyddyn. Cyflawnwyd hyn drwy sefydlogi busnesau a oedd yn gwneud colled a diddymu busnesau, neu ddod o hyd i bartneriaid i fusnesau, nad oeddent bellach yn addas ar gyfer cylch gwaith newydd Worldwide neu nad oeddent yn ddigon mawr, wedi'i gyfuno â thwf cadarn mewn busnesau eraill a rhaglen lleihau costau.

Yn 2005/2006, gwelwyd cynnydd o 11% mewn gwerthiannau o £706miliwn i £784miliwn, a dychwelodd BBC Worldwide lif arian parod o £185miliwn – elw a buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni – i'r BBC (i fyny 28% o £145miliwn yn 2004/2005).

Mae'r cwmni yn disgwyl twf pellach yn 2006/2007, yn arbennig o fewn marchnadoedd sy'n datblygu a'i fusnes Global Channels, yn ogystal â nifer o gyfleoedd cyfryngau newydd megis gwefan ryngwladol wedi'i hariannu gan hysbysebwyr, bbc.com a masnacheiddio posibl chwaraeydd cyfryngau rhyngweithiol, os caiff y prosiectau hyn eu cymeradwyo. Ei nod yw cyflawni elw o £100miliwn yn 2006/2007.

Ym mis Ionawr 2006, enillodd BBC Worldwide, mewn partneriaeth â'r cwmni cyfryngau o India, Mid Day Multimedia Limited, y trwyddedau i ddarlledu radio ar FM mewn saith dinas fawr yn India.

Ym mis Mawrth 2006, dywedwyd wrth BBC Worldwide gan JMC, ei ddosbarthwr yn Japan, nad oedd bellach ganddo'r adnoddau ariannol i ddosbarthu sianel BBC Japan. Felly fe'i diddymwyd ddiwedd Ebrill. Fodd bynnag, canfu BBC Prime farchnad newydd yn Korea.

Cyflawnodd is-adran Global Channels gynnydd o 73% yn ei helw, £6.9miliwn i fyny o £4miliwn y llynedd.

Cyfran BBC Worldwide o elw ei gyd-fenter fideo/DVD â Woolworths ccc – 2|entertain Limited, rhan o'r is-adran Adloniant Cartref – oedd £27.3miliwn. Cyrhaeddodd gwerthiannau ei DVDs *Little Britain* 3 miliwn uned. Cyflawnodd BBC Books, sydd hefyd yn rhan o'r is-adran Adloniant Cartref, elw o £1miliwn, sy'n welliant sylweddol ar y golled o £3.1miliwn yn 2004/2005.

Gwellodd yr is-adran Plant, a oedd yn colli £11miliwn yn 2003/2004, unwaith eto ar ei berfformiad yn 2004/2005, gan leihau ei cholledion o £6.6miliwn y llynedd i £0.9miliwn. Disgwylir i'r busnes hwn gyrraedd sefyllfa o wneud elw yn 2006/2007.

Ym mis Mehefin 2005, gwerthwyd is-gwmni BBC Worldwide, Broadcasting Data Services (BDS), i BBC Broadcast a werthwyd ei hun wedi hynny.

Lluniodd BBC Worldwide bartneriaeth â Pearson Education ar gyfer ei fusnesau academaidd, defnyddwyr ac addysgu Saesneg (ELT). Bydd y bartneriaeth yn cyhoeddi cynnyrch a gwasanaethau addysgol o dan frand y BBC o dan wasgnod newydd, BBC Active.

Mae BBC Worldwide yn chwilio am bartneriaethau ar gyfer ei fusnes dysgu rhyngweithiol ac ar gyfer BBC Books, ac yn gobeithio gwerthu Audiocall, sy'n cyflawni swyddogaethau fel pleidleisio dros y ffôn, llinellau gwneud rhodd a llinellau gwybodaeth.

Mae BBC Worldwide wedi dechrau defnyddio ffyrdd newydd o gyflwyno ei gynnwys i gynulleidfaoedd. Enghraifft dda yw'r cytundeb gydag Orange sy'n galluogi defnyddwyr ffonau symudol i lawrlwytho clipiau o sioeau'r BBC gan gynnwys *The Office* a *Little Britain*, a defnyddio eu harwyddeiriau fel tonau canu.

## BBC Resources

Mae BBC Resources yn is-gwmni y mae'r BBC yn berchen yn llwyr arno. Mae'n cyflenwi cyfleusterau cynhyrchu: darllediadau awyr agored; ôl-gynhyrchu; stiwdios a gwisgoedd a wigiau. Mae ei gwsmeriaid yn cynnwys y BBC, cynhyrchwyr annibynnol, darlledwyr eraill a chlientau corfforaethol.

Fel y disgwyliwyd, bu'n flwyddyn heriol i'r busnes, a berfformiodd yn dda yn erbyn y gyllideb. Yn 2005/2006, cyflawnodd BBC Resources refeniw o £128miliwn ac elw cyn llog a threth o £6miliwn (£135miliwn a £7miliwn yn 2004/2005); a mewnlif arian parod net o £8miliwn (£13miliwn yn 2004/2005).

Ymhlith uchafbwyntiau cynhyrchu'r BBC roedd *Strictly Come Dancing* a *Strictly Dance Fever, Planet Earth, Life in the Undergrowth* a *Coast, Glastonbury*, y Briodas Frenhinol, yr Etholiad Cyffredinol a digwyddiadau chwaraeon allweddol fel Wimbledon, pencampwriaeth y Chwe Gwlad a'r gystadleuaeth Golff Agored.

Ymhlith uchafbwyntiau cynhyrchu annibynnol roedd *Friday Night with Jonathan Ross* i Open Mike, *8 out of 10 Cats* i Endemol, set DVD Live8 i Ymddiriedolaeth Band Aid ac EMI, *Come and Have a Go* i 12 Yard, *Lenny Henry* i Tiger Aspect, Fformiwla Un i North One, rasys ceffylau i Sunset and Vine a snwcer i TWI.

# Bod yn atebol ac yn gyfrifol

## Trosolwg

Bydd gwella atebolrwydd a thryloywder y BBC yn flaenoriaeth bwysig i Ymddiriedolaeth newydd y BBC y mae'n ofynnol iddi, o dan delerau'r Siarter ddrafft newydd, "geisio barn talwyr ffi'r drwydded ac ymgynghori â hwy" a "sicrhau bod y BBC yn cyflawni safonau uchel o ran bod yn agored ac yn dryloyw".

Fel Llywodraethwyr, rydym eisoes wedi dechrau symud tuag at y gydberthynas newydd hon gyda thalwyr ffi'r drwydded. Yn 2005/2006, cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf ac amrywiaeth eang o weithgareddau atebolrwydd eraill. Mae'r Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr yn ffyrdd pwysig i dalwyr ffi'r drwydded gyflwyno eu barn i ni ac rydym wedi parhau i weithio'n agos â hwy. O dan y Siarter newydd, cânt eu disodli gan gyrff newydd a elwir yn Gynghorau Cynulleidfa.

Yn yr adran hon, cyflwynwn adroddiad ar gyfrifoldebau'r BBC o ran darparu hyfforddiant i staff y BBC ac i bobl sy'n gweithio mewn rhannau eraill o'r diwydiant, ac o ran cefnogi amrywiaeth yn ei weithlu. Cyflwyna'r adran hon hefyd adroddiad ar gefnogaeth y BBC i weithgarwch elusennol, ac ar y camau a gymerwyd i leihau effaith negyddol y BBC ar yr amgylchedd.

## Cyrff ymgynghorol y BBC

### Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr

Mae'r BBC yn cysylltu â rhwydwaith o fwy na 500 o dalwyr ffi'r drwydded o bob cwr o'r DU – a gaiff eu dethol drwy broses annibynnol – i gael cyngor ar raglenni a gwasanaethau. Mae Cynghorau Darlledu Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cynrychioli buddiannau pobl yn y gwledydd. Yn Lloegr, mae'r Cynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol, a gaiff eu hysbysu gan rwydwaith o Gynghorau Ymgynghorol Lleol, yn cynghori'r Llywodraethwyr drwy Fforwm Cenedlaethol Lloegr.

Caiff pob Cyngor Darlledu, a Fforwm Cenedlaethol Lloegr, ei gadeirio gan un o Lywodraethwyr cenedlaethol y BBC sy'n sicrhau y caiff barn eu haelodau eu bwydo i'n trafodaethau. Gwneir sawl cyswllt anffurfiol hefyd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mynychodd Cadeirydd ac uwch aelodau o staff yr Uned Lywodraethu gyfarfodydd y Cynghorau a'r Fforwm i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt o ran sut y bu'r trefniadau llywodraethu newydd yn datblygu ac i glywed eu barn mewn ymateb i hynny. Mae cynrychiolwyr y Cyngor a'r Fforwm hefyd yn rhoi gwybodaeth wyneb yn wyneb i ni ar eu hasesiad o berfformiad y BBC – caiff canlyniadau'r cyfarfod diweddaraf, ym mis Ebrill 2006, eu hystyried yn ein gwaith yn y dyfodol.

Prif gyfrifoldeb y Cynghorau yw ein hysbysu o ran pa mor dda y mae'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent yn ein hysbysu am amcanion allweddol ar gyfer y gwledydd ac yn monitro sut y mae'r BBC yn cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn. Mae pob Cyngor yn ymgymryd â rhaglen eang o weithgareddau allgymorth er mwyn deall pryderon cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn yn llywio eu hasesiad o berfformiad y BBC. Ar y cyfan, roedd y Cynghorau o'r farn y gwnaed cynnydd



Gweithgarwch atebolrwydd y Llywodraethwyr
Bod yn agored: Llywodraethwr y BBC, Ruth Deech, yn gwrando ar bryderon talwyr ffi'r drwydded yng Nghaerdydd – un o gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus gan y Llywodraethwyr ledled y DU

**Gwariant misol ffi'r drwydded ar gyfartaledd**

| | Cost fisol 2006 £ |
|---|---|
| BBC One | 3.52 |
| BBC Two | 1.52 |
| Costau darlledu a chasglu | 1.08 |
| Teledu'r Gwledydd a Rhanbarthau Lloegr | 1.04 |
| BBC Radio 1, 2, 3, 4 a Five Live | 1.02 |
| Sianelau teledu digidol | 1.00 |
| Radio Lleol a Radio'r Gwledydd | 0.68 |
| bbc.co.uk | 0.36 |
| BBC jam | 0.14 |
| Gorsafoedd radio digidol | 0.10 |
| Teledu rhyngweithiol (BBCi) | 0.08 |
| Cyfanswm | 10.54 |

Noder: Mae costau yn ymwneud â rhaglenni megis marchnata a'r holl orbenion wedi'u dosrannu'n llawn yn erbyn sianelau/rhwydweithiau i ddangos cyfanswm cost darllediadau'r BBC.
Heb gynnwys costau ailstrwythuro eithriadol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r geiniog agosaf.

sylweddol yn erbyn amcanion 2005/2006. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd o bryder.

Mae'r ddarpariaeth ddigidol yn bryder a rennir gan bob Cyngor. Nododd Cyngor Darlledu Gogledd Iwerddon fod angen eglurhad o'r amserlen ar gyfer newid i wasanaeth digidol yng Ngogledd Iwerddon, yn arbennig o ran datblygiadau digidol yng Ngweriniaeth Iwerddon. Nododd hefyd y broblem barhaus o ran argaeledd DAB yng Ngogledd Iwerddon, a gofynnodd i Radio Foyle gael ei ddarlledu ar lwyfan DAB cyn gynted â phosibl. Nododd Cyngor Darlledu Cymru nad oedd pawb yn gallu derbyn gwasanaethau digidol y BBC yng Nghymru. Ni allai canran sylweddol o'r gwrandawyr dderbyn BBC Radio Wales na BBC Radio Cymru ar DAB. Yn arbennig, roedd mwyafrif y siaradwyr Cymraeg yn methu â derbyn Radio Cymru ar DAB. Mynegwyd pryder ganddynt ynghylch yr holl gyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau digidol yng Nghymru, o ystyried na allai nifer mor fawr dderbyn y gwasanaethau hyn. Roedd y Fforwm yn pryderu am ddiffyg gwybodaeth talwyr ffi'r drwydded ynghylch y broses o newid i ddigidol. Pwysleisiodd fod gan y BBC ran allweddol i'w chwarae wrth addysgu talwyr ffi'r drwydded am wasanaethau digidol, a bod yn rhaid iddo helpu i egluro'r broses. Gofynnodd pob Cyngor am fwy o wybodaeth am wasanaethau digidol i bobl a fyddai'n cofrestru'n hwyr.

Mynegodd Cyngor Darlledu'r Alban bryderon ynghylch y methiant, yn arbennig mewn darllediadau newyddion a chwaraeon, i wahaniaethu rhwng materion a oedd yn effeithio ar y DU gyfan a materion a oedd yn berthnasol mewn mannau eraill ond nad oeddent yn effeithio ar yr Alban. Mynegodd Cyngor Darlledu Cymru bryderon tebyg am faterion nad oeddent yn berthnasol i Gymru ar ôl datganoli. Roedd y Cyngor hefyd yn awyddus i fwletinau newyddion rhwydwaith gynnwys mwy o straeon a oedd yn adlewyrchu profiadau yng Nghymru. Fel y nodir gennym mewn adran arall, mae BBC Newyddion yn bwriadu cynnig modiwl hyfforddiant ar ohebu ar y DU ddatganoledig. Dywedodd Cyngor Darlledu Gogledd Iwerddon fod angen i raglennu a gomisiynwyd gan y rhwydwaith o Ogledd Iwerddon – yn enwedig drama – gael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon. Nododd y Fforwm hefyd mai prin oedd yr enghreifftiau o fywyd yn rhanbarthau Lloegr o fewn drama rhwydwaith y BBC. Roedd pob Cyngor yn awyddus i weld cysylltiadau agosach rhwng comisiynwyr rhaglenni rhwydwaith a'r gwledydd a'r rhanbarthau.

Nododd Cyngor Darlledu Gogledd Iwerddon mai un o'r pryderon allweddol a godwyd gan gynulleidfaoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus oedd yr iaith anweddus a ddefnyddir mewn rhai rhaglenni. Teimlai'r Cyngor y byddai ymchwil i'r canfyddiad o iaith amhriodol, gan ganolbwyntio ar amrywiadau rhanbarthol mewn agweddau, o ddefnydd i'r BBC a darlledwyr eraill.

Nododd y Cyngor hefyd bwysigrwydd darparu rhaglennu Gwyddeleg a Gaeleg Ulster a gofynnodd am eglurhad o'r gofyniad yn y Siarter newydd y dylid gwneud "darpariaeth briodol" yn y maes hwn.

Croesawodd Cyngor Darlledu Cymru yr arolwg o amserlen BBC 2W, yn arbennig o ystyried nifer gynyddol y bobl sy'n gwylio'r gwasanaeth drwy Freeview ac nad oedd ganddynt, felly, unrhyw fynediad i BBC Two Wales. Nododd y Cyngor hefyd bwysigrwydd partneriaeth strategol agos rhwng y BBC ac S4C, a fyddai'n hanfodol er mwyn sicrhau y câi cynulleidfaoedd yng Nghymru y gwasanaeth darlledu cyhoeddus gorau.

Nododd Cyngor Darlledu'r Alban y lefel gymeradwyaeth isel i raglenni gwleidyddol a chredai fod angen datblygu rhaglennu arloesol a fyddai'n apelio i gynulleidfa ehangach yn ogystal â'r rhaglenni gwleidyddol traddodiadol. Croesawyd mentrau BBC Scotland fel Wythnos Ynni fel ffordd o ennyn diddordeb cynulleidfaoedd mewn pynciau materion cyfoes. Nododd y Cyngor hefyd fod angen i BBC Scotland ddatblygu rhaglenni rhwydwaith llwyddiannus ar draws pob genre o ystyried fod nifer o gyfresi hir sefydledig bellach wedi dod i ben.

Rhoddodd Fforwm Cenedlaethol Lloegr sylw penodol i'r cynllun teledu lleol peilot sydd ar waith yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Nodwyd ganddynt y byddai gwasanaethau o'r fath yn hanfodol yn y dyfodol wrth i'r BBC geisio cysylltu â chymunedau ledled y DU. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt bod angen darparu cyllid digonol i wasanaethau o'r fath.

O dan y Siarter Frenhinol newydd ddrafft, caiff y Cynghorau Darlledu a Fforwm Cenedlaethol Lloegr eu disodli gan gyrff newydd a elwir yn Gynghorau Cynulleidfa – un yr un i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Caiff barn y Cynghorau Darlledu a'r Fforwm eu cyhoeddi'n fanylach yn eu Harolygon Blynyddol. Mae'r rhain ar gael ar wefan Llywodraethwyr y BBC yn www.bbcgovernors.co.uk

### Y Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC) yn rhoi cyngor i'r BBC ar bolisi a rhaglenni crefyddol.

Er mwyn paratoi ar gyfer dechrau cyfnod y Siarter newydd a'r broses o ddisodli Bwrdd Llywodraethwyr y BBC ag Ymddiriedolaeth y BBC, bu Uned Lywodraethu'r BBC yn cynnal arolwg trwyadl o drefniadau atebolrwydd y BBC. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriwyd rôl system bresennol y BBC o gyrff ymgynghorol, fel CRAC.

Cymerodd CRAC ran weithgar yng ngwaith yr Uned Lywodraethu i ymdrin â'r mater hwn drwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae

# Bod yn atebol ac yn gyfrifol




**Gwefan Cwynion y BBC**
Bod yn ymatebol: mae'r BBC wedi ailwampio ei system cwynion i'w gwneud hi'n haws i dalwyr ffi'r drwydded gwyno os ydynt yn anfodlon ar unrhyw agwedd ar ddarllediadau'r BBC



**Canolfan Agored y BBC, Sheffield**
Bod yn atebol: Cadeirydd y BBC, Michael Grade, yn ateb cwestiynau gan dalwyr ffi'r drwydded yn Sheffield – darlledwyd y drafodaeth yn fyw ar BBC Radio Sheffield

gan CRAC rôl ddeuol yn cynghori Bwrdd y Llywodraethwyr ar faterion polisi eang ac yn cynghori rheolwyr y BBC ar raglennu. O dan y trefniadau llywodraethu newydd, sy'n seiliedig ar yr egwyddor bod angen rhaniad llawer amlycach rhwng yr Ymddiriedolaeth, fel corff sofran y BBC sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth strategol a rheoliadol, a Gweithrediaeth y BBC, sy'n gyfrifol am ddyletswyddau gweithredol, bydd angen trafod y rôl ddeuol hon. Felly, o ran y dyfodol, mae angen ystyried sut ac ar ba delerau y gallai CRAC barhau i gyflawni rôl ymgynghorol ddefnyddiol sy'n gydnaws â'r egwyddor hon o rannu'r ddwy elfen. Trafodwyd amrywiol opsiynau ac mae gwaith yn parhau i ystyried y mater hwn y mae'n rhaid ei ddatrys mewn da bryd cyn dechrau cyfnod y Siarter newydd.

Er mai ei rôl yn y dyfodol fu prif ffocws CRAC eleni, ymgymerodd â gwaith hefyd ar faterion sy'n ymwneud â'i gylch gwaith presennol. Bu'n rhan o ymgynghoriad ar newidiadau i ddarllediadau crefyddol World Service, a oedd yn cynnwys mwy o bwyslais ar newyddiaduraeth grefyddol yn hytrach nag addoli.

**Grŵp Ymgynghorol BBC World Service a Global News**
Mae Grŵp Ymgynghorol World Service a Global News Llywodraethwyr y BBC yn rhoi asesiad allanol annibynnol i'r Llywodraethwyr o amrywiaeth ac ansawdd darllediadau BBC World Service a BBC World.

Yn 2005/2006, comisiynodd y Grŵp waith ymchwil annibynnol gan Ipsos MORI i adolygu darllediadau World Service yn Saesneg i Affrica, Wrdw, Romaneg, Persieg a Sbaeneg i America. Ar y cyfan, roeddent yn fodlon bod y darllediadau World Service a adolygwyd o safon dda, ac ni nodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol.

Yng nghyd-destun y gystadleuaeth gynyddol gan orsafoedd radio newydd mewn sawl un o'r gwledydd a adolygwyd, calonogwyd y Grŵp gan y canfyddiadau. Mae World Service wedi cadw ei ddelwedd fel ffynhonnell newyddion gadarn a dibynadwy ac ystyrir bod ei newyddiaduraeth yn fanylach na gorsafoedd radio eraill, gan gynnwys cystadleuwyr rhyngwladol. Fodd bynnag, roedd arwyddion bod y cynnydd o ran gorsafoedd lleol mwy bywiog yn newid disgwyliadau'r gynulleidfa o raglenni newyddion (yn arbennig yn Pacistan ac Affrica) a bod rhai pobl ifanc nad ydynt yn gwrando o'r farn nad oedd gan arddull cyflwyno World Service ddeinamiaeth nac egni. Teimlai'r Grŵp y byddai'n bwysig monitro'r risg y byddai ei wrandawyr yn rhoi'r gorau i wrando ar World Service.

O ystyried digwyddiadau mawr ledled y byd, darparodd ein gwaith ymchwil gyfle i fesur llwyddiant canfyddedig World Service wrth ymdrin â'r materion anodd hyn. Roeddem yn falch dod i'r casgliad bod World Service wedi llwyddo i gynnal ei enw da am fod yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Ni chafwyd unrhyw gyhuddiadau o duedd ar faterion rhyngwladol gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, codwyd rhai materion ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Er enghraifft, yn Affrica, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod gan y BBC agwedd Orllewinol tuag at Affrica a'i fod yn ymdrin â'r cyfandir fel "problem". Mae'r Grŵp wedi gofyn i reolwyr World Service ystyried y mater hwn yn ei gynyrchiadau.

Nodwyd y gwasanaethau ar-lein yn benodol fel dull a oedd yn cynnig fersiwn hygyrch o frand y BBC ag apêl eang. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd cyflwyno pellach y gellid eu gwella. Roedd y rhain yn cynnwys gwella golwg tudalennau hafan anniben; ei gwneud hi'n haws dychwelyd i hafan y gwasanaeth iaith; rhoi cyfarwyddiadau cliriach ar gyfer defnyddio'r tudalennau *Learn English* a *Participate;* ac ystyried geiriadur Saesneg/Wrdw cwbl weithredol er mwyn cynyddu nifer y bobl a fyddai'n gallu defnyddio'r safle a'i werth addysgol.

Llwyddodd yr adborth gan yr ymatebwyr i fodloni'r Grŵp bod eu gwaith ymchwil – er yn gyfyngedig ac argraffiadol, yn anochel – serch hynny, yn darparu arwydd defnyddiol o amrywiaeth o safbwyntiau gwrandawyr a darpar wrandawyr ar draws y gwasanaethau iaith. Hysbyswyd rheolwyr World Service o bryderon allweddol yr ymatebwyr.

## Ymateb i gwynion

Mae gan y BBC ymrwymiad Siarter i sicrhau bod y BBC yn ymdrin yn briodol â sylwadau a chwynion. Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr yw'r is-bwyllgor sy'n monitro'r broses hon. Mae'n cael adroddiadau chwarterol am gwynion gan y rheolwyr ac yn ystyried arolwg blynyddol o'r broses o ymdrin â chwynion. Mae hefyd yn ystyried cwynion golygyddion difrifol os gwneir apêl yn eu cylch.

**System cwynion newydd**
Lansiodd y BBC system cwynion gynhwysfawr newydd ym mis Chwefror 2005. Ymhlith nodweddion allweddol y system mae cod ymarfer cyhoeddedig; ymrwymiad i ateb cwynion cychwynnol o fewn deg diwrnod gwaith; gwefan cwynion (bbc.co.uk/complaints) sy'n cael ei gwella'n barhaus; proses tri cham glir gyda'r Pwyllgor yn gweithredu fel cam olaf y system; a Bwrdd Rheoli Cwynion wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol i oruchwylio'r broses o ymdrin â chwynion gan reolwyr a rhannu dysgu ar lefel uwch.

Dadansoddwyd y system cwynion gan dîm archwilio mewnol y BBC eleni er mwyn gwerthuso ei chadernid yn erbyn mesurau archwilio mewnol. Ni chanfuwyd unrhyw feysydd pryder pwysig. Canfu yr ymdriniwyd â'r cwynion a oedd yn rhan o'r sampl yn unol â'r gweithdrefnau; bod ymwybyddiaeth dda o'r system newydd; bod cydberthynas effeithiol â

## 11.8 miliwn

o oedolion mewn cartrefi â setiau teledu digidol a ddefnyddiodd BBCi 24/7 ym mis Mawrth 2006

## 27%

o'r boblogaeth a wyliodd o leiaf 15 munud o *Springwatch* (BBC Two, Mai-Mehefin 2005)




Hyfforddiant
Creu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol i'r cyfryngau: mae'r BBC yn cynnig hyfforddiant clodwiw i'w staff ei hun - ac i lawer o bobl eraill o fewn diwydiant darlledu'r DU

Capita – y darparwr gwasanaethau rheng flaen; a bod gwybodaeth reoli yn gadarn. Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella ymhellach, er enghraifft, gwell cyfathrebu rhwng rhai meysydd, ac ymdrinnir â'r rhain.

Nododd y Pwyllgor gyflawniad y rheolwyr o ran gweithredu a gwella'r system cwynion newydd. Nododd y Pwyllgor fod y BBC yn fwy parod i gyfaddef mewn achosion lle y gwnaeth gamgymeriad. Bydd trafodaethau'n parhau i sicrhau bod ymddiheuriadau yn ddigon llawn ac eglur.

Eleni ymdriniodd y BBC â chyfanswm o dros 150,000 o gwynion, o gymharu â 137,000 y flwyddyn flaenorol. Roedd dros 50,000 o gyfanswm cwynion y llynedd yn gwynion am *Jerry Springer – the Opera*, sy'n golygu bod y cyfanswm sylfaenol wedi cynyddu tua 80%. Roedd y Pwyllgor o'r farn mai'r prif reswm tebygol am y cynnydd yw gwell hygyrchedd o ran cwyno o ganlyniad i'r wefan. Ymhlith rhai materion penodol nodedig eleni roedd cwynion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol; y fformat newydd ar gyfer cyflwyno'r tywydd; a'r ddadl ynghylch y cartwnau o'r Proffwyd Muhammad.

Ymatebwyd i 91% o gwynion Cam 1 (h.y. i'r rhaglen neu BBC Gwybodaeth) o fewn y targed o ddeg diwrnod gwaith o'u derbyn. Rhoddwyd trefniadau arbennig ar waith i ymdrin â chwynion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol.

### BBC Gwybodaeth

Parhaodd BBC Gwybodaeth i weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, gan ymdrin â chwynion dros y ffôn, drwy lythyr ac e-bost. Mae'n ymdrin â mwyafrif helaeth y cwynion ar Gam 1. Rhoddodd tua dwy ran o dair o'r achwynwyr sgôr o 8 allan o 10 o leiaf i BBC Gwybodaeth o ran eu boddhad cyffredinol â'r gwasanaeth mewn arolwg annibynnol gan MORI. Nododd y Pwyllgor fod y ffigur hwn yn un da yng nghyd-destun ymdrin â chwynion. Croesawodd gynnig y rheolwyr i fesur canfyddiadau'r cyhoedd o barodrwydd y BBC i dderbyn cwynion yn ystod 2006/2007.

### Uned Cwynion Golygyddol

Rôl yr Uned Cwynion Golygyddol yw derbyn cwynion golygyddol difrifol gan bobl nad ydynt yn fodlon ar yr ymateb Cam 1. Mae'n ystyried y cwynion hyn yn annibynnol ar wneuthurwyr rhaglenni. Ystyriodd yr Uned 206 o gwynion (0.14% o'r holl gwynion): cadarnhawyd 40 ohonynt (19.5%) yn llwyr neu'n rhannol. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r cwynion a gadarnhawyd yn chwarterol, ynghyd â nodyn o'r camau a gymerwyd ymhob achos. Ymatebwyd i 53% o'r cwynion o fewn pedair i saith wythnos (48% yn 2004/2005). Y targed yw ymateb i 80% o fewn y terfyn amser hwn.

Cynhaliwyd arolwg o'r Uned mewn ymateb i gyd-destun newydd y system cwynion newydd, a chaiff strwythurau a gweithdrefnau newydd eu rhoi ar waith yn ystod 2006/2007. Nododd y Pwyllgor y dylai'r gweithdrefnau newydd helpu i wella amseroedd ymateb.

### Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr

Rhan o gylch gwaith y Pwyllgor yw gwrando ar gwynion golygyddol difrifol y gwneir apêl yn eu cylch – h.y. gan bobl sydd wedi dilyn y ddau gam gyda'r rheolwyr ond sydd yn dal yn anfodlon ar yr ymateb. Cyflwynwyd apeliadau ynghylch pum deg pedwar o gwynion. O'r rhain, cadarnhawyd wyth yn llwyr neu'n rhannol.

Fel rhan o'i amcanion ehangach i sicrhau gwell tryloywder ac atebolrwydd, adolygodd y Pwyllgor ei weithdrefnau ei hun yn ystod 2005/2006, ac ym mis Mawrth 2006, cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i'r ffordd y byddai'n ystyried apeliadau ac yn ymdrin â hwy. Roedd y cynigion fel a ganlyn: yn gyntaf, y dylid rhoi cyfle fel arfer i bob ochr gyflwyno sylwadau ar ddeunydd a ddarparwyd i'r Pwyllgor wrth wneud ei benderfyniad; yn ail, gyda rhai cwynion uniongyrchol (lle yr effeithir yn uniongyrchol ar achwynwyr gan faterion sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd) dylai fod gan y Pwyllgor y disgresiwn i gynnal gwrandawiad. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cyhoeddi manylion am ei weithdrefnau, a chynhaliodd ymgynghoriad ar y broses o'u drafftio. Mae'r Pwyllgor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'n bwriadu rhoi gweithdrefnau newydd ar waith yn ddiweddarach yn 2006.

### Ofcom

Gall rheoleiddiwr y diwydiant Ofcom hefyd dderbyn cwynion ar y rhan fwyaf o faterion golygyddol. Yr eithriad nodedig yw cwynion sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir – Llywodraethwyr y BBC yn unig sy'n rheoleiddio'r materion hyn. Cafwyd bod y BBC wedi torri'r codau rheoleiddiol mewn wyth achos yn ymwneud â safonau a deg achos yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfiad golygyddol, gweler tudalen 89.



*BBC World Class*
Cyflwyno'r byd i'r DU: fel rhan o'r tymor *Africa Lives* cysylltodd prosiect *BBC World Class* fwy na 1700 o ysgolion yn Affrica a'r DU. Gefeilliwyd yr ysgol hon yn Lagos ag ysgol yn Loughborough



*Serious Amazon*
Cefnogi talent newydd: anfonodd cyfres CBBC *Serious Amazon* grŵp o blant - a ddewiswyd mewn cystadleuaeth genedlaethol - ar daith heriol i Dde America. Gwnaed ymdrech arbennig i gynnwys plant o gefndiroedd difreintiedig

## Coleg Newyddiaduraeth y BBC

Yn 2005, cymeradwywyd cynnig sefydlu Coleg Newyddiaduraeth y BBC gennym – arwydd o'n penderfyniad y dylai newyddiadurwyr y BBC gael yr hyfforddiant gorau er mwyn sicrhau y gallant gyrraedd y safonau uchaf o annibyniaeth, cywirdeb a bod yn ddiduedd.

Fe'n calonogir gan y cynnydd cyflym a wnaed ers hynny. Penodwyd Vin Ray, un o newyddiadurwyr uchaf ei barch y BBC, yn Gyfarwyddwr a dechreuodd y gwaith i nodi'r sgiliau allweddol a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar newyddiadurwyr y BBC yn y dyfodol a'r ffordd orau o'u cyflwyno.

Nid adeiladau ar gampws yw'r Coleg. Caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno – wyneb yn wyneb neu drwy fodiwlau ar-lein a weinyddir yn bersonol – yn agos at weithleoedd newyddiadurwyr y BBC. Y nod yw cynnig dysgu parhaus i bob aelod o staff ar bob lefel o'i yrfa.

Ym mis Mawrth 2006, lansiwyd modiwl *Israel and the Palestinians* gan ddefnyddio golygydd Dwyrain Canol y BBC Jeremy Bowen ac wedi'i anelu at 4,000 o aelodau o staff. Bydd modiwlau yn y dyfodol yn cynnwys hyfforddiant cyfreithiol, gohebu ar y DU ddatganoledig a gohebu ar faterion sy'n ymwneud â ffydd a chrefydd.

Mae gwefan ar faterion newyddiaduraeth wrthi'n cael ei datblygu fel y prif bwynt mynediad ar gyfer holl weithgareddau'r Coleg yn ogystal â fforwm ar gyfer trafodaethau a dadleuon. Bydd y Coleg yn ceisio meithrin cydberthnasau cadarn â chyrff allanol allweddol fel asiantaethau rheoleiddio, melinau trafod, ysgolion hyfforddi newyddiaduraeth a sefydliadau newyddion eraill.

## Hyfforddi a datblygu

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y rheolwyr arolwg cynhwysfawr o'r strategaeth hyfforddi a datblygu. Daeth i'r casgliad bod y model hyfforddi presennol yn rhy gymhleth ac nad oedd yn hyrwyddo ymagwedd strategol gyfun hir dymor nac yn annog arloesedd. Argymhellodd strategaeth hyfforddi a datblygu newydd yn canolbwyntio ar feysydd sy'n hanfodol i'r BBC a'r diwydiant darlledu ehangach. Rhoddwyd y strategaeth hon ar waith.

Caiff yr holl gyllid hyfforddi a datblygu ei reoli erbyn hyn gan Fwrdd Dysgu newydd sy'n pennu ac yn monitro blaenoriaethau gwario. Caiff yr hyfforddiant ei hun ei sianelu drwy bedwar bwrdd hyfforddi sy'n cwmpasu newyddiaduraeth (gan gynnwys Coleg Newyddiaduraeth y BBC – gweler y blwch); arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd personol; cynhyrchu (gan gynnwys peirianneg); a chreadigrwydd a dealltwriaeth o'r gynulleidfa. Caiff pob bwrdd hyfforddi ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol, sydd hefyd yn aelod o'r Bwrdd Dysgu.

### Hyfforddi'r diwydiant

Yn ogystal â hyfforddi ei staff ei hun, mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan bwysig fel hyfforddwr i'r diwydiant darlledu ehangach. Yn 2005, darparodd y BBC dros 3,800 o ddiwrnodau o hyfforddiant i 176 o sefydliadau. Mae BBC Hyfforddi a Datblygu hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar-lein am ddim sy'n cwmpasu agweddau ar gynhyrchu teledu a radio – gan gynnwys ffilmio, goleuadau, golygu, ysgrifennu, cyfweld a chyngor iechyd a diogelwch. Yn ogystal, mae'r BBC yn cynnig hyfforddiant am ddim ac am bris gostyngol i weithwyr llawrydd a gweithwyr contract ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gwaith camera, sain, goleuadau a chyfryngau newydd. Yn 2005, cafodd 300 o weithwyr llawrydd yn y DU fudd o hyfforddiant y BBC. Mae'r BBC hefyd yn cynnal cydberthnasau strategol gyda Skillset (cyngor sgiliau sector y diwydiannau clyweledol) a chyda'r Rheoleiddiwr Hyfforddiant a Sgiliau Darlledu a sefydlwyd gan Ofcom.

### BBC Talent

Lansiwyd BBC Talent yn 2000 ac mae'n parhau i ddarparu llwybr i mewn i'r BBC i dalent newydd o bob cwr o'r DU. Ymhlith y cynlluniau newydd yn 2005/2006, roedd dod o hyd i gyflwynydd newydd i BBC Radio Coventry & Warwickshire, dod o hyd i DJs newydd a dramodwyr radio i BBC 1Xtra, a chystadleuaeth i ddewis wyth plentyn i gymryd rhan yng nghyfres CBBC *Serious Amazon* – i annog plant na fyddent o bosibl wedi gwneud cais fel arall. Cynhaliodd tîm o BBC Talent weithdai mewn 25 o ysgolion, gyda sawl un ohonynt yng nghanol dinasoedd.

### Gwobrau

Yn 2005/2006, enillodd y BBC dros 250 o wobrau a oedd yn gysylltiedig â rhaglenni ar deledu, radio a chyfryngau newydd. Roedd y rhain yn cynnwys 24 Bafta (Teledu, Crefft a Phlant), 22 gwobr Aur Sony, 48 gwobr RTS (Rhaglen, Addysgol, Newyddiaduraeth, Chwaraeon, Crefftau a Dylunio), dwy wobr Webbie ac un wobr Prix Italia.

### Amrywiaeth

Mabwysiadodd y rheolwyr strategaeth amrywiaeth newydd yn 2005, yn dilyn arolwg o weithgarwch yn ystod y blynyddoedd cyn hynny. Ymhlith egwyddorion allweddol y strategaeth newydd, mae'r ffaith y dylid ystyried amrywiaeth fel cyfle creadigol i'r BBC ymgysylltu â chynulleidfa'r DU yn ei chyfanrwydd. Dylid ystyried bod amrywiaeth yn cynnwys ethnigrwydd, anabledd, oed, ffydd, rhywioldeb, dosbarth, tuedd wleidyddol a gwahaniaethau rhanbarthol. Dylid dal arweinwyr y BBC drwy'r sefydliad cyfan i gyfrif am sicrhau bod amrywiaeth ar waith yn eu rhan hwy o'r busnes a dylid cynnwys amrywiaeth o fewn prosesau allweddol

88,969

o geisiadau am swyddi – y nifer a derbyniwyd gan BBC Recriwtio yn 2005/2006



*People's War*
Adrodd hanes cymunedau: rhoddodd prosiect *People's War* y BBC gyfle i lawer o bobl recordio eu hatgofion personol o'r Ail Ryfel Byd - gan greu archif gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol

91.6%

o raglennu ar BBC One yn cynnwys is-deitlau yn 2005/2006

## Darllediadau BBC Newyddion o'r UE

Yn ystod y flwyddyn, gofynasom i'r rheolwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd wrth weithredu argymhellion adroddiad Wilson yn 2005 o ran pa mor ddiduedd oedd darllediadau'r BBC o'r UE. Cawsom ymateb y rheolwyr ym mis Chwefror 2006.

Croesawn y cynnydd sylweddol a wnaed gan y rheolwyr wrth weithredu newid yn y maes hwn.

Ymhlith y mentrau hyfforddiant newydd roedd cwrs ar-lein rhyngweithiol gorfodol ar yr UE a ddilynwyd gan dros 6,000 o bobl. Yn ogystal, mae'r Coleg Newyddiaduraeth yn bwriadu cynnal cyfres o seminarau a chynhyrchu dwy ffilm i'w dosbarthu i bob tîm rhaglen er mwyn ceisio eu hannog i feddwl yn ddyfnach am eu darllediadau o'r UE.

Croesawn benodiad Mark Mardell fel Golygydd Ewrop cyntaf y BBC. Mae ei waith wedi ychwanegu dyfnder ac awdurdod sylweddol i ddarllediadau'r BBC.

Bellach caiff darllediadau'r BBC o'r UE eu monitro'n rheolaidd bob chwe mis gan y rheolwyr, gan asesu elfennau fel cywirdeb, tegwch a'r defnydd o iaith. Caiff y canlyniadau a'r argymhellion eu hystyried gan y Bwrdd Newyddiaduraeth, a gadeirir gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ac sy'n dod ag arweinwyr holl adrannau newyddiaduraeth y BBC ynghyd – gan gynnwys newyddiaduraeth genedlaethol, rhyngwladol, rhanbarthol a lleol.

gwneud rhaglenni, creadigrwydd, cyflwyno gwasanaethau a chreu gweithlu cynhwysol. Crëwyd Bwrdd Amrywiaeth, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, i bennu blaenoriaethau a monitro cynnydd.

Bu gan y BBC dargedau ar gyfer amrywiaeth ei weithlu ers sawl blwyddyn. Disgwylir i'r targedau hyn gael eu cyrraedd erbyn mis Rhagfyr 2007. Maent yn cynnwys targed i sicrhau bod 12.5% o gyfanswm y gweithlu yn staff o leiafrifoedd ethnig a bod 7% o swyddi uwch reolwyr yn staff o leiafrifoedd ethnig. Erbyn mis Mawrth 2006, 10.3% a 5.3% oedd y ffigurau (10.1% a 4.9% ym mis Mawrth 2005). Ceir targed hefyd i sicrhau bod 4% o gyfanswm y gweithlu yn staff anabl. Erbyn mis Mawrth 2006, 2.7% oedd y ffigur hwn (dim newid o fis Mawrth 2005). Mae'r cynnydd araf ar dargedau amrywiaeth yn 2005/2006 yn adlewyrchu'n rhannol y gostyngiad o ran recriwtio allanol.

Ym mis Hydref 2005, cynhaliodd y BBC seminar Arweinwyr Anabledd a ddaeth â chynrychiolwyr o 24 o sefydliadau anabledd allweddol ac uwch reolwyr y BBC ynghyd. Ystyriodd y seminar faterion gan gynnwys portreadu, recriwtio a sut y gall technoleg wella mynediad. Bwriedir cynnal seminar dilynol yn 2006 er mwyn adolygu cynnydd a pharhau â'r drafodaeth â grwpiau anabledd.

### Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Mae'r BBC yn anelu at sicrhau gwerth cyhoeddus yn bennaf drwy ei raglenni a'i wasanaethau, ond mae hefyd yn cynnig gwerth cyhoeddus drwy weithgareddau sy'n ymestyn yn uniongyrchol i gymdeithas drwy ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR).

Dyma sut y mae'r BBC yn diffinio ei uchelgeisiau yn y maes hwn: "Cenhadaeth graidd y BBC yw cyfoethogi bywydau pobl gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Yn unol â hyn, mae'r BBC yn anelu at fod yn ddinesydd corfforaethol cyfrifol, gan weithredu er budd y cyhoedd, i atgyfnerthu a chyfoethogi cymunedau ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Mae CSR yn golygu byw yn ôl ein gwerthoedd gydag uniondeb a chysondeb ethnig tuag at ein pobl ein hunain, ein cynulleidfa, cyflenwyr busnes a'r cymunedau lle rydym yn gweithredu, er mwyn cadw eu ffydd yn y BBC. Drwy gyflawni ein dyletswyddau cyhoeddus a thrwy ymrwymiadau amgylcheddol, moesegol, elusennol a chymunedol y caiff effaith gymdeithasol y BBC ei hamlygu fwyaf."

Mae Busnes yn y Gymuned, sef y sefydliad sy'n anelu at wella effaith gadarnhaol busnes mewn cymdeithas, yn cyhoeddi mynegai CSR bob blwyddyn. Mae'n rhoi meincnod o'r ffordd y mae cwmnïau yn rheoli, yn mesur ac yn rhoi adroddiad ar eu heffaith ar gymdeithas. Yn 2006 95% oedd sgôr y BBC (90% yn 2005) a olygai ei fod yn rhannu'r 20fed safle o blith 100 cwmni gorau'r DU ar gyfer CSR (i fyny o 32ain yn 2004) a'r BBC oedd orau o blith sector y cyfryngau ac adloniant.

Cyhoeddodd y BBC adroddiad CSR (sydd ar gael ar-lein yn bbc.co.uk/info/csr) sy'n rhoi mwy o fanylion am yr amrywiaeth eang o weithgareddau a ddefnyddir gan y BBC i weithredu ei bolisïau CSR.

Cofnodir rhai o'r gweithgareddau hyn yn 2005/2006 isod.

**Gwaith elusennol: codi arian drwy apeliadau**
Mae apeliadau a ddarlledir yn wasanaeth cyhoeddus pwysig. Maent yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd y BBC gefnogi elusennau, tra'n rhoi cyfle i elusennau godi arian ac ymwybyddiaeth o'u gwaith.

Cynghorir y BBC gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Apeliadau (AAC), sy'n cynnwys 12 o ymgynghorwyr allanol arbenigol sy'n cynrychioli ystod eang o fuddiannau ar draws

# 414,019

o ymwelwyr â Chanolfannau Agored a bysiau'r BBC yn 2005/2006



Plant mewn Angen
Estyn llaw i'r anghenus: Fearne Cotton gyda Ruby, un o gleifion Hospis Plant Richard House yn Nwyrain Llundain, un o'r elusennau niferus a gafodd gymorth drwy grant gan Plant mewn Angen

y maes elusennol. Mae'r AAC yn rhoi cyngor ar bolisi apeliadau'r BBC ac yn cynorthwyo'r BBC i oruchwylio prosiectau codi arian mawr megis Diwrnod Trwyn Coch ac apêl Plant mewn Angen y BBC. Mae hefyd yn cynghori ar ddyrannu apeliadau wythnosol Radio 4 ac apeliadau *Lifeline* BBC One. Ar ddiwedd 2005, yn dilyn argymhelliad adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraethwyr, trosglwyddwyd llinellau atebolrwydd yr AAC o Fwrdd y Llywodraethwyr i reolwyr y BBC.

Yn ystod 2005/2006 gwnaed nifer o apeliadau mawr. Ym mis Tachwedd 2005, llwyddodd apêl Plant mewn Angen i godi dros £17miliwn ar y noson, a disgwylir i'r cyfanswm terfynol ddyblu. Caiff yr arian ei roi i amrywiaeth mawr o brosiectau sy'n gweithio gyda phlant yn y DU. Mae Apêl 'Treasure Trail' *Blue Peter* i Childline, a lansiwyd hefyd ym mis Tachwedd, wedi codi £413,033 hyd yma.

Yn 2005, roedd y BBC yn bartner mewn dwy apêl a gydlynwyd gan y Pwyllgor Argyfwng, sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli'r prif asiantaethau cymorth tramor. Cododd y gyntaf, ym mis Awst, £25miliwn i'r ymateb dyngarol i'r argyfwng bwyd yn Niger a gwledydd cyfagos, ac ym mis Hydref cododd apêl ar gyfer y daeargryn yn Asia £59miliwn i'r ymdrechion cymorth yng ngogledd Pacistan a Kashmir India.

Y llynedd rhoddodd cynulleidfaoedd fwy na £1.4miliwn i elusennau unigol a gafodd sylw mewn apeliadau wythnosol a misol. Rhoddodd gwrandawyr fwy na £1,194,000 i elusennau a gafodd sylw ar y *Radio 4 Appeal* wythnosol, gan gynnwys mwy na £661,000 i'r apêl Nadolig flynyddol ar gyfer St Martin-in-the-Fields.

Rhoddodd gwylwyr rhaglen fisol BBC One, *Lifeline,* fwy na £240,000 i'r elusennau a gafodd sylw dros y flwyddyn. Roedd y swm hwn yn cynnwys £95,061 ar gyfer y Starlight Children's Foundation, yn dilyn apêl a gyflwynwyd gan Stephen Fry, a £51,856 ar gyfer yr elusen dramor WaterAid.

## Gwaith elusennol: Ymddiriedolaeth BBC World Service

Elusen datblygu rhyngwladol y BBC yw Ymddiriedolaeth BBC World Service. Ei nod yw hyrwyddo datblygu drwy ddefnydd arloesol o'r cyfryngau yn y byd datblygol. Mae prosiectau'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd y cymunedau tlotaf, gan hyrwyddo iechyd da a darparu rhaglenni addysgol drwy radio a theledu mewn ieithoedd lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn helpu darlledwyr lleol a chenedlaethol i ddatblygu drwy hyfforddi newyddiadurwyr a staff cynhyrchu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn codi ei harian oddi wrth lywodraethau, asiantaethau rhyngwladol, sefydliadau partner eraill a rhoddion gan unigolion yn hytrach na thrwy'r BBC. Yn 2005/2006 codwyd £16miliwn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â darlledwyr cenedlaethol a lleol, elusennau a llywodraethau eraill, ac erbyn hyn mae ganddi fwy na 600 o aelodau o staff yn gweithio ar brosiectau mewn mwy na 50 o wledydd ledled y byd.

## Partneriaethau cymunedol

Mae'r BBC yn gweithredu nifer o bartneriaethau cymunedol ac mae'n chwilio am gyfleoedd i ymuno â sefydliadau lleol eraill i wella amodau yn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt. Maent yn cynnwys y Community Channel, sianel ddigidol am ddim o dan berchenogaeth lawn Ymddiriedolaeth y Cyfryngau, sef elusen sy'n rhoi arbenigedd ar y cyfryngau i elusennau eraill.

Drwy bartneriaeth strategol ar y cyd, mae'r Community Channel yn rhan o raglenni gweithredu cymdeithasol y BBC a, lle y bo hynny yn bosibl ac yn briodol, mae'n meithrin cysylltiadau â themâu a thymhorau perthnasol yn amserlenni teledu'r BBC. Mae hefyd yn gyfle i gyfnewid syniadau a sgiliau ar draws y ddau sefydliad.

## Bysiau a Chanolfannau Agored y BBC

Mae bysiau a Chanolfannau Agored y BBC yn ffordd o gysylltu'r BBC yn agosach â chymunedau, i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, i ddatblygu gwybodaeth am y cyfryngau a phontio'r bwlch digidol, ac i gynnwys mwy o bobl yn rhaglennu lleol y BBC.

Dechreuodd bws cyntaf y BBC weithredu yn 2001 yn Swydd Gaerhirfryn, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gaerhirfryn. Ei nod oedd mynd â gorsaf radio leol y BBC ar daith, rhoi cyfle i wrandawyr gymryd rhan ar yr awyr, a chynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ym maes y cyfryngau a TG. O ganlyniad i'w lwyddiant, comisiynwyd bysiau eraill a bellach ceir fflyd ohonynt sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hanner dwsin o gyfrifiaduron a mynediad i'r rhyngrwyd ar bob bws, yn ogystal ag offer stiwdio ddarlledu symudol. Mae tiwtoriaid cymwys ar bob bws i addysgu ymwelwyr.

Lansiwyd Canolfan Agored gyntaf y BBC yn 2001 hefyd – yn Blackburn – i atgyfnerthu ac ymestyn cysylltiad BBC Radio Lancashire â'i chynulleidfa leol drwy gynnig cyfleoedd i ddysgu am y cyfryngau, meithrin sgiliau TG a chymryd rhan mewn darllediadau cymunedol. Bellach mae canolfannau tebyg ledled Cymru a Lloegr. Yn 2005/2006, ymwelodd dros 360,000 o bobl â bysiau a Chanolfannau Agored y BBC yn Lloegr.

Mae'r BBC yn gweithio gyda sefydliadau addysgol allanol a sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw ymhob un o'r lleoliadau. Mae'r BBC yn gobeithio ehangu gwasanaeth bysiau a Chanolfannau Agored y BBC i ardaloedd eraill lle mae partneriaethau yn caniatáu hynny a lle y mae angen y gynulleidfa fwyaf.



Bysiau'r BBC
Mynd â'r BBC at y gynulleidfa: mae bysiau'r BBC, fel y bws hwn ar daith yn Cumbria, yn helpu i gysylltu'r BBC â chymunedau anodd eu cyrraedd




Ymwybyddiaeth amgylcheddol
Prynu cyfrifol: caiff y *Radio Times* ei argraffu ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy, rhan o bolisi'r BBC i ystyried pryderon amgylcheddol wrth brynu deunyddiau crai

77%

o'r gerddoriaeth a gaiff ei chwarae ar 1Xtra yn newydd (cyn ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau)

**Y BBC a'r amgylchedd**
Mae'r BBC yn ymdrechu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac mae'n mynd ati o ddifrif i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a rheoli ei risgiau busnes yn gyfrifol. Mae Mynegai Busnes yn yr Amgylchedd 2005 yn rhoi'r BBC yn safle 53 yn gyffredinol (i fyny o 61 yn 2004), ac yn drydydd yn sector y cyfryngau ac adloniant (i lawr o ail yn 2004).

Yn 2005 adolygodd y rheolwyr 72 o feysydd yng nghadwyn gyflenwi'r BBC i asesu eu heffaith ar yr amgylchedd ac ar ei enw da. O ganlyniad, nodwyd chwe chategori fel blaenoriaethau i weithredu arnynt a'u hadolygu, sef: pren a chynnyrch pren; trefnu contractau allanol ar gyfer rheoli cyfleusterau adeiladu; tacsis a cheir hur; fflyd (cerbydau darllediadau awyr agored a cherbydau cwmni); cyfleustodau; a threfnu contractau allanol ar gyfer y rhwydwaith trosglwyddo.

Ers mis Tachwedd 2005, prynwyd ein trydan gan ffynonellau 'Gwres a Phŵer Cyfun o Ansawdd Da' – maent yn hynod effeithlon o ran ynni ac yn cael eu heithrio o'r ardoll newid yn yr hinsawdd. Bellach mae Cynllun Masnachu Gollyngiadau'r UE, a gynlluniwyd i leihau gollyngiadau carbon deuocsid, ar waith ar nifer o safleoedd y BBC. Rhoddir tystysgrifau gollyngiadau $CO_2$ i'r safleoedd hyn ac os byddant yn gollwng mwy o $CO_2$ na'r lefel a bennir ar eu cyfer, rhaid i'r BBC brynu mwy o dystysgrifau yn y farchnad agored – neu, gallant werthu'r tystysgrifau sy'n weddill os byddant yn gollwng llai o $CO_2$. Yn 2005, cynhyrchodd y Media Village yn White City 5,103 tunnell yn llai o $CO_2$ na'r lefel a bennwyd ar ei gyfer – er bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r safle wedi'i feddiannu'n llawn eto.

Mae'r BBC yn anelu at gynyddu swm y pren a brynir ganddo o goedwigoedd a reolir mewn ffordd gynaliadwy. BBC Magazines sy'n gyfrifol am 95% o'r swm hwn ar ffurf mwydion ar gyfer papur, a bellach caiff gwybodaeth fanwl ei chasglu am ffynonellau er mwyn sicrhau bod cyfran gynyddol yn dod o goedigwoedd cynaliadwy. Defnyddir y 5% arall o bren mewn meysydd eraill gan gynnwys nwyddau ystafell ymolchi, dodrefn, setiau ac ategion. O ran y meysydd hyn, caiff gwell trefniadau prynu a systemau monitro eu datblygu ynghyd â thargedau gwella.

Mae'r BBC yn gweithio'n agos â'i bartneriaid allanol i sicrhau gwelliannau amgylcheddol. Yn aml, gall y partneriaid gyflwyno arbenigedd penodol a systemau ar gyfer rheoli'r risg amgylcheddol; yn aml gallant ariannu gwelliannau – er enghraifft, o ran offer ynni effeithlon a pheirianwaith pŵer; ac mae ganddynt y grym pwrcasu i ddylanwadu ar gadwyni cyflenwi mewn ffyrdd sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* 2005/2006

## Trosolwg

Yn unol â Deddf Cyfathrebu 2003, mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi datganiadau o bolisi rhaglenni bob blwyddyn, yn nodi sut y bydd y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith cyhoeddus ac i gyflwyno adroddiad ar berfformiad yn eu herbyn yn yr *Adroddiad Blynyddol.*

Yn y dyfodol, caiff y broses hon o asesu perfformiad ei gwella gan Drwyddedau Gwasanaeth a gyhoeddir gan Ymddiriedolaeth newydd y BBC. Bydd y Trwyddedau Gwasanaeth yn cynnwys amodau a mesurau perfformiad, a ategir gan y datganiadau blynyddol o bolisi rhaglenni. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn asesu perfformiad yn erbyn y Trwyddedau Gwasanaeth ac yn dal y rheolwyr i gyfrif.

Cyhoeddodd y BBC ei ddogfen *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* ar gyfer 2006/2007 ym mis Mai eleni (ar gael yn bbc.co.uk/info/statements2006).

Mae'r tablau hyn yn rhoi crynodeb o berfformiad yn 2005/2006 yn erbyn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni.* Isafswm yw pob ymrwymiad i oriau darlledu sy'n benodol i wahanol genres, oni nodir yn wahanol.

| BBC One: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o raglenni materion cyfoes | 90 | 159 awr |
| Cynyddu nifer yr oriau o faterion cyfoes yn ystod oriau brig, gan anelu at 48.5 awr yn 2006/2007 | – | 44 awr yn ystod oriau brig (i fyny o 40 awr yn 2004/2005) |
| Rhifynnau arbennig o *Panorama* yn ystod oriau brig | 4 | 4 rhifyn arbennig |
| Dechrau lleihau nifer y rhaglenni a welwyd o'r blaen ar y sianel hon a gaiff eu hailddarlledu yn ystod oriau brig i lefel sy'n is na'r terfyn presennol o 10% o'r oriau brig | <10% | 8.9% o'r oriau brig (i lawr o 9.7% yn 2004/2005) |
| Bydd rhaglenni gwyddoniaeth, byd natur a rhaglenni addysgol yn ffurfio rhan o'r ymrwymiad i oriau o raglennu ffeithiol newydd | 650 | 916 awr |
| Oriau o raglennu crefyddol ar BBC One | 80 | 92 awr |
| Oriau o raglennu crefyddol ar BBC One a BBC Two | 112 | 139 awr |
| Oriau o raglennu i blant | 400 | 672 awr |
| Oriau o raglennu chwaraeon | 260 | 670 awr |
| Oriau o gelfyddydau a cherddoriaeth | 45 | 82 awr |

| BBC Two: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o faterion cyfoes | 240 | 259 awr |
| Oriau o newyddion | 100 | 673 awr |
| Oriau o raglennu celfyddydol a cherddoriaeth | 200 | 350 awr |
| Oriau o raglennu ffeithiol | 500 | 1,438 awr |
| Oriau o raglennu crefyddol (fel rhan o ymrwymiad ar y cyd â BBC One) | 20 | 47 awr |
| Oriau o raglennu newydd i blant | 100 | 153 awr |
| Oriau o chwaraeon | 430 | 1,028 awr |

| BBC Three: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o raglenni materion cyfoes newydd | 15 | 16 awr |
| % yr oriau i fod yn newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth a'r celfyddydau | 15% | 28% o'r oriau |
| Oriau o raglennu cerddoriaeth a'r celfyddydau newydd | 50 | 52 awr |
| Mentrau talent newydd | 6 | 6 menter |
| Oriau o raglenni addysgol newydd | 30 | 127 awr |
| Oriau o raglenni gwyddoniaeth, crefydd, moeseg a busnes newydd | 15 | 20 awr |
| Darllediadau'r sianel gyda chymorth rhyngweithiol | 20% | Bodlonwyd y targed gan ddefnyddio negeseuon e-bost, SMS ac ar-lein |
| Comisiynu'r isafswm oriau cymwys gan y sector annibynnol | 25% | 33.1% o oriau cymwys |
| % gwariant o'r sector annibynnol ar raglenni cymwys | 25% | 37% o gyllidebau rhaglenni |
| % o'r gyllideb gymwys yn cael ei chynhyrchu y tu allan i'r M25 | 33% | 34.5% o'r gwariant |
| Cynyrchiadau a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer BBC Three | 80% | 82% o raglenni |
| Oriau rhaglenni o darddiad UE/AEE | 90% | 91% o'r oriau |
| Gwariant o darddiad UE/AEE | 90% | 94% o'r gwariant |

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2005/2006*

| BBC Four: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % o'r cynyrchiadau a wneir yn yr UE/AEE | 70% | 95% o'r oriau |
| Darlledu rhaglenni dogfen newydd o bob cwr o'r byd | 30 | 49 rhaglen ddogfen |
| Darlledu ffilmiau rhyngwladol newydd am y tro cyntaf | 20 | 34 darllediad cyntaf |

| CBeebies: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o raglenni genre cymysg | 4,500+ | 4,711 awr |
| Cynyrchiadau o darddiad DU/UE | tua 90% | 97% o'r oriau |
| % o fuddsoddiad y sianel ar raglennu newydd o'r DU | 75% | 77% o'r gwariant |
| % o oriau o raglennu'r DU sy'n ddeunydd newydd, gan gynnwys cynyrchiadau a gomisiynwyd o'r tu allan i Lundain | 25% | 27.3% o'r oriau |

| Sianel CBBC: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion | 85 | 97 awr |
| Oriau o ddrama | 650 | 768 awr |
| Oriau o gyflwyno byw | 240 | 313 awr |
| Oriau o raglennu ffeithiol a rhaglennu i ysgolion | 1,000+ | 1,388 awr |
| % o'r cynyrchiadau a wneir yn yr UE/AEE | tua 75% | 88% o'r oriau |
| % o'r buddsoddiad a wneir yn yr UE/AEE | tua 75% | 96% o'r gwariant |
| % o gyllidebau rhaglenni a ddyrannwyd i gynyrchiadau gwreiddiol, gan gynnwys cynyrchiadau a gomisiynir o'r tu allan i Lundain | tua 75% | 95% o'r gwariant |
| % o oriau rhaglenni a ddyrannwyd i gynyrchiadau gwreiddiol, gan gynnwys cynyrchiadau a gomisiynir o'r tu allan i Lundain | tua 25% | 33% o'r oriau |

| BBC News 24: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Nifer y rhifynnau o *HARDtalk* yn cynnwys cyfweliadau ar ffurf hir gyda gwneuthurwyr newyddion a ffigurau diwylliannol | 200 | 206 rhifyn |
| Oriau o ddadlau gwleidyddol drwy raglenni fel *Straight Talk* | 35 | 38.5 awr |
| Rhifynnau o *Dateline London,* yn cynnig safbwynt amgen ar ddigwyddiadau gan ohebwyr tramor sydd wedi'u lleoli yn Llundain | 50 | 50 rhifyn |
| Isafswm oriau o newyddion chwaraeon | 100 | 115.8 awr |

| BBC Parliament: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o drafodion Senedd yr Alban | 100 | 133 awr |
| Oriau o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol | 100 | 100 awr |
| Oriau o raglennu o Frwsel a Strasbwrg (gan gynnwys ailddarllediadau) | 100+ | 169 awr |
| Oriau o ddarllediadau o Bwyllgorau Dethol San Steffan | 400 | 427 awr |

Mae gofyniad rheoleiddiol ar wasanaethau Teledu'r BBC i fodloni cwotâu 'Haen 2' y cytunir arnynt gan Fwrdd y Llywodraethwyr gydag Ofcom bob blwyddyn galendr ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, gwneud rhaglenni rhanbarthol, rhaglenni newyddion a materion cyfoes, lefelau cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglennu rhanbarthol. Rhestrir y cwotâu hyn a chydymffurfiad â hwy yn yr adran Cydymffurfiad ar dudalen 91.

| BBC Radio 1: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion, chwaraeon a materion cyfoes | 310 | 339 awr |
| % o'r amserlen sydd wedi'i neilltuo i gerddoriaeth arbenigol neu raglenni llafar | 40% | 43.4% o'r amserlen |
| % o raglennu cerddoriaeth prif ffrwd sy'n 'newydd' (cyn ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau) | 45% | 51% o'r gerddoriaeth |
| % o raglennu cerddoriaeth prif ffrwd gan unigolion/grwpiau o'r DU | 40% | 49% o'r gerddoriaeth |
| Digwyddiadau a gwyliau byw yn y DU a thramor | tua 25 | 27 digwyddiad/gŵyl fyw |
| Sesiynau a pherfformiadau *Live Lounge* newydd | 250+ | 356 sesiwn/perfformiad newydd |
| Comisiynu rhaglenni dogfen newydd | 40 | 43 rhaglen ddogfen newydd |
| Oriau o raglennu dewisol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon | tua 200 | 223 awr |

| BBC Radio 2: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Rhaniad yr amserlen rhwng llafar a cherddoriaeth | tua 33% yn llafar | 37.5% yn llafar |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys bwletinau newyddion bob awr | 800 | 829 awr |
| Oriau o raglenni cerddoriaeth arbenigol | 1,100+ | 1,210 awr |
| Oriau o theatr gerddorol a cherddoriaeth ffilm | 60+ | 70 awr |
| Oriau o raglennu celfyddydol | 100+ | 112 awr |
| Oriau o ddarllediadau crefyddol yn cwmpasu amrywiaeth eang o grefyddau | 170+ | 170 awr |

| BBC Radio 3: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % o'r gerddoriaeth sy'n fyw neu wedi'i recordio'n arbennig | 50% | 53.2% o'r gerddoriaeth |
| Darllediadau byw yn cynnwys perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig | 500 | 595 awr |
| Comisiynu gwaith cerddorol newydd | 30+ | 36 darn o waith cerddorol newydd |
| Comisiynu rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol | 30 | 39 rhaglen ddogfen newydd |
| Y gyllideb a werir y tu allan i'r M25 | 40% | 45.4% o'r gwariant |

| BBC Radio 4: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes | 2,500 | 3,021 awr |
| Oriau o ddrama a darlleniadau gwreiddiol | 760 | 770 awr |
| Oriau o gomedi wreiddiol | 300 | 321 awr |
| % o *Afternoon Plays* newydd a fydd yn gomisiynau cyntaf neu'n ail gomisiynau gan awduron sy'n newydd i fyd radio | 35% | 43% o'r *Afternoon Plays* |
| Oriau o raglenni dogfen | 200 | 232 awr |
| Oriau o raglennu crefyddol | 200 | 214 awr |

| BBC Radio Five Live: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o ddarllediadau newyddion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol | 6,000/tua 70% | 6,549 awr/ 74.8% o'r darllediadau |
| Oriau o raglenni dogfen, ynghyd â dadleuon a gomisiynwyd yn arbennig ar ddigwyddiadau newyddion a chwaraeon pwysig | tua 50 | 56 awr |

## Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2005/2006*

| 1Xtra: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % o'r gerddoriaeth a gaiff ei chwarae sy'n 'newydd' (cyn ei rhyddhau, neu lai na mis ers ei rhyddhau) | 70% | 77% o'r gerddoriaeth |
| % o'r darllediadau sydd wedi'u neilltuo i newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglennu gweithredu cymdeithasol | tua 10% | 11.3% o'r darllediadau |
| % bras y darllediadau cyffredinol sy'n cynnwys eitemau llafar | tua 20% | 23.8% o'r oriau |
| Nifer y digwyddiadau cerddoriaeth fyw | 50 | 55 digwyddiad byw |
| % y gerddoriaeth a gaiff ei chwarae o'r DU | 40% | 46% o'r gerddoriaeth |

| BBC 6 Music: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o berfformiadau cyngerdd o'r archif | 400+ | 530 awr |
| Nifer y sesiynau newydd a recordiwyd drwy'r flwyddyn | 275+ | 380 sesiwn |
| % o'r gerddoriaeth sy'n draciau o gyngherddau a sesiynau o archifau cerddoriaeth y BBC | 15% | 15.7% o'r gerddoriaeth |
| Bydd o leiaf hanner y gerddoriaeth a gaiff ei chwarae yn bedair blwydd oed o leiaf | 50% | 52% o'r gerddoriaeth a chwaraewyd |
| Oriau o raglenni dogfen a thraethodau a ailddarlledwyd ac a gomisiynwyd o'r newydd | 550+ | 612 awr |
| Nifer yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, gydag adnoddau ar-lein ategol | 3 | 3 ymgyrch |

| BBC 7: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o lyfrau a drama | 2,800 | 3,833 awr |
| Oriau o gomedi | 2,800 | 3,437 awr |
| Oriau o ddarlleniadau i blant | 40 | 40 awr |
| Oriau o gomedi wreiddiol | 10 | 22 awr |
| Oriau o ddrama wreiddiol | 10 | 14 awr |
| Oriau o raglennu i blant | 1,400+ | 1,457 awr |

| BBC Asian Network: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Bydd y cynnwys tua 50% llafar a 50% cerddoriaeth | tua 50% llafar | 50.5% llafar |
| % o'r rhestr chwarae cerddoriaeth gan unigolion/grwpiau o'r DU | 40% | 40% o'r rhestr chwarae cerddoriaeth |
| Oriau a ddarlledir bob dydd mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg | 3–5 awr | 5.2 awr |

| bbc.co.uk: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cynyddu cyrhaeddiad y BBC mewn perthynas ag oedolion Prydain Fawr sy'n defnyddio'r rhyngrwyd | 50%+ | 54% o boblogaeth y rhyngrwyd sy'n oedolion ym Mhrydain Fawr (C1 2006) |
| Nifer defnyddwyr gwefan *WebWise* y BBC a nifer y cysylltiadau â chanolfannau cymorth cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2006 | Cyfanswm o 1 filiwn o ddefnyddwyr yn ystod y flwyddyn<br>1,000 o ganolfannau | 560,000 o ddefnyddwyr yn C1 2006<br>Newidiodd y fethodoleg: bellach mesurir defnydd gwirioneddol yn hytrach na defnydd 'honedig' |
| Ehangu *Skillswise* gydag ymgyrch lythrennedd fawr, gan anelu at ddenu defnyddwyr targed bob mis rhwng Hydref a Mawrth 2006 | 200,000 | 250,000 o ddefnyddwyr y mis |
| Gwella gwefan y gymuned anabl *Ouch!* ymhellach, gyda'r nod o sicrhau ymwelwyr targed bob mis | 20,000 | 40,000 o ymwelwyr bob mis |

| BBCi: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cynyddu cyrhaeddiad BBCi 24/7 | – | 33% o'r oedolion mewn cartrefi â theledu digidol (C1 2006)<br>Newidiodd y fethodoleg – gweler tudalen 44 |
| Lleihau amseroedd mynediad | 6 eiliad | 8 eiliad mewn cartrefi â theledu lloeren digidol (C1 2006)<br>Gweler tudalen 44 am ragor o wybodaeth |
| Cynnal cost fesul defnyddiwr a gyrhaeddir gan BBCi 24/7 | 8c mewn cartrefi â lloeren ddigidol | 4c mewn cartrefi â theledu digidol (C1 2006)<br>Newidiodd y fethodoleg – gweler tudalen 44 |

| BBC jam: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Paratoi i lansio'r deunyddiau cyntaf ym mis Ionawr 2006 | Lansio ym mis Ionawr 2006 | Lansiwyd ym mis Ionawr 2006 gyda phedwar pwnc: Saesneg, Daearyddiaeth, Ffrangeg ac Astudiaethau Busnes |

# Arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2005/2006*

| Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o lafar a dadleuon ar draws ein gorsafoedd radio | tua 260,000 | 272,089 |
| Oriau o newyddion, gwleidyddiaeth a materion cyfoes ar draws ein gwasanaethau teledu | 5,000+ | 6,499 |

| Rhanbarthau Lloegr: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion teledu lleol a rhanbarthol dyddiol | 3,350 | 3,735 awr |
| Oriau o raglennu lleol a rhanbarthol nad ydynt yn newyddion, gan gynnwys materion cyfoes | 250 | 271.4 awr |
| Oriau o ddarllediadau radio lleol | 230,000 | 236,379 awr |

| BBC Scotland: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cynnal cyrhaeddiad *Reporting Scotland* | 48% | 48% |
| Cynnal cyfran gwylwyr *Reporting Scotland* | 30% | 29% |
| Dros 500 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu | 500+ | 516 awr |
| – gan gynnwys o leiaf 100 awr o faterion cyfoes a darllediadau gwleidyddol | 100 | 153 awr |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar y radio | 2,200 | 2,225 awr |
| Oriau o ddarllediadau cerddoriaeth a'r celfyddydau ar y radio a theledu, yn ogystal â meysydd cerddoriaeth arbenigol wythnosol ar y radio | 270 | 432 awr |
| Oriau o raglenni rhwydwaith a ddarperir | 200 | 282 awr |
| Gwariant ar deledu a gwasanaethau ar-lein Gaeleg | £2.1miliwn | £2.2miliwn |
| Oriau o ddarllediadau i ysgolion ar deledu a radio | 17 | 25 awr |
| Cyfran darllediadau rhwydwaith i blant a ddarperir gan BBC Scotland | 18% | 18.5% |

| BBC Cymru: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar deledu Saesneg gan gynnwys *Wales Today* | 500+ | 509 awr |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Wales | 1,500+ | 1,552 awr |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Cymru | 1,000 | 1,045 awr |
| Oriau o newyddion ar gyfer S4C | 180+ | 223 awr |
| Oriau o ddarllediadau o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol i'w darlledu ar S4C | 500+ | 528 awr |
| Oriau o ddarllediadau ar BBC Radio Cymru, ac eithrio newyddion a materion cyfoes | 7,000+ | 7,074 awr |
| Oriau ar BBC Radio Wales, ac eithrio newyddion a materion cyfoes | 5,500 | 5,704 awr |
| Oriau ar y teledu yn Saesneg ac yn Gymraeg | 500 | 565 awr |
| Rhaglenni a wneir gan y Gerddorfa Genedlaethol Gymreig | 80+ | 93 rhaglen |
| Cyngherddau cyhoeddus gan y Gerddorfa Genedlaethol Gymreig | 50+ | 73 cyngerdd |
| Oriau o raglenni rhwydwaith a ddarperir | 125+ | 159 awr |
| Oriau o deledu Cymraeg a ddarperir i S4C | 520 | 531 awr |
| – sy'n cynnwys oriau o ddrama wreiddiol | 90+ | 96 awr |

| BBC Northern Ireland: | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Ulster | 1,550+ | 1,736 awr |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle | 380+ | 380 awr |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar y teledu | 325 | 386 awr |
| Cynyddu nifer yr oriau o raglennu ffeithiol ar gyfer BBC One, gyda mwy o raglenni dogfen unigol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion a phynciau o ddiddordeb i gynulleidfaoedd lleol | 100 | 104 awr |
| Oriau o deledu lleol | 640 | 635 awr |
| Oriau o radio lleol | 8,400+ | 8,809 awr |
| Cynyddu nifer y rhaglenni dogfen celfyddydol ar y teledu o lefelau 2004/2005 | 2 | 2 raglen ddogfen gelfyddydol |
| Oriau o ddarpariaeth ysgolion BBC Northern Ireland ar y radio a'r teledu | 16 | 16 awr |

# Cydymffurfiad

Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr gyfrifoldebau clir o dan Siarter y BBC i sicrhau bod y BBC yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dilyn pob rheoliad a chod ymarfer cymwys.

Rhaid i'r Llywodraethwyr fodloni eu hunain:

- bod y BBC yn cydymffurfio â phob ymrwymiad cyfreithiol
- bod gan y BBC strwythur rheoli priodol
- bod gan y BBC reolaethau digonol i ddiogelu ei asedion
- bod y BBC yn glynu wrth ei ganllawiau a'i godau ymarfer ei hun

Ar y tudalennau canlynol mae Bwrdd y Llywodraethwyr a, lle y bo'n briodol, yr archwilwyr annibynnol yn adrodd yn ffurfiol ar bolisïau, gweithdrefnau a chydymffurfiad y BBC fel a ganlyn:


1 Masnachu teg 76
2 Datganiadau ariannol 78
3 Prosesau risg a rheoli 80
4 Cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol eraill 84
5 Rhyddid gwybodaeth 86
6 Rhoddion a chydnabyddiaethau 86
7 Adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr 86
8 Rhaglenni, sianelau a hyrwyddiadau 89
9 Cost cydymffurfio 91


## 1 Masnachu teg

**Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr**

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg yn cynnwys Llywodraethwyr canlynol y BBC: Anthony Salz (Cadeirydd), Y Farwnes Ruth Deech, yr Athro Merfyn Jones a'r Athro Fabian Monds.

Cyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn oedd:

- adolygu Ymrwymiad y BBC i Fasnachu Teg yn rheolaidd
- adolygu Canllawiau Masnachu Teg y BBC yn rheolaidd
- drwy'r Uned Lywodraethu, penodi archwilwyr annibynnol i brofi i ba raddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg
- ystyried adroddiadau gan yr archwilwyr annibynnol neu arbenigwyr annibynnol eraill fel y bo'n briodol, y Pennaeth Masnachu Teg, y Pennaeth Sicrwydd Busnes a'r uwch swyddogion gweithredol am faterion sy'n ymwneud â chydymffurfiad ag Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC
- ystyried heriau allanol arwyddocaol i gydymffurfiad y BBC â'i Ymrwymiad Masnachu Teg
- ystyried adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr a'r archwilwyr annibynnol a barn yr archwilwyr annibynnol ar fasnachu teg
- ystyried adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr ac arolwg yr archwilwyr annibynnol mewn perthynas â Phrotocolau Masnachu'r World Service a chydberthynas fasnachu BBC Newyddion/BBC World
- cyflwyno adroddiad i Fwrdd y Llywodraethwyr am waith y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn gweithredodd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg nifer o ddiwygiadau i gynyddu'r bwlch rhwng y Llywodraethwyr a rheolwyr y BBC, gan adlewyrchu materion a godwyd ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth ar yr Arolwg o'r Siarter. Trafodir y rhain ymhellach o dan cwynion masnachu teg.

**Datganiad y Llywodraethwyr ar fasnachu teg**

***Gweithgareddau masnachol a masnachu teg***

Diben craidd y BBC yw darparu darlledu cyhoeddus a ariennir gan ffi'r drwydded. Mae buddsoddiadau talwyr ffi'r drwydded, sydd wedi cronni dros lawer o flynyddoedd, wedi cynhyrchu màs critigol o dalent a gallu cynhyrchu i'r BBC, ynghyd ag archif ddigynsail o raglennu'r gorffennol. Mae gwerth eilaidd i'r asedion hyn, sy'n ychwanegol at eu defnydd ar sianelau ac allfeydd cyhoeddus. Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwerth hwn yn cael ei ddatblygu'n gywir yn fasnachol, a'i ddefnyddio er budd talwyr ffi'r drwydded.

Wrth ymdrin â gweithgareddau masnachol, mae'r BBC, fel sefydliadau eraill, yn llwyr agored i gyfraith cystadleuaeth ddomestig ac Ewropeaidd. Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiad â chyfraith cystadleuaeth Ewropeaidd a chyfraith cystadleuaeth y DU a'r gyfraith Ewropeaidd ar gymorth y wladwriaeth, ac i gydnabod ei safle arbennig fel sefydliad a ariennir gan y cyhoedd, mae'r BBC, o'i wirfodd, yn cynnwys gofynion eraill o fewn ei fframwaith masnachu teg.

***Gweithdrefnau cydymffurfio â masnachu teg***

Ymgorfforir ymrwymiadau masnachu teg y BBC yn ei Ymrwymiad Masnachu Teg y caiff ei gydymffurfiad ag ef ei archwilio drwy gydol y flwyddyn gan un o bwyllgorau sefydlog Bwrdd y Llywodraethwyr, sef y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg. Caiff hwn ei ategu gan y Canllawiau Masnachu Teg sy'n darparu fframwaith gweithredu manwl sy'n adeiladu ar egwyddorion yr Ymrwymiad Masnachu Teg. Er bod y Canllawiau Masnachu Teg yn cynnwys canllawiau ar gyfraith cystadleuaeth, gellir gwneud cwynion sy'n ymwneud yn bennaf â materion cyfraith cystadleuaeth neu gymorth y wladwriaeth yn uniongyrchol hefyd i'r awdurdod cystadlu perthnasol. Nid yw'r Llywodraethwyr eu hunain yn

awdurdod cystadlu ac felly nid oes ganddynt unrhyw statws i ystyried apeliadau mewn perthynas â thoriadau honedig o gyfraith cystadleuaeth.

Cynghorir y Pwyllgor gan archwilwyr annibynnol a gaiff eu comisiynu a'u rheoli gan yr Uned Lywodraethu. Yn ogystal, cynghorir y Pwyllgor gan Bennaeth Masnachu Teg a Phennaeth Sicrwydd Busnes y BBC, os bydd angen, heb gyfryngdod rheolwyr y BBC. Mae pob is-gwmni masnachol a gweithrediad masnachol yn cyflwyno adroddiad drwy'r Pennaeth Masnachu Teg i'r Pwyllgor ar eu gweithgareddau ac mae'r Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau o'r staff â chyfrifoldebau masnachol dderbyn hyfforddiant ym mholisïau masnachu teg y BBC.

Profir rheolaeth y BBC dros drefniadau masnachu teg yn rheolaidd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ac achredwyd y trefniadau hyn â safon ansawdd ISO 9001:2000. Cadarnhaodd yr asesiad diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2006, fod y gweithdrefnau yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Wrth eu natur, mae dyfarniadau masnachu teg yn gymhleth, gan adlewyrchu'r amgylchedd sy'n gyson ddatblygu y mae diwydiannau'r cyfryngau yn gweithredu ynddo. Drwy'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, mae Llywodraethwyr y BBC yn craffu'n ddeallus ac yn gwneud dyfarniadau cytbwys ar faterion polisi pwysig sy'n deillio o ymrwymiad y BBC â mentrau masnachol.

Yn dilyn ei ymateb yn 2003 i Arolwg Richard Lambert o BBC News 24 yn erbyn telerau ei gymeradwyaeth, mae'r Llywodraethwyr yn flynyddol yn ystyried y berthynas rhwng BBC Newyddion a BBC World. Mae hyn yn cynnwys arolwg gan archwilwyr allanol fod yr egwyddor cost ymylol yn cael ei chymhwyso'n briodol yn yr ymwneud rhwng BBC Newyddion a BBC World. Mae'r Llywodraethwyr yn fodlon bod yr egwyddor cost ymylol wedi ei chymhwyso'n briodol.

*Archwiliad Masnachu Teg Blynyddol*
Mae'r Archwilwyr Masnachu Teg annibynnol, a gomisiynir gan yr Uned Lywodraethu ar ran Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr, yn cynnal Archwiliad Masnachu Teg blynyddol i benderfynu a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'r Ymrwymiad Masnachu Teg. Wrth gynnal eu harchwiliad, mae'r archwilwyr yn ymgymryd â nifer o weithgareddau, gan gynnwys y canlynol:

- cyfarfod â chynrychiolwyr masnachu teg ac unigolion eraill â rolau masnachu teg arwyddocaol ym mhob is-adran
- gwerthuso'r system o reolaethau mewnol masnachu teg a weithredwyd gan bob is-adran
- adolygu a phrofi sampl o weithgareddau masnachol yr ymrwymwyd iddynt yn ystod y flwyddyn
- profi digonolrwydd y prosesau sydd ar waith i gofnodi ac olrhain materion Masnachu Teg hyd at eu datrys/cwblhau
- asesu a phrofi digonolrwydd rhaglenni hyfforddi masnachu teg o fewn pob is-adran
- cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau a'u casgliadau i'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg

Nodir barn yr archwilwyr yn seiliedig ar eu harchwiliad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 yn ddiweddarach ar y dudalen hon.

*Cwynion masnachu teg*
Ym mis Mai 2005 comisiynodd y Llywodraethwyr Spectrum Strategy Consultants i ddarparu cyngor annibynnol ar ddiwygio'r broses cwynion ac apeliadau. Ym mis Rhagfyr 2005 cyhoeddodd y Llywodraethwyr eu casgliadau ar fframwaith diwygiedig.

Ymhlith argymhellion eraill cynigiodd y Llywodraethwyr y dylid cael bwlch clir rhwng ymdrin â chwynion ac apeliadau. O dan y fframwaith diwygiedig hwn mae'r Pennaeth Masnachu Teg yn gyfrifol am ymdrin â'r holl gwynion masnachu teg a wneir yn erbyn y BBC. Mae'r Llywodraethwyr, drwy'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, yn gyfrifol am ymdrin ag apeliadau.

Ceir canllawiau cyhoeddus ar y broses cwynion ac apeliadau yn www.bbcgovernors.co.uk/docs/fairtrading.html.

Ymdriniodd y BBC â heriau allanol mewn perthynas â deg o faterion yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r materion hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Ofcom. Mae mater arall yn cael ei ystyried gan y Comisiwn Ewropeaidd o hyd. Ni thorrwyd yr Ymrwymiad Masnachu Teg mewn perthynas â'r cwynion a oedd yn weddill, er i un parti allanol gael ei gynghori'n anghywir gan is-adran y BBC mewn un gŵyn. Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd y Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg fwletinau chwarterol ar ymateb y BBC i unrhyw doriadau honedig o'r Ymrwymiad Masnachu Teg. Mae manylion yr holl gwynion ar gael gan y Pennaeth Masnachu Teg yn BBC, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ neu ar-lein yn bbc.co.uk/info/policies/fairtrading_complaints.

*Digwyddiadau'r flwyddyn*
Cyhoeddwyd Papur Gwyn y Llywodraeth ar yr Arolwg o'r Siarter a'r Siarter a'r Cytundeb drafft ar 14 Mawrth 2006.

**Barn y Llywodraethwyr**
Mae'r Llywodraethwyr o'r farn bod y polisïau a geir yn Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC yn gyson â gofynion y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb atodol. Drwy'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg, cawsant sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau y caiff y polisïau hyn eu cymhwyso ar draws y BBC wedi bod yn gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn.

**Adroddiad gan yr Archwilwyr Masnachu Teg Annibynnol i Lywodraethwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006**
Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel Archwilwyr Masnachu Teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r Llywodraethwyr bod y BBC wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg a gyhoeddwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, a oedd yn cynnwys cwmpas y gwaith i ymgymryd ag ef, gyda Phwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio perthnasol, cytundeb ar derfyn ein rhwymedigaeth mewn perthynas â'r gwaith hwn, a chytundeb bod ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn i'r BBC yn unig. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

*Priod gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr, y rheolwyr a'r archwilwyr*
Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn bodloni holl ofynion cyfraith cystadleuaeth a'i fod yn masnachu'n deg. Maent wedi sefydlu'r Ymrwymiad Masnachu Teg ac wedi pennu amcanion y system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad hwn ac i fonitro canlyniadau'r rheolaethau hyn. Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi Datganiad y Llywodraethwyr ar Gydymffurfiad â Masnachu Teg a gynhwysir yn *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y BBC, sy'n cynnwys datganiad ar fasnachu teg.

Mae Llywodraethwyr y BBC yn ymddiried y gwaith o weithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ymrwymiad Masnachu Teg i reolwyr y BBC, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai beryglu Masnachu Teg, a chynllunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel Archwilydd Masnachu Teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ar y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi defnyddio system o reolaethau mewnol sy'n darparu sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol y daethpwyd iddynt gan y BBC ar faterion Masnachu Teg i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn llunio barn ar y system o reolaethau mewnol. Ni chynlluniwyd ein harchwiliad i fynegi barn ar ansawdd y penderfyniadau penodol a gymerwyd gan y BBC mewn perthynas â Masnachu Teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad y Llywodraethwyr ar Fasnachu Teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiad y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd y farn hon ar gyfer y BBC yn unig yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu ar ran Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr. Wrth fynegi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddynt neu y daw'r adroddiad hwn i'w dwylo, ac eithrio pan gytunir yn benodol i hyn ymlaen llaw drwy ein caniatâd ysgrifenedig.

*Sail y farn archwilio*
Cynhaliwyd rhaglen o weithdrefnau a phrofion gennym a gynlluniwyd i roi'r sicrwydd yr oeddem yn ei geisio. Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwilio ac asesu er mwyn ein galluogi i lunio barn ar ba un a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd hefyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi ei defnyddio.

Fel gydag unrhyw system reoli, waeth pa mor effeithiol ydyw, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau neu afreoleidd-dra wedi digwydd heb iddynt gael eu canfod. Cynlluniwyd ein gwaith archwilio felly i roi sicrwydd rhesymol i'r Llywodraethwyr, ond nid sicrwydd pendant, fod y system o reolaethau mewnol sydd mewn grym yn ddigonol a'i bod yn cael ei defnyddio i gydymffurfio â'r Ymrwymiad Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. At hynny, gan fod materion Masnachu Teg yn galw am ddyfarniadau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu rywle arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cânt eu herio hyd yn oed pan fydd y system o reolaethau mewnol wedi ei dilyn a phenderfyniadau wedi eu cymryd gyda'r gofal mwyaf.

*Barn*
Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi defnyddio system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifyddion Siartredig
Llundain

9 Mehefin 2006

### Adroddiad y Llywodraethwyr ar Brotocolau Masnachu BBC World Service
Mae BBC World Service yn gyfrifol am gomisiynu ac amserlennu ei raglenni ei hun ac am wneud rhaglenni ar gyfer ei wasanaethau iaith, ond mae'n prynu gwasanaethau gwneud rhaglenni Saesneg a gwasanaethau technegol ac ategol oddi wrth is-adrannau eraill y BBC (yr Is-adrannau Cyflenwi). Mae BBC World Service hefyd yn derbyn gwasanaethau oddi wrth is-gwmnïau masnachol y BBC (yr Is-gwmnïau), ac yn cyflenwi gwasanaethau iddynt.

Cytunodd Cyd-weithgor y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO)/BBC World Service y byddai'r BBC yn llunio canllawiau i reoli'r berthynas fasnachu rhwng BBC World Service a rhannau eraill o'r BBC, er mwyn sicrhau bod BBC World Service yn cadw ei lais penodol ac i ddiogelu'r bwlch clir rhwng incwm Grant-mewn-Cymorth ac incwm ffi'r drwydded. Cymeradwywyd y Protocolau Masnachu hyn gan Bwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr yn 1997. Yna lluniodd pob un o'r Is-adrannau Cyflenwi gytundebau manwl gyda BBC World Service, gan nodi:

- y gwasanaethau i'w darparu
- meini prawf er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaethau
- cost y gwasanaethau.

Mae'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg yn gyfrifol am fonitro ac adolygu cydymffurfiad â'r Protocolau Masnachu. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau gan y rheolwyr ar effeithiolrwydd y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Protocolau Masnachu.

Mae KPMG LLP (yr archwilwyr allanol) wedi adolygu crynodeb o werth trafodion a'r llifau arian cysylltiedig a fu yn ystod y flwyddyn rhwng BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau. Mae KPMG LLP wedi cyflwyno adroddiad i'r Llywodraethwyr yn nodi, yn eu barn hwy, bod y wybodaeth a gafwyd yng nghrynodeb y trafodion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 wedi ei chasglu'n gywir o lyfrau a chofnodion BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau, ac wedi'i pharatoi'n gywir ar seiliau'r dulliau dyrannu a dosrannu cost a nodwyd yn y cytundebau rhwng BBC World Service a'r Is-adrannau Cyflenwi a'r Is-gwmnïau ac na fu, ar y sail hon, unrhyw groes-gymorthdaliadau perthnasol rhwng Grant-mewn-Cymorth ac arian ffi'r drwydded na rhwng Grant-mewn-Cymorth ac is-gwmnïau masnachol y BBC.

*Datganiad y Llywodraethwyr ar Brotocolau Masnachu BBC World Service*
Yn dilyn adroddiadau i'r Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg gan y Pennaeth Masnachu Teg, ac archwilwyr mewnol ac allanol, mae'r Llywodraethwyr yn fodlon:

- bod y Protocolau Masnachu yn adlewyrchu gofynion Gweithgor yr FCO/BBC World Service
- bod cytundebau ar waith sy'n gyson â'r Protocolau Masnachu
- na fu unrhyw groes-gymorthdaliadau perthnasol rhwng arian Grant-mewn-Cymorth ac arian ffi'r drwydded na rhwng Grant-mewn-Cymorth ac is-gwmnïau masnachol y BBC

## 2 Datganiadau ariannol
### Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol am baratoi'r datganiadau ariannol
Mae'n ofynnol yn ôl Siarter y BBC i'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r BBC a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Maent wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r DU. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol wedi ymrwymo i:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddarbodus

- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

At hyn, mae'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol, o'u gwirfodd, wedi penderfynu cydymffurfio â darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

Mae'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y BBC ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985 fel pe bai'r Ddeddf wedi ei chymhwyso i'r datganiadau ariannol hyn. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedion y cwmni ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y BBC ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

### Datganiad o ddatgelu gwybodaeth

Mae'r Llywodraethwyr ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; a bod pob Llywodraethwr ac aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Llywodraethwr neu aelod o'r Bwrdd Gweithredol i'w gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd Gweithredol a'r Llywodraethwyr ar 6 Mehefin 2006 a 14 Mehefin 2006 yn y drefn honno ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Mark Thompson Cyfarwyddwr Cyffredinol

Michael Grade Cadeirydd

### Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Lywodraethwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y grŵp ac UK Public Service Broadcasting (y "datganiadau ariannol") y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, sy'n cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant y Grŵp, Mantolenni'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting, Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp, Datganiad y Grŵp o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig (tudalennau 95 i 139). Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn ogystal â 'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan y Llywodraethwyr i archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr, a ddisgrifir fel adroddiad sydd wedi'i archwilio, a baratowyd gan y Llywodraethwyr fel petai'r BBC yn gwmni rhestredig ac sydd felly'n cydymffurfio â rhan 3 o Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985.

Dim ond i Lywodraethwyr y BBC, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol â'r Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC a ddaeth i rym ar 1 Mai 1996 ("y Siarter") ac yn unol â thelerau ein hymrwymiad. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Llywodraethwyr y BBC am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu yn eu cylch mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC a Llywodraethwyr y BBC fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

*Priod gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol a'r Archwilwyr*

Mae'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y nodir yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol. Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad, yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr i'w harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) a'r Siarter.

Byddwn yn rhoi ein barn i chi ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, fel petai'r Ddeddf honno wedi bod yn gymwys i'r datganiadau ariannol hyn. Rydym hefyd yn datgan os nad yw'r BBC, yn ein barn ni, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelir y wybodaeth a nodir yn ôl y gyfraith o ran cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol a thrafodion eraill.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan y Llywodraethwyr i adolygu eu Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol fel petai'n ofynnol i'r BBC gydymffurfio â Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol mewn perthynas â'r materion hyn. Rydym yn adolygu a yw'r Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol ar dudalennau 80 i 84 yn adlewyrchu cydymffurfiad y BBC â naw darpariaeth Cod Cyfunol 2003 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a nodwyd ar gyfer ein harolwg gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ac adroddwn os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried a yw datganiadau o reolaeth fewnol y Llywodraethwyr yn cwmpasu'r holl

risgiau a'r rheolaethau nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y BBC na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenwn y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyriwn a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys adroddiad y Cadeirydd ar dudalennau 2 i 3, adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar dudalennau 4 i 5, arolwg y Llywodraethwyr o'r gwasanaethau ar dudalennau 24 i 59, yr Arolwg Ariannol ar dudalennau 92 i 94, y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol a'r rhan nas archwiliwyd o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

***Sail y farn archwilio***

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn ogystal ag asesiad i ganfod a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r grŵp ac UK Public Service Broadcasting, ac a gânt eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i ni sicrhau'n rhesymol nad oedd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio unrhyw gamddatganiad perthnasol, waeth a achoswyd hynny trwy dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn gwerthuswyd hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr sydd i'w harchwilio.

***Barn***

Yn ein barn ni:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun cywir a theg, yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, o sefyllfa'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting ar 31 Mawrth 2006 ac o warged y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr y cawsom ein penodi i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â darpariaethau'r Siarter a Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'r Ddeddf honno wedi bod yn gymwys i'r datganiadau ariannol hyn.

**KPMG LLP**

Cyfrifyddion Siartredig
Archwilydd cofrestredig, Llundain

14 Mehefin 2006

## 3 Prosesau risg a rheoli

**Fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC**

Penodir Bwrdd y Llywodraethwyr fel ymddiriedolwyr er budd y cyhoedd, er mwyn sicrhau bod y BBC yn briodol atebol i'r Senedd a thalwyr ffi'r drwydded. Fel rhan o'r rôl hon mae'n ofynnol i Fwrdd y Llywodraethwyr fodloni eu hunain bod y BBC yn cymhwyso'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. I'r perwyl hwn, mae'r BBC yn cydymffurfio, o'i wirfodd, â Chod y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2003 i'r graddau y mae'n berthnasol.

Drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, cydymffurfiodd y BBC â Chod y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2003 ac eithrio fel y nodir isod.

Ar y cyfan, mae gofynion Cod y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2003 yn gymwys i'r BBC gyda thri eithriad. Yn gyntaf, mae'r gofynion hynny sy'n ymwneud â phenodi cyfarwyddwyr anweithredol yn amherthnasol gan fod y Llywodraethwyr yn cael eu penodi gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor a phennir eu cydnabyddiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ail, dim ond at y cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, yn hytrach nag at randdeiliaid drwy stiwardiaeth Bwrdd y Llywodraethwyr, y gellir cymhwyso'r gofynion hynny sy'n ymwneud â rhanddeiliaid.

Yn drydydd, nid yw'r BBC wedi cydymffurfio ag adran 2.4 Canllawiau Smith yng Nghod y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2003 sy'n nodi na ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth (ar y sail nad yw cadeirydd yn annibynnol). Mae pob un o Lywodraethwyr y BBC yn gweithredu'n annibynnol ar y rheolwyr ac felly mae'r Llywodraethwyr o'r farn bod y Cadeirydd yn annibynnol at ddibenion pennu cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

Nid oes gan y BBC bwyllgor enwebu sefydlog. Fodd bynnag, sefydlwyd pwyllgor enwebu yn 2004 i gynorthwyo yn y gwaith o benodi Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd. Fel y nodir uchod, penodir y Llywodraethwyr gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

Mae'r BBC yn dilyn saith egwyddor bywyd cyhoeddus a nodir yn adroddiadau Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Ymdrinnir â'r modd y mae'r BBC wedi cymhwyso'r egwyddorion cydnabyddiaeth yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalennau 86 i 89.

**Strwythur y Bwrdd**

Mae'r Llywodraethwyr yn aelodau o'r Gorfforaeth ac maent yn gweithredu fel ymddiriedolwyr er budd y cyhoedd tra bod y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am y gweithrediadau o ddydd i ddydd. Ceir mwy o wybodaeth am sut y caiff y BBC ei redeg ar dudalennau 6 i 9. Nodir yn gryno fanylion am Fwrdd y Llywodraethwyr, a'r Bwrdd Gweithredol ar dudalennau 10 i 13. Cedwir cofrestr o fuddiannau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol. Mae cofrestr Bwrdd y Llywodraethwyr ar gael ar-lein yn www.bbcgovernors.co.uk. Gellir archwilio cofrestr y Bwrdd Gweithredol drwy wneud cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr yn Director, BBC People, MC2 B4 Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

Yn 2004/2005, ymgymerodd Bwrdd y Llywodraethwyr â gwerthusiad ffurfiol o'i effeithiolrwydd, a gynhaliwyd gan arbenigwyr annibynnol mewn llywodraethu corfforaethol. Yn ystod 2005/2006, gofynnodd y Bwrdd i'r Uned Lywodraethu adolygu cynnydd mewn agweddau allweddol ar weithgareddau'r Bwrdd, gan gynnwys ei bwyllgorau, cydberthnasau, atebolrwydd, llif gwybodaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2005 a chyflwynwyd adroddiad cynnydd yng nghyfarfod y

Bwrdd ym mis Mai 2006. O gofio'r newidiadau mawr sydd ynghlwm wrth y newid o fod yn Fwrdd y Llywodraethwyr i fod yn Ymddiriedolaeth y BBC, penderfynodd y Bwrdd na fyddai gwerthusiad o'r Bwrdd o dan hwyluswyr allanol eleni yn rhoi gwerth am arian.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis (ac eithrio ym mis Awst), dros ddau ddiwrnod fel arfer, ac mae cofnodion y cyfarfodydd wedi bod ar gael ar-lein ers y cyfarfod ym mis Mehefin 2005 yn www.bbcgovernors.co.uk.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfeirio rhai materion at is-bwyllgorau. Eglurir prif gyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn ar dudalennau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:

- Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg y Llywodraethwyr (tudalen 76)
- Pwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr (tudalen 83)
- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Llywodraethwyr (tudalen 83)
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr (tudalen 86)
- Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr (tudalen 89)
- Pwyllgor Eiddo'r Llywodraethwyr (a ddiddymwyd ym mis Mai 2005) (tudalen 84).

Mae cylch gorchwyl y pwyllgorau hyn ar gael yn www.bbcgovernors.co.uk.

Rhoddir manylion am bresenoldeb Llywodraethwyr unigol yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgorau isod:

| | Bwrdd y Llywodraethwyr | Pwyllgor Cwynion am Raglenni | Pwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg | Pwyllgor Archwilio | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Pwyllgor Eiddo | Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn | 11 | 11 | 4 | 6 | 6 | 1 | 11 |
| Michael Grade | 11/11 | | | | 6/6 | 1/1 | 11/11 |
| Anthony Salz | 10/11 | | 4/4 | | 6/6 | | 9/11 |
| Deborah Bull | 11/11 | 9/11 | | | 6/6 | | |
| Syr Andrew Burns[1] | 8/8 | | | 4/4 | | | |
| Y Farwnes Ruth Deech | 9/11 | | 4/4 | 6/6 | | | |
| Dermot Gleeson | 11/11 | | | 5/6 | | 1/1 | 11/11 |
| Yr Athro Merfyn Jones | 11/11 | 11/11 | 4/4 | | | | |
| Yr Athro Fabian Monds | 11/11 | 11/11 | 4/4 | | | | |
| Jeremy Peat | 11/11 | | | 6/6 | | | 9/11 |
| Angela Sarkis | 8/11 | 7/11 | | | | | |
| Ranjit Sondhi | 11/11 | | | | | | |
| Richard Tait | 11/11 | 11/11 | | | | | |

[1]Penodwyd 1 Gorffennaf 2005

Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd a'r is-bwyllgorau, mae'r Llywodraethwyr wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfodydd monitro perfformiad, gwaith gyda chyrff ymgynghorol y BBC, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, a mynd gerbron pwyllgorau Seneddol.

*Uned Lywodraethu'r BBC*

Sefydlwyd Uned Lywodraethu'r BBC fel uned arbenigol sy'n rhoi cyngor proffesiynol annibynnol i gefnogi gwaith Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r Uned Lywodraethu yn gweithredu ar wahân i reolwyr y Bwrdd Gweithredol o ran llinellau adrodd a rheoli.

Mae'r uned wedi'i strwythuro o amgylch y meysydd allweddol sy'n cefnogi rolau'r Llywodraethwyr o ran perfformiad, gwaith cydymffurfio a gwerth am arian ac atebolrwydd. Ceir mwy o wybodaeth am yr Uned Lywodraethu a'i gweithgareddau ar dudalen 8.

*Presenoldeb y Bwrdd Gweithredol*

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol isod.

Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod y cyfnod

| | |
|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd yn y cyfnod | 11 |
| Mark Thompson | 11 |
| Mark Byford | 10 |
| Jenny Abramsky | 10 |
| Jana Bennett | 8 |
| Stephen Dando | 11 |
| Tim Davie (dechreuodd ym mis Ebrill 2005) | 10 |
| Ashley Highfield | 10 |
| Zarin Patel | 10 |
| John Smith | 9 |
| Caroline Thomson | 10 |

## Atebolrwydd a rheolaeth fewnol

Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol, tra bod y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Nodir priod gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol a'r archwilwyr allanol ar dudalen 79. Yn ogystal â'r arolygon o reolaethau mewnol a gynhaliwyd gan Archwilwyr Mewnol y BBC, mae Llywodraethwyr y BBC yn penodi arbenigwyr allanol a chynghorwyr i wneud gwaith pellach i roi sicrwydd am y ffordd y caiff rheolaethau mewnol eu gweithredu yn ôl yr angen.

Lluniwyd y system o reolaethau i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, y gall ei roi rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol wedi adolygu'r broses ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y BBC. Mae'r broses wedi cael ei hystyried yn rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol ac mae wedi cael ei datblygu yn unol â'i argymhellion yn ystod y flwyddyn. Mae proses ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ac mae'n cydsynio â chanllawiau Turnbull.

*Adroddiadau ariannol a busnes gweithredol*

Ceir arolwg o sefyllfa ariannol y BBC ar dudalennau 92 i 94. Mabwysiadwyd y sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan fod Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn credu bod gan y BBC ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

*Amgylchedd rheoli*

Disgrifir y prif agweddau ar yr amgylchedd rheoli a fu ar waith drwy gydol y flwyddyn isod.

- *Nodi a rheoli risg*

Mae fframwaith y BBC ar gyfer rheoli risg yn cael ei ddatblygu'n barhaus wrth i'r rheolwyr asesu risgiau mewn perthynas â chyflawni amcanion y BBC.

Mae gan Gyfarwyddwr pob is-adran gyfrifoldeb clir am nodi a rheoli'r risgiau a wynebir gan eu busnes. Mae pob is-adran yn nodi ac yn asesu'r risgiau busnes allweddol a allai effeithio ar y broses o gyflawni ei hamcanion strategol. Cofnodir y risgiau a nodwyd, a'r camau y bwriedir eu cymryd mewn ymateb iddynt, mewn cofrestr risgiau ym mhob is-adran a chânt eu hadolygu gan fyrddau is-adrannol.

Ystyrir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli risg yn gyffredinol yn y BBC yw drwy ymrwymiad y Bwrdd Gweithredol cyfan. Am y rheswm hwnnw, ni chaiff rheoli risg ei ddirprwyo i is-bwyllgor. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael asesiadau o'r ffordd y rheolir pob un o'r risgiau mwyaf i'r BBC: mae hyn yn cynnwys y rheolaethau a'r camau pellach

sydd eu hangen i reoli'r risgiau hynny'n effeithiol. Yn ogystal â'r asesiadau cyffredinol ceir adroddiadau rheolaidd ar risgiau mawr penodol ar gais y Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol. Mae rhaglen newid uchelgeisiol ac eang ei chwmpas y BBC, er enghraifft, yn cyflwyno cyfle a risg sylweddol i'r BBC. Caiff y risgiau newid eu monitro yn unol â strategaeth rheoli risg gyffredinol y BBC a'u hadolygu gan y Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol bob chwarter.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr hefyd yn goruchwylio'r broses o reoli risg i ryw raddau drwy waith ei is-bwyllgorau. Rhoddir adroddiad ar y broses o reoli risgiau i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn cael adroddiad ar risgiau allweddol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mhob cyfarfod.

■ *Archwiliad Mewnol*
Mae gan y BBC adran Archwiliad Mewnol sy'n rhan graidd o'r swyddogaeth Sicrwydd Busnes. Caiff awdurdod yr adran Archwiliad Mewnol, a'i hannibyniaeth, ei sicrhau drwy ei pherthynas cyflwyno adroddiadau annibynnol ar y cyd â'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Masnachu Teg a Chydymffurfiad a chyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae cwmpas yr adran Archwiliad Mewnol yn cynnwys archwilio a gwerthuso digonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol y BBC. Mae rhaglen waith yr Archwiliad Mewnol yn ymestyn i bob un o weithgareddau'r BBC ac yn cynnwys arfer hawl y BBC i archwilio partïon allanol gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol.

Mae'r adran Archwiliad Mewnol yn profi'r systemau rheoli a phrosesau busnes craidd yn rheolaidd yn unol â chynllun y mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno arno yn flynyddol. Mae'r cynllun archwilio yn seiliedig ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol, monitro cydymffurfiad systemau a phrosesau allweddol, ac ystyried gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Cyflwynir canlyniadau'r profi ar ffurf adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod, sy'n craffu ar y modd y caiff rheolaethau mewnol y BBC dros y risgiau hyn eu gweithredu drwy gydol y flwyddyn.

■ *Rheolaethau is-adrannol*
Mae gan reolwyr yr is-adrannau gyfrifoldeb am sicrhau y dilynir y rheolaethau a'r gweithdrefnau presennol. Mae rheolaethau allweddol dros risgiau busnes o bwys yn cynnwys cadw cofrestrau risgiau a'u diweddaru'n gyson, cyflwyno adroddiadau rheoli misol, arfer rheolaethau cyllidebol, adolygu perfformiad a chyflwyno adroddiadau eithrio. Mae arolygon gan yr adran Archwiliad Mewnol yn monitro'r modd y caiff rheolaethau is-adrannau ac is-gwmnïau'r BBC eu gweithredu er mwyn sicrhau y cânt eu cymhwyso'n gyson, a'u bod o leiaf yn bodloni polisi rheoli cyffredinol y BBC.

■ *Parhad busnes a darlledu*
Nod Rheoli Parhad Busnes yn y BBC yw diogelu pobl, systemau a seilwaith y BBC; nodi risgiau i raglenni a gwasanaethau'r BBC a'u lleihau i lefel dderbyniol; a rheoli unrhyw achos o darfu er mwyn lleihau ei effaith i'r eithaf.

Mae'r fframwaith a'r trefniadau Parhad Busnes yn gwneud darpariaeth ar gyfer system gyson o Reoli Parhad Busnes ar draws y BBC, gyda nawdd gweithredol clir, a phob Cyfarwyddwr is-adrannol yn gyfrifol am Reoli Parhad Busnes yn ei is-adran benodol ei hun. Caiff polisi a threfniadaeth Rheoli Parhad Busnes y BBC eu datblygu gan Uned Parhad Busnes ganolog fach, sy'n rhoi canllawiau a chyngor ar fusnes fel arfer, prosiectau, buddsoddiadau newydd a mentrau. Mae'r uned hon, gan weithio gyda chynrychiolwyr a enwebwyd o bob is-adran, yn cydlynu trefniadau a systemau corfforaethol Rheoli Parhad Busnes yn y BBC a chydag asiantaethau allanol, yn ogystal â rhaglen ymarfer a gweithredu gynhwysfawr. Yr uned hon sy'n gyfrifol am weithredu a chydlynu ymateb brys corfforaethol y BBC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gweithredwyd ymateb brys corfforaethol y BBC yn llwyddiannus ar bedwar achlysur: gweithredu diwydiannol ym mis Mai, y ddau argyfwng bomio yn Llundain ym mis Gorffennaf, a symud pobl o ardal yn Birmingham ar 9 Gorffennaf.

■ *Rheolaethau dros swyddogaethau a osodir ar gontract*
Mae mwy o wasanaethau busnes y BBC wedi cael eu gosod ar gontract yn ystod y flwyddyn. Mae gosod gwasanaethau allweddol ar gontract yn golygu newid sylweddol i broffil risg y BBC ac nid yw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn o reidrwydd yn cael eu trosglwyddo i'r contractwyr allanol. Felly mae'n bwysig bod gan y BBC brosesau priodol ar waith i reoli'r risgiau hyn ac i sicrhau parhad gweithrediadau busnes. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd yr adran Archwiliad Mewnol raglen strwythuredig o waith sicrwydd mewn perthynas â chontractau allanol mwyaf y BBC.

Caiff y rhan fwyaf o waith prosesu trafodion ariannol y BBC ei osod ar gontract i gwmni gwasanaethau, sef Media Accounting Services Limited (Medas), un o is-gwmnïau EDS o dan berchenogaeth lawn sy'n annibynnol ar y BBC. Mae rhaglen waith Archwiliad Mewnol y BBC yn cynnwys arolygon o weithgareddau yn Medas. Caiff y gwaith o gasglu ffi'r drwydded ei osod ar gontract i Capita Business Services Limited. Mae'r BBC yn monitro darpariaethau a roddwyd ar waith gan Capita Business Services Limited er mwyn sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei chasglu hyd yn oed os amherir ar y busnes. Mae camau diogelwch ar waith i sicrhau cywirdeb data prosesu trafodion a chasglu'r BBC, ac i roi dulliau eraill ar waith os bydd prosesau casglu craidd yn methu.

■ *Adroddiadau ariannol a pherfformiad busnes*
Mae is-adrannau unigol yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â systemau adroddiadau ariannol a pholisïau'r BBC. Mae gan y BBC system gynhwysfawr ar gyfer cofnodi canlyniadau ariannol a pherfformiad busnes. Yn ystod y flwyddyn mae pob is-adran yn paratoi adroddiadau a chyfrifon misol. Adolygir canlyniadau hyn yn lleol ac mae'r Grŵp Rheolaeth Ariannol yn craffu arnynt. Adolygir canlyniadau cyfunol y BBC yng nghyfarfodydd Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol y Bwrdd Gweithredol a Bwrdd y Llywodraethwyr bob mis.

Bob blwyddyn ariannol bydd yr is-adrannau yn paratoi cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ac yn diweddaru cynlluniau hir dymor. Adolygir cyllideb flynyddol pob is-adran gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr Cyllid y Grŵp. Cyflwynir cyllideb gyffredinol y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Gweithredol i Fwrdd y Llywodraethwyr i'w chymeradwyo. Caiff perfformiad pob is-adran ei fonitro'n fisol ac ar ddiwedd y flwyddyn, cynhelir arolwg trylwyr o berfformiad pob is-adran er mwyn cadarnhau pa mor effeithiol y bu o ran bodloni ei hamcanion.

■ *Future Finance*
Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Grŵp Cyfarwyddyd Gweithredol wedi ymgymryd â rhaglen newid gynhwysfawr gyda'r nod o greu BBC sy'n Greadigol, yn Ddigidol, yn Syml ac yn Agored. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae gan is-adran Cyllid y BBC darged i wneud arbedion sylweddol. Bydd Future Finance, sef rhaglen waith a sefydlwyd i gyflawni'r targed hwn, yn helpu i symleiddio a safoni prosesau busnes.

■ *Ymwybyddiaeth o Dwyll*
Mae'r BBC yn cymryd ei gyfrifoldebau i leihau'r risg o dwyll, a'r golled i dalwyr ffi'r drwydded yn sgîl hynny, o ddifrif. Mae gan y BBC bolisi

twyll clir ar waith sy'n egluro'r cyfrifoldebau am sicrhau bod y rheolaethau priodol ar waith i leihau'r risg o dwyll a sicrhau bod pob digwyddiad honedig o dwyll yn cael ei archwilio'n drwyadl. Rheolir y polisi gan y Grŵp Gwrth-dwyll sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd cyfres o weithdai gwrth-dwyll ar draws y BBC i nodi risgiau twyll allweddol a hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll. Mae'r rhaglen o weithdai yn elfen graidd barhaus o strategaeth wrth-dwyll y BBC.

- *Chwythu'r chwiban*

Mae gan y BBC bolisi 'chwythu'r chwiban' neu 'ddatgelu a ddiogelir'. Mae'r polisi yn ei gwneud yn haws i hysbysu'r BBC yn ddienw o unrhyw ddigwyddiad lle yr amheuir bod codau'r BBC wedi'u torri. Gweinyddir y broses gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd. Hysbysir y Pennaeth Sicrwydd Busnes am bob achos a nodwyd, a bydd yn sicrhau yr ymchwilir i bob achos, y caiff ymateb ei roi ac y caiff camau eu cymryd fel y bo'n briodol.

***Pwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr***

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y Llywodraethwyr canlynol: Jeremy Peat (Cadeirydd), y Farwnes Ruth Deech, Dermot Gleeson, a Syr Andrew Burns (o fis Gorffennaf 2005).

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cydymffurfio ag argymhellion Adroddiad Smith sef bod o leiaf un aelod yn meddu ar brofiad ariannol helaeth diweddar a pherthnasol. Jeremy Peat yw'r aelod â phrofiad o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn gwella'r ystod fawr o sgiliau sydd gan ei bedwar aelod drwy hyfforddiant a chyngor ariannol rheolaidd gan weithwyr ariannol proffesiynol yn yr Uned Lywodraethu (gweler tudalen 8) a chan gynghorwyr allanol, gan sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r datblygiadau ariannol perthnasol diweddaraf.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio gylch gorchwyl ysgrifenedig. Ei brif rôl yw adolygu:

- effeithiolrwydd y systemau o reolaeth fewnol gan gynnwys ystyried adroddiadau rheolwyr ac archwilwyr mewnol ar y risgiau sylweddol i'r sefydliad a'r rheolaethau a gaiff eu harfer dros y risgiau hynny
- datganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol
- cydberthynas y BBC â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys eu penodiad, cwmpas eu gwaith a sut y maent yn cyflawni eu gwaith, eu ffioedd, eu heffeithiolrwydd a'u hannibyniaeth gan gynnwys cadw at y polisi sy'n gysylltiedig ag ymwneud archwilwyr allanol â gwaith nad yw'n waith archwilio
- y gweithgareddau a chynllun gwaith ac effeithiolrwydd yr adran Archwiliad Mewnol
- y rhaglen o arolygon Gwerth am Arian a gomisiynir gan y Pwyllgor Archwilio oddi wrth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac asiantaethau allanol eraill gyda'r nod o sicrhau gwerth i dalwr ffi'r drwydded.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio chwe gwaith yn ystod y flwyddyn. Fel arfer, bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, y Pennaeth Sicrwydd Busnes (a Phennaeth yr adran Archwiliad Mewnol) a chynrychiolwyr yr archwilwyr allanol yn bresennol yn y cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r archwilwyr allanol heb unrhyw reolwyr yn bresennol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Pennaeth Sicrwydd Busnes, ar ei ben ei hun neu gyda'r archwilwyr allanol, ond heb reolwyr yn bresennol. Cynghorir y Pwyllgor Archwilio gan yr Uned Lywodraethu a gall geisio cyngor proffesiynol annibynnol yn ôl yr angen.

Yn ogystal â'r arolwg o adroddiadau'r archwilwyr mewnol mewn perthynas â gweithredu rheolaethau dros risgiau i'r sefydliad, mae'r Pwyllgor wedi adolygu adroddiadau gan asiantaethau allanol, gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar astudiaethau Gwerth am Arian mewn meysydd penodol. Gosodwyd Arolwg PwC ar 'BBC People: Human Resources operations' ynghyd ag ymateb y BBC, gerbron y Senedd ym mis Ebrill 2006. Caiff arolygon y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o 'The BBC's Definition of Overheads and BBC Outsourcing', ynghyd â'r ymateb, eu gosod gerbron y Senedd gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ym mis Gorffennaf 2006.

Wrth ystyried gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu datblygiadau, gan gynnwys cyflwyniadau gan y rheolwyr a'r Uned Lywodraethu, ar effaith y newidiadau arfaethedig mewn safonau cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd llawn y Llywodraethwyr ar ôl pob cyfarfod a gynhelir gan y Pwyllgor.

***Annibyniaeth archwilwyr allanol***

Mae'r BBC yn cydymffurfio â'r arweiniad ar ymddygiad archwilwyr allanol a nodir yng Nghod y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2003. Yr archwilwyr allanol a benodwyd gan y BBC yw KPMG LLP fel archwilwyr y datganiadau ariannol, a PricewaterhouseCoopers LLP fel archwilwyr masnachu teg (gweler tudalennau 76 i 78). Mae'r Pwyllgor Archwilio, FTCC, PricewaterhouseCoopers LLP a KPMG LLP oll yn cymryd camau diogelwch i osgoi'r posibilrwydd o beryglu gwrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu annibyniaeth ei archwilwyr allanol yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal trafodaethau gyda'r archwilwyr allanol heb reolwyr yn bresennol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu lefel ffioedd nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio a delir i KPMG LLP. Cynhelir proses dendro gystadleuol ar gyfer unrhyw waith ymgynghori sylweddol. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ymlaen llaw cyn recriwtio o KPMG LLP i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC. Polisïau'r BBC mewn perthynas â gwasanaethau a gaffaelwyd gan yr archwilwyr allanol yw:

- bod yn rhaid hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am y gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio uwchlaw trothwy o £50,000 y bwriedir eu comisiynu oddi wrth yr archwilwyr allanol a rhaid i'r Pwyllgor Archwilio eu cymeradwyo
- bod yn rhaid cynnig gwaith arfaethedig uwchlaw isafswm lefel benodedig ar dendr cystadleuol ac os caiff y contract ei ddyfarnu i'r archwilwyr allanol, bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ymlaen llaw
- eithrir yr archwilwyr allanol yn benodol rhag cael eu hystyried ar gyfer mathau penodol o waith, lle y gallai effaith hynny amharu ar eu gallu i fynegi barn annibynnol a gwrthrychol

***Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Llywodraethwyr***

Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2005. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y Llywodraethwyr canlynol: Dermot Gleeson (fel Cadeirydd), Michael Grade, Jeremy Peat ac Anthony Salz. Ei ddiben yw ystyried ac adolygu materion ariannol a strategol pwysig ynghyd â materion pwysig yn ymwneud â buddsoddi ac eiddo a gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Cyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor yw:

- craffu ar gyllideb flynyddol y BBC a gwneud argymhellion i'r Bwrdd yn ei chylch
- adolygu achosion buddsoddi cyn iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd llawn

- adolygu cynnydd yn erbyn prif brosiectau a strategaethau, gan gynnwys eiddo
- craffu ar gynigion gan reolwyr y BBC lle y gallai ystyriaeth ymlaen llaw gynorthwyo trafodaethau'r Bwrdd

*Pwyllgor Eiddo'r Llywodraethwyr*
Diddymwyd Pwyllgor Eiddo'r Llywodraethwyr ym mis Mai 2005, a throsglwyddwyd ei gyfrifoldebau i bwyllgor newydd, sef y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Y Pwyllgor Archwilio fydd yr awdurdod y mae'r Gorfforaeth yn troi ato o hyd wrth bennu cydymffurfiad boddhaol â rheolaethau mewnol ac allanol, gan gynnwys prosiectau eiddo. Yn ei gyfarfod ym mis Mai, roedd y Pwyllgor Eiddo yn cynnwys y Llywodraethwyr canlynol: Dermot Gleeson (Cadeirydd) a Michael Grade, gyda dwy swydd wag.

*Trefniadau llywodraethu ar gyfer is-gwmnïau masnachol*
Yn ystod y flwyddyn dan sylw, wrth baratoi ar gyfer y Siarter Frenhinol newydd, cytunodd y Llywodraethwyr ar strwythurau llywodraethu newydd ar gyfer is-gwmnïau masnachol y BBC.

Mae BBC Commercial Holdings Limited, un o is-gwmnïau'r BBC dan berchenogaeth lawn, bellach yn cydlynu ac yn rheoli gweithgareddau ac anghenion ariannu BBC Resources Limited a BBC World Limited. Penodwyd Cadeirydd anweithredol annibynnol i fwrdd BBC Commercial Holdings Limited yn ystod y flwyddyn. Mae nodau cyhoeddus y BBC wedi'u hymgorffori ym Memorandwm Cymdeithasu'r cwmni a gellir arfer llawer o'i bwerau, gan gynnwys y pŵer i benodi cyfarwyddwyr, yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr ymlaen llaw.

Mae Pwyllgor Archwilio Bwrdd Commercial Holdings Limited (CHAC) yn gyfrifol am ystyried holl bapurau'r Pwyllgor Archwilio sy'n ymwneud â'r is-gwmnïau masnachol. Mae aelodau CHAC yn annibynnol ar y gwaith o reoli'r busnesau masnachol yn weithredol. Caiff materion o bwys eu hystyried a'u trafod hefyd gan Bwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr, a chaiff y penderfyniad i gyfeirio'r materion hyn ei wneud gan Gadeirydd CHAC a'i adolygu gan y Pennaeth Sicrwydd Busnes. Amcan CHAC yw sicrhau bod is-gwmnïau masnachol y BBC yn cyrraedd y safonau uchaf o ran llywodraethu corfforaethol, yn enwedig mewn perthynas â rheolaeth fewnol a rheoli risg a'u bod yn gweithredu o fewn fframwaith Pwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr. Mae Cadeirydd CHAC yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Archwilio'r Llywodraethwyr ar weithgareddau CHAC.

BBC Worldwide Limited yw prif is-gwmni masnachol y BBC. Disgrifir ei weithgareddau ar dudalen 59. Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Cadeirydd anweithredol annibynnol. Mae'r Cadeirydd yn arwain bwrdd y cyfarwyddwyr, gan sicrhau bod pob cyfarwyddwr yn gallu gwneud cyfraniad effeithiol. Yn ogystal â hynny, penodwyd tri uwch swyddog gweithredol o Wasanaeth Cyhoeddus y BBC fel cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol hyn yn sicrhau bod barn y BBC, sef rhiant-gwmni BBC Worldwide Limited yn y pen draw, yn cael ei hystyried pan fydd y bwrdd yn gwneud penderfyniadau.

*Digwyddiadau'r flwyddyn*
Ar ôl 31 Mawrth 2005, cafodd y BBC wybod nad oedd rhai digwyddiadau a gynhaliwyd ar safleoedd y BBC wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 (yn weithredol o fis Tachwedd 2005) o ran perfformio o flaen cynulleidfaoedd cyhoeddus. Cymerodd y BBC gamau ar unwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

## 4 Cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol eraill

### Adnoddau dynol a chyfathrebu mewnol

Mae is-adran adnoddau dynol y BBC, BBC People, yn parhau i lywio'r agenda adnoddau dynol drwy'r sefydliad i gyd. Fel rhan o raglen effeithlonrwydd, mae BBC People wrthi'n cyflwyno model busnes newydd ac mae wedi lleihau nifer y bobl a gyflogir yn sylweddol drwy osod nifer o wasanaethau ar gontract ynghyd â rhaglen o ddiswyddo gwirfoddol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gan y rheolwyr ag undebau cydnabyddedig: BECTU (Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograff a Theatr), NUJ (Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr) ac AMICUS.

Mae cyfathrebu mewnol yn chwarae rhan allweddol yng nghynlluniau trawsnewid y BBC. Dangosodd yr arolwg staff blynyddol, a gynhaliwyd gan MORI ym mis Tachwedd 2005, fod angen i'r BBC wneud mwy o waith i gyfleu gweledigaeth a chynllun clir, hwyluso mwy o gydweithredu a gweithio mewn tîm ar draws is-adrannau a chael y gorau o gyflogeion.

Yn ystod y flwyddyn mae'r swyddogaeth cyfathrebu mewnol wedi cael ei hailwampio ac mae strategaeth gyfathrebu i'r BBC cyfan yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Yn ôl arolwg mewnol ym mis Mai 2006 mae llawer mwy o gefnogaeth bellach i'r ffordd y mae'r BBC yn ymateb i newid, yn deall cyfraniad unigolion i newid, ac yn rhoi digon o wybodaeth am weledigaeth y BBC ar gyfer y dyfodol.

### Rheoli risg alwedigaethol

*Cyd-destun polisi'r BBC ar iechyd a diogelwch*
Mae fframwaith rheoli risg alwedigaethol y BBC yn ymgorffori tri pholisi; iechyd a diogelwch, rheoli'r amgylchedd a diogelwch.

*Nod cyffredinol y polisi ar iechyd a diogelwch*
Ein nod cyffredinol yw darparu a chynnal amgylchedd iach a diogel i'n cyflogeion, y bobl yr ydym yn cydweithio â hwy a'r rhai sy'n ymweld â ni. Gellir gwneud hyn drwy: nodi risg yn effeithiol; pennu ac adolygu targedau iechyd a diogelwch; mesur a gwella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus; cydymffurfio â deddfwriaeth, a chydweithredu'n effeithiol â thrydydd partïon cymwys.

*Risgiau sylweddol a chamau i'w rheoli*
Mae ein cyflogeion yn wynebu amrywiaeth mawr o beryglon posibl. Yn ogystal â'r rhai sy'n gysylltiedig ag agweddau cyfarwydd a welir yn y DU, gan gynnwys straen, codi a chario a gyrru, ceir digwyddiadau (y mae degau ar filoedd o'r cyhoedd yn eu mynychu) a mentrau caffael mawr (sy'n codi'r broblem o sicrhau bod risgiau a oruchwylir gan drydydd partïon yn cael eu rheoli'n effeithiol).

Datblygwyd gweithdrefnau a threfniadau newydd i helpu i ymdrin â'r broblem o straen a chytunwyd arnynt gyda'n hundebau llafur. Gweithredwyd hyfforddiant i reolwyr fel rhan o'r rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth a chynlluniwyd hyfforddiant i aelodau unigol o staff a fydd yn ategu'r hyfforddiant a roddir i reolwyr.

Mae'r tîm Rheoli Risg Alwedigaethol a Digwyddiadau Byw wedi adeiladu ar y canllawiau presennol i'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau byw ac wedi gwella arnynt. Maent, er enghraifft, wedi rhoi cyngor cliriach ar bennu rolau gwahanol bartïon mewn digwyddiad, datblygu llinellau cyfrifoldeb clir, sicrhau bod contractwyr yn cael eu dewis a'u rheoli'n effeithiol, a'r angen i fonitro'r ffordd y caiff trefniadau diogelwch eu gweithredu.

Fodd bynnag, mae llawer yn y BBC yn wynebu heriau mwy anarferol. Yn y DU, cafwyd terfysgoedd yn Birmingham a Belfast, ac anhrefn mawr yn ystod Uwchgynhadledd y G8. Cafwyd ymgyrch fomio yn Llundain ar 7 Gorffennaf, a ffrwydrad a thân yn y depo olew yn

Buncefield. Dramor, roedd ein timau Newyddion a Materion Cyfoes yn adrodd ar yr anghydfodau yn Irac ac Affganistan, Darfur, Chechnya ac Israel a'r Tiriogaethau Meddianedig; buont hefyd yn adrodd ar drychinebau megis y daeargryn yn Asia a Chorwynt Katrina, yn ogystal â straeon anodd eraill megis achosion o ffliw adar.

Ar gyfer y gyfres *Planet Earth*, bu'r Uned Byd Natur yn ffilmio yn amgylcheddau mwyaf heriol y byd, yr oedd rhai ohonynt yn wleidyddol ansefydlog. Treuliwyd sawl mis yn paratoi ac yn nodi'r peryglon y byddai'r tîm yn eu hwynebu a sut y gellid eu goresgyn drwy hyfforddiant, cyfarpar a chynlluniau wrth gefn, fel y gallai'r tîm ffilmio'n ddiogel y delweddau syfrdanol sydd wedi swyno ein cynulleidfaoedd.

Mae ein canllawiau hirsefydledig wedi cael eu diwygio i gynnwys gweithgareddau gwneud rhaglenni risg uchel lle bynnag y gwneir hynny ac maent bellach yn cynnwys ymchwiliadau a ffilmio cudd; gwarchae arfog; terfysgoedd; digwyddiadau cemegol, biolegol a radiolegol; trychinebau naturiol, ac achosion o glefydau difrifol neu bandemig. Mae'r cyfarpar diogelwch a roddwyd i staff wedi cynnwys popeth o esgidiau glaw i arfwisg ysgafn i'r corff. Gellir darparu ffonau lloeren brys a dyfeisiau olrhain ar gyfer timau.

*Targedau ac amcanion iechyd a diogelwch*

Ym mis Medi 2005 estynnodd Pwyllgor y Rheolwyr ar Gydymffurfio â Risg Alwedigaethol (MCORC) dargedau ac amcanion iechyd a diogelwch blaenorol y BBC a chytunodd y byddai'r BBC erbyn 2010 yn anelu at leihau (o'i gymharu â'r sefyllfa a fesurwyd yn y flwyddyn 2000):

- nifer y diwrnodau gwaith a gollir fesul 100,000 oherwydd anaf a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith 30%
- canran y digwyddiadau hysbysadwy 60%
- canran yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith 20%

Cytunodd MCORC ar yr amcanion strategol canlynol i helpu i gyflawni'r targedau hyn:

- erbyn mis Tachwedd 2007, dangos ei fod wedi gweithredu system integredig i reoli risgiau iechyd a diogelwch ar draws y BBC
- erbyn mis Ebrill 2007, sefydlu trefniadau mesur a monitro gyda chyfrifoldebau wedi'u neilltuo, ar gyfer pob trydydd parti o bwys sy'n ymgymryd â busnes y BBC er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol a gofynion y BBC
- erbyn mis Gorffennaf 2006, diweddaru safonau a chanllawiau corfforaethol er mwyn rheoli'n effeithiol risgiau sy'n gysylltiedig â chodi a chario a dangos eu bod wedi'u gweithredu erbyn mis Ebrill 2008
- erbyn mis Gorffennaf 2006, diweddaru safonau a chanllawiau corfforaethol er mwyn rheoli'n effeithiol risgiau sy'n gysylltiedig â gyrru a dangos eu bod wedi'u gweithredu erbyn mis Ebrill 2008

*Camau gweithredu i gyflawni nodau a thargedau*

Mae'r rhaglen Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risg Alwedigaethol wedi bod yn datblygu system rheoli diogelwch i fodloni gofynion manyleb 18001 cyfres asesu iechyd a diogelwch galwedigaethol BSI (OHSAS 18001). Mae asesiadau risg enghreifftiol wedi'u datblygu i helpu'r rhai sy'n gwneud rhaglenni i sefydlu rheolaeth risg ar gynyrchiadau, ac mae'r BBC wrthi'n creu system cofnodi damweiniau newydd sy'n ei gwneud yn bosibl i bob aelod o staff gofnodi damweiniau ar-lein ac i gynnal ymchwiliadau mwy effeithiol i'r hyn sydd wedi achosi damweiniau mewn gwirionedd. Disgrifiwyd cyfrifoldebau diogelwch ar gyfer pob aelod o staff a nodwyd ystod eang o fesurau perfformiad. Roedd trefniadau ar gyfer monitro caffaeliadau mawr yn rhan annatod o'r broses gaffael ac mae'r trefniadau hynny ar gyfer prif gyflenwyr eraill wedi cael eu hadolygu a'u diwygio. Paratowyd a chyhoeddwyd rhestr o gyflenwyr gwasanaethau cynhyrchu risg uchel y mae eu cefndir wedi cael eu harchwilio. Mae gwelliannau eraill yn y gwaith o reoli risg alwedigaethol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau eraill yn cael eu datblygu.

*Perfformiad a chynnydd yn erbyn targedau*

- Mae nifer yr anafiadau y dylid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) amdanynt wedi gostwng o 62 yn y flwyddyn 2000/2001 i 37 yn 2005/2006 (38 yn 2004/2005). Yn ystod yr un cyfnod gostyngodd y gyfradd o 277 fesul 100,000 o staff llawn amser i 159 fesul 100,000 (140 yn 2004/5).
- Gostyngodd cyfradd yr achosion o salwch tybiedig yn gysylltiedig â gwaith o 23 fesul mil yn 2000/2001 i 16.9 yn 2005/2006, sef gostyngiad o fwy na 25% (16.3 yn 2004/2005). Priodolwyd y prif resymau dros salwch tybiedig sy'n gysylltiedig â gwaith i straen, niwed i'r dwylo, y fraich neu'r ysgwydd a phroblemau cyhyrysgerbydol eraill.
- Cafwyd 113,607 o ddiwrnodau o absenoldeb wedi'u cofnodi, am bob rheswm, sy'n cyfateb i gyfradd o 2.23% o staff llawn amser. Amcangyfrifir bod yr amser hwn a gollwyd wedi costio tua £13.8 miliwn (yn seiliedig ar gostau cyflog cyfartalog).
- Ni chafwyd unrhyw farwolaethau yn ystod 2005/2006 (dwy yn 2004/2005).

*Gorfodi*

Mae'r BBC mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau gorfodi yn genedlaethol ac yn lleol ynglŷn ag iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol. Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiad misol sy'n cynnwys crynodeb o gysylltiadau â'r awdurdodau gorfodi, damweiniau cofnodadwy a materion diogelwch pwysig eraill.

*Trefniadau ar gyfer ymgynghori â chyflogeion*

Mae'r BBC wedi ymgymryd â menter i adfywio ymgynghori ar iechyd a diogelwch, gyda'r pwyslais ar ymgynghori lleol â'r staff. Mae'r fenter wedi arwain at broses achredu gliriach ar gyfer cynrychiolwyr a rhannu gwybodaeth yn well. Mae'r Cydgyngor Cenedlaethol ar Iechyd a Diogelwch yn cynnwys uwch reolwyr a chynrychiolwyr diogelwch: mae'n fforwm ar gyfer trafod materion strategol ac mae'n helpu i gyflwyno mentrau iechyd a diogelwch cenedlaethol yn gynt. Lle nad oes cynrychiolwyr diogelwch achrededig, rhoddwyd trefniadau ar waith i ymgynghori â staff drwy system reolaidd o friffio i dimau.

Mae'r BBC wedi'i gynrychioli ar fforymau cenedlaethol sydd â'r nod o wella safonau diogelwch ym maes darlledu ac mewn meysydd eraill o ddiwydiant, lle y caiff arfer gorau ei nodi a'i ledaenu. Parhawn i fod yn aelod o'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol ar Ddarlledu a Grŵp Diogelwch y Diwydiant Darlledu. Yn sgîl y gwaith ailddatblygu mawr ar ein hadeiladau, gan gynnwys White City, Pacific Quay a'r Ganolfan Ddarlledu, rydym wedi bod yn aelod gweithgar o'r Ffederasiwn Cleientiaid Adeiladu. Hefyd gofynnwyd i'r BBC fod yn aelod o weithgor newydd a noddir gan yr HSE i ddatblygu canllawiau ar y rheoliadau Adeiladu, Cynllunio a Rheoli diwygiedig.

*Natur ac effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddi*

Cofnododd y BBC fod hyfforddiant wedi'i roi i fwy na 11,000 o bobl ar faterion diogelwch, ac mae llawer o bobl yn cael hyfforddiant arbenigol yn ychwanegol at hyn. Mae mwy o staff yn cael hyfforddiant arbennig wrth baratoi am waith mewn amgylcheddau risg uchel. Yn 2004/2005 roedd fflyd o 1,600 o gerbydau gan y BBC a gwnaed 1,187 o hawliadau yswiriant mewn cysylltiad â'r rhain (cyfradd achosion o 74%), a gostiodd gyfanswm o £840,000. Yn 2005/2006, 66% oedd y gyfradd achosion, gyda chost o £667,000. Mae'r ymgais i leihau gwerth hawliadau yswiriant yn cael ei chynnal yn rhannol drwy raglen hyfforddi gyrwyr. Mae hon wedi'i thargedu at rannau o'r busnes lle mae gyrru yn ofyniad gweithredol. Mae'r BBC yn disgwyl gweld perthynas

uniongyrchol rhwng nifer y damweiniau sy'n achosi anaf a gwerth yr hawliadau, er bod ymchwil y farchnad yn awgrymu na fydd yn bosibl mesur budd uniongyrchol tan fis Hydref 2006.

*Gweithgarwch archwilio*
Cynhelir archwiliadau o bynciau penodol yn ymwneud â risg alwedigaethol drwy adran Archwiliad Mewnol y BBC. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd nifer fawr o bynciau yn berthnasol i'r BBC cyfan eu hadolygu, gan gynnwys Rheoli Asbestos, Trefniadau Digwyddiadau Byw, Amddiffyn Plant, a Risg Amgylcheddol. O ganlyniad i'r olaf, mae'r BBC wrthi'n ystyried rhaglen ddwy flynedd i ddatblygu a gweithredu System Rheoli Amgylcheddol newydd ar draws y Gorfforaeth sy'n bodloni gofynion ISO 14001. Mae gweithgarwch archwilio arall wedi arwain at welliannau ym mhroses gaffael y BBC i sicrhau mai dim ond contractwyr cymwys sy'n cael eu dewis i weithio gyda'r BBC ac ar ei ran. Mae MCORC wedi cymeradwyo rhaglen dreigl newydd o weithgarwch archwilio dros dair blynedd . Ymhlith y gweithgarwch archwilio penodol yn y flwyddyn i ddod bydd dadansoddiad bylchau yn erbyn OHSAS 18001, gan brofi dealltwriaeth o gyfrifoldebau diogelwch allweddol, ac archwilio systemau ar gyfer atal syrthiadau o uchder.

## 5 Rhyddid gwybodaeth

Daeth y BBC yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 1 Ionawr 2005. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, derbyniodd yr adran Gwybodaeth Polisi a Chydymffurfiad 971 o geisiadau am wybodaeth. O'r rhain, credai'r BBC fod 415 (43%) y tu allan i gwmpas y Ddeddf. (Dim ond o ran gwybodaeth a ddelir at ddibenion ac eithrio newyddiaduraeth, y celfyddydau a llenyddiaeth y mae'r Ddeddf yn gymwys i'r BBC, sef y rhanddirymiad cynnwys fel y'i gelwir.) Ataliwyd y wybodaeth i gyd mewn 120 (22%) o achosion, gan gynnwys y rhai nad oedd y BBC yn credu bod y Ddeddf yn gymwys iddynt: Ymatebwyd i 932 (96%) o geisiadau o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, neu estynnwyd y terfyn amser yn ddilys o dan y Ddeddf. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2006 cafodd y BBC 226 o geisiadau, yr oedd 88 (39%) ohonynt y tu allan i gwmpas y Ddeddf.

Gwnaed 69 o geisiadau i gynnal arolwg mewnol o benderfyniadau Rhyddid Gwybodaeth y BBC yn 2005; cafwyd 6 yn y tri mis cyntaf yn 2006. Hysbyswyd y BBC fod 28 o achosion yn cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn ystod 2005; hysbyswyd y BBC am 19 o achosion yn ystod tri mis cyntaf 2006 (y rheswm dros y cynnydd hwn oedd bod achosion wedi cronni yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid yw'n adlewyrchu cynnydd yn nifer y cwynion). Cyfeiriwyd un achos at y Tribiwnlys Gwybodaeth am benderfyniad ar fater awdurdodaeth ynglŷn â'r rhanddirymiad cynnwys.

Mae'r BBC hefyd yn darparu cynllun cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth ar ei wefan fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Cafodd y wefan 643,309 o ymweliadau yn ystod 2005 a 217,693 o ymweliadau ym mis Ionawr-Mawrth 2006.

*Diogelu data*
Cafodd IPC 49 o ymholiadau cychwynnol am wybodaeth bersonol yn 2005. O'r rhain, datblygodd 39 yn Geisiadau Mynediad Gwrthrych ffurfiol o dan y Ddeddf Diogelu Data. Ymdriniwyd â phob un ond pedwar o fewn yr amserlen statudol o 40 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 32 o ymholiadau, a ddatblygodd yn 26 o geisiadau ffurfiol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cafwyd 16 o ymholiadau a ddatblygodd yn 11 o geisiadau ffurfiol yn y tri mis cyntaf yn 2006. Ni chyfeiriwyd unrhyw fater diogelu data at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y ddwy flynedd ers sefydlu'r IPC (Ebrill 2004 i Fawrth 2006).

## 6 Rhoddion a chydnabyddiaethau

### Rhoddion gwleidyddol ac elusennol
Nid yw'r BBC yn gwneud rhoddion gwleidyddol. Nid yw UK Public Service Broadcasting yn gwneud rhoddion ariannol i elusennau ond mae'n darparu gwasanaethau mewn da. Yn ystod 2005/2006 darparwyd gwasanaethau a oedd yn cyfateb i werth £228,000 (2005 £509,000) mewn arian parod i elusennau. Yn ogystal ag apeliadau a ddarlledwyd y ceir eu manylion ar dudalennau 65 i 66, rhoddodd busnesau masnachol y BBC £6,000 i elusennau yn ystod y flwyddyn (2005 £61,000).

### Grantiau ariannol
Mae'r BBC yn cydnabod grantiau ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau ymchwil technegol amrywiol.

## 7 Adroddiad ar gydnabyddiaeth y Llywodraethwyr

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi'r BBC ar gydnabyddiaeth ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr ac aelodau o'r Bwrdd Gweithredol. Er bod y BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Adroddiadau ar Gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, paratowyd yr adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny yn gymwys lle bynnag y mae'r darpariaethau datgelu yn berthnasol ac yn gymwys. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y Llywodraethwyr ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr: cyfansoddiad a gweithrediad
Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn un o is-bwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr ac mae'n atebol iddo o ran gosod a chynnal y polisi cydnabyddiaeth cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried perfformiad aelodau unigol y Bwrdd Gweithredol ac yn argymell eu cyflog sylfaenol a'u taliadau bonws blynyddol i Fwrdd llawn y Llywodraethwyr.

Cadeirir y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gan Anthony Salz a'r aelodau eraill yw Deborah Bull a Michael Grade. Mynychir y cyfarfodydd fel y bo'n briodol gan Mark Thompson, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Jeremy Nordberg, Cyfarwyddwr Dros Dro BBC People, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Ni fydd y naill na'r llall yn bresennol pan ystyrir materion yn ymwneud â'u cydnabyddiaeth hwy. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gallu gofyn am arbenigedd mewnol drwy Roger Fairhead, Pennaeth Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfunol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol 2003, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn derbyn cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth, yn arbennig o ran ystyried arfer yn y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor gan Grŵp Hay ar ddata cymharol ar y farchnad wrth benderfynu ar gyflog a buddiannau'r Bwrdd Gweithredol.

### Llywodraethwyr: polisi cydnabyddiaeth
Caiff aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr ffi a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cânt eu had-dalu hefyd am dreuliau yr eir iddynt o ran busnes y BBC, a chaiff unrhyw dreth sy'n codi o'r treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Nodir y ffioedd a'r treuliau yn y tabl ar dudalen 88.

### Bwrdd Gweithredol: polisi cydnabyddiaeth
Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn argymell y polisi cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau o'r Bwrdd Gweithredol i Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r polisi hwn yn ceisio cael cydbwysedd rhwng statws y BBC fel

corfforaeth gyhoeddus a'r ffaith ei fod yn gweithredu mewn amgylchedd masnachol, cystadleuol.

Mae'n rhaid i bob maes gwariant, gan gynnwys cydnabyddiaeth aelodau gweithredol, roi gwerth i dalwr ffi'r drwydded a chydnabod pryderon dilys er budd y cyhoedd ynglŷn â thâl cyflogeion yn y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid cydbwyso hyn â'r angen, mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol, i gynnig cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r dalent allweddol sydd ei hangen i arwain y BBC a darparu darlledu cyhoeddus o'r radd flaenaf. Wrth wneud hynny, mae'r polisi cydnabyddiaeth yn ceisio:

- rhoi cydnabyddiaeth deg i unigolion am gyfrifoldeb a chyfraniad unigol
- pennu cyflog sylfaenol wedi'i feincnodi yn erbyn cyflog sylfaenol canolig sefydliadau tebyg perthnasol, gyda phremiwm bach i wneud iawn am y cyfleoedd bonws cyfyngedig a'r ffaith nad oes gan y BBC gynllun cyfranddaliadau o gymharu â'i gystadleuwyr yn y sector preifat
- rhoi elfen gyfyngedig o gyflog ar sail perfformiad, wedi'i gostwng o uchafswm o 30% i uchafswm o 10% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer y Bwrdd Gweithredol yn 2005/2006, wedi'i chysylltu â chyflawni amcanion allweddol a'r cyfraniad cyffredinol i berfformiad y BBC
- ystyried y polisi cydnabyddiaeth yng ngweddill y BBC a'r gydberthynas a ddylai fodoli rhwng cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol a chyflogeion eraill

Mae trefniadau ar wahân yn gymwys i John Smith, Prif Swyddog Gweithredol, BBC Worldwide, a Phrif Swyddog Gweithredu, BBC, sy'n gyfrifol am fusnes masnachol y BBC yn bennaf. Yn rhinwedd y swydd hon, mae'n rhan o gynlluniau bonws a chymelldaliadau hir dymor BBC Worldwide a sefydlwyd gan Fwrdd BBC Commercial Holdings ac a ysgogir gan elw ac enillion ar dargedau gwerthiannau a pherfformio'n well na busnesau rhyngwladol mawr yn y sector cyfryngau dros gyfnod perfformiad o flwyddyn a thair blynedd. Caiff y cynlluniau hyn eu hariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide yn hytrach na chan ffi'r drwydded. Mae'r gost i Grŵp Public Service Broadcasting y BBC yn gyfyngedig i gyfran o gyflog sylfaenol John Smith, gan adlewyrchu ei gyfrifoldebau cyhoeddus dros Eiddo, Caffael a Gwybodaeth ac Archifau. Ar gyfer 2005/2006 roedd y costau yn 25% o'i gyflog sylfaenol. Ni chaiff fonws o ran ei gyfrifoldebau cyhoeddus.

### Elfennau o gydnabyddiaeth

Y prif elfennau o gydnabyddiaeth yw cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a phensiwn.

*Cyflog sylfaenol*

Adolygir cyflog sylfaenol yn weithredol o 1 Awst bob blwyddyn, gan ystyried y farchnad allanol, cyfrifoldebau a pherfformiad unigolion, a chymariaethau mewnol. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol, Grŵp Hay, ar faterion cydnabyddiaeth, yn enwedig arferion y farchnad. Yn 2004, nododd Grŵp Hay fod cyflog sylfaenol swyddogion gweithredol y BBC wedi gostwng yn sylweddol islaw lefelau canolig y farchnad. Cytunwyd ar bolisi i sicrhau bod cyflogau yn gyson â'r farchnad allanol ar ddau gam: daeth y cyntaf o'r camau hynny i rym o 1 Awst 2004 ac fe'i hadlewyrchwyd yn yr adroddiad y llynedd; cymerwyd yr ail gam y flwyddyn ganlynol ac mae'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.

*Bonws Blynyddol*

Ar gyfer 2005/2006, cafodd yr uchafswm bonws blynyddol sydd ar gael ei ostwng o 30% i 10% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, a thrwy hynny ceisiwyd cael gwell cydbwysedd rhwng gwerthoedd cyhoeddus a gwobrwyau a oedd yn gystadleuol yn y farchnad.

Mae dyfarniadau bonws yn seiliedig ar gyflawni targedau ac amcanion is-adrannol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac asesiad o sut y bu i arweinyddiaeth gyffredinol yr unigolyn gyfrannu at yr ymgais i gyflawni amcanion y Llywodraethwyr. Ar gyfer 2005/2006, mae cyflawni targedau is-adrannol o ran gwerth am arian yn cyfrif am hyd at 50% o'r bonws, gyda'r mesurau trawsnewidiol is-adrannol yn cyfrif am y 50% arall. Mae asesiad o gyfraniad cyffredinol yr unigolyn i amcanion y Llywodraethwyr a'r ffordd y mae'n eu hyrwyddo yna yn arwain at gadw neu leihau'r bonws a ddyfarnwyd.

Fel y nodir yn gryno uchod, mae cynllun bonws blynyddol John Smith yn seiliedig ar elw BBC Worldwide. Telir 10 y cant o'i gyflog sylfaenol am gyflawni'r targed elw, gan gynyddu i 50% o'i gyflog sylfaenol os yw BBC Worldwide yn mynd dros ei darged elw o 10% neu fwy.

### Cynllun cymelldaliadau hir dymor (LTIP)

Fel y crynhoir uchod, mae John Smith yn rhan o gynllun cymelldaliadau hir dymor BBC Worldwide, a hunan-ariennir yn gyfan gwbl gan refeniw masnachol BBC Worldwide. Ni chaiff unrhyw aelod arall o'r Bwrdd Gweithredol fod yn rhan o'r cynllun hwn, sydd ond ar gael i uwch swyddogion gweithredol BBC Worldwide. Mae unrhyw daliad a wneir gan y cynllun yn dibynnu ar dwf elw BBC Worldwide a'i enillion ar werthiannau o gymharu ag isafswm o 15 o fusnesau yn y sector cyfryngau a restrir dros gyfnod o dair blynedd mewn perthynas â pherfformiad. Os rhagwelir unrhyw ran o unrhyw fonws blynyddol, mae BBC Worldwide yn rhoi swm cyfatebol a chaiff y cyfanswm ei beryglu drwy ei fuddsoddi yn y cynllun (y 'bonws a fuddsoddwyd ac a barwyd'). Ar ddiwedd y cyfnod perfformiad, mae'r taliadau canlynol yn daladwy yn dibynnu ar berfformiad:

- os bydd perfformiad BBC Worldwide yn cyfateb i chwartel canolig cwmnïau tebyg, bydd 10% o'r cyflog blynyddol ar gyfradd diwrnod olaf y cyfnod perfformiad a hanner unrhyw fonws a fuddsoddwyd ac a barwyd yn daladwy
- os bydd perfformiad BBC Worldwide yn cyrraedd chwartel uchaf cwmnïau tebyg neu'n rhagori arno, bydd 20% o'r cyflog blynyddol ar gyfradd diwrnod olaf y cyfnod perfformiad a 100% o unrhyw fonws a fuddsoddwyd ac a barwyd yn daladwy
- os bydd perfformiad BBC Worldwide yn gostwng islaw chwartel isaf cwmnïau tebyg, ni wneir unrhyw daliad (nid y swm sy'n gysylltiedig â chyflog, y bonws a ragwelwyd nac unrhyw swm cyfatebol)
- os bydd perfformiad BBC Worldwide rhwng y chwartel isaf a'r chwartel canolig, neu'r chwartel canolig a'r chwartel uchaf, caiff swm pro rata ei dalu
- os gadewir y cynllun yn wirfoddol cyn diwedd y cyfnod breinio, mae gan yr unigolyn yr hawl i gael ad-daliad o'r bonws a ragwelwyd, ond ni chaiff unrhyw swm cyfatebol.

*Pensiynau*

Mae pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC. Mae hwn yn darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig gyda chyfradd gronnol o 1/60fed o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar uchafswm cyflog pensiynadwy (£105,600 y flwyddyn ar gyfer 2005/2006) i'r rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989. Dim ond cyflog sylfaenol sy'n bensiynadwy. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog hyd at derfyn a ragnodir.

Gwnaed amrywiaeth o drefniadau ar gyfer yr unigolion hynny sydd wedi ymuno ar ôl 31 Mai 1989, y mae eu cyflog sylfaenol yn fwy na'r uchafswm cyflog pensiynadwy, gan gynnwys trefniadau wedi'u hariannu a heb eu hariannu y tu allan i Gynllun Pensiwn y BBC. O ran y Bwrdd

Gweithredol, ariannwyd pob un o'r trefniadau hyn drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol Anghymeradwy a Ariannwyd (FURBS).

Gyda'r drefn bensiwn newydd yn weithredol o fis Ebrill 2006, mae'r BBC yn parhau i gymhwyso uchafswm cyflog pensiynadwy yn seiliedig ar derfyn blaenorol Cyllid y Wlad. Disodlwyd trefniadau FURBS gan dâl pensiwn atodol mewn arian parod. Yn ogystal â hynny, gall aelodau sy'n cyrraedd neu sy'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes newydd eithrio o'r Cynllun Pensiwn ac yn lle hynny cael tâl pensiwn atodol mewn arian parod yn lle cyfraniadau'r BBC i'r Cynllun Pensiwn. Mae'r trefniadau hyn yn niwtral o ran cost i'r BBC.

Dangosir isod fanylion am hawl i fuddiannau diffiniedig a chyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig i'r Cadeirydd ac aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

| Llywodraethwr/Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (oedran ar 31 Mawrth 2006) | Cynlluniau buddiannau diffiniedig: Gwerthoedd blynyddol: **Pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2006 £000yf** | Gwerthoedd blynyddol: Cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd dros y flwyddyn £000yf | Gwerthoedd trosglwyddo[3]: **Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2006 £000** | Gwerthoedd trosglwyddo[3]: Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2005 £000 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r aelodau dros y flwyddyn £000 | Cynlluniau cyfraniad diffiniedig: Cyfraniadau BBC **2006 £000** | Cynlluniau cyfraniad diffiniedig: Cyfraniadau BBC 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | | | | |
| Michael Grade (63) | **3** | 2 | **50** | 22 | 23 | **–** | – |
| **Bwrdd Gweithredol** | | | | | | | |
| Jenny Abramsky (59) | **177** | 28 | **3,849** | 3,026 | 804 | **–** | – |
| Jana Bennett (50) | **7** | 2 | **92** | 59 | 27 | **65** | 46 |
| Mark Byford (47) | **156** | 22 | **2,117** | 1,655 | 440 | **–** | – |
| Stephen Dando (44) | **8** | 2 | **76** | 55 | 15 | **71** | 56 |
| Tim Davie (38)[1,2] | **2** | 2 | **12** | – | 6 | **–** | – |
| Ashley Highfield (40) | **10** | 2 | **74** | 54 | 14 | **53** | 43 |
| Zarin Patel (45) | **13** | 2 | **126** | 98 | 22 | **64** | – |
| John Smith (48) | **153** | 28 | **2,195** | 1,619 | 550 | **–** | – |
| Mark Thompson (48)[2] | **3** | 2 | **38** | 15 | 17 | **151** | 111 |
| Caroline Thomson (51) | **54** | 3 | **1,014** | 836 | 171 | **48** | 30 |

[1] Penodwyd Tim Davie yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol ac ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar 11 Ebrill 2005.

[2] Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Mark Thompson a Tim Davie lai na dwy flynedd o wasanaeth ac felly ni fyddai hawl ganddynt i gael pensiwn gohiriedig pe baent yn gadael y Cynllun Pensiwn ar y dyddiad hwn. Fodd bynnag, er mwyn eu cymharu â'r aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol, mae eu buddiannau cronedig wedi cael eu cyfrifo a'u prisio gan dybio y byddant yn cwblhau'r gofyniad o ddwy flynedd o wasanaeth.

[3] Gwerth trosglwyddo buddiannau pensiwn cronedig yw'r gost amcangyfrifedig i'r Cynllun Pensiwn o ddarparu'r buddiannau pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, gan gynnwys oed yr unigolyn, cyflog pensiynadwy, blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad (yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN11 gan yr Actiwariaid). Nid yw'n swm a delir neu sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly ni ellir yn ystyrlon ei ychwanegu i gydnabyddiaeth. Mae effaith amodau'r farchnad fuddsoddi ar y gwerth trosglwyddo yn amrywio yn ôl oedran yr aelod: i aelodau hŷn, mae'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r arenillion ar giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai, ond arenillion difidendau ar Fynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE i aelodau iau yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar y cyfrifiad.

### *Buddiannau*

Yn ogystal â chyflog sylfaenol, bonws blynyddol a phensiwn, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat, ac aswiriant bywyd. Bu'n bolisi ers rhai blynyddoedd nad yw aelodau newydd a benodwyd i'r Bwrdd Gweithredol, ac eithrio Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau, yn gymwys i gael car â gyrrwr. Mae contract y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn darparu ar gyfer car â gyrrwr ond nid oes ganddo'r hawl i gael lwfans car personol na lwfans tanwydd.

### Contractau cyflogaeth

Yn ôl polisi'r Llywodraethwyr, ni ddylai contractau cyflogaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol gynnwys cyfnod rhybudd o fwy na blwyddyn.

Mae pob contract cyflogaeth yn dod i ben ar ben-blwydd yr aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn 60 oed, sef oedran ymddeol arferol y BBC ar hyn o bryd, ond gellir ei derfynu'n gynt am reswm penodol neu os rhoddir rhybudd o dan y contract.

Ar 31 Mawrth 2006, roedd tymor heb ddarfod a chyfnod rhybudd pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn uchafswm o 12 mis. Nid oes hawl i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddiad.

### Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gyda Bwrdd y Llywodraethwyr a phan nad oes potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau, gall aelodau'r Bwrdd Gweithredol ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol. Mewn egwyddor, ni ellir dal mwy na dwy swydd cyfarwyddwr allanol ar yr un pryd, a dim ond un o'r rhain ddylai fod mewn sefydliad masnachol. Telir unrhyw gydnabyddiaeth sy'n codi o swydd cyfarwyddwr i'r BBC. Yn ystod y flwyddyn gwasanaethodd John Smith fel cyfarwyddwr anweithredol Severn Trent ccc. Am wybodaeth am sut i gael cofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol, gweler tudalen 80.

## Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Dangosir cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Bonws blynyddol £000 | Treuliau/ buddiannau £000 | **Cyfanswm 2006 £000** | Cyfanswm 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethwyr** | | | | | |
| Deborah Bull | 16 | – | 7 | **23** | 20 |
| Syr Andrew Burns (penodwyd 1 Gorffennaf 2005) | 21 | – | 15 | **36** | – |
| Y Farwnes Deech | 16 | – | 7 | **23** | 25 |
| Dermot Gleeson | 16 | – | 10 | **26** | 28 |
| Michael Grade | 83 | – | 27 | **110** | 96* |
| Yr Athro Merfyn Jones | 28 | – | 14 | **42** | 36 |
| Yr Athro Fabian Monds | 28 | – | 1 | **29** | 31 |
| Jeremy Peat | 28 | – | 6 | **34** | 10 |
| Anthony Salz | 28 | – | 7 | **35** | 24* |
| Angela Sarkis | 16 | – | 9 | **25** | 22 |
| Ranjit Sondhi | 28 | – | 4 | **32** | 32 |
| Richard Tait | 16 | – | 3 | **19** | 15* |
| | 324 | – | 110 | **434** | 339 |
| Llywodraethwyr a ymddeolodd yn ystod 2004/2005 | | | | | 64 |
| Cyfanswm | 324 | – | 110 | **434** | 403 |

| | Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Bonws blynyddol £000 | Treuliau/ buddiannau £000 | **Cyfanswm 2006 £000** | Cyfanswm 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Gweithredol** | | | | | |
| Jenny Abramsky | 295 | 15 | 12 | **322** | 304 |
| Jana Bennett | 321 | 17 | 15 | **353** | 334 |
| Mark Byford | 403 | 40 | 13 | **456** | 457 |
| Stephen Dando[1] | 290 | – | 2 | **292** | 313 |
| Tim Davie (penodwyd 11 Ebrill 2005) | 253 | 19 | 15 | **287** | – |
| Ashley Highfield | 281 | 15 | 15 | **311** | 320 |
| Zarin Patel | 297 | 13 | 14 | **324** | 72* |
| John Smith[2] | 331 | 87 | 26 | **444** | 387 |
| Mark Thompson[3] | 609 | – | 10 | **619** | 459* |
| Caroline Thomson | 276 | 26 | 15 | **317** | 290 |
| | 3,356 | 232 | 137 | **3,725** | 2,936 |
| Taliadau o dan gynlluniau cymelldaliadau hir dymor | | | | **–** | 47 |
| Aelodau a ymddeolodd neu a adawodd y Bwrdd Gweithredol yn ystod 2004/2005 | | | | | 766 |
| Cyfanswm | 3,356 | 232 | 137 | **3,725** | 3,749 |
| Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr | | | | **–** | 443 |

* Penodwyd yn ystod 2004/2005

[1] Ymddiswyddodd Stephen Dando ar 23 Ebrill 2006

[2] Mae cyflog sylfaenol, bonws a buddiannau John Smith wedi'u cynnwys ar eu

cyfradd lawn, er bod y gost i Grŵp Public Service y BBC wedi'i chyfyngu i 25% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer 2005/2006. Yn ogystal â'i fonws blynyddol, rhagwelwyd swm cyfatebol a'i fuddsoddi yn y Cynllun Cymelldaliadau Hir Dymor ar gyfer BBC Worlwide, a all freinio ym mis Mawrth 2008

[3] Mae Mark Thompson wedi ildio ei hawl i gael ei ystyried ar gyfer bonws blynyddol yn 2005/2006.

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd i Lywodraethwyr nac aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

## 8 Rhaglenni, sianelau a hyrwyddiadau

### Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr

Yn ystod y flwyddyn roedd Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr yn cynnwys y Llywodraethwyr canlynol yn unig: Richard Tait (Cadeirydd), Deborah Bull, Merfyn Jones, Fabian Monds ac Angela Sarkis.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r gofyniad yn y Siarter y dylai Bwrdd y Llywodraethwyr sicrhau bod y BBC yn ymdrin yn briodol â chwynion. Mae'r Pwyllgor yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau wrth gyflawni'r gofyniad hwn, gan gynnwys:

- sicrhau bod y BBC yn ymdrin â chwynion yn brydlon, yn ymchwilio iddynt yn drwyadl ac yn ddiduedd, a bod y broses yn cael ei llywio gan arfer da
- cynnal arolwg blynyddol o brosesau a pherfformiad ymdrin â chwynion y BBC; ymgymryd ag arolwg rheolaidd o'r strategaeth ymdrin â chwynion yn seiliedig ar y materion a godir mewn arolygon blynyddol, a gwneud argymhellion i Fwrdd y Llywodraethwyr mewn perthynas ag unrhyw newidiadau y tybir sydd eu hangen yn deillio o'r arolygon hyn
- cynnal arolwg o'r adroddiad chwarterol ar gwynion a gyflwynir i Fwrdd y Llywodraethwyr gan y Bwrdd Rheoli Cwynion, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
- cynnal arolwg o'r Bwletin Cwynion chwarterol a gyhoeddir gan yr Uned Cwynion Golygyddol (ECU)
- codi materion golygyddol ehangach sy'n deillio o ystyried apeliadau, fel y bo'n briodol, gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, neu'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, drwy'r Bwrdd Rheoli Cwynion
- ystyried apeliadau penodol yn erbyn penderfyniadau'r ECU mewn perthynas â chwynion ynglŷn â rhaglenni a ddarlledwyd, neu ddeunydd a gynhwyswyd gan wasanaethau y mae gan y BBC gyfrifoldeb golygyddol amdanynt
- ystyried apeliadau penodol yn erbyn penderfyniadau gan Gyfarwyddwr un o is-adrannau'r BBC wrth ddelio â chŵyn olygyddol lle mae'r gŵyn y tu allan i gylch gwaith yr ECU a lle ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod achos difrifol o dorri safonau golygyddol

Wrth ystyried apeliadau, caiff y Pwyllgor gyngor gan Gynghorydd Golygyddol annibynnol sy'n hysbysu'r Pwyllgor am yr ystod o faterion golygyddol sy'n gysylltiedig â chwynion a'r pryderon a/neu'r ystyriaethau a godwyd gan achwynwyr.

Caiff penderfyniadau'r Pwyllgor ar apeliadau eu cyfleu i'r apelydd ac i'r Bwrdd Rheoli Cwynion. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyhoeddi bwletin chwarterol o'i ganfyddiadau. Am ragor o wybodaeth am y modd yr ymdriniwyd â chwynion yn ystod 2005/2006, gweler tudalen 62.

### Cynnal safonau golygyddol

Mae'r Llywodraethwyr yn sicrhau bod y BBC yn cynnal safonau golygyddol uchel, gan fonitro ei gydymffurfiad ag *Editorial Guidelines* y BBC a'r Cod Didueddrwydd a Chywirdeb sy'n rhan ohonynt.

Ym mis Ebrill 2005, cymeradwywyd y canllawiau diwygiedig gan y Llywodraethwyr, a ddaeth yn weithredol ar ddiwedd mis Gorffennaf 2005.

Wrth gynnal arolwg blynyddol o faterion golygyddol ym mis Ebrill 2006, bodlonwyd y Llywodraethwyr bod y BBC ar y cyfan wedi cyrraedd y safonau a ddisgwylid yn ystod 2005/2006. Cydnabuwyd llwyddiant parhaus y BBC wrth ddarlledu rhaglenni heriol, a mentrus, gan gynnwys *Pinochet in Suburbia, The Secretary Who Stole Millions, Soldiers' Wives, Naked City* a *Whistleblower*.

Nododd y Bwrdd rai heriau golygyddol penodol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Darllediadau o'r ymgyrch fomio yn Llundain ym mis Gorffennaf 2005: Nid yn unig y torrwyd tir newydd ym maes newyddiaduraeth o ran delweddau a gyflwynwyd drwy ffonau symudol, ond codwyd cwestiynau pwysig hefyd o ran preifatrwydd, cywirdeb a dilysu. Rhoddwyd rhagor o ganllawiau ar y defnydd o'r gair 'terfysgwr'. Cymeradwywyd y canllawiau gan y Bwrdd, nad ydynt yn gwahardd defnyddio'r gair 'terfysgwr' ond sy'n dymuno i'w ddefnydd gael ei briodoli. Hefyd nododd y Bwrdd ganfyddiad penderfyniad Ofcom ar ddelweddau o unigolyn a oedd wedi'i anafu'n wael.
- Cyhoeddi cartwnau yn dynodi'r Proffwyd Muhammad mewn sawl papur newydd yn Ewrop: gweler arolwg y Llywodraethwyr o BBC Newyddion ar dudalen 47.
- Etholiad Cyffredinol Mai 2005: Nododd y Bwrdd fod cryn dipyn o arweiniad a chefnogaeth wedi'u rhoi ar draws y BBC i'r ymgyrch. Nododd y Bwrdd fod y gŵyn gan y Blaid Geidwadol ynglŷn â'r honiad ar *The World at One* fod Michael Howard wedi osgoi rhoi cyfweliad ar *Today* wedi'i chadarnhau'n rhannol gan yr Uned Cwynion Golygyddol.
- Y digwyddiad cerddorol byd-eang Live 8: Ymdrechodd y BBC yn galed i barhau'n ddiduedd. Nododd y Llywodraethwyr fod Ofcom wedi cadarnhau cwynion ynglŷn ag iaith anweddus. Ers hynny, cyhoeddwyd canllawiau polisi golygyddol eraill ar ddarllediadau byw i helpu i leihau risgiau i'r eithaf.

Nododd y Bwrdd rai o ddyfarniadau Ofcom ynglŷn â safonau cynnwys ar Radio 1, er enghraifft, iaith sy'n peri tramgwydd yn y cyflwyniad i *Most Punk*. Nododd er bod Radio 1 yn rhwydwaith cyfoes a heriol, fod yn rhaid iddo sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Ofcom a'r BBC.

Nododd y Bwrdd fod Pwyllgor Cwynion am Raglenni'r Llywodraethwyr wedi cadarnhau wyth cwyn yn llawn neu'n rhannol.

Cafodd y Bwrdd gasgliadau rheolwyr ar ôl ymchwiliadau i leoli cynnyrch yn dilyn honiadau yn *The Sunday Times*. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd unrhyw gynnyrch wedi'u lleoli mewn rhaglenni yn gyfnewid am arian parod neu fuddiannau eraill. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau lle roedd nwyddau brand wedi cael lle rhy flaenllaw. Roedd hyfforddiant a chanllawiau priodol yn cael eu darparu.

Nododd y Bwrdd hefyd y bydd y cynnydd yn nifer y comisiynau annibynnol a ragwelwyd yn y 'Window of Creative Competition' yn gosod heriau golygyddol newydd wrth sicrhau bod cynyrchiadau annibynnol yn cael yr un lefel o gyngor a chymorth â chynyrchiadau mewnol. Nododd y Bwrdd fod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Nododd hefyd yr heriau cynyddol yn sgîl rhyngweithedd, gan gynnwys cyhoeddi blogiau personol staff y BBC. Rhoddwyd canllawiau ar flogio ar waith i leihau risgiau golygyddol.

Wrth adolygu'r broses gwneud penderfyniadau golygyddol cyffredinol, nododd y Llywodraethwyr er bod rhai camgymeriadau

unigol wedi eu gwneud, eu bod yn fodlon bod dyraniad clir o gyfrifoldebau cydymffurfio, a oedd yn arwain yn y pen draw at y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel y Prif Olygydd, a bod digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyngor yr Uned Polisi Golygyddol o ran materion cydymffurfio.

Yn 2005/2006, cynhaliodd y Bwrdd eu trosolwg o ddidueddrwydd ar draws darllediadau'r BBC. Derbyniodd adroddiadau rheolaidd ar yr arolwg olrhain misol a fu ar waith ers mis Chwefror 2004. Comisiynodd arolwg annibynnol o'r sylw a gafodd yr anghydfod rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006. Am ragor o wybodaeth gweler yr arolwg o'r amcanion ar dudalennau 18 i 19 a'r arolwg o BBC Newyddion ar dudalennau 46 i 49.

**Cymeradwyaethau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

Mae angen i bob gwasanaeth cyhoeddus newydd a lansiwyd gan y BBC ers 1 Ionawr 1997 gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cynhwysir y telerau allweddol ar gyfer cymeradwyaeth yn y Datganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Dangosir perfformiad y BBC yn erbyn ymrwymiadau mesuradwy yn y *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni* hyn yn y tablau ar dudalennau 68 i 75.

Ni chymeradwywyd unrhyw wasanaethau newydd yn 2005/2006.

Yn unol â chytundeb corffori BBC Broadcast, ceisiwyd cymeradwyaeth gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i werthu BBC Broadcast Limited a rhoddwyd y gymeradwyaeth honno (22 Gorffennaf 2005).

**BBC jam (a elwid gynt yn y Cwricwlwm Digidol)**

Wrth gymeradwyo gwasanaeth y cwricwlwm digidol ym mis Ionawr 2003, pennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon nifer o amodau i'r BBC, gan gynnwys bodloni'r ymrwymiadau a roddwyd gan y BBC ei hun. Bob blwyddyn, bydd y BBC yn cyflwyno adroddiad ar ei gydymffurfiad â'r amodau hynny sy'n berthnasol i weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Ar ôl ychydig dros ddwy flynedd o ddatblygu, darlledodd elfennau cyntaf BBC jam yn fyw ar 27 Ionawr 2006. Cyflwynwyd pedwar comisiwn i ddechrau a bydd eraill yn cael eu hychwanegu o bryd i'w gilydd tan fis Medi 2008, gan wneud cyfanswm o fwy na 100 o gomisiynau yn y pen draw. (Gallai pwnc ar gyfer grŵp oedran arbennig, er enghraifft Saesneg 5-7, gynnwys mwy nag un comisiwn.)

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y BBC y camau penodol canlynol i gydymffurfio ag amodau'r gymeradwyaeth neu'r ymrwymiadau:

- Cyhoeddi cynlluniau: ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd y BBC gynllun comisiynu cyffredinol ar gyfer 2007, ac ym mis Tachwedd 2005 cynllun manwl y canlyniadau dysgu a gaiff eu cwmpasu yn 2007 (ychydig o flaen yr amserlen sy'n ofynnol yn ôl yr amodau). Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad ag asiantaeth technoleg addysg y Llywodraeth, Becta, o ran pa ganlyniadau dysgu a oedd yn addas i'w haddysgu drwy Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).
- Gwariant ar gynnwys allanol: mae'r BBC wedi ymrwymo i wario 50% o gyllid cynnwys yn allanol dros y cyfnod hyd at fis Medi 2008. Hyd yma, mae 22 o'r 50 o gomisiynau sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu neu sydd wedi'u cwblhau wedi cael eu dyrannu'n uniongyrchol i gwmnïau allanol o'r rhestr o ddewis gyflenwyr a luniwyd yn unol â rheoliadau'r UE ar gyfer cynnwys cyfryngau newydd. Yn ogystal â hynny, comisiynwyd meysydd o waith allanol gan dimau cynhyrchu mewnol. Nid yw gwariant allanol wedi cyrraedd 50% hyd yma, ond rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd y bydd y cydbwysedd hwn yn newid yn ystod y cyfnod cymeradwyo llawn er mwyn bodloni'r gofyniad.
- Darparu band cul: mae'r BBC wedi ymrwymo y bydd 70% o gynnwys cyffredinol y gwasanaeth ar gael drwy fand cul. Darpariaeth band eang yw'r gwasanaeth yn y bôn, ond mae'r BBC wedi datblygu pecyn a elwir yn 'chwaraeydd jam' sy'n ei gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr band cul lawrlwytho cynnwys i'w cyfrifiaduron, a thrwy hynny efelychu'r profiad band eang. Hyd yma mae wedi cael ei ddarparu ar gyfer Saesneg i blant 5-7 oed, ond y bwriad yw ei estyn dros amser i bob comisiwn priodol.
- Amrywiaeth y DU: mae'n rhaid i'r gwasanaeth gefnogi ac adlewyrchu amrywiaeth y DU. Datblygwyd BBC jam i ddiwallu anghenion cwricwlaidd pedair gwlad y DU ac fe'i cyflwynwyd gydag opsiwn iaith Gymraeg gyda chynnwys a wnaed mewn gwahanol rannau o'r DU.
- Amgylcheddau dysgu rhithwir: mae'r BBC wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr amgylcheddau dysgu eraill a sicrhau bod ei gynnwys ar gael i'w systemau. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Becta am y trefniadau trwyddedu angenrheidiol i hwyluso hyn.
- Wrth hyrwyddo BBC jam o fewn gwasanaethau eraill y BBC rhaid rhoi sylw penodol i Gwricwlwm Ar-lein y Llywodraeth a ffynonellau cyflenwi eraill. Mae'r BBC wedi cynnwys sylw o'r fath a, lle y bo'n briodol, gysylltiad â gwefan, wrth hyrwyddo'r gwasanaeth ar ei sianelau darlledu ac ar-lein.
- Mae'n rhaid i'r BBC weithio gyda Bwrdd Ymgynghori Cynnwys Ar-lein Cwricwlwm y Llywodraeth i ddatblygu'r gwasanaeth. I'r perwyl hwn, mae'r BBC wedi cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Bwrdd ynghyd â chyfarfodydd ychwanegol o is-bwyllgorau.

Mae'r BBC hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr diwydiant a chwmnïau unigol ac mae'n bwriadu parhau i gynnal y cyfarfodydd hyn.

Mae Llywodraethwyr yn cael adroddiadau misol ar gydymffurfiad BBC jam â'i amodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ynghyd ag adroddiadau cynnydd bob chwe mis gan y Cyfarwyddwr Ffeithiol a Dysgu yng nghyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr.

Mae'r Comisiwn wedi bod yn ystyried cwyn, am honiad o beidio â chydymffurfio ag un o'r amodau a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd pan gymeradwyodd y gwasanaeth, ers mis Gorffennaf 2005. Mae Llywodraeth y DU a'r BBC wedi cyflwyno nifer o sylwadau i'r Comisiwn ar y mater hwn sy'n parhau.

**Cwotâu rhaglenni'r DU**

O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, mae gan y BBC ddyletswydd i sicrhau nad oes llai na 25% o'r amser a neilltuir i ddarlledu rhaglenni teledu cymwys yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol. Mae'n ofynnol i Ofcom gyflwyno adroddiad ar y graddau y mae'r BBC wedi cyflawni'r ddyletswydd honno. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r BBC fodloni nifer o rwymedigaethau eraill o ran cynhyrchu rhaglenni, sef y rhai a elwir yn gwotâu 'Haen 2', y mae'n ofynnol i Ofcom fonitro ei gydymffurfiad â hwy.

Disgwylir i Ofcom gyflwyno adroddiad ffurfiol ar berfformiad y BBC yn ystod y flwyddyn galendr 2005 yn erbyn y cwotâu hyn yn ei Arolwg o'r Farchnad Gyfathrebu 2006. Fodd bynnag, mae'r BBC yn disgwyl rhagori ar bob un o'r cwotâu a darperir ei ffigurau hunanasesu yma.

| | Cwota | Cyflawniad |
|---|---|---|
| **Cwota cynyrchiadau annibynnol**[1] | | |
| Oriau o raglenni cymwys ar draws pob sianel | 25% | 31% |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC One | 25% | 28% |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC Two | 25% | 39% |
| **Gwneud rhaglenni rhanbarthol**[2] | | |
| Gwariant ar raglenni cymwys | 30% | 34% |
| Oriau o raglenni cymwys | 25% | 33% |
| **Rhaglenni newyddion a materion cyfoes**[3] | | |
| Oriau o newyddion ar BBC One | 1,380 | 1,467 |
| Oriau o newyddion ar BBC One yn ystod oriau brig | 275 | 293 |
| Oriau o faterion cyfoes ar BBC One a BBC Two | 365 | 433 |
| Oriau o faterion cyfoes ar BBC One BBC Two yn ystod oriau brig | 105 | 110 |
| **Lefelau cynyrchiadau gwreiddiol**[4] | | |
| BBC One | 70% | 82% |
| BBC One yn ystod oriau brig | 90% | 99% |
| BBC Two | 70% | 82% |
| BBC Two yn ystod oriau brig | 80% | 97% |
| BBC Three | 80% | 81% |
| BBC Three yn ystod oriau brig | 70% | 71% |
| BBC Four | tua 70% | 73% |
| BBC Four yn ystod oriau brig | 50% | 61% |
| CBeebies | tua 80% | 79% |
| Sianel CBBC | 70% | 85% |
| BBC News 24 | 90% | 95% |
| BBC Parliament | 90% | 99% |
| **Rhaglennu rhanbarthol**[5] | | |
| Oriau o raglennu rhanbarthol | 6,580 | 7,048 |
| Oriau o raglenni a wneir yn yr ardal berthnasol | 95% | 99% |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One | 3,920 | 4,656 |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One yn ystod oriau brig | 2,010 | 2,217 |
| Oriau o raglennu nad yw'n rhaglennu newyddion yn ystod oriau brig | 1,030 | 1,084 |
| Pob rhaglen nad yw'n rhaglen newyddion a ddarlledir yn agos at oriau brig | 355 | 365 |

[1] Mae'r BBC yn ddarostyngedig i gwota o gynyrchiadau annibynnol o 25% ar draws pob sianel ac o 1 Ionawr 2005 ar BBC One a BBC Two yn unigol
[2] Mae cwotâu'r BBC ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol y cytunwyd arnynt gydag Ofcom yn seiliedig ar y diffiniad presennol o 'Linellu'
[3] Dim ond ar gyfer rhaglennu rhwydwaith y mae'r cwotâu a'r ffigurau perfformiad hyn yn berthnasol. Nid yw'r cwota newyddion yn cynnwys darllediadau BBC News 24 yn ystod y nos
[4] Mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys pob rhaglen a gomisiynir gan y BBC gan gynnwys ailddarllediadau. Ar gyfer BBC Three a BBC Four, nid ydynt yn cynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd ar sianel arall yn gyntaf
[5] Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli rhaglenni rhanbarthol ar draws BBC One a BBC Two.

### Cwotâu rhaglenni'r UE yn ystod blwyddyn galendr 2005

Mae deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod darlledwyr yn neilltuo'r rhan fwyaf o'u hamser darlledu i weithiau Ewropeaidd ac eithrio'r amser a neilltuir ar gyfer newyddion, digwyddiadau chwaraeon, gemau, hysbysebion, gwasanaethau teletestun a thelesiopa. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu hefyd bod darlledwyr yn neilltuo o leiaf 10% o'u hamser darlledu i weithiau Ewropeaidd (ac eithrio gweithiau o'r math a ddisgrifir uchod) a wneir gan gynhyrchwyr annibynnol.

Disgwylir i Ofcom gyflwyno adroddiad ffurfiol ar berfformiad y BBC yn ystod y flwyddyn galendr 2005 yn ei Arolwg o'r Farchnad Gyfathrebu 2006. Fodd bynnag, yn ôl hunanasesiad y BBC aeth y tu hwnt i gwotâu'r UE. O ran darllediadau perthnasol BBC One a BBC Two, roedd 80% o darddiad Ewropeaidd (79% yn 2004) a gwnaed 21% gan gynhyrchwyr annibynnol Ewropeaidd (21% yn 2004). O ran darllediadau perthnasol holl sianelau'r BBC (gan gynnwys BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a BBC News 24), roedd 87% o darddiad Ewropeaidd a gwnaed 24% gan gynhyrchwyr annibynnol Ewropeaidd (86% a 27% yn y drefn honno yn 2004).

### Rheoleiddio darlledu sianelau Ewropeaidd

Mae'r BBC yn darlledu dwy sianel deledu yn Ewrop, sef BBC Prime a BBC World. Gweithredwyd y ddwy sianel yn wreiddiol gan European Channel Broadcasting Limited, ond ar 1 Rhagfyr 2002, cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cynnig i drosglwyddo busnes ac asedion sianel BBC World i gwmni newydd, sef BBC World Limited, a ddaeth yn is-gwmni o dan berchenogaeth lawn BBC Commercial Holdings Limited. European Channel Broadcasting Limited, is-gwmni o dan berchenogaeth lawn BBC Worldwide Limited, sy'n gweithredu BBC Prime o hyd. Trwyddedir y ddwy sianel hyn a BBC Food (sianel BBC Worldwide Limited) gan Ofcom fel gwasanaethau cynnwys y gellir codi ffi'r drwydded deledu amdanynt. Cydymffurfiodd BBC World a BBC Prime â'r egwyddorion a oedd yn sail i gymeradwyaeth wreiddiol yr Ysgrifennydd Gwladol a chydymffurfiodd y tair sianel â gofynion y drwydded.

### Hyrwyddiadau ar yr awyr: Ymgymeriad y Swyddfa Masnachu Teg

Yn dilyn adroddiad 1992 gan y Comisiwn Monopolïau a Chyfuniadau (ar roi cyhoeddusrwydd, yn ystod darlledu, i nwyddau a gyflenwir gan y darlledwr), rhoddodd y BBC ymgymeriad i'r Swyddfa Masnachu Teg ynghylch defnyddio hysbysebion am gylchgronau'r BBC, gan gynnwys ymrwymiad i beidio â hyrwyddo ei gynnyrch am fwy na chyfanswm o saith munud dros gyfnod o saith diwrnod ar ei wasanaethau teledu Er mai dim ond i gylchgronau'r BBC y mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol yn gymwys, mae Ymrwymiad Masnachu Teg y Llywodraethwyr yn ymrwymo i gadw at ysbryd yr ymgymeriad yn yr holl hyrwyddiadau ar yr awyr o gynnyrch masnachol. Yn sgîl yr Arolwg Masnachol, daeth hysbysebion am gylchgronau ar radio, teledu a bbc.co.uk i ben ym mis Rhagfyr 2004.

O 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006 y cyfanswm ar gyfer pob un o gynnyrch masnachol y BBC (gan gynnwys BBC Worldwide a chynnyrch annibynnol) oedd 1 awr, 34 munud a 30 eiliad o ddarlledu, sef cyfartaledd o 1 funud a 49 eiliad mewn cyfnod o saith diwrnod (2004/2005: 1 awr, 23 munud a 40 eiliad, sef cyfartaledd o 1 funud a 37 eiliad mewn cyfnod o saith diwrnod).

Cafodd hyrwyddiadau o gynnyrch nad ydynt yn gysylltiedig â'r BBC eu holrhain hefyd. Yn yr un cyfnod o 12 mis cafwyd 21 munud o hyrwyddiadau ar gyfer cynnyrch nas cynhyrchwyd gan BBC Worldwide ond a oedd yn gysylltiedig â'n rhaglenni, sef cyfartaledd o 24.2 eiliad mewn cyfnod o saith diwrnod ar wasanaethau teledu'r BBC (2004/2005: 11 munud ac 20 eiliad o hyrwyddiadau, sef cyfartaledd o 13 eiliad mewn cyfnod o saith diwrnod).

## 9 Cost cydymffurfio

O ganlyniad i weithredu o fewn marchnad ddarlledu'r DU, ac fel corff cyhoeddus, mae'r BBC yn mynd i gostau sylweddol wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol. Yn 2005/2006, amcangyfrifwyd bod cydymffurfio wedi costio £16.4miliwn (2004/2005: £17miliwn). Yn y ffigur hwn mae ffi danysgrifio o £3.5 miliwn a dalwyd i Ofcom (2004/2005: £4.7miliwn). Mae'r ffigur hefyd yn cynnwys cost trwyddedau darlledu, yr archwiliad masnachu teg, staff a gyflogir i fonitro cydymffurfiad a chyflwyno adroddiadau ar ymrwymiadau gan gynnwys gofynion Ofcom, caniatadau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a masnachu teg. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn gyflawn gan nad ydynt yn cynnwys unrhyw gostau a ddyrannwyd ar gyfer staff (gan gynnwys staff perthnasol yn yr Uned Lywodraethu) sy'n gweithio ar waith arall yn ogystal â chydymffurfiad ond a allai ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen i fonitro neu gyflwyno adroddiadau yn erbyn yr ymrwymiadau. Datgelir cost yr Uned Lywodraethu ar wahân ar dudalen 8.

# Arolwg ariannol

## Perfformiad ariannol

Yn 2002, nododd y BBC ei strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd y Siarter bresennol ym mis Rhagfyr 2006. Paratodd y strategaeth ar gyfer cynnydd sylweddol mewn gwariant ar ddarlledu cyhoeddus, i'w gyflawni drwy arbedion effeithlonrwydd, cynnydd yn ffi'r drwydded, a defnyddio cyfleusterau arian parod a benthyca presennol tra'n anelu at ddychwelyd i sefyllfa o ddim dyledion yn fras ar ddiwedd y Siarter.

### Canlyniad am y flwyddyn

Gan nad oes gan y BBC randdeiliaid nid yw'n anelu at wneud elw. Mae incwm grŵp wedi cynyddu £170miliwn i £4,005miliwn wedi ei hybu gan gynnydd o 4.5% yn ffi'r drwydded, a dychwelodd y cyfrif incwm a gwariant i warged o £4miliwn (yn dilyn diffygion mewn blynyddoedd diweddar) yn unol â'r strategaeth ariannol.

**Ymrwymiadau ariannol hir dymor ar gyfer cyfnod y Siarter bresennol**

*I sicrhau bod Incwm a Gwariant yn cyfateb*

Eleni roedd incwm a gwariant ar gyfer UK Public Service Broadcasting, cyn costau ailstrwythuro eithriadol, yn fras yn cyfateb.

Cyfrannodd busnesau masnachol warged o £207miliwn (cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol), cynnydd o £91miliwn yn 2004/2005, gan gynnwys elw o £109miliwn wrth waredu BBC Broadcast. Hefyd, yn sgîl yr enillion o werthu BBC Broadcast aeth y BBC o sefyllfa o ddyled net o £135miliwn y llynedd i gronfeydd net o £50miliwn ar 31 Mawrth 2006.

## Ffynonellau ariannu

### Ffi'r drwydded

Ffi'r drwydded yw ffynhonnell ariannu bwysicaf y BBC o hyd. Refeniw ffi'r drwydded am y flwyddyn oedd £3,101miliwn, sef cynnydd o £160miliwn (5.5%) ar 2004/2005. Ar gyfer y cyfnod hwn, cynyddwyd ffi'r drwydded, a bennir gan y Llywodraeth, 4.5% (RPI ynghyd â chynnydd o 1.5% yn uwch na chwyddiant) a chyfrannodd y BBC 1.0% ychwanegol o ymdrechion i osgoi talu.

Mae gostyngiadau parhaus yn nifer y bobl sy'n osgoi talu ffi'r drwydded ynghyd â rheolaeth dynn dros gostau casglu yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gynyddu refeniw ffi'r drwydded. Lleihawyd achosion o osgoi talu o 5.0% y llynedd i 4.7% er gwaethaf gweithredu eisoes mewn amgylchedd lle nad oes llawer o achosion o osgoi talu. Cynyddodd costau casglu £1filiwn (yn unol â'r contract gyda Capita) ac maent yn parhau ar 4.9% o incwm ffi'r drwydded. Ar ddim ond 9.6%, mae'r gost gyfunol o osgoi talu a chasglu wedi gostwng i'w lefel isaf ers 1991/1992 pan aeth y BBC yn uniongyrchol gyfrifol am gasglu ffi'r drwydded o'r Swyddfa Gartref. Ar ddiwedd y flwyddyn cyhoeddodd y BBC bod PayPoint plc wedi cael ei ddewis fel contractwr newydd i ddarparu gwasanaethau dros y cownter ar ran TV Licensing am gyfnod o chwe blynedd o Ebrill 2007 a disgwylir y bydd hyn yn arwain at leihau costau casglu ymhellach.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd ffi'r drwydded yn parhau mewn grym drwy gydol cyfnod nesaf y Siarter hyd at ddiwedd 2016 ac y caiff ei lefel ei phennu fel rhan o broses bresennol adolygu'r Siarter.

### Busnesau masnachol

Yn ogystal â ffi'r drwydded, mae'r BBC yn ariannu ei weithgareddau darlledu cyhoeddus drwy gyfraniadau arian parod o'i fusnesau masnachol. Fel rhan o'r Arolwg Masnachol yn 2004 nododd y BBC, er i BBC Broadcast ddarparu gwasanaethau pwysig i'r BBC, nad oedd yn hanfodol bod y BBC yn berchen arno. O ganlyniad, ar 31 Gorffennaf 2005, gwerthwyd BBC Broadcast, am enillion o £166miliwn ac elw o £109miliwn i'r BBC.

Mae BBC Worldwide yn elfen bwysig o'r busnesau masnachol a thros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn trawsffurfio ei weithrediadau i ganolbwyntio ar saith maes busnes craidd. Rhagorwyd ar darged BBC Worldwide o ddyblu elw dros ddwy flynedd o Ebrill 2004 gydag elw (cyn llog, treth a chostau pensiwn anariannol) o £89miliwn – cynnydd o 144% dros y ddwy flynedd a chynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o 62%. Gwnaeth BBC Worldwide elw o £185miliwn mewn llif arian parod – elw a buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni – i'r BBC (cynnydd o 28% o £145miliwn yn 2004/2005). Cyflawnwyd hyn drwy newid busnesau a oedd yn gwneud colled yn fusnesau a oedd yn llwyddo a thrwy ddod o hyd i bartneriaid ar gyfer busnesau, neu dynnu allan o fusnesau nad oeddent mwyach yn addas neu nad oeddent yn ddigon mawr ar gyfer cylch gwaith newydd BBC Worldwide, ynghyd â thwf da mewn busnesau eraill a rhaglen lleihau costau.

Oherwydd amseriad prif ddigwyddiadau chwaraeon, roedd eleni yn flwyddyn dawelach i BBC Resources a gyflawnodd refeniw o £128miliwn a gwarged (cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol) o £6miliwn (£135miliwn a £7miliwn yn 2004/2005). Mae opsiynau perchenogaeth ar gyfer BBC Resources yn parhau i gael eu hadolygu ac mae'r BBC wedi ymrwymo i beidio â gwerthu'r cwmni cyn Mehefin 2007.

Mae BBC World yn parhau i ddangos twf sylweddol o ran cyrraedd cynulleidfaoedd a dosbarthiad cartrefi ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ei nod allweddol o gael dosbarthiad 24 awr yng Ngogledd America eleni. Mae trosiant wedi cynyddu 25.5% i £36miliwn eleni a syrthiodd y golled am y flwyddyn (cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol) 7.0% i £15miliwn. Y golled ar ôl llog a threthiant yw £11miliwn (2004/2005 £11miliwn).

## Gwariant darlledu cyhoeddus

### Gwariant ar raglenni

Cynyddodd cyfanswm y gwariant ar raglenni £28miliwn eleni i £2,494miliwn. Mae gwariant ar wasanaethau analog wedi syrthio £24miliwn i £1,778miliwn. Gwrthbwyswyd gwariant ychwanegol ar raglenni etholiad cyffredinol 2005 gan flwyddyn gymharol dawel i chwaraeon. Mae gwariant ar wasanaethau digidol yn parhau i dyfu, gan gynyddu £53miliwn eleni. Yn ystod 2005/2006 gwelwyd mwy o fuddsoddiad mewn dramâu plant oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar sianel CBBC a lansiad BBC jam (y cwricwlwm digidol). Yn gyffredinol, cynyddodd gwariant y tu allan i Lundain yn gymedrol 2.1% i £865miliwn, ond cynyddodd gwariant ar deledu y tu allan i Lundain 6.1%. Yn arbennig, mae BBC Cymru wedi gwneud cyfraniad arbennig o gryf i raglenni drama'r BBC eleni. Mae nifer o raglenni arloesol newydd (*Bleak House, Doctor Who* a *Life on Mars*) wedi gweld cynnydd o 4.1% yn y gost analog fesul awr o ddrama. Mae hyn yn gyson â'r strategaeth i gynyddu buddsoddiad cyffredinol yn nramâu gwreiddiol y DU ac mae'n gwrthdroi'r duedd tymor hwy a welodd gost drama yn gostwng ers 2002/2003.

Eleni cynyddodd gorbenion ac eithrio costau ailstrwythuro eithriadol £30miliwn, sydd o ganlyniad i effaith ad-daliadau unigol sylweddol y flwyddyn flaenorol ar gyfer Yswiriant Gwladol a threthi eiddo. Ac eithrio achosion unigol, mae gorbenion wedi gostwng £3miliwn yn 2005/2006.

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant ar sianelau unigol yn Nodyn 2b, gyda ffeithiau a ffigurau Darlledu ar dudalennau 140 i 150.

### Effeithlonrwydd

Yn 2004/2005 cychwynnodd y BBC ar raglen gwerth am arian uchelgeisiol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf a hybu buddsoddiad mewn rhaglenni. Nododd hyn darged tair blynedd heriol o gyrraedd £355miliwn o ran effeithlonrwydd rhyddhau arian parod y flwyddyn erbyn diwedd 2007/2008 ar ben yr effeithlonrwydd a oedd eisoes yn ofynnol gan y Siarter bresennol. Mae'r BBC wedi cyrraedd ei dargedau blwyddyn gyntaf, gan gyflawni £99miliwn o arbedion arian parod parhaus a £7miliwn arall o newidiadau cymysgu rhaglenni. Un maes sylweddol o arbedion fu perfformiad cryf o ran lleihau nifer y bobl a gyflogir gydag 1,132 o swyddi yn cael eu colli, gan ragori ar y targed am y flwyddyn. Mae targedau'r flwyddyn nesaf yn sylweddol gyda thros 2,000 o aelodau staff yn gadael y BBC yn 2006/2007. Mae rhaglen drawsffurfio strwythuredig ar waith i hybu newid a gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys symud tuag at amgylchedd cynhyrchu digidol gan ddefnyddio dulliau a thechnegau cynhyrchu digidol cost is integredig; ailbeiriannu proses gyllid; a rhoi'r swyddogaeth adnoddau dynol ar gontract allanol. Rhagwelwyd y byddai costau gweithredu untro yn y cynllun gwreiddiol yn £197miliwn dros dair blynedd y rhaglen. Yn ystod y flwyddyn cododd y rhagolwg hwn £44miliwn i £241miliwn, ac roedd y cynnydd yn deillio'n bennaf o gostau ychwanegu at bensiynau cynyddol yn sgîl colli swyddi.

Ymrwymiadau ariannol hir dymor ar gyfer cyfnod y Siarter bresennol

*Cyrraedd y targedau hunangymorth saith mlynedd cronnol o £3.3biliwn ar gyfer cyfnod y Siarter hon*

Mae'r BBC ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau hyn, ac yn wir i ragori arnynt drwy arbedion gwerth am arian ychwanegol.

## Adeiladau

Cyflawnwyd Cam 1 o gynllun ailddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu, y cartref newydd ar gyfer Newyddion, World Service a Radio ynghanol Llundain yn ystod y flwyddyn ac mae'r gwaith o ailfeddiannu'r Ganolfan Ddarlledu wreiddiol restredig wedi ei hailwampio yn mynd rhagddo. Mae gwaith wedi dechrau ar Gam 2 a fydd yn cynnwys dymchwel yr hen estyniadau i'r Ganolfan Ddarlledu a chodi adeilad newydd.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu pencadlys newydd y BBC yn yr Alban a'r ganolfan ddarlledu yn Pacific Quay yn Glasgow ac mae'r adeilad ar hyn o bryd yn cadw o fewn y gyllideb a bwriedir ei gwblhau yn ôl y disgwyl yn 2007. Mae adeilad presennol y BBC yn Glasgow yn cael ei werthu ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y BBC werthiant ac adles y ddau adeilad rhanbarthol gan wireddu elw o £2filiwn (2005 £19miliwn), a gwaredu tri adeilad arall nad oedd eu hangen, gan wireddu elw cyfunol o £5miliwn.

Rhagwelir y caiff portffolio'r BBC ei resymoli ymhellach yn Llundain. Mae'r BBC ar hyn o bryd yn gweithio gyda perchnogion tir yn ardal cyfle Wood Lane i ddatblygu cais cynllunio amlinellol am ailddatblygiad defnydd cymysg mawr yn yr ardal.

## Pensiynau

Erys y BBC yn ymrwymedig i gadw cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig o safon i'w gyflogeion tra'n sicrhau ei fod yn fforddiadwy. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn perthyn i Gynllun Pensiwn y BBC.

### Prisiad actiwaraidd 2005

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd prisiad actiwaraidd ffurfiol bob tair blynedd Cynllun Pensiwn y BBC, ar 1 Ebrill 2005, gan actiwarïaid annibynnol. Datgelodd hyn warged o £13miliwn (o'i chymharu â chyfanswm asedion cronfa o £6,406miliwn). Roedd y prisiad interim ar yr un dyddiad, ac yn seiliedig ar y prisiad llawn blaenorol yn 2002, wedi dangos gwarged actiwaraidd net o £274miliwn. Un o'r prif resymau am y dirywiad hwn yn y sefyllfa actiwaraidd yw cynnydd mewn hirhoedledd; mae pobl yn byw am fwy o amser ac felly'n codi pensiwn am fwy o amser nag a wnaethant yn y gorffennol, sy'n cynyddu cost y buddiannau a gaiff eu darparu yn sylweddol. Hefyd, dros y tymor hwy, disgwylir i adenillion buddsoddi fod yn is nag y buont yn hanesyddol ac mae costau pensiynau sy'n cael eu talu yn debygol o godi, gan greu 'bwlch' posibl rhwng incwm a gwariant y mae angen mynd i'r afael ag ef.

O ganlyniad, mae Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn cynnig gwneud rhai newidiadau i'r trefniadau pensiwn er mwyn diogelu buddiannau aelodau presennol a chynnal pensiynau cystadleuol ar gyfer staff newydd, mewn amgylchedd lle mae costau'n cynyddu ac ansicrwydd o ran buddsoddi. Yn arbennig, cynigir y dylid cynyddu cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ac aelodau'r cynllun pensiwn i 17.3% a 7.5% yn y drefn honno erbyn 1 Ebrill 2007, ac y dylid cyflwyno cynllun cyfartaledd gyrfa newydd ar gyfer staff newydd. Mae cyfnod o ymgynghori ynghylch y newidiadau a gynigir wedi dechrau a chadarnheir unrhyw newidiadau ym mis Awst 2006. Caiff y prisiad actiwaraidd llawn nesaf ei ddwyn ymlaen ac fe'i cynhelir ar 1 Ebrill 2007.

### Datganiadau ariannol 2006

Mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i brisiad ar sail y farchnad gael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ac ar y sail hon mae'r prif gynllun yn dangos gwarged net o £170miliwn ar 31 Mawrth 2006. Mae hyn yn welliant o £592miliwn ar y prisiad ar 31 Mawrth 2005 o ddiffyg o £422miliwn, yn bennaf oherwydd perfformiad gwell asedion y cynllun o gymharu â'r adenillion a ddisgwylir (er bod peth o hyn wedi cael ei wrthdroi ers diwedd y flwyddyn), ond wedi ei wrthbwyso ychydig gan newidiadau yn y tybiaethau sy'n sail i rwymedigaethau'r cynllun (fel y cynnydd mewn hirhoedledd y cyfeiriwyd ato uchod).

Er gwaethaf y prisiad cadarnhaol hwn, sydd wedi elwa ar rai gwelliannau yn ddiweddar yn yr adenillion buddsoddi, mae'n fwy priodol adolygu'r broses o ariannu'r trefniadau pensiwn ar sail y prisiad actiwaraidd gan nad yw'r anwadalrwydd ym mhrisiad asedion a rhwymedigaethau'r cynllun a gyflwynwyd gan FRS 17 (gweler Nodyn 8b iv) yn adlewyrchu sefyllfa ariannol hir dymor sylfaenol y cynllun.

## Rheolaeth y Trysorlys

Prif risgiau rheoli'r trysorlys yn y BBC yw sicrhau bod gan y BBC ddigon o gronfeydd rhydd i gyflawni ei rwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus a'i fod yn cydymffurfio ag unrhyw derfynau benthyca (yn arbennig y rhai a osodir yn y Siarter, gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac unrhyw gyfamodau benthyca allanol). Mae Nodyn 23 yn rhoi mwy o fanylion am weithrediadau a pholisïau trysorlys y BBC.

## Arian parod a dyledion

Lleihaodd dyledion net y grŵp o £135miliwn yn 2005 i gronfeydd net o £50miliwn ar 31 Mawrth 2006, wedi eu hybu gan yr arian parod a dderbyniwyd pan werthwyd BBC Broadcast.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cymhwyso diffiniad gwahanol o ddyledion net ar gyfer UK Public Service Broadcasting sy'n cynnwys adneuon stampiau cynilo ffi'r drwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan

Grŵp Public Service Broadcasting y BBC gronfeydd net o £18miliwn (benthyciadau o £89miliwn yn 2005) yn unol â diffiniad yr Adran o fenthyciadau, ac arhosodd o fewn y terfyn benthyca o £200miliwn drwy gydol y flwyddyn.

**Ymrwymiadau ariannol hir dymor ar gyfer cyfnod y Siarter bresennol**

***Dychwelyd i sefyllfa o ddim dyledion yn fras erbyn diwedd y Siarter***

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan UK Public Service Broadcasting gronfeydd net o £18miliwn.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y busnesau masnachol i leihau lefelau eu dyledion net i £39miliwn (2005 £122miliwn). Roedd hyn o ganlyniad i broffidioldeb cynyddol y busnesau masnachol a dyledion yn gadael y grŵp wrth werthu BBC Broadcast.

Ceir rhagor o wybodaeth am fenthyciadau yn aeddfedu a chyfleuster au sydd ar gael yn Nodyn 23.

## Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

Yn ystod y flwyddyn, mae'r BBC wedi gweithredu nifer o safonau cyfrifyddu newydd yn y DU (FRS 21, 23, 25, 26 a 28). Yn arbennig, mae'r BBC yn wirfoddol wedi gweithredu safonau newydd yn ymwneud ag offerynnau ariannol. Un o brif effeithiau hyn fu cydnabod rhai asedion a rhwymedigaethau, yn ymwneud yn bennaf â chontractau wedi eu prisio mewn arian cyfred tramor a chyfnewidiadau cyfraddau llog, yn y fantolen am y tro cyntaf. Ar ddiwedd y flwyddyn mae rhwymedigaeth net o £0.5miliwn yn bodoli, sy'n cynrychioli symudiad anffafriol mewn cyfraddau cyfnewid neu gyfraddau llog.

## Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol

Ers nifer o flynyddoedd mae'r BBC, yn wirfoddol, wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, sy'n gymwys i safonau cyfrifyddu'r DU a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail sy'n gyson â chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus y DU. Yn dilyn newidiadau diweddar yn neddfwriaeth Ewrop a'r DU mae'n ofynnol bellach i gwmnïau rhestredig yn y DU fabwysiadu safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn eu datganiadau ariannol grŵp am y blynyddoedd sy'n dechrau ar neu wedi 1 Ionawr 2005. Ar gyfer y BBC, y flwyddyn berthnasol gyntaf fyddai'r flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 (yn ogystal, er cysondeb, byddai'r cymariaethau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 wedi cael eu hailddatgan).

Mae'r BBC yn dilyn y safonau uchaf o ran adroddiadau ariannol, ond mae wedi penderfynu peidio â mabwysiadu IFRS yn ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2005/2006 am y rhesymau canlynol:

- Mae'r BBC yn gorff cyhoeddus ac o eleni ymlaen rhaid iddo gyflwyno adroddiadau ariannol i Drysorlys Ei Mawrhydi i'w cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan (cyfuniad o wybodaeth ariannol yn cwmpasu'r sector cyhoeddus i gyd) gan ddefnyddio safonau cyfrifyddu cyson, nas seilir ar hyn o bryd ar IFRS oherwydd ymagwedd Trysorlys Ei Mawrhydi yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan yw dilyn safonau cyfrifyddu'r DU. Mae'r BBC wedi dewis parhau i gyflwyno ei gyfrifon o dan safonau cyfrifyddu'r DU nes y cânt eu trosi'n llawn gan nad ydym o'r farn bod cynhyrchu dwy set o ddatganiadau ariannol yn werth am arian.
- Mae gan Fwrdd Safonau Cyfrifyddu'r DU strategaeth ar gyfer cyfuno safonau cyfrifyddu'r DU ag IFRS sydd, dros amser, yn cynnwys cyhoeddi safonau newydd y DU sy'n seiliedig ar IFRS i ddisodli safonau cyfrifyddu presennol y DU. Mae nifer o safonau cyfrifyddu'r DU eisoes wedi cael eu cyfuno ag IFRS, er enghraifft FRS 21, 23, 25 a 26, y mae'r BBC wedi eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r safonau eraill a gyfunwyd wedi bod yn gymwys i ddatganiadau ariannol y BBC hyd yma.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi parhau i adolygu'r effaith y byddai mabwysiadu IRFS yn ei chael ar gyfrifon y grŵp ac wedi cyflwyno crynodeb o'r effaith y caiff mabwysiadu IFRS ar y datganiadau ariannol. Ar 31 Mawrth 2006, cyfrifodd y BBC y byddai ei asedion net wedi cael eu lleihau £145miliwn i £1,052miliwn, pe bai wedi mabwysiadu IFRS.

| | £m |
|---|---|
| Asedion net fel y'u cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | 1,197.0 |
| Ailddosbarthu prydles | (132.8) |
| Ewyllys da heb ei amorteiddio | 3.1 |
| Buddiannau cyflogeion | (15.3) |
| Treth ohiriedig | (1.0) |
| Arall | 1.2 |
| Asedion net fel y byddent wedi cael eu cofnodi o dan IFRS | 1,052.2 |

Byddai rhai o newidiadau cyfrifyddu IFRS, yn bennaf ailddosbarthu rhai prydlesau gweithredol fel prydlesau cyllid, yn cael effaith ar gyfrifo benthyciadau Darlledu fel y'u diffinnir gan derfyn benthyca'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Pennir terfyn Benthyca Darlledu Cyhoeddus o £200miliwn o fewn Siarter y BBC ac mae'n seiliedig ar safonau cyfrifyddu'r DU ac nid IFRS. Byddai benthyciadau o dan IFRS wedi bod yn £676miliwn, o'u cymharu â chronfeydd net o £18miliwn o dan safonau cyfrifyddu'r DU. Wrth i safonau cyfrifyddu gyfuno ag IFRS, byddai'n rhaid i ddiffiniad y siarter o fenthyciadau newid.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, cyfrifodd y BBC y byddai'r warged am y flwyddyn wedi gostwng £43miliwn i ddiffyg o £39miliwn pe bai wedi mabwysiadu'r IFRS.

| | £m |
|---|---|
| Gwarged fel y'i cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | 3.6 |
| Ailddosbarthu prydles | (46.6) |
| Ewyllys da heb ei amorteiddio | 3.1 |
| Arall | 1.0 |
| Diffyg fel y byddai wedi ei gofnodi o dan IFRS | (38.9) |

Ar wefan y BBC, sef bbc.co.uk, ceir cysoniad manylach rhwng canlyniadau a sefyllfa ariannol y BBC o dan safonau cyfrifyddu'r DU a'r hyn a fyddai wedi cael ei gofnodi pe bai IFRS wedi cael ei fabwysiadu, ynghyd â manylion pellach am yr addasiadau, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu'r IFRS a thybiaethau sylweddol a wnaed wrth weithredu'r polisïau hynny (megis dyddiad newid i bolisïau cyfrifyddu'r IFRS).



**Zarin Patel**
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
14 Mehefin 2006

# Datganiadau ariannol

## *Datganiad cyfunol o incwm a gwariant*

***am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth***

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| **Incwm (yn cynnwys cyfran o gyd-fentrau)** | | **4,234.5** | 3,997.1 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | 13b ii | **(229.5)** | (161.8) |
| **Incwm Grŵp** | 1 | **4,005.0** | 3,835.3 |
| Gwariant gweithredol ac eithrio costau ailstrwythuro eithriadol | | **(4,094.1)** | (4,022.2) |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 4c | **(119.1)** | (50.7) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | 2 | **(4,213.2)** | (4,072.9) |
| **Diffyg gweithredol y Grŵp** | | **(208.2)** | (237.6) |
| Cyfran o warged gweithredol partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **31.2** | 19.7 |
| **Diffyg gweithredol: Grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | 3 | **(177.0)** | (217.9) |
| Elw wrth werthu a therfynu gweithrediadau | 5 | **125.2** | 28.2 |
| Elw/(colled) wrth waredu asedion sefydlog | 6 | **16.0** | (43.1) |
| **Diffyg cyn llog a threthiant** | | **(35.8)** | (232.8) |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | 7a | **13.5** | 5.2 |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | 7b | **(12.0)** | (11.3) |
| Incwm cyllid net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | 8c ii | **65.7** | 65.4 |
| **Gwarged/(diffyg) cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | 1 | **31.4** | (173.5) |
| Trethiant | 9 | **(27.7)** | (15.2) |
| Buddiant lleiafrifol | | **(0.1)** | 0.5 |
| **Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol** | 18 | **3.6** | (188.2) |

Mae pob canlyniad yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y canlyniadau fel y'u datgelwyd uchod a'r canlyniadau ar sail cost hanesyddol.

# Datganiadau ariannol
## *Mantolenni*
*ar 31 Mawrth*

| | Nodyn | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedion sefydlog** | | | | | |
| Asedion sefydlog anniriaethol | 10 | **19.3** | 20.3 | **–** | – |
| Asedion sefydlog diriaethol | 11 | **697.2** | 721.6 | **493.0** | 488.1 |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 12 | **106.5** | 97.3 | **–** | – |
| Buddsoddiadau eraill | 13 | **46.3** | 40.6 | **283.9** | 285.4 |
| | | **869.3** | 879.8 | **776.9** | 773.5 |
| **Asedion cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 14 | **462.4** | 458.8 | **447.6** | 439.5 |
| Dyledwyr hir dymor | 15 | **45.9** | 106.1 | **26.9** | 84.3 |
| Dyledwyr cyfredol | 15 | **727.1** | 674.8 | **582.8** | 547.4 |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | | **773.0** | 780.9 | **609.7** | 631.7 |
| Buddsoddiadau byr dymor | 21 | **–** | 41.9 | **–** | 22.6 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 21 | **160.2** | 38.3 | **104.6** | 7.6 |
| | | **1,395.6** | 1,319.9 | **1,161.9** | 1,101.4 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 16b | **(919.8)** | (918.3) | **(729.5)** | (775.2) |
| **Asedion cyfredol net** | | **475.8** | 401.6 | **432.4** | 326.2 |
| **Cyfanswm yr asedion llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,345.1** | 1,281.4 | **1,209.3** | 1,099.7 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 16c | **(116.8)** | (187.6) | **(33.3)** | (34.7) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 17 | **(196.2)** | (139.6) | **(164.5)** | (94.9) |
| **Asedion net ac eithrio ased/(rhwymedigaeth) pensiwn** | | **1,032.1** | 954.2 | **1,011.5** | 970.1 |
| Ased pensiwn | 8c i | **170.2** | – | **–** | – |
| Rhwymedigaeth pensiwn | 8c i | **(5.3)** | (426.8) | **–** | – |
| **Asedion net** | | **1,197.0** | 527.4 | **1,011.5** | 970.1 |
| **Wedi eu cynrychioli gan** | | | | | |
| Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **257.5** | 188.7 | **237.0** | 204.3 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **164.9** | (426.8) | **–** | – |
| Cyfanswm y gronfa weithredol wrth gefn | 18 | **422.4** | (238.1) | **237.0** | 204.3 |
| Cronfa gyfalaf wrth gefn | 18 | **771.3** | 761.8 | **771.3** | 761.8 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 18 | **3.2** | 4.0 | **3.2** | 4.0 |
| | | **1,196.9** | 527.7 | **1,011.5** | 970.1 |
| Buddiant lleiafrifol | | **0.1** | (0.3) | **–** | – |
| | | **1,197.0** | 527.4 | **1,011.5** | 970.1 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol ar 14 Mehefin 2006 ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan gan:

**Michael Grade** *Cadeirydd*
**Mark Thompson** *Cyfarwyddwr Cyffredinol*
**Zarin Patel** *Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp*

# Datganiadau ariannol

## *Datganiad cyfunol o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig*

***am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth***

Mae'r addasiad a wnaed i'r cronfeydd wrth gefn adeg mabwysiadu FRS 26 yn berthnasol i werth teg y deilliadau a oedd yn bodoli ar 1 Ebrill 2005 nas cydnabuwyd fel rhan o'r cymariaethau, fel y caniateir gan y safon.

| | Nodyn | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) y Grŵp am y flwyddyn ariannol | | **3.6** | (188.2) |
| Gwahaniaethau cyfnewid wrth ail-drosi is-gwmnïau tramor | | **1.9** | (0.5) |
| Elw nas gwireddwyd wrth waredu busnes | | **–** | 22.8 |
| Elw actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | 8c iii | **661.1** | 80.9 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn** | | **666.6** | (85.0) |
| Addasiad wrth fabwysiadu FRS 26 | 18 | **2.6** | – |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion ers yr adroddiad blynyddol diwethaf** | | **669.2** | (85.0) |

## *Cysoni symudiad mewn cronfeydd wrth gefn*

***am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth***

| | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | **3.6** | (188.2) | **41.4** | (16.5) |
| Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill sy'n berthnasol i'r flwyddyn (net) | **663.0** | 103.2 | **–** | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | **666.6** | (85.0) | **41.4** | (16.5) |
| Addasiad wrth fabwysiadu FRS 26 | **2.6** | – | **–** | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn cronfeydd wrth gefn ers yr adroddiad blynyddol diwethaf | **669.2** | (85.0) | **41.4** | (16.5) |
| Cronfeydd agoriadol wrth gefn | **527.7** | 612.7 | **970.1** | 986.6 |
| **Cronfeydd terfynol wrth gefn** | **1,196.9** | 527.7 | **1,011.5** | 970.1 |

# Datganiadau ariannol
## *Datganiad llif arian parod cyfunol*
*am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth*

**Cysoni diffyg gweithredol y Grŵp i'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredol**

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol y Grŵp | **(208.2)** | (237.6) |
| Dibrisio ac amorteiddio | **197.3** | 198.6 |
| Gwahaniaeth rhwng tâl pensiwn a chyfraniad arian parod | **135.1** | 136.8 |
| Colled wrth waredu asedion sefydlog diriaethol | **2.4** | 8.8 |
| Cynnydd mewn stociau | **(6.8)** | (38.2) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | **(28.7)** | (43.8) |
| Cynnydd mewn credydwyr | **47.5** | 24.4 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | **77.5** | 32.9 |
| All-lif arian parod ar ôl terfynu gweithrediadau | **–** | (1.7) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | **216.1** | 80.2 |

**Datganiad llif arian parod**

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **216.1** | 80.2 |
| **Difidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | 13a | **19.8** | 13.6 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **13.5** | 5.2 |
| Llog a dalwyd | | **(9.2)** | (11.3) |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | | **(0.5)** | – |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o'r adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | **3.8** | (6.1) |
| **Trethiant** | | | |
| Trethiant a dalwyd | | **(12.0)** | (2.0) |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | | |
| Prynu asedion sefydlog diriaethol | | **(130.7)** | (487.7) |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | | **(73.6)** | (75.5) |
| Buddsoddi mewn asedion sefydlog anniriaethol | | **(0.4)** | (0.5) |
| Ad-dalu benthyciad i'r ymgymeriad cyswllt | | **0.4** | 0.3 |
| Enillion o werthu asedion sefydlog diriaethol | | **20.2** | 382.6 |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **(184.1)** | (180.8) |
| **Caffaeliadau a gwarediadau** | | | |
| Prynu is-gwmni | | **(0.8)** | – |
| Prynu buddiant mewn partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **(4.1)** | (7.1) |
| Enillion o werthu gweithrediadau | | **166.1** | 144.1 |
| Enillion o waredu buddiannau mewn partneriaethau cyswllt | | **–** | 21.0 |
| **Mewnlif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | | **161.2** | 158.0 |
| **Mewnlif arian parod net cyn defnyddio adnoddau rhydd ac ariannu** | | **204.8** | 62.9 |
| **Rheoli adnoddau rhydd** | | | |
| Gwerthu/(prynu) adnoddau rhydd eraill | 20 | **41.9** | (29.3) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o reoli adnoddau rhydd** | 20 | **41.9** | (29.3) |
| **Ariannu** | | | |
| Cynnydd mewn benthyciadau | | **57.0** | 20.0 |
| Ad-dalu benthyciadau | | **(135.0)** | (50.0) |
| Ad-dalu cyfalaf prydlesau cyllid | | **(9.4)** | (3.2) |
| Ad-dalu nodiadau benthyca | | **(0.5)** | (0.1) |
| **All-lif arian parod net o ariannu** | 20 | **(87.9)** | (33.3) |
| **Cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | 20 | **158.8** | 0.3 |

# Datganiadau ariannol
## *Datganiad o bolisïau cyfrifyddu*

**Mae'r adran hon yn esbonio prif bolisïau cyfrifyddu'r BBC, a gymhwyswyd yn gyson yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol ac eithrio lle nodir fel arall. Ceir ôl-nodyn mewn italig ar ôl rhai polisïau sy'n esbonio mewn iaith syml yr agweddau technegol ar y driniaeth gyfrifyddu.**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â darpariaethau Siarter a Chytundeb y BBC. Er nad yw'n orfodol, mae'r BBC, yn ystod blynyddoedd blaenorol, wedi dewis dilyn darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, y safonau cyfrifyddu sy'n gymwys i'r DU a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â rhai cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus y DU.

Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith cwmnïau, pe bai wedi parhau i gyflwyno adroddiadau fel pe bai'n gwmni cyfyngedig cyhoeddus, byddai'r BBC wedi paratoi datganiadau ariannol ei Grŵp yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr UE o 1 Ebrill 2005. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn yr Arolwg ariannol (gweler tudalennau 92 i 94), byddai cyflwyno adroddiadau o dan IFRS yn anghyson â'r ffordd y cyflwynir adroddiadau gan y Llywodraeth. Yn lle hynny, paratowyd y datganiadau ariannol cyfredol o dan yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) fel y gwnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn unol â chwmnïau eraill, mae'r BBC yn cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig i Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer ei holl is-gwmnïau.

### Sail y cyfrifyddu
Cyflwynir y datganiadau ariannol yn unol ag UK GAAP o dan y confensiwn cyfrifyddu cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd trwy ailbrisio peiriannau, dodrefn a ffitiadau penodol.

### Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd
Dyma'r tro cyntaf i'r BBC fabwysiadu'r safonau cyfrifyddu canlynol sy'n gymwys yn y DU yn y cyfrifon Grŵp hyn.

- FRS 21 (IAS 10) *Events after the balance sheet date.* Nid yw'r safon hon wedi cael unrhyw effaith ar y datganiad o incwm a gwariant na'r fantolen.
- FRS 23 (IAS 21) *The effects of changes in foreign exchange rates.* Effaith fwyaf y newid hwn yw bod trafodion bellach yn cael eu cofnodi ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ac nid ar gyfradd y blaen-gontract os lluniwyd contract arian cyfred tramor cysylltiedig. Mae'r enillion neu'r colledion a welir pan ryddheir y blaen-gontract yn llifo'n uniongyrchol i'r datganiad o incwm a gwariant.
- FRS 25 (IAS 32) *Financial Instruments: Disclosure and Presentation* ac FRS 26 (IAS 39) *Financial Instruments: Measurement.* Effaith fwyaf y safonau hyn yw cydnabod offerynnau ariannol deilliadol. Fel y caniateir o dan y safonau hyn, nid yw ffigurau cymharol 2005 wedi'u hailddatgan a chânt eu cyflwyno o hyd o dan safonau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd yn flaenorol.
- FRS 28 *Corresponding amounts.* Nid yw'r safon hon wedi cael unrhyw effaith ar y datganiad o incwm a gwariant na'r fantolen.

### Sail y cyfuno
Mae'r Grŵp yn cynnwys:

- UK Public Service Broadcasting (y rhiant-gwmni tybiedig) a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ei ran yn unig, sef Centre House Productions Limited, BBC Property Limited, BBC Property Investment Limited a BBC Free to View Limited (Grŵp UK Public Service Broadcasting)
- BBC World Service (a'i is-gwmnïau)
- Is-gwmnïau masnachol yn cynnwys BBC Commercial Holdings Limited a'i is-gwmnïau amrywiol (sef BBC World Group a BBC Ventures Group – sy'n cynnwys BBC Worldwide)

Oni nodir fel arall, mabwysiadwyd y dull caffael o gyfrifyddu. O dan y dull hwn, cynhwysir canlyniadau'r is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu.

Mae partneriaeth gyswllt yn ymgymeriad lle y mae gan y Grŵp fuddiant tymor hir, fel arfer rhwng 20% a 50% o'r hawliau pleidleisio ecwiti, ac y mae ganddo ddylanwad sylweddol drosto. Ystyr cyd-fenter yw ymgymeriad lle y mae gan y Grŵp fuddiant tymor hir a lle y gweithreda reolaeth ar y cyd. Cynhwysir cyfran o elw'r Grŵp llai colledion partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant a chynhwysir ei fuddiant yn eu hasedion net yn y fantolen gyfunol ac eithrio lle nad oes gan y BBC unrhyw ymrwymiad i dalu ei gyfran o'u colledion gweithredol cronnus.

Ni chyflwynwyd datganiad o incwm a gwariant ar wahân yn adlewyrchu canlyniadau UK Public Service Broadcasting, fel y caniateir yn ôl Adran 230 Deddf Cwmnïau 1985, fel pe bai'n gwmni.

*Mae cyfrifon y Grŵp yn cynnwys canlyniadau UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a phob busnes arall a reolir gan y BBC (is-gwmnïau) ynghyd â chyfran y BBC o ganlyniadau busnesau lle mae gan y BBC ddylanwad ond nid rheolaeth drostynt (partneriaethau cyswllt) a'r rheini y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd (cyd-fentrau).*

### Buddsoddiadau yn ymgymeriadau'r Grŵp
Ar wahân i BBC World Service, cofnodir buddsoddiadau ar fantolen UK Public Service Broadcasting ar gost llai darpariaeth ar gyfer unrhyw leihad mewn gwerth.

Mae ariannu UK Public Service Broadcasting a BBC World Service yn gyfreithiol ar wahân ac ni chaniateir rhoi croesgymorthdaliadau. Yn unol â hyn, at ddibenion paratoi mantolen UK Public Service Broadcasting, ystyrir bod gan UK Public Service Broadcasting fuddsoddiad yn BBC World Service sy'n gyfwerth ag asedion net BBC World Service.

### Incwm
Mae incwm, sy'n eithrio treth ar werth, gostyngiadau masnachol a gwerthiannau rhwng cwmnïau'r Grŵp, yn cynnwys y dosbarthiadau allweddol canlynol o refeniw, a gydnabyddir fel a ganlyn:

- *Trwyddedau teledu*

Cydnabyddir incwm sy'n deillio o drwyddedau teledu, pan gaiff ei dderbyn oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae hyn yn cynrychioli gwerth trwyddedau a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn. Ni all y swm y gellir ei dalu mewn arian parod i'r BBC am unrhyw un flwyddyn fod yn fwy na chyfanswm yr hyn y pleidleisiwyd arno gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn honno. Caiff unrhyw ormodedd rhwng gwerth y trwyddedau a ddosbarthwyd a'r swm y pleidleisiwyd arno ei gydnabod yn y flwyddyn ganlynol.

# Datganiadau ariannol
## *Datganiad o bolisïau cyfrifyddu*

■ ***Grant-mewn-Cymorth gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad***
Caiff Grant-mewn-Cymorth BBC World Service ei gydnabod pan gaiff ei dderbyn gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Bwriedir iddo dalu am y gwariant amcangyfrifedig yn ystod y flwyddyn ond nid yw derbynebion am y flwyddyn nas gwariwyd, o fewn terfynau a nodwyd ymlaen llaw, yn agored i gael eu hildio.

■ ***Darparu offer, cyfleusterau a gwasanaethau***
Ac eithrio contractau hir dymor, cydnabyddir incwm pan ddarperir yr offer, y cyfleusterau a'r gwasanaethau i gwsmeriaid.

Ar gyfer contractau hir dymor, cydnabyddir swm yr elw y gellir ei briodoli i'r cam cwblhau pan ellir rhagweld canlyniad y contract gyda chryn sicrwydd. Nodir trosiant ar gyfer contractau o'r fath ar y gost sy'n briodol i'w cam cwblhau ynghyd ag elw priodoladwy, llai symiau a gydnabuwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gwneir darpariaeth ar gyfer unrhyw golledion yn y dyfodol cyn gynted ag y'u rhagwelir.

■ ***Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni***
Cydnabyddir wrth ddarparu gwasanaeth.

■ ***Incwm dosbarthu a hysbysebu***
Cydnabyddir wrth ddarparu gwasanaeth.

■ ***Ffioedd y drwydded yn sgîl gwerthu rhaglenni teledu rhyngwladol***
Cydnabyddir ar ddechrau cyfnod y drwydded, heblaw nad yw hawliau'r rhaglen wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw, ac os felly, cydnabyddir refeniw wrth gyflwyno'r hawliau.

■ ***Gwerthu nwyddau hysbysebol ac incwm o gyhoeddi***
Cydnabyddir wrth eu cyflwyno neu wrth ddarparu gwasanaeth. Caiff gwerthiannau eu datgan ar ôl didynnu gwerth nwyddau a gaiff eu dychwelyd a nwyddau yr amcangyfrifir y cânt eu dychwelyd.

*Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amrywiol ffynonellau incwm yn bwysig. Mae'r BBC yn ofalus i beidio â rhoi croesgymorthdaliadau i weithgareddau masnachol, gweithgareddau UK Public Service Broadcasting neu weithgareddau BBC World Service. Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a pholisïau masnachu teg y BBC ar dudalennau 76 i 78 yr adroddiad hwn.*

### Trosi arian cyfred tramor
Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

Trosir asedion a rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar 31 Mawrth. Cynhwysir gwargedau a diffygion sy'n codi o drosi asedion a rhwymedigaethau ar y cyfraddau cyfnewid hyn, ynghyd â gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi yn sgîl masnachu, yn y datganiad o incwm a gwariant.

Trosir cyfrifon elw a cholled a llifau arian parod is-gwmnïau tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfartalog ar gyfer y flwyddyn. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid, sy'n codi wrth gyfuno pan gaiff asedion net agoriadol is-gwmnïau tramor ac unrhyw fenthyciadau arian cyfred tramor hir dymor eu haildrosi, ynghyd â'r gwahaniaethau sy'n deillio o ail-drosi'r cyfrifon elw a cholled ar y cyfraddau sydd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn, i'r datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

*Gan fod y datganiadau ariannol hyn yn cael eu paratoi mewn sterling, mae'n rhaid trosi trafodion a balansau arian cyfred tramor y BBC, ar gyfraddau cyfnewid priodol, yn sterling. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y cynhwysir yr enghreifftiau hynny o ail-drosi yn y datganiadau ariannol ac mae'n gyson â'r dulliau a ddefnyddir gan lawer o gwmnïau.*

### Costau pensiwn
Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau buddiannau diffiniedig a chyfraniadau diffiniedig er budd y cyflogeion.

Mae'r symiau a godir fel gwariant ar gyfer y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu mewn perthynas â'r cynlluniau hyn.

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, y mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau ohonynt, yn darparu buddiannau yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy terfynol. Delir asedion prif gynllun y BBC ar wahân i rai'r Grŵp.

Mesurir asedion y cynllun pensiwn gan ddefnyddio gwerthoedd y farchnad. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio dull unedau rhagamcanol a chânt eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaeth ansawdd uchel y mae ei gyfnod a'i arian cyfred yn cyfateb i'r rhwymedigaeth.

Cydnabyddir gwarged (i'r graddau y gellir ei hadennill) neu ddiffyg y cynllun pensiwn yn llawn. Rhennir y symudiad yng ngwarged/diffyg y cynllun rhwng taliadau gweithredol, eitemau cyllid ac, yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, enillion a cholledion actiwaraidd.

Codir y symiau ar y gwariant er mwyn lledaenu cost y pensiynau dros fywyd gwaith y cyflogeion gyda'r BBC.

Mae cynllun pensiwn y BBC yn gynllun a weithredir ar draws y Grŵp ac ni all UK Public Service Broadcasting na'i ymgymeriadau cyswllt bennu eu cyfran o asedion a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson. Felly, fel sy'n ofynnol gan FRS 17, *Retirement benefits,* mae UK Public Service Broadcasting yn rhoi cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r gwariant a godir o dan FRS 17 ar gyfer UK Public Service Broadcasting yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn.

*Ar eu hymddeoliad, telir pensiynau aelodau prif gynllun pensiwn y BBC o gronfa a gedwir ar wahân i'r Grŵp. Mae'r BBC yn gwneud cyfraniadau arian parod i'r gronfa honno cyn i'r aelodau ymddeol.*

### Ymchwil a datblygiad
Dilëir gwariant ymchwil a datblygiad wrth iddo gael ei wario.

### Asedion sefydlog anniriaethol
*Ewyllys da*
Caiff ewyllys da a brynir sy'n codi wrth gaffael is-gwmni neu fusnes (gan gynrychioli gormodedd gwerth teg yr ystyriaeth brynu ynghyd ag unrhyw gostau caffael cysylltiedig dros y gwerth teg sy'n briodoladwy i'r asedion net gwahanadwy a gaffaelwyd) ei gyfalafu a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros ei fywyd economaidd defnyddiol (20 mlynedd fel arfer), yn amodol ar adolygiadau ar gyfer lleihad. Wrth waredu neu derfynu busnes wedi hynny, cyfrifir y warged neu'r diffyg ar ôl codi swm heb ei amorteiddio am unrhyw ewyllys da cysylltiedig. Fel y caniateir gan FRS 10, *Goodwill and intangible assets,* mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau hyd at 1 Ebrill 1998 yn parhau i wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn. Wrth waredu, caiff ewyllys da a ddilëwyd yn flaenorol yn erbyn cronfeydd wrth gefn ei drosglwyddo i'r datganiad o incwm a gwariant am y flwyddyn.

*Mae ewyllys da yn codi pan fo'r BBC yn talu mwy am fusnes na swm asedion net y busnes a gaffaelir, gan gynrychioli'r ffaith bod y Grŵp yn gosod mwy o werth ar endid y busnes yn ei gyfanrwydd (fel arfer oherwydd synergeddau disgwyliedig neu enillion posibl y busnes hwnnw). Fel y cyfryw, caiff y premiwm hwn ei drin fel ased ynddo'i hun ac fe'i delir ar fantolen y Grŵp, gyda bywyd economaidd rhagdybiedig o 20 mlynedd.*

*Fel gydag unrhyw ased arall, cyfrifir elw neu golled wrth werthu neu waredu (yn yr achos hwn, gwerthu/gwaredu'r busnes) ar ôl dileu'r swm heb ei amorteiddio a ddelir o hyd ar fantolen y Grŵp.*

*Eitemau anniriaethol eraill*

Caiff eitemau anniriaethol eraill eu cyfalafu a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol (2-4 blynedd fel arfer) yn amodol ar arolwg ar gyfer lleihad.

**Asedion sefydlog diriaethol**

Caiff gwariant ar asedion sefydlog ei gyfalafu ynghyd â chostau llafur uniongyrchol mewnol ac ychwanegol yr aethpwyd iddynt ar brosiectau cyfalaf. Caiff asedion sefydlog diriaethol eu datgan yn y fantolen ar gost llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Nodir offer a pheiriannau UK Public Service Broadcasting ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedion, ar 31 Mawrth 1993, wedi'i haddasu ar gyfer potensial y gwasanaeth sy'n weddill neu'r gost os cânt eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nodir offer a pheiriannau a dodrefn a ffitiadau BBC World Service ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedion, ar 1 Ebrill 1996, wedi'i haddasu ar gyfer potensial y gwasanaeth sy'n weddill, neu'r gost os cânt eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net yr asedion sefydlog diriaethol hyn a'u gwerth fel y'i pennwyd ar sail cost hanesyddol.

Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig asedion sefydlog ar sail llinell syth drwy gydol eu bywydau defnyddiol disgwyliedig. Mae dibrisiant yn cychwyn o'r dyddiad y bydd ased yn dechrau gwasanaethu.

At ddibenion dibrisio, bywydau defnyddiol y BBC ar gyfer y prif gategorïau o asedion yw:

| | |
|---|---|
| **Tir ac adeiladau** | |
| Tir rhydd-ddaliad | – dim dibrisiant |
| Adeiladau rhydd-ddaliad ac adeiladau ar brydles hir | – 50 mlynedd |
| Tir ac adeiladau ar brydles fer | – tymor prydles annarfodedig |
| **Offer a pheiriannau** | |
| Offer cyfrifiadurol | – tair i bum mlynedd |
| Seilwaith trydanol a mecanyddol | – deng mlynedd i 25 mlynedd |
| Arall | – tair i ddeng mlynedd |
| **Dodrefn a ffitiadau** | – tair i ddeng mlynedd |

*Mae'r BBC wedi ailbrisio ei asedion unwaith, pan gyflwynwyd y farchnad fewnol, ond dewisodd beidio â'u hailbrisio ar sail barhaus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y'u defnyddir o fewn y BBC yn hytrach na chael eu cadw ar gyfer eu hailwerthu neu oherwydd y potensial i'w buddsoddi. Felly cynhwysir asedion ar y swm yr oeddynt wedi'i gostio pan gawsant eu prynu neu eu hadeiladu (yn y naill achos neu'r llall llai dibrisiant dilynol).*

**Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol**

Caiff buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ei nodi ar gost, ar ôl dileu costau rhaglenni a ystyrir yn anadferadwy, llai amorteiddiad cronedig. Codir tâl am amorteiddio buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ar y datganiad o incwm a gwariant dros fywyd marchnadadwy amcangyfrifedig genre y rhaglen ar gyfartaledd sydd fel arfer rhwng dwy flynedd a deng mlynedd. Gostyngir cost ac amorteiddiad cronedig buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol gan raglenni a ddilëir yn llwyr.

*Codir tâl am gost y rhaglenni sydd ar werth ar y datganiad o incwm a gwariant i gyfateb i amseriad disgwyliedig incwm yn sgîl gwerthiannau yn y dyfodol.*

**Lleihad asedion sefydlog**

Mae'r Grŵp yn adolygu symiau cludo ei asedion sefydlog pan ddangosir bod yr asedion hynny wedi dioddef colled o ran lleihad.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm cludo, cydnabyddir y golled ddilynol o ran lleihad yn y datganiad o incwm a gwariant ar unwaith.

**Stociau o raglenni a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo**

Caiff stociau o raglenni a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys y rheini a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, eu datgan ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net. Ac eithrio costau ailddarlledu rhaglenni annibynnol rhagdaledig, dilëir gwerth llawn y stoc wrth ddarlledu am y tro cyntaf.

Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau uniongyrchol, gorbenion cynhyrchu a chyfran o orbenion priodoladwy eraill.

Codir costau datblygu rhaglenni ar y datganiad o incwm a gwariant hyd nes y ceir arwydd clir y bydd y gwaith datblygu yn arwain at gomisiynu rhaglen pan gaiff unrhyw gostau pellach eu cyfalafu fel gwaith sy'n mynd rhagddo.

Mae'r gwerth gwireddadwy net yn seiliedig ar brisiau contract hyd braich a negodwyd rhwng rheolwyr y sianel a'r gwneuthurwyr rhaglenni.

**Stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd**

Dilëir costau stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar eu darllediad cyntaf ac eithrio i'r graddau bod darllediadau ychwanegol yn debygol yn y dyfodol agos, pan gânt eu dileu yn unol â'u proffil darlledu disgwyliedig. Cydnabyddir asedion a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a gaffaelwyd ar adeg talu neu gychwyn cyfnod y drwydded, p'un bynnag a ddaw gyntaf. Datgelir cytundebau ar gyfer prynu rhaglenni yn y dyfodol nad yw eu cyfnod trwydded wedi cychwyn a phan na thalwyd erbyn dyddiad y fantolen fel ymrwymiadau prynu.

**Stociau eraill**

Nodir deunyddiau crai a stociau ffisegol eraill ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net.

**Darpariaethau**

Cydnabyddir darpariaeth yn y fantolen pan fo gan y Grŵp ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol cyfredol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddiannau

economaidd er mwyn setlo'r ymrwymiad. Caiff darpariaethau sy'n daladwy dros nifer o flynyddoedd eu disgowntio i'r gwerth presennol net ar ddyddiad y fantolen gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio sy'n briodol i'r ddarpariaeth benodol dan sylw.

### Treth ohiriedig

Cyfrifir treth ohiriedig o dan y dull rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth lawn, heb ddisgowntio, mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng eitemau penodol yn y datganiadau ariannol a'r modd y cânt eu trin at ddibenion trethiant ar y fantolen ac eithrio fel sy'n ofynnol fel arall gan FRS 19 *Deferred tax.* Cydnabyddir asedion treth ohiriedig i'r graddau yr ystyrir eu bod yn fwy tebygol o gael eu hadfer na pheidio.

*Treth gorfforaeth yw treth ohiriedig nad yw'n daladwy ar adeg benodol ond y disgwylir iddi gael ei thalu yn y dyfodol.*

### Prydlesau gweithredol

Dilëir rhenti prydlesau gweithredol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

*Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu yw prydles weithredol. Nid yw'r prydlesai – y BBC – wedi caffael ased ond mae'n ei logi, felly cynhwysir y tâl llogi yng nghostau'r BBC.*

Mae'r BBC yn derbyn incwm prydlesau gweithredol y rhoddir cyfrif amdano hefyd ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Prydlesau cyllid

Cynhwysir asedion a gaffaelwyd o dan brydlesau cyllid o fewn asedion sefydlog ar gyfanswm y taliadau prydles sy'n ddyledus dros fywyd y brydles wedi'i ddisgowntio ar gyfradd y llog sy'n gynhenid yn y brydles. Cynhwysir yr un swm o dan gredydwyr. Dosrennir taliadau rhent rhwng yr elfen ariannol, y codir tâl amdani yn y datganiad o incwm a gwariant, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau credydwr y brydles.

*Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrau o fod yn berchen ar ased a'i weithredu i'r prydlesai yw prydles gyllid. Mewn gwirionedd, y prydlesai sy'n berchen ar yr ased ac mae wedi ei ariannu drwy fenthyca, felly caiff yr ased a'r benthyciad eu cynnwys ar wahân yn y fantolen.*

### Cronfeydd wrth gefn

Bob blwyddyn, caiff swm sy'n cyfateb i'r costau yr aethpwyd iddynt gan Home and World Services ar asedion cyfalaf yn ychwanegol at ddibrisiant, wedi'i addasu ar gyfer gwarediadau, ei drosglwyddo i'r gronfa gyfalaf wrth gefn fel bod swm y gronfa gyfalaf wrth gefn, ar ddyddiad y fantolen, yn cyfateb i werth llyfr net asedion sefydlog yr Home and World Services ar gost hanesyddol.

Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr net asedion sefydlog UK Public Service Broadcasting a BBC World Service ar gost hanesyddol o'i gymharu â'u swm wedi'i ailbrisio.

Gwarged gronedig y cyfrif incwm a gwariant hyd yn hyn yw'r gronfa weithredol wrth gefn.

Mae'r gronfa bensiwn wrth gefn yn cynrychioli gwarged net neu rwymedigaeth cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig y Grŵp.

*Mae'r BBC yn ofalus i beidio â chymysgu cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting a BBC World Service. O ganlyniad, dangosir cronfeydd wrth gefn BBC World Service ar wahân yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.*

### Arian parod ac adnoddau rhydd

Mae arian parod, at ddibenion y datganiad llif arian parod, yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar orchymyn, llai gorddrafftiau sy'n daladwy ar orchymyn. Buddsoddiadau asedion cyfredol yw adnoddau rhydd y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod ar eu gwerthoedd cario neu'n agos atynt: maent yn cynnwys adneuon y farchnad arian a chronfeydd hylifedd gyda chyfnod rhybudd o fwy nag un diwrnod gwaith.

### Offerynnau ariannol

Nid yw'r Grŵp yn ymrwymo i gontractau deilliadol hapfasnachol. Fodd bynnag, defnyddir rhai offerynnau ariannol deilliadol gyda'r bwriad o reoli amlygiad y BBC i amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor a chyfraddau llog.

Cydnabyddir offerynnau ariannol deilliadol ar gost i gychwyn a chânt eu hailfesur ar ôl hynny ar werth teg gyda symudiadau yn cael eu cofnodi yn y datganiad o incwm a gwariant.

Defnyddir nifer gyfyngedig o offerynnau ariannol deilliadol i ddiogelu amlygiad y Grŵp i amrywiadau mewn cyfraddau llog. Gwerth teg cyfnewidiadau llog yw'r swm amcangyfrifedig y byddai'r Grŵp yn ei dderbyn neu ei dalu i derfynu'r cyfnewidiad ar ddyddiad y fantolen, gan ystyried cyfraddau llog cyfredol y cyfrif a theilyngdod cyfredol gwrthbartïon y cyfnewid o ran credyd.

Ymrwymir i rai contractau rhagfantoli er mwyn cyfyngu ar amlygiad y Grŵp i amrywiadau mewn arian cyfred tramor. Pennir gwerth teg cyfraddau blaen-gontractau arian cyfred tramor gan ddefnyddio cyfraddau blaengyfnewid y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

Nid yw'r Grŵp yn cymhwyso cyfrifyddu rhagfantoli ond yn hytrach yn galluogi symudiad gwerthoedd teg y contractau rhagfantoli i lifo i'r datganiad o incwm a gwariant wrth iddo godi.

Datgelir benthyciadau'r Grŵp ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n gymwys.

Datgelir benthyciadau ac asedion a rhwymedigaethau ariannol eraill y Grŵp yn Nodyn 23 i'r datganiadau ariannol.

*Mae offerynnau ariannol deilliadol y BBC yn cynnwys blaen-gontractau cyfnewid a chyfnewidiadau cyfradd llog.*

*Mae blaen-gontractau cyfnewid yn darparu sicrwydd o gostau ac incwm yn y dyfodol mewn arian cyfred tramor drwy bennu'r gyfradd gyfnewid yn hytrach nag aros i weld beth yw'r gyfradd gyfnewid ar adeg y trafodyn neu'r taliad. Mae'r BBC hefyd yn ymrwymo i gyfnewidiadau cyfradd llog i gyfnewid benthyciad cyfradd arnawf yn fenthyciad cyfradd sefydlog, unwaith eto, er mwyn darparu mwy o sicrwydd o ran taliadau llog.*

*Yn dibynnu ar y symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid a chyfraddau llog rhwng yr adeg y mae'r Grŵp yn ymrwymo i'r trafodyn a diwedd y flwyddyn, gall y deilliadau hyn naill ai fod yn broffidiol ('yn gwneud arian') neu gallant fod yn colli arian ynddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, nid gwneud elw o farchnadoedd arian cyfred nac amrywiadau mewn cyfraddau llog yw'r sail resymegol dros ymrwymo i'r deilliadau hyn, ond yn hytrach, i ddarparu sefydlogrwydd i lifau arian parod y BBC. Cymerir y symudiadau sy'n gysylltiedig â'r deilliadau hyn (hy lle maent naill ai yn gwneud elw neu'n gwneud colled) i ddatganiad o incwm a gwariant y Grŵp am y flwyddyn.*

Mae Nodyn 1 yn darparu dadansoddiad o'r meysydd busnes gwahanol o fewn y BBC.

Mae Grŵp UK Public Service Broadcasting (y cyfeirir ato fel 'Home Services' yn Siarter y BBC) yn cynnwys gweithrediadau UK Public Service Broadcasting a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ran y gweithrediadau cyhoeddus hynny yn unig.

Mae BBC World Service yn cynnwys gweithgareddau monitro darlledu a'r cyfryngau.

Mae Busnesau Masnachol yn cynnwys busnesau sy'n cynhyrchu incwm allanol wrth fanteisio i'r eithaf ar raglenni'r BBC, asedion eraill a'r cyflenwad o sgiliau.

## 1 Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) ac asedion net

### *1a Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) ac asedion net yn ôl gweithgaredd*

| | Nodyn | UK Public Service Broadcasting Group £m | BBC World Service £m | Busnesau Masnachol £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | | |
| **Cyfanswm yr incwm** | | 3,242.1 | 260.5 | 976.6 | **4,479.2** |
| **Llai: Incwm mewnol y Grŵp** | | (117.3) | (0.3) | (127.1) | **(244.7)** |
| **Cyfanswm yr incwm allanol** | | 3,124.8 | 260.2 | 849.5 | **4,234.5** |
| **Llai: Cyfran o gyd-fentrau** | | – | – | (229.5) | **(229.5)** |
| **Incwm y Grŵp** | 1b,d,g,h | 3,124.8 | 260.2 | 620.0 | **4,005.0** |
| **Gwarged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol** | 1e,h | (105.7) | (1.9) | 206.9 | **99.3** |
| **Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig** | | | | | |
| **– costau gweithredol ychwanegol*†** | | | | | **(135.1)** |
| **– incwm cyllid net arall*** | | | | | **65.7** |
| **Llog net derbyniadwy** | | | | | **1.5** |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | | | | | **31.4** |
| **Asedion net (ac eithrio ased pensiwn)** | 1f,h | 730.5 | 158.6 | 143.0 | **1,032.1** |
| **Ased pensiwn net*†** | | | | | **164.9** |
| **Asedion net** | | | | | **1,197.0** |
| **2005** | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 3,084.8 | 247.7 | 1,090.3 | 4,422.8 |
| Llai: Incwm mewnol y Grŵp | | (120.1) | (0.5) | (305.1) | (425.7) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | 2,964.7 | 247.2 | 785.2 | 3,997.1 |
| Llai: Cyfran o gyd-fentrau | | (0.9) | – | (160.9) | (161.8) |
| Incwm y Grŵp | 1b,d,g,h | 2,963.8 | 247.2 | 624.3 | 3,835.3 |
| (Diffyg)/gwarged cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | 1e,h | (194.5) | 7.1 | 91.4 | (96.0) |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – costau gweithredol ychwanegol*† | | | | | (136.8) |
| – incwm cyllid net arall* | | | | | 65.4 |
| Llog net sy'n daladwy | | | | | (6.1) |
| Diffyg cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | | | | | (173.5) |
| Asedion net (ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn) | 1f,h | 689.2 | 160.1 | 104.9 | 954.2 |
| Rhwymedigaeth pensiwn*† | | | | | (426.8) |
| Asedion net | | | | | 527.4 |

*Yn unol ag FRS 17 ni rennir yr eitemau hyn rhwng dosbarthiadau busnes gan y'u rheolir yn ganolog ar draws y Grŵp cyfan ac nid yw'n bosibl eu dyrannu ar sail resymol a chyson

†Cynhwysir cyfraniad arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn y warged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol pob endid. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp sy'n ychwanegol at y cyfraniadau arian parod hyn

Mae'r incwm o drwyddedau yn cynrychioli gwerth pob trwydded a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn.

*1b Incwm Grŵp UK Public Service Broadcasting*

| Incwm o ffi'r drwydded | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Lliw | **2,622.3** | 2,489.2 |
| Du a gwyn | **1.8** | 2.0 |
| Consesiynol | **0.9** | 0.9 |
| Pobl dros 75 oed | **459.2** | 432.3 |
| Premiwm cynllun talu chwarterol | **16.4** | 15.9 |
| Cyfanswm yr incwm o ffi'r drwydded | **3,100.6** | 2,940.3 |
| Incwm arall | **24.2** | 23.5 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **3,124.8** | 2,963.8 |

Mae incwm arall yn cynnwys darparu cynnwys a gwasanaethau i ddarlledwyr dramor, tocynnau cyngherddau a werthir a defnyddio'r archif rhaglenni.

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd 3.3 miliwn (2005 3.2 miliwn) o drwyddedau lliw o dan y cynllun talu chwarterol ar bremiwm o £5 yr un (2005 £5).

Mae gan gartrefi lle mae un neu ragor o bobl dros 75 oed yn byw ynddynt, fel eu prif breswylfa, yr hawl i gael trwydded am ddim. Ad-delir y BBC am y trwyddedau am ddim hyn gan adrannau perthnasol y Llywodraeth.

Trwyddedau mewn grym yw'r rhai sy'n ddilys o hyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

| Trwyddedau mewn grym | 2006 Nifer m | 2005 Nifer m |
|---|---|---|
| Lliw | **20.8** | 20.6 |
| Du a gwyn | **0.1** | 0.1 |
| Pobl sydd dros 75 oed | **3.9** | 3.8 |
| Consesiynol | **0.2** | 0.2 |
| | **25.0** | 24.7 |

Pennir ffi'r drwydded gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

| Ffi'r drwydded | 2006 £ | 2005 £ |
|---|---|---|
| Lliw | **126.50** | 121.00 |
| Du a gwyn | **42.00** | 40.50 |
| Consesiynol | **5.00** | 5.00 |

O 1 Ebrill 2006, cynyddwyd y ffioedd trwyddedau lliw a du a gwyn i £131.50 a £44 yn y drefn honno. Parhaodd y drwydded gonsesiynol ar £5.

*1c Dadansoddiad daearyddol o Grŵp UK Public Service Broadcasting*
Mae incwm a gwarged Grŵp UK Public Service Broadcasting yn codi yn y DU. Lleolir yr asedion net a ddefnyddir gan y gweithrediadau hyn yn y DU.

*1d Incwm BBC World Service*

Cynhyrchir incwm arall o werthu rhaglenni, cytundebau cyd-gynhyrchu, gweithgareddau cyhoeddi a darparu gwasanaethau monitro'r cyfryngau.

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Grant-mewn-Cymorth | **239.1** | 225.1 |
| Tanysgrifiadau | **15.8** | 16.7 |
| Incwm arall | **5.3** | 5.4 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **260.2** | 247.2 |

*1e (Diffyg)/gwarged BBC World Service cyn llog a threthiant yn ôl gweithgaredd*

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Darlledu | **0.7** | 7.7 |
| BBC Monitoring | **(2.6)** | (0.6) |
| Cyfanswm y (diffyg)/gwarged cyn llog a threthiant | **(1.9)** | 7.1 |

*1f Dadansoddiad daearyddol o BBC World Service*

Mae incwm, gwariant gweithredol a (diffyg)/gwarged BBC World Service yn codi'n bennaf yn y DU.

| Lleoliad asedion net BBC World Service: | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| DU | **65.8** | 66.2 |
| Tramor | **92.8** | 93.9 |
| Asedion net | **158.6** | 160.1 |

*1g Dadansoddiad o incwm Busnesau Masnachol yn ôl gweithgaredd*

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Plant, cyfryngau newydd ac adloniant cartref | **133.5** | 161.0 |
| Gwerthiant teledu | **193.5** | 158.2 |
| Cylchgronau | **152.1** | 163.5 |
| Sianelau adloniant a newyddion teledu | **112.1** | 90.8 |
| Darparu gwasanaethau darlledu a rheoli sianelau | **31.5** | 108.9 |
| Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni | **124.4** | 135.1 |
| Darparu gwasanaethau technoleg | **–** | 111.9 |
| Llai incwm mewnol y Grŵp | **(127.1)** | (305.1) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **620.0** | 624.3 |

*1h Dadansoddiad daearyddol o Fusnesau Masnachol*

Dengys y tabl hwn lle y lleolir cwsmeriaid Busnesau Masnachol.

| | Y Deyrnas Unedig £m | Yr Americas £m | Gweddill y byd £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | |
| **Incwm allanol yn ôl cyrchfan** | **302.4** | **147.6** | **170.0** | **620.0** |
| **Gwarged cyn llog a threthiant** | **167.5** | **7.6** | **31.8** | **206.9** |
| **Asedion net** | **106.8** | **35.9** | **0.3** | **143.0** |
| **2005** | | | | |
| Incwm allanol yn ôl cyrchfan | 358.9 | 115.6 | 149.8 | 624.3 |
| Gwarged cyn llog a threthiant | 69.7 | 4.1 | 17.6 | 91.4 |
| Asedion net | 75.9 | 28.5 | 0.5 | 104.9 |

Mae'r holl incwm masnachol yn deillio o'r DU gan mai dyma lle y datblygir hawliau ymelwa a sgiliau a gwasanaethau'r Busnesau Masnachol.

## 2 Gwariant gweithredol

*2a Dadansoddiad o wariant gweithredol yn ôl gweithgaredd*

| | Nodyn | Cyfanswm 2006 £m | Cyfanswm 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | 2b | **3,236.7** | 3,107.7 |
| BBC World Service* | 2c | **262.1** | 240.1 |
| Busnesau Masnachol | 2d | **579.3** | 588.3 |
| Costau gweithredol cynllun pensiwn anariannol** | | **135.1** | 136.8 |
| | | **4,213.2** | 4,072.9 |

* Nid yw gwariant BBC World Service o £262.1miliwn (2005 £240.1miliwn) yn cynnwys £0.3miliwn (2005 £0.5miliwn) o wariant ar ddarparu gwasanaethau i gwmnïau eraill Grŵp y BBC

** Yn unol ag FRS 17 ni rennir y costau gweithredol anariannol rhwng y gweithgareddau busnes gan nad yw'n bosibl gwneud hyn ar sail resymol a chyson

*2b Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting*

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau analog** | | | |
| BBC One | (i) | **840.4** | 872.9 |
| BBC Two | (i) | **374.1** | 374.5 |
| Teledu cenedlaethol a rhanbarthol | (ii) | **228.6** | 213.5 |
| Radio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol | | **141.3** | 142.2 |
| BBC Radio 1 | | **17.7** | 17.8 |
| BBC Radio 2 | | **24.1** | 23.8 |
| BBC Radio 3 | | **31.1** | 32.0 |
| BBC Radio 4 | | **71.4** | 71.3 |
| BBC Radio Five Live | (i) | **48.9** | 53.8 |
| | | **1,777.6** | 1,801.8 |
| **Gwasanaethau digidol** | | | |
| Sianel CBBC, CBeebies | (iii) | **63.2** | 49.7 |
| BBC Three | | **92.9** | 92.9 |
| BBC News 24 | | **23.1** | 22.9 |
| BBC Parliament | | **1.9** | 2.2 |
| BBC Four | (iv) | **46.9** | 41.1 |
| Teledu rhyngweithiol (BBCi) | | **18.2** | 17.1 |
| 1Xtra | | **5.7** | 5.7 |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | | **1.6** | 1.6 |
| 6 Music | | **4.4** | 4.5 |
| BBC 7 | | **5.0** | 4.8 |
| BBC Asian Network | (v) | **7.6** | 5.4 |
| bbc.co.uk | | **72.3** | 69.2 |
| BBC jam (y Cwricwlwm Digidol gynt) | (vi) | **35.5** | 8.3 |
| | | **378.3** | 325.4 |
| **Cyfanswm y gwariant ar raglenni** | | **2,155.9** | 2,127.2 |

tabl yn parhau

*2b Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting parhad*

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant yn gysylltiedig â rhaglenni** | | | |
| Casglu newyddion | | **89.5** | 89.5 |
| Cymdeithas gasglu | | **60.4** | 57.2 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | | **19.0** | 17.9 |
| Marchnata, y wasg a chyhoeddusrwydd | | **40.3** | 49.6 |
| Pytiau rhagflas ar yr awyr | | **23.7** | 24.5 |
| Ymchwil i'r farchnad a gwasanaethau defnyddwyr | | **12.1** | 16.0 |
| Llyfrgelloedd, llinellau cymorth, datblygu a digwyddiadau unigol | | **93.3** | 84.2 |
| | | **338.3** | 338.9 |
| **Cyfanswm y gwariant ar raglenni** | | **2,494.2** | 2,466.1 |
| Gorbenion ac eithrio ailstrwythuro | (vii) | **311.5** | 281.6 |
| **Cyfanswm y gwariant ar allbwn** | | **2,805.7** | 2,747.7 |
| **Canran gwariant allbwn ar raglenni** | | **89%** | 90% |
| Costau casglu ffi'r drwydded | | **153.4** | 152.0 |
| Costau darlledu | (viii) | **166.9** | 157.3 |
| | | **320.3** | 309.3 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | (ix), 4c | **106.7** | 50.7 |
| Costau digidol yn y DU | (x) | **4.0** | – |
| **Cyfanswm gwariant PSB yn y DU** | | **3,236.7** | 3,107.7 |

(i) Roedd gwariant ar BBC One a BBC Radio Five Live yn uwch yn 2005 am fod y Gemau Olympaidd ac Euro 2004 wedi eu darlledu.

(ii) Cynyddodd gwariant teledu cenedlaethol a rhanbarthol yn 2006 i ategu polisi'r BBC o fuddsoddi mewn mentrau teledu lleol a rhaglennu gwleidyddiaeth leol.

(iii) Mae gwariant ar sianelau plant wedi cynyddu am fod swm cymesur mwy o gynnwys o ansawdd, yn arbennig drama, yn cael ei ddangos am y tro cyntaf ar sianel CBBC a CBeebies, yn hytrach nag ar BBC One neu BBC Two.

(iv) Mae'r gwariant ar BBC Four yn adlewyrchu parhad rhaglen buddsoddi'r sianel mewn rhaglenni gwreiddiol, gan gynnwys drama a chomedi.

(v) Aeth BBC Asian Network i fwy o gostau o ran cyfleusterau newydd wedi'u hailwampio a cham cyntaf strategaeth newydd a fydd yn arwain at amserlen gryfach gyda mwy o fuddsoddiad mewn newyddiaduraeth.

(vi) Lansiwyd BBC jam, y Cwricwlwm Digidol gynt, ym mis Ionawr 2006 gyda'r cynnwys yn cwmpasu pedwar maes pwnc. Bydd y gwasanaeth yn parhau i ehangu dros y ddwy flynedd a hanner nesaf, a bydd y cynnwys yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau ar draws y cwricwlwm a'r Cyfnodau Allweddol ac fe gaiff ei gyflwyno'n rheolaidd.

(vii) Gorbenion yw'r costau sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith ffisegol a gwasanaethau cynnal ar draws y BBC, sy'n cynnwys cost llety, technoleg, cyllid ac adnoddau dynol. Caiff cyfran y costau hyn y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i wneud rhaglenni ei chynnwys o fewn cyfanswm y gwariant ar raglenni, tra dangosir costau gwasanaethau a ddarperir ar draws y BBC yn ei gyfanrwydd fel gorbenion. Yn 2000, mabwysiadodd y BBC darged i gynyddu'r gyfran y mae'r BBC yn ei gwario ar raglenni, mewn perthynas â chyfanswm ei wariant ar raglenni. Nid yw gwariant ar ddarllediadau yn cynnwys costau casglu ffi'r drwydded, costau darlledu, costau ailstrwythuro eithriadol na holl gostau Digital UK. Pennodd y BBC darged i gynyddu'r gyfran a gaiff ei gwario ar raglennu i 85% a gyflawnwyd yn 2003, ac yn 2006, cyfran y gwariant yr aethpwyd iddo ar raglennu oedd 89%. Mae'r gorbenion yn 2006 yn uwch nag yn 2005, yn sgîl ad-daliadau unigol mewn Yswiriant Gwladol a threthi eiddo yn 2005.

(viii) O'r costau darlledu, mae £77.2miliwn yn ymwneud â gwasanaethau analog (2005 £76.7miliwn) ac £89.7miliwn â gwasanaethau digidol (2005 £80.6miliwn).

(ix) Mae costau ailstrwythuro yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â'r rhaglen newid sy'n digwydd o fewn y BBC a fydd yn sicrhau £355miliwn o arbedion yn flynyddol o 2008/09.

(x) Mae costau digidol yn y DU yn cynrychioli cyfran y BBC o'r costau rhedeg a'r costau marchnata ar gyfer Digital UK, y cwmni a fydd yn llywio'r broses drosglwyddo yn y DU, yn unol â strategaeth y Llywodraeth.

Nid yw gwariant BBC World Service yn cynnwys gwariant ar weithgareddau mewnol y Grŵp.

***2c Gwariant BBC World Service***

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Radio | **178.4** | 159.1 |
| Monitro | **26.5** | 25.2 |
| Costau darlledu a dosbarthu | **42.8** | 42.3 |
| Gweithgaredd y rhyngrwyd | **14.4** | 13.5 |
| **Cyfanswm** | **262.1** | 240.1 |

Mae gwariant BBC World Service yn cynnwys £12.4miliwn o gostau ailstrwythuro eithriadol (gweler Nodyn 4c)

Dim ond i'r incwm allanol y mae'r gwariant a ddangosir ar gyfer Busnesau Masnachol yn berthnasol ac nid yw'n cynnwys gwariant sy'n berthnasol i werthiannau o fewn y BBC.

***2d Gwariant Busnesau Masnachol***

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Costau gwerthu | | **325.8** | 323.5 |
| Costau dosbarthu | | **149.5** | 136.9 |
| Costau gweinyddol a chostau eraill | | **21.7** | 48.9 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni | 12 | **82.3** | 79.0 |
| **Cyfanswm** | | **579.3** | 588.3 |

**3 Diffyg gweithredol**

Nodir y diffyg gweithredol cyn llog a threthiant ar ôl codi tâl ar/(credydu'r) eitemau canlynol:

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Taliadau o dan brydlesau gweithredol | | |
| – tir ac adeiladau | **60.8** | 59.5 |
| – offer a pheiriannau | **4.3** | 13.2 |
| – arall | **12.5** | 10.2 |
| Ymchwil a datblygiad | **16.2** | 18.8 |
| Datblygu rhaglenni | **31.7** | 29.2 |
| Dibrisiant | | |
| – asedion a feddir | **107.1** | 113.9 |
| – asedion a brydlesir | **6.5** | 1.7 |
| Colled wrth waredu asedion sefydlog diriaethol* | **2.4** | 8.8 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **82.3** | 79.0 |
| Amorteiddio asedion sefydlog anniriaethol | **1.4** | 4.0 |
| Gwahaniaethau cyfnewid net | **(0.5)** | (2.8) |
| Colledion gwerth teg ar ddeilliadau sefydlog | **5.1** | – |
| Enillion gwerth teg ar flaen-gontractau arian cyfred tramor | **(4.3)** | – |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr (KPMG LLP) | | |
| – archwilio ariannol – UK Public Service Broadcasting | **0.7** | 0.6 |
| – arall | **0.5** | 0.5 |
| – gwasanaethau sicrwydd pellach | **0.3** | 0.4 |
| – gwasanaethau cynghori ar dreth | **0.3** | 0.4 |
| – gwasanaethau eraill nad ydynt yn wasanaethau archwilio | **0.4** | 0.3 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr masnachu teg (PricewaterhouseCoopers LLP) | **0.4** | 0.4 |

*Mae colled wrth waredu asedion sefydlog diriaethol yn cynrychioli addasiadau i ddibrisiant ar warediadau yn ystod y drefn busnes arferol. Datgelir gwarediadau sylweddol ar wahân yn Nodyn 6

## 4 Cyflogeion a chydnabyddiaeth

### *4a Pobl a gyflogir*

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2006 Nifer | 2005 Nifer |
|---|---|---|
| UK Public Service Broadcasting | **18,860** | 19,647 |
| BBC World Service | **2,367** | 2,347 |
| Busnesau Masnachol | **4,150** | 5,270 |
| **Cyfanswm y Grŵp** | **25,377** | 27,264 |

O fewn y cyfartaleddau uchod, cafodd 2,981 (2005 3,414) o gyflogeion rhan amser eu cynnwys ar eu ffigur cyfwerth ag amser llawn o 1,717 (2005 1,593).

Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y Grŵp 823 (2005 785) o bobl ar gyfartaledd cyfwerth ag amser llawn ar sail achlysurol a niferoedd Cerddorfa a Chantorion y BBC a gyflogwyd ar gontractau rhaglenni oedd 382 (2005 378) o bobl cyfwerth ag amser llawn.

Ar 31 Gorffennaf 2005 trosglwyddodd yr hyn sy'n gyfwerth ag 1,056 o gyflogeion amser llawn i Red Bee Media Limited fel rhan o werthu BBC Broadcast Limited. Adlewyrchir y trosglwyddiad hwn yn y cyfartaledd ar gyfer 2006.

### *4b Costau staff*

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | | **988.4** | 1,038.6 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | **88.4** | 95.1 |
| Costau pensiwn | | | |
| – prif gynllun (budd diffiniedig) | 8c ii | **184.9** | 176.8 |
| – cynlluniau eraill | 8c ii | **1.1** | 1.6 |
| Costau diswyddo | 4c | **129.5** | 61.5 |
| | | **1,392.3** | 1,373.6 |
| Gan gynnwys: | | | |
| UK Public Service Broadcasting | | **986.9** | 909.9 |
| BBC World Service | | **100.6** | 84.3 |
| Busnesau Masnachol | | **169.7** | 242.6 |
| Cost weithredol ychwanegol y prif gynllun pensiwn (budd diffiniedig)* | | **135.1** | 136.8 |
| | | **1,392.3** | 1,373.6 |

*Telir cyfraniadau ariannol gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig gan bob busnes. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp yn ychwanegol at y cyfraniadau hyn. Nid yw'n bosibl dyrannu hyn i bob busnes ar sail resymol a chyson

### *4c Costau ailstrwythuro*

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Costau diswyddo eithriadol: | | | |
| – UK Public Service Broadcasting | 2b | **106.7** | 50.7 |
| – BBC World Service | | **12.4** | – |
| | | **119.1** | 50.7 |
| Costau diswyddo nad ydynt yn eithriadol | | | |
| – BBC World Service | | **3.9** | 3.0 |
| – Busnesau Masnachol | | **6.5** | 7.8 |
| | | **10.4** | 10.8 |
| | 4b | **129.5** | 61.5 |

Mae costau diswyddo eithriadol yn ymwneud â'r rhaglen newid sy'n mynd rhagddi yn UK Public Service Broadcasting a'r arolwg strategol o BBC World Service.

*4d Cydnabyddiaeth Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Bwrdd Gweithredol*
Datgelir tâl y Llywodraethwyr ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar dudalen 88 yn adroddiad cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr.

**5 Elw wrth werthu a therfynu gweithrediadau**

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Elw wrth werthu BBC Broadcast Limited | 19 | **108.8** | – |
| Elw wrth werthu BBC Technology Holdings Limited | | **15.2** | 32.4 |
| Elw wrth waredu busnes dysgu | 19 | **1.7** | – |
| Colled wrth derfynu gweithrediadau | | **(0.5)** | (4.6) |
| Elw wrth waredu busnes llyfrau plant | | **–** | 0.4 |
| Elw wrth werthu a therfynu gweithrediadau | | **125.2** | 28.2 |

Ar 31 Gorffennaf 2005, gwerthodd y Grŵp BBC Broadcast Limited, is-gwmni o dan berchenogaeth lawn, am gydnabyddiaeth o £166.0miliwn i Creative Broadcast Services Limited, cwmni a berchenogir gan Macquarie Capital Alliance Group a Macquarie Bank Limited (gweler Nodyn 19). Darparodd BBC Broadcast Limited wasanaethau chwarae allan a rheoli sianelau.

Ar 30 Medi 2004, gwerthodd y Grŵp BBC Technology Holdings Limited i Siemens Business Services Limited. Cofnodwyd elw o £32.4miliwn yn 2005 ar ôl darparu £21.1miliwn ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn amcangyfrifedig mewn perthynas â'r nifer ddisgwyliedig o aelodau Cynllun Pensiwn y BBC a fyddai'n trosglwyddo i Siemens Business Services Limited. Yn ystod y flwyddyn, ar ôl cadarnhau nifer wirioneddol y staff a drosglwyddwyd o'r BBC i gynllun pensiwn Siemens, cadarnhawyd gwerth y rhwymedigaeth pensiwn sef £5.9miliwn, gan arwain at elw pellach o £15.2miliwn.

Ym mis Hydref 2005, daeth BBC Worldwide i gytundeb â Pearsons Education i ffurfio partneriaeth o'r enw BBC Active. Yn gyfnewid am drosglwyddo asedion ei is-adran dysgu i'r bartneriaeth, caffaelodd BBC Worldwide gyfran o 15% yn y bartneriaeth newydd ynghyd ag arian parod o £6.6miliwn (gweler Nodyn 19). Mae'r Grŵp yn rhoi cyfrif am ei fuddsoddiad fel ymgymeriad cyswllt.

Ym mis Awst 2005, cyhoeddodd BBC Worldwide ei fwriad i ddod â'i fusnes dysgu athrawon, a oedd yn cynnal gwefan dysgu, i ben. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, codwyd costau terfynu gwerth £0.5miliwn ar y cyfrif elw a cholled, yr oedd £0.3miliwn ohonynt yn gysylltiedig â dileu asedion a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2005. Y balans o £0.2miliwn oedd costau arian parod ymadael â'r busnes.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, daeth BBC Worldwide Limited â'i fusnes cyhoeddi amlgyfrwng a fu'n datblygu a marchnata teitlau hapchwarae ar gyfer Playstation, Xbox a Gameboy i ben. Arweiniodd hyn at gostau terfynu o £2.7miliwn gydag £1.4miliwn ohono yn gostau arian parod ymadael â'r busnes ac £1.3miliwn yn cynnwys lleihau gwerth stociau a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2004.

Ym mis Gorffennaf 2004, penderfynodd y Grŵp derfynu gweithrediadau BBC Vecta Limited. Arweiniodd hyn at golled wrth derfynu busnes o £1.9miliwn gyda £0.3miliwn ohoni yn gostau terfynu arian parod.

**6 Elw/(colled) wrth waredu asedion sefydlog**

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Gwaredu hawliau cyhoeddi cerddoriaeth | **9.3** | – |
| Adeiladau rhanbarthol | **1.5** | 19.4 |
| Adeiladau eraill | **5.2** | – |
| Safle White City | **–** | (62.5) |
| Elw/(colled) wrth waredu asedion sefydlog | **16.0** | (43.1) |

Ym mis Mai 2005, cwblhaodd BBC Worldwide y broses o werthu ei gatalog hawliau cyhoeddi cerddoriaeth cyfredol a ddelir o fewn Buddsoddiad mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol. Derbyniwyd cydnabyddiaeth o £10.3miliwn, gydag elw o £9.3miliwn. Derbyniwyd blaenswm arian parod yn erbyn y cytundeb ym mis Mawrth 2005.

Yn 2005, trefnodd y BBC drafodyn gwerthu ac adlesu adeiladau rhanbarthol; gwaredwyd 20 o adeiladau rhanbarthol yn 2005 gan wireddu elw o £19.4miliwn. Yn 2006, gwaredwyd dau adeilad rhanbarthol arall yn yr un modd, gan greu elw o £1.5miliwn. Yn 2006, gwaredodd y BBC Melbourne House, yr Hippodrome ac adeiladau Motspur Park gan wireddu elw cyfunol o £5.2miliwn.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, newidiodd y BBC y telerau sy'n weithredol ar gyfer meddiannu safle White City. Roedd hyn yn golygu cymryd nifer o gamau cyfreithiol ar wahân, gan gynnwys: prynu rhydd-ddaliad safle White City oddi wrth gyd-fenter y BBC gyda Land Securities Trillium (LST); canslo'r brydles bresennol ar safle White City a chyfalaf Partneriaeth Datblygu White City; a gwerthu ac adlesu safle White City gyda chyfrwng buddsoddi trydydd parti newydd.

Mae'r BBC o'r farn mai hanfod y camau ar wahân hyn yw eu bod wedi ffurfio rhan o un trafodyn yn ymwneud ag eiddo. Arweiniodd hyn at godi tâl net ar y cyfrif incwm a gwariant yn y flwyddyn o £62.5miliwn, yn cynnwys colled o £1.5miliwn wrth waredu safle White City, amorteiddiad cyflym gwerth £8.5miliwn o ewyllys da yn y partneriaethau eiddo a £52.5miliwn o'r amorteiddiad cyflym o falansau a ddangoswyd yn flaenorol mewn rhagdaliadau tymor hir. Ni chafwyd unrhyw effaith ariannol yn sgîl yr amorteiddiad cyflym hwn. Mae'r BBC yn disgwyl i'r tâl a gofnodwyd yn 2005 gael ei ad-dalu'n llwyr mewn blynyddoedd i ddod drwy daliadau rhent gostyngol.

## 7 Llog

### *7a Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg*

| | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | **13.5** | 5.2 |

### *7b Llog sy'n daladwy ac eitemau eraill*

| | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|
| Colledion gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog | **(2.3)** | – |
| Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill | **(9.2)** | (11.3) |
| Taliadau cyllid sy'n daladwy mewn perthynas â phrydlesau cyllid | **(0.5)** | – |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | **(12.0)** | (11.3) |

## 8 Pensiynau

### *8a Cynlluniau pensiwn y Grŵp*

Mae'r Grŵp yn gweithredu sawl cynllun pensiwn. Mae Cynllun Pensiwn y BBC (cynllun pwysicaf y BBC) a chynllun bach heb ei ariannu (nad yw ar gael i aelodau newydd) yn gynlluniau buddiannau diffiniedig ar sail cyfraniadau. Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp a chynlluniau bach eraill yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Mae Nodyn 8b yn disgrifio Cynllun Pensiwn y BBC ac mae Nodyn 8c yn esbonio'r holl symiau yn y datganiadau ariannol.

### *8b Cynllun Pensiwn y BBC*

Prif gynllun pensiwn y Grŵp yw Cynllun Pensiwn y BBC ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r cyflogeion. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddiannau sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig wedi eu hariannu gan asedion a ddelir mewn cronfeydd ar wahân, a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn rheoli'r cynllun yn y tymor byr, canolig a hir. Cytunant ar benderfyniadau cyllido yn seiliedig ar brisiadau sy'n arddel barn tymor hwy am yr asedion sydd eu hangen i ariannu rhwymedigaethau'r cynllun.

Cyflawnir prisiadau'r cynllun gan Watson Wyatt, sy'n actiwarïaid ymgynghorol. Cynhelir prisiadau ffurfiol bob tair blynedd, a chynhelir diweddariadau interim o'r prisiad ffurfiol diweddaraf ar gyfer diwedd pob blwyddyn ariannol. Cynhaliwyd y prisiad ffurfiol diweddaraf ar 1 Ebrill 2005 ac, yn gyson â newidiadau yn y fethodoleg prisio a ddefnyddir gan gynlluniau pensiwn eraill, mae prisiad actiwaraidd yr asedion wedi newid ac wedi'i gynnal gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar y farchnad. Cynhaliwyd y prisiad ffurfiol blaenorol (Ebrill 2002) a'i ddiweddariadau interim, yn cynnwys mis Mawrth 2005, ar sail dull gwerth asesedig (gweler Nodyn 8b iv).

Mae aeddfedrwydd cynllun yn awgrym o ofynion arian parod y cynllun ac agwedd debygol yr ymddiriedolwyr tuag at risg o fewn eu polisi buddsoddiad hwy. Po fwyaf aeddfed yw cynllun, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yr ymddiriedolwyr yn ffafrio buddsoddiadau risg isel.

*8b i Dadansoddiad o aelodaeth y cynllun a'i broffil aeddfedrwydd*

| | **2006 Nifer** | 2005 Nifer | 2004 Nifer |
|---|---|---|---|
| Cyfranwyr | **19,864** | 21,093 | 21,426 |
| Pensiynwyr | **16,803** | 16,567 | 16,302 |
| Dibynyddion | **3,676** | 3,622 | 3,555 |
| Pensiynwyr gohiriedig | **16,890** | 16,241 | 14,864 |

*8b ii Ariannu'r cynllun*

Mae'r cynllun wedi dangos gwarged actiwaraidd ers blynyddoedd lawer sydd wedi caniatáu i'r BBC ac aelodau'r cynllun dalu cyfraniadau ar gyfraddau gostyngol.

O ganlyniad i'r prisiad yn seiliedig ar y farchnad a gynhaliwyd gan Watson Wyatt yn 2005, cytunodd y Grŵp a'r ymddiriedolwyr y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn codi i 7.5% ar 1 Ebrill 2006 (gyda chyfraniadau cyflogeion yn codi i 6% yn haf 2006) ac yna'n codi i 17.3% ar 1 Ebrill 2007 gyda chyfraniadau cyflogeion yn codi i 7.5% ar yr un dyddiad. Mae hyn yn rhan o'r broses ymgynghori barhaus gyda staff y BBC ar y newidiadau arfaethedig i'r cynllun pensiwn. Fel arfer, câi'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf ei gynnal ar 1 Ebrill 2008, ond, o ystyried yr ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo, caiff y prisiad ffurfiol nesaf ei ddwyn ymlaen i 1 Ebrill 2007. Caiff y sefyllfa ei hadolygu eto unwaith y bydd canlyniadau'r prisiad ar 1 Ebrill 2007 yn hysbys.

| | Rhagamcaniadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008 % | 2007 % | 2006 % | 2005 % | 2004 % | 2003 % |
| Cyflogwr | 17.3 | 7.5 | 6.0 | 5.5 | 5.0 | 4.5 |
| Cyflogai | 7.5 | 5.5/6.0 | 5.5 | 5.0 | 4.5 | 4.5 |
| Cost sylfaenol y cynllun i'r BBC fel % o gyflogau pensiynadwy* | 17.3 | 19.3/18.8 | 19.3 | 19.0 | 19.5 | 20.4 |

* Yn eithrio'r gost a delir mewn gwirionedd gan y cyflogai

*8b iii Llifau arian parod y Cynllun (hylifedd 'o ddydd i ddydd')*

Yn 2006, mae all-lifau arian parod o'r cynllun pensiwn yn fwy na'i fewnlifau arian parod, fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys treuliau o £29.8miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau allan sy'n gysylltiedig â gwerthu BBC Technology.

| | **2006 £m** | 2005 £m | 2004 £m |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau (cyflogwr a chyflogai) | **112** | 99 | 90 |
| Incwm buddsoddi | **189** | 187 | 167 |
| Mewnlifau arian parod | **301** | 286 | 257 |
| Taliadau pensiynau a throsglwyddiadau allan | **(275)** | (239) | (220) |
| Treuliau | **(29)** | (22) | (20) |
| **Mewnlif arian parod net** | **(3)** | 25 | 17 |

Mae'r nodyn hwn yn ystyried p'un a yw asedion y cynllun yn ddigonol i gwmpasu rhwymedigaethau'r cynllun.

Mae prisiad FRS 17 yn cymryd asedion yn ôl eu gwerth ar y farchnad ac yn disgowntio'r rhwymedigaethau cronnus drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio bond corfforaeth gradd AA.

Mae prisiad actiwaraidd yn tybio y bydd y cynllun yn parhau am y dyfodol agos.

*8b iv Y gallu i fodloni ymrwymiadau hir dymor a sefyllfa ariannol y cynllun*

Mae'r prisiad ffurfiol diweddaraf (ar 1 Ebrill 2005) yn dangos gwarged o £13.0miliwn (gyda digon o asedion i gwmpasu ychydig dros 100% o'r buddiannau sy'n ddyledus i aelodau).

| **Prisiad FRS 17** | **2006 £m** | 2005 £m | 2004 £m | 2003 £m | 2002 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedion y cynllun (Nodyn 8b v) | **7,846** | 6,342 | 5,880 | 4,903 | 6,219 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun (Nodyn 8b vi) | **(7,676)** | (6,764) | (6,312) | (5,973) | (5,254) |
| Gwarged/(diffyg) | **170** | (422) | (432) | (1,070) | 965 |
| Canran y mae asedion y cynllun yn cwmpasu rhwymedigaethau | **102%** | 94% | 93% | 82% | 118% |

| **Prisiad actiwaraidd*** | 2005 Terfynol £m | 2005 Interim £m | 2004 Interim £m | 2003 Interim £m | 2002 Terfynol £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedion y cynllun (Nodyn 8b v) | 6,406 | 6,038 | 5,668 | 5,496 | 5,392 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun (Nodyn 8b vi) | (6,393) | (5,764) | (5,525) | (5,229) | (4,951) |
| Gwarged | 13 | 274 | 143 | 267 | 441 |
| Canran y mae asedion y cynllun yn cwmpasu rhwymedigaethau | 100% | 105% | 103% | 105% | 109% |

*Ar gyfer y blynyddoedd interim 2002 i 2005, cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd o asedion gan ddefnyddio dull gwerth asesedig sy'n rhoi gwerth ar asedion drwy ragamcanu'r incwm a gaiff ei gynhyrchu gan yr asedion, ac mae'n disgowntio asedion a rhwymedigaethau drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio gyfartalog ddoeth hir dymor sy'n gyson â phortffolio asedion y cynllun

Mae prisiad actiwaraidd terfynol 2005 wedi'i gynnal gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar y farchnad sy'n cymryd asedion yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar y dyddiad asesu ac yn disgowntio'r rhwymedigaethau drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio sy'n gyson ag amodau'r farchnad ar yr adeg honno a phortffolio asedion y cynllun.

Ni fydd ased na rhwymedigaeth treth ohiriedig yn codi ar gyfer y Grŵp gan nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd gwasanaeth cyhoeddus y Grŵp yn agored i drethiant.

Lle mae gwerthoedd FRS 17 yn uwch na'r gwerthoedd actiwaraidd yn 2004 a 2005 mae'n golygu bod y farchnad yn rhagweld adenillion mwy o fuddsoddiadau yn y dyfodol nag a dybid wrth ariannu rhwymedigaethau'r cynllun.

*8b v Asedion y cynllun*

Rheolir y dyraniad o asedion gan ymddiriedolwyr y cynllun gan angen i reoli risg yn erbyn y dymuniad am adenillion uchel ac unrhyw anghenion o ran hylifedd. Delir canran uchel o asedion mewn ecwitïau a fydd, yn ôl disgwyliadau'r ymddiriedolwyr, yn cynhyrchu adenillion uwch yn y tymor hir. Y dyraniad targed, yn seiliedig ar werthoedd y farchnad, ar gyfer ecwitïau yw 60%, 30% ar gyfer bondiau a giltiau a 10% ar gyfer eiddo.

| Math o ased | Cyfradd adennill tymor hir a ddisgwylir ar 31 Mawrth (a ddefnyddir ar gyfer gwerth y farchnad) | Gwerth FRS 17 £m | Gwerth FRS 17 % | Gwerth actiwaraidd* Terfynol £m | Gwerth actiwaraidd* Terfynol % | Gwerth actiwaraidd* Interim £m | Gwerth actiwaraidd* Interim % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | | | | |
| **Ecwitïau** | **7.7%** | **5,687** | **73** | | | | |
| **Bondiau a giltiau** | **4.4%** | **1,116** | **14** | | | | |
| **Eiddo** | **6.1%** | **890** | **11** | | | | |
| **Arian parod** | **3.9%** | **153** | **2** | | | | |
| **Cyfanswm yr asedion** | | **7,846** | | | | | |
| **2005** | | | | | | | |
| Ecwitïau | 7.7% | 4,333 | 68 | 4,320 | 67 | 4,294 | 71 |
| Bondiau a giltiau | 4.7% | 1,050 | 17 | 1,063 | 17 | 909 | 15 |
| Eiddo | 6.2% | 737 | 12 | 737 | 12 | 668 | 11 |
| Arian parod | 3.7% | 222 | 3 | 286 | 4 | 167 | 3 |
| Cyfanswm yr asedion | | 6,342 | | 6,406 | | 6,038 | |
| **2004** | | | | | | | |
| Ecwitïau | 7.9% | 4,118 | 70 | | | 4,109 | 72 |
| Bondiau a giltiau | 4.8% | 1,048 | 18 | | | 902 | 16 |
| Eiddo | 6.3% | 597 | 10 | | | 556 | 10 |
| Arian parod | 3.9% | 117 | 2 | | | 101 | 2 |
| Cyfanswm yr asedion | | 5,880 | | | | 5,668 | |

*Fel y nodir yn 8b iv, ar gyfer prisiadau actiwaraidd 2004 a 2005, rhoddwyd gwerth ar asedion y cynllun ar sail gwerth asesedig, ond ar gyfer prisiad terfynol 2005 defnyddiwyd dull ar sail y farchnad ar gyfer y prisiad actiwaraidd ac felly byddai'r un gwerth yn cael ei roi ar asedion y cynllun at ddibenion FRS 17 ac actiwaraidd o 2006 ymlaen.

Gwnaed y prisiad ffurfiol diwethaf yn 2005. Daw ffigurau 2005 a 2004 o ddiweddariad interim o brisiad ffurfiol 2002.

*8b vi Rhwymedigaethau'r cynllun*

Mae cyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau, demograffig ac ariannol. Y tybiaethau ariannol allweddol a wnaed gan yr actiwarïaid oedd:

Cymerir y gyfradd ddisgowntio ar gyfer y gwerth FRS 17 fel y gyfradd ar gyfer bond corfforaeth gradd AA.

Y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd yn y prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau yw'r adenillion disgwyliedig ar asedion a ddelir gan y cynllun ac a ystyrir yn gyfartaledd hir dymor doeth.

| Tybiaethau ariannol allweddol | 2006 % | 2005 Terfynol % | 2005 Interim % | 2004 Interim % |
|---|---|---|---|---|
| **Prisiad FRS 17** | | | | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **4.9** | | 4.7 | 4.7 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn | **2.9** | | 2.7 | 2.7 |
| Tybiaeth chwyddiant | **2.9** | | 2.7 | 2.7 |
| Cyfradd ddisgowntio ar gyfer prisiad FRS 17 | **5.0** | | 5.5 | 5.6 |
| Tybiaeth hirhoedledd ar ôl ymddeoliad (60 oed) – Dynion | **23.5 blwyddyn** | | 22.0 blwyddyn | 22.0 blwyddyn |
| Tybiaeth hirhoedledd ar ôl ymddeoliad (60 oed) – Merched | **25.7 blwyddyn** | | 24.5 blwyddyn | 24.5 blwyddyn |
| **Prisiad actiwaraidd** | | | | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | | 4.7 | 4.5 | 4.5 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn* | | 2.5/2.7 | 2.5 | 2.5 |
| Tybiaeth chwyddiant | | 2.7 | 2.5 | 2.5 |
| Cyfradd ddisgowntio ar gyfer prisiad actiwaraidd** | | 5.45/6.7 | 6.25 | 6.25 |
| Tybiaeth hirhoedledd ar ôl ymddeoliad (60 oed) – Dynion | | 23.5 blwyddyn | 22.0 blwyddyn | 22.0 blwyddyn |
| Tybiaeth hirhoedledd ar ôl ymddeoliad (60 oed) – Merched | | 25.7 blwyddyn | 24.5 blwyddyn | 24.5 blwyddyn |

Mae cyfradd ddisgowntio uwch yn golygu gwerth is am y rhwymedigaethau.

| Rhwymedigaethau'r cynllun ar y gwerth presennol | 2006 £m | 2005 Terfynol £m | 2005 Interim £m | 2004 Interim £m |
|---|---|---|---|---|
| Prisiad FRS 17 | **7,676** | | 6,764 | 6,312 |
| Prisiad actiwaraidd | | 6,393 | 5,764 | 5,525 |

*Mae'r cynnydd hwn mewn taliadau pensiwn buddiannau newydd yn parhau ar 2.5% yn unol â blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, mae hen fuddiannau wedi'u cynyddu yn unol â'r dybiaeth chwyddiant. Mae taliadau pensiwn aelodau Buddiannau Newydd yn cynyddu gyda RPI hyd at derfyn o 5% (y terfyn ar gyfer Hen Fuddiannau yw 10%). Mae'r dybiaeth hon wedi'i mabwysiadu yn seiliedig ar y ffaith y gallai'r RPI gynyddu uwchlaw 5% mewn rhai blynyddoedd a rhoddir terfyn ar y cynnydd mewn pensiwn Buddiannau Newydd, felly bydd y cynnydd ar gyfer Buddiannau Newydd yn is na'r RPI gwirioneddol ar gyfartaledd

**Ar gyfer prisiad 2005, mae disgownt deuol wedi'i fabwysiadu oherwydd bod gan yr asedau sy'n ategu'r buddiannau ar ôl ymddeol raniad gwahanol rhwng ecwitïau, bondiau, eiddo ac arian parod i'r rhai sy'n ategu'r taliadau pensiwn mewn rhwymedigaethau, gyda'r tybiaethau buddsoddi ar gyfer arian ar ôl ymddeol yn fwy gwrthwynebol i risg ac felly'n arwain at gyfradd ddisgownt is

***8c Taliadau pensiwn a balansau o fewn datganiadau ariannol***

*8c i Symudiad yn y rhwymedigaeth pensiwn yn ystod y flwyddyn*

Nid yw'r cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn arwain at asedion/rhwymedigaethau pensiwn ar y fantolen gan nad oes unrhyw rwymedigaeth barhaus i'r cyflogwr o'r cynlluniau hyn unwaith y bydd y cyfraniadau sy'n ddyledus am y flwyddyn wedi eu setlo.

| | Cynllun Pensiwn y BBC 2006 £m | Cynllun nas ariannwyd 2006 £m | Cyfanswm 2006 £m | Cynllun Pensiwn y BBC 2005 £m | Cynllun nas ariannwyd 2005 £m | Cyfanswm 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth pensiwn net ar ddechrau'r flwyddyn | **(421.8)** | **(5.0)** | **(426.8)** | (431.6) | (4.7) | (436.3) |
| Cyfraniadau (gan y cyflogwr)* | **49.8** | **0.2** | **50.0** | 40.0 | 0.2 | 40.2 |
| Tâl gweithredol am y flwyddyn | **(184.9)** | **(0.2)** | **(185.1)** | (176.8) | (0.2) | (177.0) |
| Incwm/(cost) cyllid net | **66.0** | **(0.3)** | **65.7** | 65.7 | (0.3) | 65.4 |
| Ennill net a gydnabuwyd yn STRGL | **661.1** | **–** | **661.1** | 80.9 | – | 80.9 |
| Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net terfynol | **170.2** | **(5.3)** | **164.9** | (421.8) | (5.0) | (426.8) |

*Mae'r cyfraniad a ddangosir ar gyfer y cynllun nas ariannwyd yn cynrychioli'r pensiynau a dalwyd i aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r tybiaethau ar gyfer rhwymedigaethau cynllun pensiwn y cynllun nas ariannwyd yr un fath â'r prif gynllun. Gan nad yw'r cynllun wedi'i ariannu, nid oes unrhyw asedion ac felly ni ddisgwylir adenillion ar asedion

Y gost gwasanaethu bresennol yw'r gost sylfaenol i'r BBC o hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

Daw cost gwasanaethu'r gorffennol o ganlyniad i aelodau'r cynllun yn cael yr hawl i fuddiannau ymddeol diffiniedig gwell, sy'n arwain at godi tâl am flynyddoedd o wasanaeth cyn dyfarnu'r gwelliant.

Mae'r adenillion o ran cyllid yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar yr hyn a ragwelir ar gyfer perfformiad ac amodau economaidd yn y dyfodol.

*8c ii Taliadau pensiwn yn y datganiad o incwm a gwariant*

| | Cynlluniau buddiannau diffiniedig | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Pensiwn y BBC £m | Cynllun nas ariannwyd £m | Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig £m | Pob cynllun £m |
| **2006** | | | | |
| **Cost gwasanaethu presennol** | **(194.1)** | **(0.2)** | **(0.9)** | **(195.2)** |
| **Cost gwasanaethu yn y gorffennol** | **(9.8)** | **–** | **–** | **(9.8)** |
| **Enillion ar setliadau a chwtogiadau*** | **19.0** | **–** | **–** | **19.0** |
| **Cost weithredol** | **(184.9)** | **(0.2)** | **(0.9)** | **(186.0)** |
| **Adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun pensiwn** | **431.8** | **–** | **–** | **431.8** |
| **Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn** | **(365.8)** | **(0.3)** | **–** | **(366.1)** |
| **Incwm/(cost) cyllid net** | **66.0** | **(0.3)** | **–** | **65.7** |
| **Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant** | **(118.9)** | **(0.5)** | **(0.9)** | **(120.3)** |
| **2005** | | | | |
| Cost gwasanaethu presennol | (192.3) | (0.2) | (1.4) | (193.9) |
| Cost gwasanaethu yn y gorffennol | (7.5) | – | – | (7.5) |
| Enillion ar setliadau a chwtogiadau | 23.0 | – | – | 23.0 |
| Cost weithredol | (176.8) | (0.2) | (1.4) | (178.4) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun pensiwn | 412.7 | – | dd/g | 412.7 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (347.0) | (0.3) | dd/g | (347.3) |
| Incwm/(cost) cyllid net | 65.7 | (0.3) | – | 65.4 |
| Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant | (111.1) | (0.5) | (1.4) | (113.0) |

*Roedd enillion ar gwtogiadau o £19.0miliwn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r trosglwyddiad ar gyfer cyflogeion BBC Broadcast Limited, y mae 395 ohonynt wedi dewis trosglwyddo eu buddiannau gwasanaeth o'r gorffennol i Gynllun Pensiwn Red Bee Media. Yn ogystal, roedd enillion pellach ar gwtogiadau o £3.0miliwn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â thua 180 o aelodau a adawodd y Cynllun ar 31 Mawrth 2006 fel rhan o'r ymarfer rhoi ar gontract allanol Adnoddau Dynol. Hefyd, roedd colled ar setliadau yn ystod y flwyddyn o tua £3.0miliwn mewn perthynas â'r swmpdaliad trosglwyddo o £29.8miliwn ar gyfer cyflogeion BBC Technology Limited i Siemens ar 16 Tachwedd 2005

Deillia'r enillion a'r colledion hyn o berfformiad gwirioneddol sy'n wahanol i'r un a ragwelwyd – er enghraifft, newidiadau mewn amodau economaidd neu broffil demograffig cyflogeion y BBC.

*8c iii Costau pensiwn yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig (STRGL)*

| | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun pensiwn | **1,249.2** | 198.7 |
| Profi enillion/(colledion) sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **208.6** | (1.4) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(796.7)** | (116.4) |
| **Enillion net a gydnabuwyd yn STRGL** | **661.1** | 80.9 |

Dim ond cynlluniau buddiannau diffiniedig sy'n arwain at enillion a cholledion yn yr STRGL.

Mae'r adenillion gwirioneddol ar asedion y cynllun yn sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd perfformiad cryf iawn y farchnad yn 2006, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, collwyd rhai o'r enillion hyn ers diwedd y flwyddyn gan fod y marchnadoedd wedi gostwng yn sydyn ers 31 Mawrth 2006.

Caiff yr enillion ar asedion y cynllun eu gwrthbwyso'n rhannol gan golled actiwaraidd o ganlyniad i newidiadau mewn tybiaethau sy'n ymwneud â chyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun. Y newidiadau allweddol yw bod cyfraddau hirhoedledd wedi cael eu cynyddu gan fod pensiynwyr a dibynyddion yn byw'n hirach (ac felly'n cael pensiwn am gyfnod hirach) nag a dybiwyd yn flaenorol a bod y gyfradd ddisgownt (yr ystyrir ei bod ar yr un gyfradd â bond corfforaethol gradd AA) wedi gostwng o 5.5% i 5.0%.

Cynlluniwyd y nodyn hwn i ddangos tueddiadau dros sawl blwyddyn.

*8c iv Hanes profi enillion a cholledion*

| | **2006** | 2005 | 2004 | 2003 | 2002 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y swm y mae'r adenillion disgwyliedig ar asedion y cynllun yn (uwch)/is na'r adenillion gwirioneddol: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **1,249.2** | 198.7 | 778.4 | (1,607.9) | (532.0) |
| Canran asedion y cynllun | **15.9%** | 3.1% | 13.2% | 32.8% | 8.6% |
| Profi enillion a (cholledion) ar rwymedigaethau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **208.6** | (1.4) | 0.1 | (12.4) | 26.6 |
| Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **2.7%** | 0.0% | 0.0% | 0.2% | 0.5% |
| Cyfanswm enillion/(colledion) a gydnabuwyd yn STRGL: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **661.1** | 80.9 | 778.5 | (2,013.4) | (725.4) |
| Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **8.6%** | 1.2% | 12.3% | 33.7% | 13.8% |

***8d Tâl pensiwn UK Public Service Broadcasting***

Mae UK Public Service Broadcasting, yn unol â darpariaeth cynllun y grŵp yn FRS 17, yn cyfrifyddu'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn am nad yw'n bosibl nodi eu cyfran hwy o asedion a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson. Felly mae'r gwariant ar gyfer UK Public Service Broadcasting, sef £38.2miliwn, yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Pennir y cyfraniadau hyn yn seiliedig ar yr anghenion ariannu a nodwyd o'r prisiad ac maent yn elwa ar y warged actiwaraidd (gweler Nodyn 8b iv). Felly maent yn is na'r gost sylfaenol.

## 9 Trethiant

***9a Dadansoddiad o'r taliadau a godwyd am y flwyddyn***

Roedd y tâl a godwyd am y flwyddyn, yn seiliedig ar y gyfradd treth gorfforaeth o 30% (2005 30%), yn cynnwys:

| | Nodyn | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | | |
| Treth gorfforaeth y DU | | **17.6** | 7.1 |
| Didynnu: rhyddhad treth dwbl | | **(3.2)** | (2.7) |
| | | **14.4** | 4.4 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **0.3** | (8.3) |
| | | **14.7** | (3.9) |
| Treth dramor | | **8.2** | 3.8 |
| Cyfran o dreth partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **8.9** | 5.5 |
| **Cyfanswm y dreth gyfredol** | 9b | **31.8** | 5.4 |
| **Treth ohiriedig** | | | |
| Tarddiad a gwrthdroad y gwahaniaethau amseru | | **(0.4)** | 5.3 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **(3.7)** | 4.5 |
| **Cyfanswm y dreth ohiriedig** | 9d | **(4.1)** | 9.8 |
| **Cyfanswm y tâl a godwyd am y flwyddyn** | | **27.7** | 15.2 |

*9b Ffactorau sy'n effeithio ar y tâl treth a godir*

Dim ond ar y gweithgareddau hynny a gyflawnir gyda'r bwriad o wneud elw ac ar rent, breindaliadau a llog derbyniadwy y mae'r Grŵp yn agored i drethiant. Felly nid yw'r BBC yn cael rhyddhad ar gyfer ei holl wariant ac o ganlyniad, mae'r dreth a asesir am y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaeth y DU. Eglurir y gwahaniaethau isod:

| | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) cyn treth | | **31.4** | (173.5) |
| Gwarged/(diffyg) cyn treth wedi ei luosi â chyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU o 30% (2005 30%) | | **9.4** | (52.0) |
| **Effeithiau** | | | |
| Incwm allanol trethadwy gwasanaethau cyhoeddus | | **(2.1)** | 1.7 |
| Diffyg nad yw'n drethadwy mewn Gwasanaethau Cyhoeddus | | **38.4** | 59.4 |
| Elfen tâl pensiwn Grŵp net FRS 17 a godir | | **20.8** | 21.5 |
| ***Gweithgareddau masnachol*** | | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | | **(38.4)** | (17.2) |
| Gwariant nas caniateir | | **2.1** | 3.1 |
| Trethiant y DU ar ddifidendau tramor mewnol y Grŵp | | **–** | 1.6 |
| Lwfansau cyfalaf sy'n fwy na dibrisiant | | **(3.8)** | (3.5) |
| Gwahaniaeth treth par enillion tramor | | **1.6** | (0.7) |
| Arall | | **3.5** | (0.2) |
| Addasiadau mewn perthynas â chyfnodau blaenorol | | **0.3** | (8.3) |
| Tâl treth presennol a godir am y flwyddyn | 9a | **31.8** | 5.4 |

*9c Ffactorau a allai effeithio ar daliadau treth a godir yn y dyfodol*

Mae'r Grŵp yn rhagweld na fydd y tâl treth a godir yn y dyfodol yn newid yn sylweddol gan fod yr holl incwm o ffi'r drwydded yn ddi-dreth.

*9d Dadansoddiad o dreth ohiriedig*

| Symudiad ar y ddarpariaeth/(ased) treth ohiriedig yn y flwyddyn | Nodyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth/(ased) ar ddechrau'r flwyddyn | | **10.0** | (1.9) |
| Addasiad cyfnewid | | **(0.4)** | 0.2 |
| (Credyd)/tâl treth ohiriedig | 9a | **(4.1)** | 9.8 |
| Gwaredu is-gwmni | | **(2.4)** | 1.9 |
| Darpariaeth treth ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | | **3.1** | 10.0 |

| Dadansoddiad o'r ddarpariaeth/(ased) treth ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|
| Lwfansau cyfalaf cyflym | **13.1** | 15.4 |
| Gwahaniaethau amseru eraill | **(3.6)** | (0.1) |
| Darpariaeth treth ohiriedig | **9.5** | 15.3 |
| Gwahaniaethau amseru'r UD | **(6.4)** | (5.3) |
| Ased treth ohiriedig | **(6.4)** | (5.3) |
| Darpariaeth treth ohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn | **3.1** | 10.0 |

## 10 Asedion sefydlog anniriaethol

Ewyllys da yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth a dalwyd am fusnes a gwerth teg ei asedion net. Mae'n cynrychioli'r premiwm y mae'r prynwr yn barod i'w dalu am y busnes.

| | Ewyllys da £m | Eitemau anniriaethol eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 22.8 | 0.4 | **23.2** |
| Ychwanegiadau | 0.1 | 0.3 | **0.4** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **22.9** | **0.7** | **23.6** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 2.5 | 0.4 | **2.9** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 1.3 | 0.1 | **1.4** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **3.8** | **0.5** | **4.3** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **19.1** | **0.2** | **19.3** |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 20.3 | – | 20.3 |

Mae'r ychwanegiad i ewyllys da yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r addasiad terfynol i'r gydnabyddiaeth prynu amodol ar gyfer Origin Publishing Limited. Yn sgîl caffael 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Origin Publishing Limited ar 20 Chwefror 2004 gan BBC Worldwide, roedd cydnabyddiaeth amodol o hyd at £5.1miliwn yn daladwy, yn seiliedig ar berfformiad y busnes a gaffaelwyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2005. Setlwyd y swm llawn, sef £5.1miliwn, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, y talwyd £0.8miliwn ohono mewn arian parod a setlwyd y balans, sef £4.3miliwn, drwy roi nodiadau benthyg. O'r £5.1miliwn a setlwyd, roedd £5.0miliwn wedi'i gronni a'i gydnabod fel ewyllys da ychwanegol yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005.

Mae'r eitemau anniriaethol eraill yn cynnwys rhestr cwsmeriaid o enwau ac enwau brand. Mae ychwanegiadau i asedion anniriaethol eraill yn cynnwys prynu rhestri cwsmeriaid yn ystod y flwyddyn a chaiff y rhain eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod o 2-4 blynedd yn amodol ar adolygiadau ar gyfer lleihad.

## 11 Asedion sefydlog diriaethol

### *11a Grŵp*

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedion yn cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 431.5 | 950.2 | 146.5 | 87.2 | **1,615.4** |
| Ychwanegiadau | 6.1 | 56.1 | 15.7 | 65.6 | **143.5** |
| Dygwyd i wasanaeth | 3.5 | 52.0 | 5.8 | (61.3) | **–** |
| Gwarediadau | (14.8) | (26.7) | (8.0) | (1.4) | **(50.9)** |
| Gwaredu is-gwmni | – | (75.7) | (4.8) | (1.7) | **(82.2)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **426.3** | **955.9** | **155.2** | **88.4** | **1,625.8** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 225.2 | 597.4 | 71.2 | – | **893.8** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 14.6 | 85.1 | 13.9 | – | **113.6** |
| Dileu mewn perthynas â gwarediadau | (4.7) | (23.4) | (5.7) | – | **(33.8)** |
| Gwaredu is-gwmni | – | (43.8) | (1.2) | – | **(45.0)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **235.1** | **615.3** | **78.2** | **–** | **928.6** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **191.2** | **340.6** | **77.0** | **88.4** | **697.2** |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 206.3 | 352.8 | 75.3 | 87.2 | 721.6 |

*11 b UK Public Service Broadcasting*

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedion yn cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 362.1 | 510.0 | 120.9 | 63.7 | **1,056.7** |
| Ychwanegiadau | 6.0 | 38.9 | 11.1 | 37.4 | **93.4** |
| Dygwyd i wasanaeth | 1.6 | 34.7 | 3.0 | (39.3) | **–** |
| Gwarediadau | (14.7) | (14.6) | (6.8) | (0.4) | **(36.5)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **355.0** | **569.0** | **128.2** | **61.4** | **1,113.6** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 185.9 | 327.8 | 54.9 | – | **568.6** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 11.5 | 52.0 | 11.2 | – | **74.7** |
| Dileu mewn perthynas â gwarediadau | (4.4) | (13.7) | (4.6) | – | **(22.7)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **193.0** | **366.1** | **61.5** | **–** | **620.6** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **162.0** | **202.9** | **66.7** | **61.4** | **493.0** |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 176.2 | 182.2 | 66.0 | 63.7 | 488.1 |

*11c Mae tir ac adeiladau ar werth llyfr net yn cynnwys:*

| | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| Tir heb golli gwerth | **18.3** | 21.7 | **18.0** | 21.6 |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | **105.2** | 121.4 | **95.5** | 110.1 |
| Cyfanswm y rhydd-ddaliadau | **123.5** | 143.1 | **113.5** | 131.7 |
| Prydlesau hir | **45.5** | 52.0 | **26.3** | 33.3 |
| Prydlesau byr | **22.2** | 11.2 | **22.2** | 11.2 |
| | **191.2** | 206.3 | **162.0** | 176.2 |

*11d Prydlesau cyllid*

Asedion a ddelir o dan brydlesau cyllid, eu cyfalafu a'u cynnwys mewn asedion sefydlog diriaethol:

| | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| Cost | **15.6** | – | **14.2** | – |
| Dibrisiant cronedig | **(6.5)** | – | **(5.9)** | – |
| **Gwerth llyfr net** | **9.1** | – | **8.3** | – |

Mae'r prydlesau cyllid yn ymwneud ag offer TG a brydleswyd yn wreiddiol i'r BBC o dan brydlesau gweithredol. Ar 1 Ebrill 2005, cafodd y contract ei amrywio er mwyn galluogi'r BBC i ddefnyddio'r asedion yn sylweddol am y cyfan o'u bywydau economaidd. O ganlyniad, mae'r asedion hyn wedi'u cyfalafu a'u cynnwys mewn asedion sefydlog diriaethol.

*12 Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol*

| | Grŵp £m |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 228.7 |
| Addasiad cyfnewid | 1.9 |
| Ychwanegiadau | 93.5 |
| Gwarediadau | (4.1) |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (73.0) |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **247.0** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 131.4 |
| Addasiad cyfnewid | 1.1 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 82.3 |
| Gwarediadau | (1.3) |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (73.0) |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **140.5** |
| **Gwerth llyfr net** | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **106.5** |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 97.3 |

Mae buddsoddiadau gan BBC Worldwide mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn berthnasol i raglenni a ddarperir gan y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae'r ffigur ychwanegiadau uchod yn cynnwys £89.0miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol yn rhaglenni'r BBC (2005 £74.6miliwn).

Mae £3.6miliwn (2005 £2.5miliwn) sy'n berthnasol i fuddsoddiadau a ddelir o dan gytundeb trwydded wedi ei gynnwys yn y gwerth llyfr net.

Yn ystod y flwyddyn, gwaredwyd hawliau cyhoeddi cerddoriaeth â gwerth cario o £1.0miliwn (gweler Nodyn 6) ac fel rhan o'r broses o werthu busnes dysgu BBC Worldwide Limited, gwaredwyd eitem â gwerth cario o £1.8miliwn (gweler Nodyn 5).

## 13 Buddsoddiadau eraill (gan gynnwys asedion net BBC World Service)

*13a Symudiadau yn ystod y flwyddyn i'r Grŵp*

| | Buddiannau mewn cyd-fentrau Nodyn 13b £m | Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt Nodyn 13c £m | **Cyfanswm y Grŵp £m** |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 10.7 | 0.8 | **11.5** |
| Addasiad cyfnewid | – | 0.1 | **0.1** |
| Ychwanegiadau | 1.5 | – | **1.5** |
| Gwarediadau | – | (0.4) | **(0.4)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **12.2** | **0.5** | **12.7** |
| **Cyfran y cronfeydd ôl-gaffael wrth gefn** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 1.7 | 0.5 | **2.2** |
| Addasiad cyfnewid | (0.2) | – | **(0.2)** |
| Cyfran yr elw/(colledion) ar ôl trethiant | 30.0 | (9.3) | **20.7** |
| Difidendau a dderbyniwyd | (19.4) | (0.4) | **(19.8)** |
| Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaethau gwirioneddol | (5.8) | 9.8 | **4.0** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **6.3** | **0.6** | **6.9** |
| **Ewyllys da** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | 26.9 | – | **26.9** |
| Ychwanegiadau | 1.5 | – | **1.5** |
| Amorteiddio | (1.7) | – | **(1.7)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **26.7** | **–** | **26.7** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **45.2** | **1.1** | **46.3** |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 39.3 | 1.3 | 40.6 |

Cyd-fentrau yw busnesau y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill.

***13b Buddiannau mewn cyd-fentrau***

*13b i Cyd-fentrau sylweddol a'u gweithgareddau*

Mae gan y Grŵp fuddiant ecwiti o 50% yn y cyd-fentrau canlynol y mae pob un ohonynt yn gorfforedig ym Mhrydain Fawr ac a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr, oni nodir yn wahanol:

| Enw'r endid | Gweithgaredd | Partner | Dyddiad cyfrifyddu |
|---|---|---|---|
| UK Channel Management Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2005 |
| UK Gold Holdings Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2005 |
| UKTV New Ventures Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2005 |
| UKTV Interactive Limited | Sianelau | Flextech | 31 Rhagfyr 2005 |
| JV Programmes LLC[1] | Sianelau | Discovery | 31 Rhagfyr 2005 |
| BBC Haymarket Exhibitions Limited | Cyhoeddi | Haymarket Exhibitions Limited | 31 Rhagfyr 2005 |
| Worldwide Media Limited[2] | Cylchgronau | Bennett, Coleman and Company Limited | 31 Gorffennaf 2005 |
| 2\|entertain Limited[3] | Fideo/DVD | Woolworths | 28 Ionawr 2006 |
| DTV Services Limited[4] | Marchnata | Crown Castle UK Limited, British Sky Broadcasting Limited | 31 Awst 2005 |
| Insight Property Partnership | Eiddo | Land Securities Trillium (Media Services) Limited | 31 Mawrth 2006 |
| Daunus Limited[5] | Eiddo | Land Securities Trillium (BH) Limited, Morgan Stanley Delta LLC, Structured Finance Management Limited | 30 Tachwedd 2005 |

[1] Yn gorfforedig yn UDA
[2] Yn gorfforedig yn India
[3] 60% o fuddiant ecwiti
[4] 20% o fuddiant ecwiti
[5] Daliad 100% o gyfranddaliadau dosbarth 'A', yn cynrychioli 10% o gyfanswm cyfranddaliadau Daunus Limited a ddyroddwyd. Delir gweddill y cyfranddaliadau yn Daunus Limited gan y partneriaid eraill. Mae'r BBC yn dal ei fuddsoddiad yn Daunus Limited drwy is-gwmni, BBC Property Development Limited.

Ers nifer o flynyddoedd mae'r BBC, drwy ei is-gwmni BBC Worldwide, wedi cael cytundebau partneriaeth mawr gyda Flextech, is-adran gynnwys Telewest Communications plc, i gynhyrchu a marchnata sianelau tanysgrifio yn y DU a chyda Discovery Communications Inc. ar gyfer sianelau newydd ar draws y byd a darparu arian cyd-gynhyrchu newydd ar gyfer rhaglenni. Mae'r cynghreiriau hyn yn gweithredu'r cyd-fentrau a restrir uchod. Nid oes gan y BBC unrhyw ymrwymiad i dalu ei gyfran o'u colledion gweithredol cronnus.

Mae'r BBC yn rhan o gyd-fenter, DTV Services Limited, i ddarparu gwasanaethau marchnata ar gyfer sianelau digidol ar lwyfan daearol yn y DU. Deil is-gwmni'r BBC sef BBC Free to View Limited (gweler Nodyn 13e) drwydded amlneges ddaearol ddigidol y BBC a'i fuddiant ecwiti yn y gyd-fenter i sicrhau y rheolir costau'r gyd-fenter hon ar wahân i weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded. Ar 11 Hydref 2005, gwerthodd y Grŵp gyfranddaliad o 13% yn DTV Services Limited gan leihau ei fuddiant ecwiti i 20%.

Mae'r gyd-fenter gyda Land Securities Trillium (LST), Insight Property Partnership, yn darparu ystod o wasanaethau eiddo a datblygu i'r BBC. Sefydlwyd cyd-fentrau cysylltiedig a phartneriaethau cyswllt i ddatblygu eiddo penodol y BBC. Ym mis Mai 2005 cytunodd y BBC ac LST i ailstrwythuro'r bartneriaeth hon. Bydd cytundeb Insight Property Partnership i ddarparu rheolaeth cyfleusterau a gwasanaethau eiddo i'r BBC yn dod i ben ar 30 Mehefin 2006.

Ym mis Rhagfyr 2004, cwblhaodd BBC Worldwide gaffaeliad o 50% o fuddiant ecwiti yn Worldwide Media Limited, cyd-fenter cyhoeddi cylchgronau yn India ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth arian parod o £5.5miliwn. Cododd ewyllys da o £2.9miliwn ar y trafodyn. Gall cydnabyddiaeth amodol a dalwyd i'r gyd-fenter o hyd at 245miliwn rwpi (£3.0miliwn) fod yn daladwy, yn seiliedig ar berfformiad ariannol y busnes a gaffaelwyd yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2006. Yn seiliedig ar y targedau ariannol y gellir eu cymhwyso a pherfformiad ariannol byr dymor y busnes yn ystod y cyfnod hwn, cydnabuwyd y gydnabyddiaeth amodol lawn wrth gyfrifo ewyllys da yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006. Cofnodwyd y buddsoddiad ychwanegol hwn sy'n daladwy i'r gyd-fenter fel ychwanegiad i gyfran y Grŵp o asedion net cyd-fentrau (£1.5miliwn) ac fel ewyllys da ychwanegol o £1.5miliwn.

Mae'r datgeliadau canlynol yn cynrychioli cyfranddaliadau ecwiti'r Grŵp o asedion a rhwymedigaethau ei gyd-fentrau yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu diweddaraf, fel y dangosir uchod. Pan fo'r cyfnod cyfrifyddu diweddaraf ar gyfer y gyd-fenter yn fwy na thri mis cyn dyddiad cyfeirio cyfrifyddu y Grŵp, sef 31 Mawrth, mae'r wybodaeth ariannol interim ddiweddaraf wedi'i defnyddio.

*13b ii Cyfran y Grŵp o ganlyniadau ac asedion net cyd-fentrau*

| Cyfran y Grŵp o: | 2\|entertain Limited £m | UK Gold Holdings Limited* £m | UK Channel Management Limited* £m | Cyd-fentrau eraill £m | Cyfanswm y cyd-fentrau 2006 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | | |
| **Trosiant** | 115.2 | 40.8 | 36.3 | 37.2 | **229.5** |
| **Elw/(colled) cyn treth** | 28.2 | 7.8 | 11.7 | (1.7) | **46.0** |
| **Trethiant** | (8.5) | (3.8) | (3.5) | (0.2) | **(16.0)** |
| **Elw/(colled) ar ôl treth** | **19.7** | **4.0** | **8.2** | **(1.9)** | **30.0** |
| **Asedion sefydlog** | 5.2 | – | – | 7.9 | **13.1** |
| **Ewyllys da** | 22.6 | – | – | 4.1 | **26.7** |
| **Asedion cyfredol** | 59.3 | 16.4 | 34.5 | 29.5 | **139.7** |
| **Rhwymedigaethau llai na blwyddyn** | (53.5) | (8.9) | (13.4) | (6.4) | **(82.2)** |
| **Rhwymedigaethau mwy na blwyddyn** | – | (22.7) | (25.1) | (41.5) | **(89.3)** |
| **Addasiad i adlewyrchu ymrwymiadau gwirioneddol** | – | 15.2 | 4.0 | 18.0 | **37.2** |
| **Gwerth llyfr net** | **33.6** | **–** | **–** | **11.6** | **45.2** |
| **2005** | | | | | |
| Trosiant | 64.0 | 36.8 | 31.6 | 29.4 | 161.8 |
| Elw/(colled) cyn treth | 16.7 | 11.0 | 9.0 | (3.1) | 33.6 |
| Trethiant | (5.1) | (2.8) | (2.7) | (0.1) | (10.7) |
| Elw/(colled) ar ôl treth | 11.6 | 8.2 | 6.3 | (3.2) | 22.9 |
| Asedion sefydlog | 3.8 | – | – | 7.4 | 11.2 |
| Ewyllys da | 24.1 | – | – | 2.8 | 26.9 |
| Asedion cyfredol | 68.2 | 15.6 | 21.1 | 25.5 | 130.4 |
| Rhwymedigaethau llai na blwyddyn | (65.0) | (6.6) | (2.9) | (5.1) | (79.6) |
| Rhwymedigaethau mwy na blwyddyn | – | (28.1) | (30.4) | (37.8) | (96.3) |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiadau gwirioneddol | – | 19.1 | 12.2 | 15.4 | 46.7 |
| Gwerth llyfr net | 31.1 | – | – | 8.2 | 39.3 |

*Seilir y ffigurau ar ddatganiadau ariannol nas archwiliwyd

Yn unol â thelerau'r cytundebau â Flextech a Discovery, nid oes unrhyw reidrwydd ar y Grŵp i ariannu colledion yr aethpwyd iddynt gan yr endidau nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad, nid yw'r Grŵp yn rhannu colledion/rhwymedigaethau net yr endidau perthnasol ac felly ni chynhwysir unrhyw gyfran o'r rhain yn y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 (2005 £dim). Mae cyfran y rhwymedigaethau net nas cydnabuwyd yn cynnwys y £37.2miliwn a ddangosir yn y tabl fel 'addasiad i adlewyrchu ymrwymiadau gwirioneddol'. Mae gan y Grŵp yr hawl i'w gyfran o unrhyw elw neu asedion net unwaith y bydd elw cronnol y mentrau yn fwy na'r colledion cronnol ers yr ymgorfforiad.

Busnesau yw partneriaethau cyswllt y mae gan y BBC gryn ddylanwad drostynt ond nid rheolaeth lwyr.

### *13c Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt*

*13c i Partneriaethau cyswllt sylweddol a'u gweithgareddau*

Mae'r Grŵp yn dal buddiannau sylweddol (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) yn y prif bartneriaethau cyswllt a restrir isod, sydd, oni nodir yn wahanol, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae rhestr lawn o bartneriaethau cyswllt ar gael ar gais gan The Secretary, BBC, Room MC3C3, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd % | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| Parliamentary Broadcasting Unit Limited | 33 | Darparwr cynnwys |
| Broadcasters Audience Research Board Limited (BARB) | * | Ymchwil cynulleidfa |
| The Commonwealth Broadcasting Association | * | Fforwm darlledu |
| Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR) | 50 | Ymchwil cynulleidfa |
| Frontline Limited | 23 | Cyhoeddi |
| UKTV Pty Limited (Yn gorfforedig yn Awstralia) | 20 | Sianelau |
| People and Arts (America Ladin) LLC (Yn gorfforedig yn UDA)** | 50 | Sianelau |
| Animal Planet LLC (Yn gorfforedig yn UDA)**** | 25 | Sianelau |
| The Animal Planet Europe Partnership** | 50 | Sianelau |
| Animal Planet Japan KK (Yn gorfforedig yn Japan)** | 33 | Sianelau |
| Jasper Broadcasting Inc (Yn gorfforedig yn Canada) | 20 | Sianelau |
| Jasper Junior Broadcasting Inc (Yn gorfforedig yn Canada) | 20 | Sianelau |
| 3sixtymedia Limited | 10 | Cynhyrchu |
| White City Development Partnership | *** | Eiddo |

* Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mae'r BBC yn gyd-aelod ohonynt ynghyd â darlledwyr eraill
** Partneriaeth gyswllt Discovery
*** cyfranddaliad partneriaeth o 50%
**** Animal Planet LLC (Partneriaeth gyswllt Discovery). Gwerthodd y Grŵp ei gyfranddaliadau ar 3 Ebrill 2006.

*13c ii Cyfran y Grŵp o drosiant ac asedion net partneriaethau cyswllt*

Seilir y datgeliadau ychwanegol canlynol ar ganlyniadau partneriaethau cyswllt Discovery am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2005 a seilir datgeliadau y partneriaethau cyswllt sy'n weddill ar y canlyniadau ar ddyddiad eu datganiadau ariannol unigol. Mae'r datgeliadau ychwanegol hyn yn cynrychioli cyfran ecwiti y Grŵp o asedion a rhwymedigaethau'r endidau hynny.

| Buddiannau'r Grŵp mewn partneriaethau cyswllt | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|
| Cyfran y trosiant | **49.6** | 42.9 |
| Cyfran yr asedion sefydlog | **52.0** | 38.8 |
| Cyfran yr asedion cyfredol | **28.2** | 24.5 |
| Cyfran y rhwymedigaethau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **(22.5)** | (19.3) |
| Cyfran y rhwymedigaethau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **(160.9)** | (123.9) |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiad gwirioneddol | **104.3** | 81.2 |
| **Buddiannau net mewn partneriaethau cyswllt** | **1.1** | 1.3 |

Mae'r canlyniadau yn cynnwys cyfran y Grŵp o elw/(colled) weithredol UKTV Pty Limited o £0.5miliwn (2005 £0.5miliwn), Frontline Limited o £0.5miliwn (2005 £0.7miliwn), Children's Character Books Limited o £(0.2)miliwn (2005 £(0.1)miliwn), a BBC World (India) Private Limited o £dim (2005 £0.1miliwn). Cyfran y Grŵp o'r partneriaethau cyswllt sy'n weddill, gan gynnwys Jasper Broadcasting Inc a Jasper Junior Broadcasting Inc, a weithredir mewn partneriaeth ag Alliance Atlantis, oedd £dim (2005 £dim).

Yn unol â thelerau'r cytundebau gyda Discovery ac Alliance Atlantis, nid oes gan y Grŵp unrhyw ymrwymiad i ariannu colledion yr aethpwyd iddynt gan yr endidau nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad, nid yw'r Grŵp yn rhannu colledion na rhwymedigaethau net yr endidau perthnasol ac yn unol â hynny ni chynhwysir unrhyw gyfran o'r colledion yn y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 (2005 £dim). Mae gan y Grŵp yr hawl i'w gyfran o unrhyw elw neu asedion net unwaith y bydd elw cronnol y mentrau yn fwy na'r colledion cronnol ers yr ymgorfforiad, ac eithrio JV Network LLC. Sefydlwyd JV Network LLC at ddiben darparu arian ar gyfer dyledion gan Discovery i gyd-fentrau eraill Discovery ac nid oes gan BBC Worldwide yr hawl i unrhyw elw sy'n codi o fewn yr endid hwn.

***13d Symudiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer UK Public Service Broadcasting***

| | Buddiant yn asedion net BBC World Service £m | Buddiannau mewn is-gwmnïau £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2005 | 160.1 | 125.3 | **285.4** |
| Diffyg am y flwyddyn | (1.5) | – | **(1.5)** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **158.6** | **125.3** | **283.9** |

Mae ymgymeriadau is-gwmnïau yn fusnesau a reolir gan y BBC.

*13e Ymgymeriadau is-gwmnïau*

Rhestrir prif ymgymeriadau is-gwmnïau'r BBC ar 31 Mawrth 2006 isod. Mae pob un â pherchenogaeth lwyr ac wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae rhestr lawn o'r is-gwmnïau ar gael ar gais gan The Secretary, BBC, Room MC3C3, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

| Enw'r endid | | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| BBC Commercial Holdings Limited | * | Cwmni dal |
| BBC Worldwide Limited | ** | Cyhoeddi, sianelau a dosbarthu rhaglenni |
| BBC World Limited | ** | Sianelau |
| BBC Ventures Limited | ** | Cwmni dal |
| BBC Resources Limited | ** | Cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni |
| BBC Free To View Limited | * | Cwmni dal ar gyfer trwydded ddigidol |
| BBC Property Limited | * | Eiddo |
| BBC Property Development Limited | * | Eiddo |
| BBC Property Investment Limited | * | Eiddo |
| Centre House Productions Limited | * | Ariannu cynyrchiadau |
| Switchco Limited[1] (Digital UK) | * | Newid i ddigidol |

* Yn berchen arno'n uniongyrchol
** Yn berchen arno'n anuniongyrchol

[1] Mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio Switchco Limited ac felly mae'n is-gwmni. Mae ei ganlyniadau wedi'u cyfuno yng nghyfrifon y Grŵp. Mae Switchco Limited yn gwmni sy'n gyfyngedig drwy warant y mae'r BBC yn gyd-aelod ohono ynghyd â darlledwyr eraill.

## 14 Stociau

| | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau crai | **1.7** | 2.9 | **0.2** | 0.7 |
| Gwaith yn mynd rhagddo | | | | |
| – rhaglenni a grëwyd yn fewnol | **287.9** | 281.0 | **287.8** | 280.7 |
| – arall | **1.9** | 2.4 | **0.1** | 0.1 |
| Rhaglenni a orffennwyd | | | | |
| – rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd | **98.5** | 88.1 | **98.5** | 88.1 |
| – rhaglenni a grëwyd yn fewnol | **61.0** | 69.9 | **61.0** | 69.9 |
| Arall | **11.4** | 14.5 | **–** | – |
| **Cyfanswm** | **462.4** | 458.8 | **447.6** | 439.5 |

## 15 Dyledwyr

| | Nodyn | Grŵp 2006 £m | Grŵp 2005 £m | UK Public Service Broadcasting 2006 £m | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadwy o fewn blwyddyn** | | | | | |
| Dyledwyr masnach | | **114.9** | 119.5 | **17.1** | 12.9 |
| Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – dyledwyr ffi'r drwydded | | **318.2** | 285.8 | **318.2** | 285.8 |
| Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau | | **–** | – | **27.2** | 28.0 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **34.9** | 10.2 | **14.5** | 5.8 |
| TAW adferadwy | | **36.0** | 35.5 | **33.9** | 32.6 |
| Dyledwyr eraill | | **28.8** | 102.3 | **6.6** | 78.6 |
| Rhagdaliadau | | **190.8** | 121.5 | **165.3** | 103.7 |
| | | **723.6** | 674.8 | **582.8** | 547.4 |
| **Asedion ariannol** | 23e | **3.5** | – | **–** | – |
| **Cyfanswm y dyledwyr cyfredol** | | **727.1** | 674.8 | **582.8** | 547.4 |
| **Derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | | |
| Dyledwyr eraill | | **2.7** | 6.1 | **–** | – |
| Rhagdaliadau | | **40.0** | 100.0 | **26.9** | 84.3 |
| | | **42.7** | 106.1 | **26.9** | 84.3 |
| **Asedion ariannol** | 23e | **3.2** | – | **–** | – |
| **Cyfanswm y dyledwyr hir dymor** | | **45.9** | 106.1 | **26.9** | 84.3 |
| **Cyfanswm** | | **773.0** | 780.9 | **609.7** | 631.7 |

Roedd dyledwyr eraill yn 2005 yn cynnwys £56.6miliwn mewn perthynas â gwerthu safle White City, gweler Nodyn 6 i gael manylion.

## 16 Credydwyr

*16a Polisi talu'n brydlon*

Polisi'r BBC yw cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Talu'n Well mewn perthynas â thalu cyflenwyr, ar yr amod bod y cyflenwyr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau perthnasol eu contractau. Mae'r BBC yn monitro cydymffurfiad yn erbyn telerau'r cod hwn. Gwneir taliadau ar gyfer caffaeliadau rhaglenni yn unol â thelerau cytundebol. Roedd gan y Grŵp 35 o ddiwrnodau credydwyr heb eu talu mewn perthynas â chredydwyr masnach eraill ar 31 Mawrth 2006 (2005 35 o ddiwrnodau).

Mae credydwyr gweddilliol a chostau cysylltiedig wedi cael eu heithrio at ddibenion y cyfrifiad hwn, gan eu bod yn ymwneud â thaliadau i artistiaid a chyfranwyr heblaw credydwyr masnach.

*16b Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | Nodyn | Grŵp 2006 £m | Grŵp 2005 £m | UK Public Service Broadcasting 2006 £m | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorddrafftiau banc a benthyciadau eraill** | | | | | |
| Gorddrafftiau banc | 21 | – | 36.9 | – | 31.2 |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | 23b | **5.3** | 1.5 | – | – |
| | | **5.3** | 38.4 | – | 31.2 |
| **Credydwyr masnach** | | | | | |
| Credydwyr rhaglenni | | **74.9** | 60.1 | **74.7** | 58.9 |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **31.3** | 26.5 | **31.0** | 26.3 |
| Cyflogau | | **64.4** | 59.0 | **41.4** | 36.0 |
| Taliadau hawlfraint gweddilliol | | **25.6** | 21.5 | – | – |
| Credydwyr masnach eraill | | **169.8** | 167.0 | **119.6** | 107.2 |
| | | **366.0** | 334.1 | **266.7** | 228.4 |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | – | – | **37.2** | 51.7 |
| Symiau sy'n ddyledus i bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | – | 8.5 | – | – |
| Treth gorfforaeth | | **11.5** | 5.8 | **4.7** | 2.3 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | | **28.7** | 28.6 | **26.8** | 26.6 |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | 23b | **4.8** | – | **4.7** | – |
| Arall | | **14.7** | 59.9 | **11.4** | 59.9 |
| | | **59.7** | 102.8 | **84.8** | 140.5 |
| **Croniadau ac incwm gohiriedig** | | | | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | **393.5** | 342.6 | **285.9** | 274.7 |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | | **92.1** | 100.4 | **92.1** | 100.4 |
| | | **485.6** | 443.0 | **378.0** | 375.1 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | 23e | **3.2** | – | – | – |
| **Cyfanswm** | | **919.8** | 918.3 | **729.5** | 775.2 |

Roedd credydwyr eraill yn 2005 yn cynnwys £59.9miliwn mewn perthynas â gwerthu safle White City, gweler Nodyn 6.

*16c Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn*

| | Nodyn | Grŵp 2006 £m | Grŵp 2005 £m | UK Public Service Broadcasting 2006 £m | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau banc a benthyciadau eraill** | 23b | **72.0** | 150.0 | – | – |
| **Credydwyr masnach** | | | | | |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **3.6** | 7.1 | **3.6** | 7.1 |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | 23b | **28.5** | 27.1 | **3.8** | – |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | – | – | **25.9** | 27.6 |
| Arall | | **8.7** | 3.4 | – | – |
| | | **37.2** | 30.5 | **29.7** | 27.6 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | 23e | **4.0** | – | – | – |
| **Cyfanswm** | | **116.8** | 187.6 | **33.3** | 34.7 |

## 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

| Grŵp | Ar 1 Ebrill 2005 £m | Darpariaethau a waredwyd £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Ar 31 Mawrth 2006 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | 17.2 | – | (17.2) | – | 19.5 | **19.5** |
| Ailstrwythuro | 47.4 | (0.5) | (41.8) | (3.4) | 127.7 | **129.4** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 13.8 | (0.1) | (1.8) | (1.8) | 6.5 | **16.6** |
| Eiddo | 11.8 | – | (0.7) | (0.9) | 3.0 | **13.2** |
| Pensiwn | 21.1 | – | (5.9) | (15.2) | – | **–** |
| Treth ohiriedig | 15.3 | (2.6) | (7.0) | – | 3.8 | **9.5** |
| Arall | 13.0 | – | (8.0) | (5.0) | 8.0 | **8.0** |
| **Cyfanswm** | **139.6** | **(3.2)** | **(82.4)** | **(26.3)** | **168.5** | **196.2** |

Gwneir darpariaethau ffi'r drwydded ar gyfer y lefel ddisgwyliedig o ad-daliadau (arian sy'n ad-daladwy ar ran y drwydded sydd heb ddarfod lle nad oes angen y drwydded mwyach) a dirymiadau (lle na dderbynnir unrhyw arian mewn perthynas â thrwydded a werthir).

Mae'r ddarpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys tâl net am y flwyddyn o £119.1miliwn o gostau diswyddo eithriadol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen newid sy'n mynd rhagddi yn y BBC a chostau diswyddo nad ydynt yn eithriadol o £5.2miliwn. Yn ogystal, mae £5.2miliwn o gostau diswyddo nad ydynt yn eithriadol wedi'u cynnwys o dan gredydwyr eraill gan nad oedd unrhyw sicrwydd o ran swm nac amseru'r taliadau hyn.

Mae darpariaethau eiddo yn ymwneud â'r gost o ddychwelyd eiddo prydlesol i'w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles, ac maent yn cynnwys rhwymedigaeth BBC World Service o £3.4miliwn (2005 £3.3miliwn) i adfer Bush House i'w gyflwr gwreiddiol.

Mae darpariaethau pensiwn yn cynnwys swm o £21.1miliwn a grisialodd pan werthwyd BBC Technology Holdings Limited. Prisiad terfynol y rhwymedigaeth pensiwn oedd £5.9miliwn ac mae'r rhwymedigaeth hon wedi'i throsglwyddo i gredydwyr. Rhyddhawyd y £15.2miliwn sy'n weddill yn ystod y flwyddyn (gweler Nodyn 5).

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys nifer o falansau sy'n codi ar draws y BBC wrth iddo gynnal ei fusnes yn ôl yr arfer.

Mae darpariaethau a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn llwyr gysylltiedig â gwerthu BBC Broadcast Limited.

| UK Public Service Broadcasting | Ar 1 Ebrill 2005 £m | Darpariaeth a gaffaelwyd eleni £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Ar 31 Mawrth 2006 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | 17.2 | – | (17.2) | – | 19.5 | **19.5** |
| Ailstrwythuro | 45.6 | – | (36.2) | (2.9) | 109.6 | **116.1** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 12.0 | – | (0.8) | (2.0) | 2.1 | **11.3** |
| Eiddo | 7.8 | – | (0.5) | (0.3) | 2.8 | **9.8** |
| Pensiwn | – | 21.1 | (5.9) | (15.2) | – | **–** |
| Treth ohiriedig | – | – | – | – | 3.5 | **3.5** |
| Arall | 12.3 | – | (8.0) | (4.3) | 4.3 | **4.3** |
| **Cyfanswm** | **94.9** | **21.1** | **(68.6)** | **(24.7)** | **141.8** | **164.5** |

## 18 Cronfeydd wrth gefn

| Grŵp | Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn £m | Cronfa bensiwn wrth gefn £m | **Cyfanswm y gronfa weithredol wrth gefn £m** | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2005 | 188.7 | (426.8) | **(238.1)** | 761.8 | 4.0 | **527.7** |
| Addasiadau wrth fabwysiadu FRS 26 | 2.6 | – | **2.6** | – | – | **2.6** |
| Gwahaniaeth cyfnewid | 1.9 | – | **1.9** | – | – | **1.9** |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 3.6 | – | **3.6** | – | – | **3.6** |
| Ennill actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | – | 661.1 | **661.1** | – | – | **661.1** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | **0.8** | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa bensiwn wrth gefn | 69.4 | (69.4) | **–** | – | – | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (9.5) | – | **(9.5)** | 9.5 | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **257.5** | **164.9** | **422.4** | **771.3** | **3.2** | **1,196.9** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y Grŵp Cyffredinol | 256.0 | 164.9 | **420.9** | 617.4 | – | **1,038.3** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service | 1.5 | – | **1.5** | 153.9 | 3.2 | **158.6** |
| | **257.5** | **164.9** | **422.4** | **771.3** | **3.2** | **1,196.9** |

Ariennir gweithrediadau UK Public Service Broadcasting a BBC World Service o ffynonellau gwahanol. Fel y cyfryw, cedwir y cronfeydd wrth gefn sy'n berthnasol i BBC World Service ar wahân i weddill y Grŵp a chyfyngir eu defnydd i weithgareddau BBC World Service yn unig.

| UK Public Service Broadcasting | Cronfa weithredol wrth gefn £m | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2005 | 204.3 | 761.8 | 4.0 | **970.1** |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 41.4 | – | – | **41.4** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (9.5) | 9.5 | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | **237.0** | **771.3** | **3.2** | **1,011.5** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting | 235.5 | 617.4 | – | **852.9** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service | 1.5 | 153.9 | 3.2 | **158.6** |
| | **237.0** | **771.3** | **3.2** | **1,011.5** |

O dan safon gyfrifyddu FRS 10 *Goodwill and intangible assets* mae'n rhaid cyfalafu ac amorteiddio unrhyw ewyllys da newydd sy'n codi yn ystod ei fywyd defnyddiol. Yn ôl yr hyn a ganiateir gan y safon, bydd ewyllys da o £6.8miliwn (2005 £6.8miliwn) sy'n codi mewn cyfnodau cyn 1999 yn parhau i gael ei wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn.

Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu FRS 26 ar *Financial Instruments: Measurement* eleni ac wedi cymryd yr eithriad yn y safon hefyd i beidio ag ailddatgan ffigurau cymharol. Mae hyn felly yn gofyn am addasiad i gronfeydd wrth gefn ar gyfer balansau ar 1 Ebrill 2005 na chawsant eu cydnabod yn flaenorol. Cymerwyd enillion a cholledion gwerth teg ar offerynnau ariannol y Grŵp rhwng y dyddiad hwn a diwedd y flwyddyn (ar gyfer deilliadau arunig fel blaen-gontractau cyfnewid a chyfnewidiadau cyfradd llog, a deilliadau a ymgorfforir mewn contractau) i ddatganiad o incwm a gwariant y flwyddyn gyfredol.

Y gwahaniaethau trosi cronnus ar 31 Mawrth 2006 oedd £1.9miliwn. Yn unol ag FRS 23, nid oes unrhyw wahaniaethau sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol wedi'u gwahanu ac maent yn parhau o fewn y gronfa weithredol wrth gefn.

## 19 Gwerthu busnesau

| | Busnes dysgu 2006 £m | BBC Broadcast Limited 2006 £m | **Cyfanswm 2006 £m** |
|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 1.8 | – | **1.8** |
| Asedion net a waredwyd | 2.8 | 48.9 | **51.7** |
| Elw wrth waredu | 1.7 | 108.8 | **110.5** |
| | 6.3 | 157.7 | **164.0** |
| Yn cynnwys: | | | |
| Cydnabyddiaeth arian parod a dderbyniwyd | 6.6 | 166.0 | **172.6** |
| Llai costau trafodion | (0.3) | (8.3) | **(8.6)** |
| Enillion net o werthu busnesau | 6.3 | 157.7 | **164.0** |

## 20 Cysoni llif arian parod net i symudiad mewn cronfeydd/(dyled) net

| | **2006 £m** | 2005 £m |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **158.8** | 0.3 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net o reoli adnoddau rhydd | **(41.9)** | 29.3 |
| All-lif arian parod net o ostyngiad mewn benthyciadau a phrydlesau cyllid | **87.9** | 33.3 |
| Newid yn y ddyled net yn deillio o lifau arian parod | **204.8** | 62.9 |
| Cynnydd anariannol mewn prydlesau cyllid | **(15.6)** | – |
| Cynnydd anariannol mewn nodiadau benthyca nas gwarantwyd | **(4.3)** | – |
| **Newid yn y ddyled net** | **184.9** | 62.9 |
| Dyled net ar ddechrau'r flwyddyn | **(135.3)** | (198.2) |
| **Cronfeydd/(dyled) net ar ddiwedd y flwyddyn** | **49.6** | (135.3) |

## 21 Dadansoddiad o newidiadau yn y (ddyled)/cronfeydd net

Buddsoddiadau asedion cyfredol yw adnoddau rhydd sydd ar gael i'w defnyddio heb amharu ar y BBC, ac y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod ar eu swm cario neu'n agos ato, neu eu masnachu mewn marchnad fyw. Mewn perthynas â'r BBC, symiau sterling ar adnau yw adnoddau rhydd.

| | Ar 1 Ebrill 2005 £m | Llifau arian parod £m | Newidiadau anariannol £m | **Ar 31 Mawrth 2006 £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Arian parod net** | | | | |
| Gorddrafftiau banc | (36.9) | 36.9 | – | **–** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 38.3 | 121.9 | – | **160.2** |
| | 1.4 | 158.8 | – | **160.2** |
| **Adnoddau rhydd** | | | | |
| Buddsoddiadau byr dymor | 41.9 | (41.9) | – | **–** |
| **Cronfeydd gros** | **43.3** | **116.9** | **–** | **160.2** |
| **Dyled** | | | | |
| Benthyciadau gan drydydd partïon | (150.0) | 78.0 | – | **(72.0)** |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | (1.5) | (0.5) | (4.3) | **(5.3)** |
| Prydlesau cyllid | (27.1) | 9.4 | (15.6) | **(33.3)** |
| **(Dyled)/cronfeydd net** | **(135.3)** | **204.8** | **(19.9)** | **49.6** |
| **Yn cynnwys:** | | | | |
| Public Service Broadcasting (yn cynnwys World Service) | 11.6 | 113.8 | (15.2) | **110.2** |
| Busnesau Masnachol | (121.7) | 87.8 | (4.7) | **(38.6)** |
| Centre House Productions Limited | (25.2) | 3.2 | – | **(22.0)** |
| **(Dyled)/cronfeydd net** | **(135.3)** | **204.8** | **(19.9)** | **49.6** |

Caiff y ddyled a'r ad-daliadau ar brydlesau cyllid a ddelir gan Centre House Productions Limited eu gwrthbwyso'n uniongyrchol gan arian parod a ddelir ar adneuon cyfatebol, a'r incwm ohonynt, fel na fydd unrhyw effaith o ran llif arian parod yn yr hir dymor.

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyd-destun hwn yn cynrychioli Grŵp UK Public Service Broadcasting a BBC World Service.

**22 Cysoni cronfeydd/(dyled) net i derfynau benthyca yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)**

| | Nodyn | **Gwasanaethau Cyhoeddus 2006 £m** | Gwasanaethau Cyhoeddus 2005 £m | **Busnesau Masnachol 2006 £m** | Busnesau Masnachol 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd/(dyled) net | 21 | **110.2** | 11.6 | **(38.6)** | (121.7) |
| Adneuon stampiau cynilo ffi'r drwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol* | 16b | **(92.1)** | (100.4) | **–** | – |
| **Cronfeydd/(benthyciadau) fel y'u diffiniwyd gan derfyn benthyca DCMS** | | **18.1** | (88.8) | **(38.6)** | (121.7) |
| **Terfyn benthyca** | | **(200.0)** | (200.0) | **(350.0)** | (350.0) |

*Rhaid i'r BBC allu ad-dalu adneuon stampiau cynilo ffi'r drwydded a'r rhandaliadau debyd uniongyrchol ar orchymyn ac felly fe'u cynhwysir ym Menthyciadau Darlledu Cyhoeddus.

Pennir terfyn benthyca'r Gwasanaethau Cyhoeddus o £200miliwn o fewn Siarter y BBC. Ar 31 Mawrth 2006 a 31 Mawrth 2005, a thrwy gydol y flwyddyn ariannol, roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfyn benthyca hwn.

Pan ganiataodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon derfyn benthyca o £350miliwn ar gyfer BBC Commercial Holdings Limited ym mis Gorffennaf 2002, diffiniwyd tri chyfamod ariannol y mae'n ofynnol iddynt gael eu bodloni ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2006 a 31 Mawrth 2005 roedd BBC Commercial Holdings Group yn cydymffurfio â phob un o'r cyfamodau hyn. Rhoddir manylion y cydymffurfio â'r terfyn benthyca yn y tabl uchod.

**23 Offerynnau ariannol**
Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu FRS 25 (IAS 32) *Financial Instruments: Disclosure and Presentation* ac FRS 26 (IAS 39) *Financial Instruments: Measurement* am y tro cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r broses gyfrifyddu a'r datganiadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unol ag FRS 25 ac FRS 26, ac fel y caniateir o dan y safonau hyn, nid yw'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno o dan safonau cyfrifyddu a gymhwyswyd yn flaenorol (FRS 4 ac FRS 13).

Pe bai FRS 25 ac FRS 26 wedi'u cymhwyso yn y flwyddyn flaenorol, byddai hyn wedi golygu ailddatgan mantolen 2005 ar gyfer deilliadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2005, a datganiad o incwm a gwariant y flwyddyn flaenorol ar gyfer symudiad yng ngwerth teg deilliadau rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

***23 Rheoli risg ariannol***
Rheolir gweithrediadau rheoli risg ariannol y Grŵp gan swyddogaeth Trysorlys y Grŵp o fewn paramedrau a ddiffinnir yn ffurfiol o fewn y llawlyfr polisïau a gweithdrefnau y cytunir arno gan y Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir adroddiad ar weithgaredd Trysorlys y Grŵp yn rheolaidd ac mae'n destun arolwg gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae Trysorlys y Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg ariannol sy'n deillio o weithrediadau'r BBC yn unol â'i amcanion sef:

- sicrhau yr ariennir busnes y BBC, y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Masnachol, yn llawn yn y ffordd fwyaf effeithlon a'i fod yn parhau i gydymffurfio â'r terfynau benthyca
- diogelu gwerth asedion, rhwymedigaethau a llifau arian parod y BBC, rhag effeithiau cyfraddau llog anffafriol ac amrywiadau o ran cyfnewid cyfraddau tramor
- cael yr adenillion mwyaf posibl ar gronfeydd gwarged, tra'n sicrhau y cedwir digon o arian i fodloni gofynion hylifedd rhagweladwy.

Mae offerynnau ariannol y Grŵp, heblaw'r rhai a ddefnyddir at ddibenion rheoli risg trysorlys, yn cynnwys adnoddau arian parod ac adnoddau rhydd, benthyciadau ac eitemau amrywiol fel dyledwyr a chredydwyr masnach sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau o'r offerynnau ariannol hyn. Nid yw'r Grŵp yn cynnal trafodion trysorlys hapfasnachol.

Contract yw blaen-gontract arian cyfred i brynu neu werthu arian cyfred tramor yn gyfnewid am sterling ar gyfradd benodol ar ddyddiad penodol. Yn nodweddiadol, mae cwmnïau yn llunio blaen-gontractau i sicrhau cyfradd gyfnewid benodol, gan ddileu'r risg o ran arian cyfred y gellir ei chysylltu â phryniant neu werthiant yn y dyfodol.

*Risg arian cyfred*
Sefydliad domestig yw'r Grŵp yn bennaf gyda'r rhan fwyaf o'r trafodion, asedion a rhwymedigaethau yn cael eu gwneud yn y DU ac yn rhai sterling. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn ymgymryd â rhai trafodion mewn arian cyfred heblaw sterling. O ganlyniad i symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dros amser, gall y swm y mae'r Grŵp yn disgwyl ei dderbyn neu ei dalu pan fydd yn ymrwymo i drafodyn fod yn wahanol i'r swm y mae'n ei dderbyn neu ei dalu mewn gwirionedd pan fo'r trafodyn yn cael ei setlo. Mae'r Grŵp yn ymrwymo i flaen-gontractau arian cyfred i reoli'r risg hon o ran arian cyfred. Mae'r rhain yn galluogi'r Grŵp i setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan ddileu llawer o'r ansicrwydd hwn.

Mae gan y Grŵp un gweithrediad sylweddol dramor, sef BBC Worldwide America, sy'n gweithredu yn UDA ac y mae ei refeniw a'i dreuliau wedi'u nodi yn noleri'r UD yn unig.

Mae cyfnewidiad cyfradd llog yn gontract rhwng dau barti i newid sail eu taliad cyfradd llog neu dderbynebion naill ai o gyfraddau sefydlog i gyfraddau arnawf neu i'r gwrthwyneb. Yn nodweddiadol, mae cwmnïau yn ymrwymo i'r trefniadau hyn i leihau'r amlygiad i risg o ran cyfraddau llog drwy bennu cyfradd llog arnawf sy'n rhoi sicrwydd o ran lefel taliadau llog yn y dyfodol. Fel arall, gall cwmni gredu y bydd cyfraddau llog yn gostwng a bydd am drosi benthyciad cyfradd sefydlog yn gyfradd arnawf.

*Risg o ran cyfradd llog*
Mae prif amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog yn codi ar fenthyciadau allanol. Ers Mawrth 2003 mae'r Grŵp wedi benthyca ar gyfraddau llog arnawf ac yna wedi defnyddio ei gyfnewidiadau cyfradd llog i gynhyrchu'r proffil llog a ddymunir ac i reoli amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog.

*Risg pris y farchnad asedion ariannol*
Mae'r Grŵp yn buddsoddi arian parod gwarged mewn cronfeydd marchnad arian ac adneuon marchnad arian, felly nid yw'n agored i risg pris y farchnad.

*Risg credyd*
O ganlyniad i'r ffordd unigryw y caiff y BBC ei ariannu drwy ffi'r drwydded, nid yw'r BBC o'r farn ei fod yn cael ei amlygu i grynodiadau mawr o risg credyd.

*Risg hylifedd*
Mae'r BBC yn agored i derfynau ar ei fenthyciadau a bennir o dan y Siarter a chan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Grŵp Trysorlys y BBC yn rheoli benthyciadau'r Grŵp er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hyn ynghyd â thelerau'r offerynnau dyled unigol. Mae'r BBC yn dal ei hylifedd dros ben mewn offerynnau ariannol y gellir eu trosi'n hawdd gyda sefydliadau ariannol ag enw da.

***23b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol***

| | Gwerth cludo 2006 £m | Gwerth teg 2006 £m |
|---|---|---|
| **Symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn** | | |
| Dyledwyr masnach | 427.7 | 427.7 |
| Dyledwyr eraill | 4.9 | 4.9 |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 3.5 | 3.5 |
| **Symiau derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 3.2 | 3.2 |
| **Arian yn y banc ac mewn llaw** | 160.2 | 160.2 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Benthyciadau | (5.3) | (5.3) |
| Credydwyr masnach | (252.8) | (252.8) |
| Caffaeliadau rhaglenni | (36.6) | (36.6) |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | (4.8) | (4.8) |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (3.2) | (3.2) |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Benthyciadau | (72.0) | (72.0) |
| Caffaeliadau rhaglenni | (3.6) | (3.6) |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | (28.5) | (28.5) |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (4.0) | (4.0) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | (3.4) | (3.4) |

Ar 31 Mawrth 2006, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng gwerth teg a gwerth cludo unrhyw un o offerynnau ariannol y Grŵp. Mae gwerth teg blaen-gontractau arian cyfred, cyfnewidiadau cyfradd llog, a deilliadau sefydlog yn seiliedig ar brisiau'r farchnad a chyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Caiff yr offerynnau ariannol sy'n weddill eu cario ar gost neu gost wedi'i hamorteiddio yn unol ag FRS 26 sy'n cymharu â gwerth teg.

Ar 31 Mawrth 2005, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn gwerth rhwng gwerth llyfr a gwerth teg offerynnau ariannol y Grŵp ac eithrio ar gyfer deilliadau na chawsant eu cydnabod ar y fantolen yn unol â'r safonau cymwys ar yr adeg honno.

Gwerth teg y deilliadau hyn oedd colled nas gwireddwyd o £7.8miliwn ar flaen-gontractau rhagfantoli cyfnewid ac ennill nas gwireddwyd o £3.3miliwn ar gyfer cyfnewidiadau cyfradd llog. Mae'r rhain, ynghyd â £7.1miliwn o enillion nas gwireddwyd ar ddeilliadau sefydlog ar 31 Mawrth 2006, yn arwain at addasiad i gronfeydd wrth gefn wrth fabwysiadu FRS 26 o £2.6miliwn.

*23c Asedion ariannol*

Ar ôl ystyried y cyfnewidiadau amrywiol yn y gyfradd llog a'r blaen-gontractau arian cyfred tramor yr ymrwymodd y Grŵp iddynt, proffil aeddfedrwydd asedion ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2006 oedd:

| | Cyfradd llog mewn grym % | O fewn blwyddyn £m | 1-2 flynedd £m | 2-3 blynedd £m | 3-4 blynedd £m | 4-5 mlynedd £m | Mwy na 5 mlynedd £m | **Cyfanswm 2006 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | | | | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 4.5 | 160.2 | – | – | – | – | – | **160.2** |
| Dyledwyr masnach a ffi'r drwydded | – | 427.7 | – | – | – | – | – | **427.7** |
| Dyledwyr eraill | – | 4.9 | – | – | – | – | – | **4.9** |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 0.8 | 3.5 | 2.6 | 0.3 | 0.3 | – | – | **6.7** |
| | | **596.3** | **2.6** | **0.3** | **0.3** | **–** | **–** | **599.5** |

Mae asedion ariannol y Grŵp yn agored i gyfradd llog arnawf. Caiff blaen-gontractau arian cyfred tramor (nad ydynt yn agored i log) a chyfnewidiadau cyfradd llog (sy'n golygu bod y benthyciadau cyfradd amrywiol yn cael eu trosi'n fenthyciadau cyfradd sefydlog am gyfnod lawn y benthyciadau) eu cynnwys o fewn deilliadau.

Ar 31 Mawrth 2005, daeth asedion ariannol y Grŵp, ac eithrio dyledwyr byr dymor, i £80.2miliwn, yr oeddent oll yn agored i gyfradd llog arnawf.

*23d Rhwymedigaethau ariannol*

Mae'r Grŵp yn trefnu ei fenthyciadau i fodloni llifau arian parod a ragwelir fel bod digon o arian ar gael iddo gyflawni ei ymrwymiadau. Cyflawnir hyblygrwydd byr dymor drwy gyfleusterau gorddrafft. Proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2006 oedd:

| | Cyfradd llog mewn grym % | O fewn blwyddyn £m | 1-2 flynedd £m | 2-3 blynedd £m | 3-4 blynedd £m | 4-5 mlynedd £m | Mwy na 5 mlynedd £m | **Cyfanswm 2006 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2006** | | | | | | | | |
| Credydwyr masnach | – | 252.8 | – | – | – | – | – | **252.8** |
| Caffaeliadau rhaglenni | – | 36.6 | 3.6 | – | – | – | – | **40.2** |
| Ymrwymiadau o dan brydles cyllid | 4.7 | 4.8 | 3.3 | 1.1 | – | – | 24.1 | **33.3** |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 0.1 | 3.2 | 1.7 | 0.6 | 0.7 | 0.9 | 0.1 | **7.2** |
| Benthyciadau | 4.9 | 5.3 | 72.0 | – | – | – | – | **77.3** |
| Darpariaethau | 3.5 | – | – | 3.4 | – | – | – | **3.4** |
| | | **302.7** | **80.6** | **5.1** | **0.7** | **0.9** | **24.2** | **414.2** |

Mae'r uchod yn cynnwys rhwymedigaethau cytundebol, gan gynnwys y rhai a ddelir o fewn darpariaethau.

Mae rhwymedigaethau ariannol y Grŵp yn agored i gyfradd llog sefydlog, ac eithrio ar gyfer cyfnewidiadau cyfradd llog a gaiff eu cynnwys mewn deilliadau sy'n pennu cyfradd llog sefydlog ar gyfer benthyciadau masnachol y Grŵp. Mae pob cyfradd llog yn ddigyfnewid am gyfnod y rhwymedigaethau, ac eithrio ar gyfer cytundeb cyfleuster credyd tro mewn sawl arian cyfred o £350miliwn lle mae llog yn daladwy ar LIBOR plws 0.375%, yn codi i LIBOR plws 0.45% unwaith y bydd mwy na 50% o'r cyfleuster wedi ei ddefnyddio. Caiff £47miliwn yn erbyn y cyfleuster hwn ei gynnwys o fewn balans y benthyciad (gweler Nodyn 23f).

Adneuon dirymu yw symiau a adneuir gyda banciau gan Centre House Productions Limited sy'n ennill yr un swm o log sydd ei angen i dalu'r ad-daliad cyfalaf ac elfen llog pob un o'r prydlesau cyllid. Caiff yr adneuon dirymu eu clustnodi ac felly ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw drafodion heblaw'r taliadau cyfalaf a llog y cytunwyd arnynt.

Mae'r prydlesau cyllid yn cynnwys £24.1miliwn (2005 £27.1miliwn) sy'n ymwneud â Centre House Productions Limited. Mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo i brydlesau cyllid fel ffordd o ariannu cynyrchiadau drama sy'n arwain at gostau cynhyrchu is i'r BBC. Cyfatebir y prydlesau cyllid hyn gan adneuon dirymu na ellir ond eu defnyddio i setlo'r rhwymedigaethau prydlesau cyllid ac felly nid ydynt yn cynrychioli asedion a rhwymedigaethau ar wahân. O ganlyniad, cânt eu clirio o gyfrif y credydwr prydlesau cyllid i ddangos y rhwymedigaeth net na ellir ei chyfateb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adneuon dirymu hyn, £250.4miliwn ar 31 Mawrth 2006 (2005 £263.0miliwn), wedi eu strwythuro yn y fath fodd fel bod y prifswm ar adnau a'r llog a enillir yn ddigon i dalu rhwymedigaethau rhent y prydlesau cyllid tan ddiwedd y brydles. Yn unol â hynny, ni chaiff ei gynnwys fel benthyca at ddibenion cydymffurfio â therfynau benthyca'r BBC.

Proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol y Grŵp ar 31 Mawrth 2005 oedd:

Fel y caniateir o dan FRS 25 a FRS 26, nid ailddatganwyd y cymariaethau a pharheir i'w cyflwyno o dan safonau cyfrifyddu a oedd yn berthnasol o'r blaen (FRS 4 a FRS 13).

| | Gorddrafft £m | Benthyciadau banc £m | Nodiadau benthyca nas gwarantwyd £m | Prydlesau cyllid £m | Credydwyr £m | Darpariaethau £m | Cyfanswm 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2005 | | | | | | | |
| O fewn blwyddyn | 36.9 | – | 1.5 | – | – | 2.7 | 41.1 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | – | – | – | – | 7.5 | 2.5 | 10.0 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | – | 150.0 | – | – | 1.3 | 6.8 | 158.1 |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – | 27.1 | 1.7 | 12.4 | 41.2 |
| | 36.9 | 150.0 | 1.5 | 27.1 | 10.5 | 24.4 | 250.4 |

Ar ôl ystyried y cyfnewidiadau amrywiol yn y gyfradd llog a'r blaen-gontractau arian cyfred tramor yr ymrwymodd y Grŵp iddynt, roedd proffil cyfradd llog (h.y. aeddfedrwydd neu ddyddiad ailbrisio) rhwymedigaethau ariannol y Grŵp sy'n dwyn llog ar 31 Mawrth 2005 yn:

| | | | | Rhwymedigaethau cyfradd sefydlog | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm £m | Rhwymedigaethau ariannol na thelir unrhyw log arnynt £m | Rhwymedigaethau ariannol y gyfradd arnawf £m | Swm £m | Cyfradd llog gyfartalog gymhwysol % | Cyfnod cyfartalog cymhwysol nes eu bod yn aeddfed Blynyddoedd |
| 2005 | | | | | | |
| Sterling | 250.4 | 34.2 | – | 216.2 | 4.6 | 3 |
| Cyfanswm | 250.4 | 34.2 | – | 216.2 | | |

*23e Offerynnau ariannol deilliadol*

| | Asedion 2006 £m | Rhwymedigaethau 2006 £m |
|---|---|---|
| **Mwy na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | 1.3 | (3.4) |
| Cyfnewidiadau cyfradd llog | 1.2 | (0.2) |
| Deilliadau sefydlog | 0.7 | (0.4) |
| | 3.2 | (4.0) |
| **Llai na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | 1.6 | (3.0) |
| Cyfnewidiadau cyfradd llog | – | – |
| Deilliadau sefydlog | 1.9 | (0.2) |
| | 3.5 | (3.2) |

Ar 31 Mawrth 2006, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i ymrwymiad net i brynu arian cyfred tramor gwerth £90.0miliwn (2005 £95.0miliwn) sy'n aeddfedu yn y cyfnod hyd at 2012 er mwyn pennu cost sterling yr ymrwymiadau yn ystod y cyfnod hwn (Ewros a doleri'r UD yn bennaf). Ar ôl ystyried effeithiau'r blaen-gontractau cyfnewid arian cyfred tramor hyn, nid oedd gan y Grŵp unrhyw amlygiad sylweddol i arian cyfred.

Cyflawnir benthyciadau cyfradd sefydlog sterling drwy lunio trafodion cyfnewidiadau'r gyfradd llog; mae pob cyfnewidiad sy'n weddill yn aeddfedu ym mis Mawrth 2008.

Ymrwymwyd i gyfanswm o £246.0miliwn o gyfnewidiadau i gwmpasu pob cyfleuster, sef £174.0miliwn (2005 £58.0miliwn) yn fwy na'r lefel fenthyca bresennol sef £72.0miliwn (2005 £188.0miliwn).

Yn unol ag FRS 26, mae'r Grŵp wedi adolygu contractau ar gyfer deilliadau sefydlog y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodir yn y safon. Mae unrhyw ddeilliadau sefydlog o'r fath wedi'u cydnabod ar werth teg.

*23f Cyfleusterau benthyca*

Ar 31 Mawrth 2006 roedd gan UK Public Service Broadcasting gyfleuster benthyca o £100miliwn ar gael iddo naill ai fel benthyciad ar sail LIBOR tro neu orddrafft i fis Mai 2006 gydag opsiwn i ymestyn y cyfleuster i fis Mai 2007. Mae'r cyfleuster benthyca yn dwyn llog ar orswm o 0.2% ac mae'r cyfleuster gorddrafft yn dwyn llog ar gyfraddau sylfaen banc plws 1%.

Benthyciadau byr dymor yw llinellau marchnad arian.

Yn ogystal â'r cyfleuster benthyca hwn mae gan UK Public Service Broadcasting fynediad i linellau marchnad arian heb ymrwymiad, o fanciau unigol, yn gwneud cyfanswm o £24miliwn (2005 £24miliwn) gyda llog yn daladwy ar orswm o rhwng 0.125% a 0.5% dros LIBOR.

Mae rhwymedigaethau BBC Commercial Holdings Limited yn cynnwys cytundeb cyfleuster credyd tro mewn sawl arian cyfred o £350miliwn sy'n ad-daladwy yn llawn ym mis Mawrth 2008. Ar 31 Mawrth 2006 roedd £47.0miliwn (2005 £125.0miliwn) wedi ei ddefnyddio drwy gyfrwng blaensymiau. Mae llog yn daladwy ar LIBOR plws 0.375%, yn codi i LIBOR plws 0.45%, unwaith y bydd mwy na 50% o'r cyfleuster wedi ei ddefnyddio. O'r cyfanswm, mae £100miliwn ar gael ar ffurf llythyrau credyd i'w rhoi o blaid Banc Buddsoddi Ewrop i ategu eu benthyciadau o dan y cyfleusterau a nodir isod. Ar 31 Mawrth 2006 defnyddiwyd £25.0miliwn arall (2005 £41miliwn) drwy gyfrwng llythyrau credyd a ddosbarthwyd i ategu'r benthyciadau o dan y cyfleusterau hyn.

Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi sicrhau bod cyfleuster benthyca ar gael i BBC Commercial Holdings Limited am swm o £25.0miliwn. Mae'r benthyciad hwn yn ad-daladwy mewn un rhandaliad erbyn Mehefin 2007. Defnyddiwyd £25.0miliwn o dan y cyfleuster hwn ar 31 Mawrth 2006 (2005 £25.0miliwn). Pennir y gyfradd llog sy'n gymwys ar y cyfleuster drwy gyfeirio at gost ariannu Banc Buddsoddi Ewrop ei hun ac nid oes unrhyw orswm yn uwch na'r gyfradd ariannu hon. Ategir y benthyciad o dan y cyfleuster hwn gan lythyr credyd a ddosbarthwyd gan y banciau masnachol o dan y cyfleuster credyd tro o £350miliwn y cyfeiriwyd ato uchod.

Yn ogystal, roedd gan BBC Commercial Holdings Limited gyfleuster o £20.0miliwn a oedd ar gael fel gorddrafft ar 1% dros gyfradd sylfaen y banc, neu linell marchnad arian, gyda therfyn o 0.3%. Disgwylir i'r cyfleuster gael ei adolygu ym mis Ionawr 2007.

## 24 Ymrwymiadau

*24a Contractau a osodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol*

| | **Grŵp 2006 £m** | Grŵp 2005 £m | **UK Public Service Broadcasting 2006 £m** | UK Public Service Broadcasting 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedion sefydlog | **79.9** | 27.7 | **67.5** | 21.5 |
| Caffaeliadau rhaglenni a hawliau chwaraeon | **918.3** | 987.7 | **861.9** | 945.1 |
| Rhaglenni annibynnol | **96.3** | 85.3 | **85.7** | 76.2 |
| | **1,094.5** | 1,100.7 | **1,015.1** | 1,042.8 |

Mae ychwanegiadau asedion sefydlog yn cynnwys ymrwymiad o £43.3miliwn ar gyfer cynllunio, adeiladu, a gosod y datrysiad technoleg llawn ar gyfer pencadlys darlledu newydd BBC Scotland yn Pacific Quay. O'r swm hwn, disgwylir i £29.6miliwn gael ei dalu o fewn blwyddyn.

*24b Prydlesau gweithredol*

Prydles weithredol yw prydles lle nad yw'r prydlesai wedi derbyn y risgiau a'r gwobrau o fod yn berchen ar yr ased a'i gweithredu. Mae'r prydlesai (y BBC) yn llogi yn hytrach na phrynu ased.

Ymrwymiadau prydlesau gweithredol sy'n daladwy yn y flwyddyn ganlynol, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben:

| | **Tir ac adeiladau 2006 £m** | Tir ac adeiladau 2005 £m | **Arall 2006 £m** | Arall 2005 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp** | | | | |
| O fewn blwyddyn | **2.7** | 2.9 | **1.4** | 3.3 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **8.3** | 6.3 | **8.5** | 5.9 |
| Ar ôl pum mlynedd | **41.4** | 35.9 | **3.2** | 2.6 |
| | **52.4** | 45.1 | **13.1** | 11.8 |
| **UK Public Service Broadcasting** | | | | |
| O fewn blwyddyn | **2.1** | 1.8 | **0.5** | 1.7 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **6.1** | 3.8 | **2.6** | 2.8 |
| Ar ôl pum mlynedd | **40.9** | 35.7 | **1.0** | 0.8 |
| | **49.1** | 41.3 | **4.1** | 5.3 |

*24c Ymrwymiadau ariannol eraill*

Wrth gynnal ei fusnes fel arfer mae'r BBC yn llunio nifer fawr o gontractau ag artistiaid ac awduron a chyda darparwyr gwasanaethau eraill gan gynnwys y rhai sy'n casglu ffi'r drwydded a dosbarthu sianelau.

### 25 Asedion a rhwymedigaethau amodol

Ar 31 Mawrth 2006 roedd gan y Grŵp rwymedigaethau amodol nas darparwyd yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth £6.3miliwn (2005 £5.4miliwn) mewn perthynas â gwarantau ac indemniadau. O'r swm hwn, mae £1.6miliwn yn gysylltiedig â UK Public Service Broadcasting. Mae'r gweddill yn gysylltiedig â chyd-fenter BBC Worldwide, Worldwide Media Limited. Mae BBC Worldwide Limited wedi gwarantu benthyciadau banc mewn perthynas â'r gyd-fenter hon sef 366miliwn rwpi (£4.7miliwn) ar 31 Mawrth 2006. Gall y ddyled hon godi i 400miliwn rwpi (£5.2miliwn) dros y ddwy flynedd nesaf.

Ym mis Ionawr 2006, cafodd y BBC ei atgoffa am hawliad a wnaethpwyd yn wreiddiol yn 2000 gan y contractiwr a gyflogwyd i adeiladu a gosod tyrbinau nwy yn TVC am swm ychwanegol o £3.1miliwn. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers yr hawliad gwreiddiol a'r ffordd anghyson y mae'r contractiwr wedi ymdrin â'r hawliad, ystyria'r BBC ei fod yn annhebygol y bydd yr hawliad yn llwyddo ac felly nid yw wedi darparu ar gyfer yr hawliad hwn yn y cyfrifon.

Mae gan y Grŵp nifer o rwymedigaethau amodol hefyd sy'n codi o ymgyfreitha. Gwna'r BBC ddarpariaeth benodol (gweler Nodyn 17) ar gyfer ei amcangyfrif gorau o unrhyw iawndal a chostau a allai gael eu dyfarnu.

### 26 Digwyddiadau ôl-fantolen

Ar 3 Mai 2006, cwblhaodd BBC Worldwide y gwaith o waredu 61% o'i fuddiant yn Origin Publishing Limited a brynwyd gan reolwyr Origin Publishing Limited. Mae BBC Worldwide wedi cadw buddiant o 39% y rhoddir cyfrif amdano fel partneriaeth gyswllt.

Ar 30 Ebrill 2004, gweithredodd BBC Worldwide opsiwn gosod i'w gwneud yn ofynnol i Discovery brynu'r cyfan o gyfranddaliadau'r Grŵp, sef 25%, yn Animal Planet LLC. Gwerth llyfr net buddsoddiad y Grŵp yn y bartneriaeth gyswllt hon ar 31 Mawrth 2006 yw £dim (2005 £dim). Ar 3 Ebrill 2006, derbyniwyd cydnabyddiaeth o $80miliwn (£45.8miliwn) gan BBC Worldwide mewn perthynas â'i ddaliad o 25% yn Animal Planet LLC.

### 27 Trafodion partïon cysylltiedig

Cyflwynwyd trafodion partïon cysylltiedig y Grŵp yn unol ag FRS 8 *Related party disclosures*. O dan ddarpariaethau FRS 8 nid yw'r BBC wedi datgelu trafodion rhwng endidau'r Grŵp lle y rheolir mwy na 90% o hawliau pleidleisio'r endidau hynny o fewn y Grŵp. Nid yw UK Public Service Broadcasting yn gwarantu unrhyw un o weithgareddau neu rwymedigaethau'r is-gwmnïau.

Ym mhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

#### *27a Trafodion â chyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt*

Caiff incwm o UKTV o £45.8miliwn (2005 £51.8miliwn) sy'n ymwneud â gwerthu rhaglenni a difidendau ei gynnwys yn y datganiad o incwm a gwariant. Caiff incwm o £27.9miliwn (2005 £30.5miliwn) ei gynnwys hefyd sy'n ymwneud â gwerthu rhaglenni i JV Programmes LLC. Cafwyd incwm net o 2|entertain Limited o £23.5miliwn (2005 £15.6miliwn) am drwyddedu rhaglenni, comisiynau eraill a difidendau. Ceir £5.9miliwn (2005 £6.3miliwn) o incwm hefyd o amrywiol gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt eraill mewn perthynas â gwerthu rhaglenni. Caiff incwm o £0.8miliwn (2005 £0.8miliwn) o BBC Haymarket Exhibitions Limited sy'n ymwneud â ffioedd rheoli a difidendau ei gynnwys yn y datganiad o incwm a gwariant. Yn ogystal, cododd Frontline Limited £2.0miliwn (2005 £3.1miliwn) am ddosbarthu cylchgronau BBC Worldwide Limited a thalodd ddifidend o £0.4miliwn (2005 £0.6miliwn). Hefyd cynhwysir £0.3miliwn (2005 £0.4miliwn) gan Parliamentary Broadcast Unit Limited, am brynu trwyddedau darlledu.

Mae'r BBC, Crown Castle UK Limited a British Sky Broadcasting Limited yn bartneriaid yn DTV Services Limited. Yn ystod y flwyddyn talodd y BBC £1.3miliwn (2005 £0.9miliwn) i DTV Services Limited am wasanaethau marchnata.

Mae'r BBC a Land Securities Trillium Limited yn bartneriaid yn yr Insight Property Partnership a'r White City Development Partnership. Cododd y partneriaethau £104.8miliwn ar y BBC am wasanaethau eiddo yn ystod y flwyddyn (2005 £153.2miliwn).

Ym mis Gorffennaf 2003, rhoddodd y BBC brif brydles ar y Ganolfan Ddarlledu i Daunus Limited (cwmni y mae'r BBC yn dal buddiant o 10% ynddo (gweler Nodyn 13b)) a Morgan Stanley Gamma Investments. Yn ystod y flwyddyn, mae'r BBC wedi talu rhent o £11.5miliwn i Daunus Limited ac wedi derbyn £1.0miliwn (2005 £14.9miliwn) am ad-dalu costau datblygu'r Ganolfan Ddarlledu.

Datgelir y symiau sy'n ddyledus gan/i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt ar ddiwedd y flwyddyn yn Nodiadau 15 ac 16. Ymhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

Mae partïon cysylltiedig yn cynnwys y Llywodraethwyr, y Bwrdd Gweithredol ac uwch reolwyr eraill, eu teuluoedd agos ac endidau allanol a reolir ganddynt

Eglurir y trafodion rhwng y BBC a'r partïon cysylltiedig hyn yn y nodyn hwn.

*27b Trafodion eraill*

Wrth gynnal ei fusnes fel arfer, mae'r BBC yn cynnal trafodion gyda phartïon eraill sy'n gysylltiedig ag ef gan fod ei uwch gyflogeion yn briod â chyflogai neu'n perthyn yn agos i gyflogai yn y BBC neu unigolion sy'n berchen ar neu a gyflogir gan gwmnïau eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau, cynhyrchu a darlledu.

Mae gan y BBC weithdrefnau penodol ar gyfer delio â sefyllfaoedd o'r fath er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Pan fo trafodion wedi codi rhwng partïon cysylltiedig, ni fydd Llywodraethwr y BBC na chyflogai'r BBC yn rhan o'r broses gymeradwyo.

Mae gan y Farwnes Deech, Llywodraethwr, ferch sy'n newyddiadurwr yn BBC Newyddion. Seilir ei chydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Mae gan yr Athro Merfyn Jones, Llywodraethwr, fab sy'n ymchwilydd yn BBC Newyddion. Seilir ei gydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Mae Ranjit Sondhi, Llywodraethwr, yn briod ag Anita Bhalla, a gyflogwyd gan y BBC ers 1987 mewn amrywiol swyddi cynhyrchu a darlledu. Ar hyn o bryd, hi yw Pennaeth Materion Cymunedol Gwleidyddol Rhanbarthau Lloegr. Seilir ei chydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath. Mae ei ferch yn actores ac mae'n gweithio o bryd i'w gilydd ar raglenni Radio a Theledu'r BBC. Seilir ei ffioedd ar delerau ac amodau safonol y BBC i artistiaid a chyfranwyr.

Deborah Bull, Llywodraethwr, yw unig Gyfarwyddwr Deborah Bull Limited. Yn dilyn ei phenodiad, cafodd Deborah, drwy Deborah Bull Limited, daliadau gwerth £2,853 (2005 £8,650) am gyfraniadau i amryw raglenni'r BBC. Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (2005 £dim).

Mae gwraig Richard Tait, Llywodraethwr, yn olygydd comisiynu gyda BBC Radio 4. Seilir ei chydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

Mae Michael Grade, Cadeirydd, yn Gadeirydd anweithredol Pinewood Shepperton a Chadeirydd anweithredol Hemscott plc. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, talodd y BBC £2,494,051 (2005 £2,148,763) i Pinewood Shepperton am ddefnyddio stiwdios a chyfleusterau cysylltiedig. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £16,105 yn ddyledus (2005 £5,554).

Menna Richards yw rheolwr BBC Cymru. Mae gan ei chwaer fuddiant rheoli yn Torpedo Limited. Gwnaeth BBC Cymru daliadau ar gontractau o £323,895 gyda Torpedo Limited am ddarparu rhaglenni radio a theledu annibynnol yn ystod y flwyddyn. Roedd y symiau hyn wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2006. Hefyd, ymrwymodd BBC Cymru i gontractau artistiaid gwerth £56,267 gyda'i gŵr Patrick Hannan. Roedd y symiau hyn wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2006.

# Ffeithiau a ffigurau darlledu

| | |
|---|---|
| 1 | Cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ar gyfartaledd: BBC a chystadleuwyr |
| 2 | Cyfran y gynulleidfa ar gyfartaledd: BBC a chystadleuwyr |
| 3 | Allbwn isdeitlo ar Deledu'r BBC |
| 4 | Disgrifiadau sain ar Deledu'r BBC |
| 5 | Arwyddeg ar Deledu'r BBC |
| 6 | Oriau allbwn Teledu Rhwydwaith y BBC yn ôl genre |
| 7 | Oriau allbwn Teledu'r BBC yn ôl tarddiad |
| 8 | Oriau o ailddarllediadau ar Deledu Rhwydwaith y BBC |
| 9 | Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl genre |
| 10 | Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl tarddiad |
| 11 | Cyfartaledd ymweliadau wythnosol â thudalennau bbc.co.uk |
| 12 | Cyrhaeddiad wythnosol Cyfryngau Newydd y BBC ar gyfartaledd (miliynau o ddefnyddwyr) |
| 13 | Ceisiadau clyweledol wythnosol gan bbc.co.uk |
| 14 | Cost gymharol gwylio/gwrando yr awr |
| 15 | Cost rhaglenni a gynhyrchwyd gan y BBC fesul awr yn ôl gwasanaeth |
| 16 | Cost rhaglenni a gynhyrchwyd gan y BBC fesul awr yn ôl genre |
| 17 | Costau BBC News 24 |
| 18 | Costau dosbarthu'r BBC |
| 19 | Gwariant y BBC y tu allan i Lundain |
| 20 | Gwariant creadigol y tu allan i'r BBC |
| 21 | Rhaglennu teledu a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol fel canran o'r oriau cymwys |
| 22 | Y deg cynhyrchydd allanol uchaf ar gyfer Teledu'r BBC yn ôl gwariant |
| 23 | Rhaglennu radio a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol fel canran o'r oriau cymwys |
| 24 | Y pum cynhyrchydd allanol uchaf ar gyfer Radio'r BBC yn ôl gwariant |
| 25 | Cynnwys y Cyfryngau Newydd a gynhyrchwyd y tu allan i'r BBC fel canran o'r gwariant cymwys |

Tabl 1: Cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ar gyfartaledd: BBC a chystadleuwyr

Mae'r tabl yn dangos canran y bobl sy'n gwylio neu'n gwrando ar y teledu neu'r radio am 15 munud o leiaf mewn wythnos arferol.

| | Pob cartref | | Pob cartref amlsianel | | Cartrefi analog daearol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2005/2006 (55.8m[1]) % | 2004/2005 (55.4m[1]) % | 2005/2006 (42.5m[1]) % | 2004/2005 (37.5m[1]) % | 2005/2006 (13.2m[1]) % | 2004/2005 (17.9m[1]) % |
| **Cyfanswm cyrhaeddiad Teledu a Radio'r BBC[2]** | **92.7** | 92.9 | **–** | – | **–** | – |
| **Teledu'r BBC** | **85.3** | 86.6 | **83.6** | 84.5 | **89.7** | 90.2 |
| BBC One | **79.7** | 81.9 | **77.1** | 78.7 | **86.7** | 87.2 |
| BBC Two | **59.1** | 61.4 | **52.9** | 53.3 | **74.7** | 75.3 |
| BBC Three | **11.8** | 9.4 | **16.1** | 14.8 | **–** | – |
| BBC Four | **4.5** | 3.0 | **6.1** | 4.8 | **–** | – |
| Sianel CBBC | **4.2** | 3.5 | **6.0** | 5.6 | **–** | – |
| CBeebies | **6.4** | 5.8 | **8.8** | 9.0 | **–** | – |
| BBC News 24 | **5.4** | 4.2 | **7.4** | 6.7 | **–** | – |
| BBC Parliament | **0.2** | 0.2 | **0.2** | 0.3 | **–** | – |
| **Sianelau eraill (cyfanswm)[3]** | **58.6** | 52.0 | **81.2** | 81.4 | **–** | – |
| **Pob sianel ITV** | **75.9** | 77.5 | **74.4** | 75.1 | **–** | – |
| ITV1 | **73.0** | 76.0 | **70.5** | 72.7 | **79.6** | 81.3 |
| ITV2 | **16.9** | 13.9 | **23.0** | 21.4 | **–** | – |
| ITV3[4] | **8.6** | 3.3 | **11.7** | 5.0 | **–** | – |
| ITV4[5] | **4.8[5]** | – | **6.3[5]** | – | **–** | – |
| CITV[6] | **0.1[6]** | – | **0.2[6]** | – | **–** | – |
| **Pob sianel Channel 4** | **65.5** | 64.6 | **62.2** | 59.7 | **–** | – |
| Channel 4 | **62.3** | 62.6 | **57.9** | 55.8 | **72.6** | 71.4 |
| E4[7] | **13.6** | 8.4 | **18.4** | 13.0 | **–** | – |
| More 4[7,8] | **7.0[8]** | – | **9.1[8]** | – | **–** | – |
| five | **43.4** | 43.9 | **43.0** | 42.9 | **43.1** | 44.5 |
| Pob sianel Sky | **31.7** | 30.7 | **45.1** | 48.4 | **–** | – |
| Sky One | **14.2** | 14.8 | **19.6** | 22.8 | **–** | – |
| Sky News | **4.1** | 4.0 | **6.0** | 6.3 | **–** | – |
| Discovery[7] | **5.2** | 5.1 | **7.0** | 8.0 | **–** | – |
| Nickelodeon[7] | **3.9** | 4.4 | **5.7** | 7.0 | **–** | – |
| Nick Jr. | **2.9** | 2.6 | **4.1** | 4.1 | **–** | – |
| UK Gold[7] | **11.2** | 11.0 | **15.8** | 17.2 | **–** | – |
| UKTV | **22.5** | 20.4 | **31.5** | 32.0 | **–** | – |
| **Radio'r BBC** | **66.5** | 66.6 | | | | |
| BBC Radio 1 | **20.6** | 20.4 | | | | |
| BBC Radio 2 | **26.5** | 27.2 | | | | |
| BBC Radio 3 | **4.1** | 4.2 | | | | |
| BBC Radio 4 | **19.2** | 19.3 | | | | |
| BBC Radio Five Live | **12.0** | 12.7 | | | | |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | **1.0** | 0.8 | | | | |
| 1Xtra | **0.7** | 0.6 | | | | |
| BBC 6 Music | **0.6** | 0.5 | | | | |
| BBC 7 | **1.2** | 0.9 | | | | |
| BBC Asian Network | **0.9** | 1.0 | | | | |
| Radio Lleol y BBC (yn cynnwys y Gwledydd) | **20.5** | 20.8 | | | | |
| BBC World Service[9] | **2.6** | 2.6 | | | | |
| **Pob sianel radio fasnachol** | **62.2** | 63.8 | | | | |
| Virgin AM/FM | **5.1** | 5.1 | | | | |
| Classic FM | **12.1** | 12.6 | | | | |
| talkSPORT | **4.4** | 4.6 | | | | |
| Pob sianel radio fasnachol leol | **50.6** | 52.5 | | | | |

Ffynhonnell: Teledu: BARB TNS/Infosys, 4+ oed; Radio: RAJAR, 15+ oed, y ddau yn gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn

[1]Pobl 4+ oed ym mis Mawrth, ffynhonell: BARB

[2]Y cyrhaeddiad wythnosol cyfun ar gyfer Teledu a Radio'r BBC, 4+ oed, ffynhonell: BARB/RAJAR

[3]Heb gynnwys BBC One, BBC Two, ITV1, Channel 4 a five

[4]Lansiwyd ITV3 ym mis Tachwedd 2004

[5]Mae data ITV4 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Tachwedd 2005 i fis Mawrth 2006

[6]Mae data CITV yn cwmpasu cyfnod mis Mawrth 2006

[7]Yn cynnwys y darllediad cyntaf a sianelau y newidiwyd eu hamseroedd + 1 awr

[8]Mae data More 4 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Hydref 2005 i fis Mawrth 2006

[9]Y DU yn unig

**Tabl 2: Cyfran y gynulleidfa ar gyfartaledd: BBC a chystadleuwyr**

Mae'r tabl yn dangos canran yr oriau gwylio neu wrando mewn wythnos arferol.

| | Pob cartref | | Pob cartref amlsianel | | Cartrefi analog daearol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006 (55.8m[1]) %** | 2004/2005 (55.4m[1]) % | **2005/2006 (42.5m[1]) %** | 2004/2005 (37.5m[1]) % | **2005/2006 (13.2m[1]) %** | 2004/2005 (17.9m[1]) % |
| **Cyfanswm cyfran Teledu a Radio'r BBC[2]** | **42.7** | 43.1 | – | – | – | – |
| **Teledu'r BBC** | **34.9** | 36.2 | **29.8** | 29.7 | **48.0** | 47.9 |
| BBC One | **22.9** | 24.4 | **19.2** | 19.7 | **32.5** | 32.9 |
| BBC Two | **9.4** | 9.6 | **7.0** | 6.7 | **15.5** | 15.0 |
| BBC Three | **0.6** | 0.5 | **0.9** | 0.8 | – | – |
| BBC Four | **0.2** | 0.2 | **0.3** | 0.3 | – | – |
| Sianel CBBC | **0.4** | 0.3 | **0.6** | 0.5 | – | – |
| CBeebies | **0.9** | 0.8 | **1.3** | 1.3 | – | – |
| BBC News 24 | **0.4** | 0.4 | **0.6** | 0.6 | – | – |
| BBC Parliament | **0.0** | 0.0 | **0.0** | 0.0 | – | – |
| **Sianelau eraill (cyfanswm)[3]** | **30.5** | 27.3 | **42.4** | 42.5 | – | – |
| **Pob sianel ITV** | **23.6** | 23.9 | **21.6** | 20.9 | – | – |
| ITV1 | **21.1** | 22.3 | **18.2** | 18.5 | **28.7** | 29.2 |
| ITV2 | **1.5** | 1.2 | **2.0** | 1.8 | – | – |
| ITV3[4] | **0.9** | 0.3 | **1.2** | 0.5 | – | – |
| ITV4[5] | **0.3[5]** | – | **0.4[5]** | – | – | – |
| CITV[6] | **1.6[6]** | – | **2.0[6]** | – | – | – |
| **Pob sianel Channel 4** | **11.4** | 10.6 | **10.2** | 8.8 | – | – |
| Channel 4 | **9.8** | 9.8 | **8.1** | 7.6 | **14.2** | 13.8 |
| E4[7] | **1.4** | 0.8 | **1.8** | 1.0 | – | – |
| More 4[7,8] | **0.4[8]** | – | **0.6[8]** | – | – | – |
| five | **6.3** | 6.5 | **5.2** | 5.2 | **8.8** | 8.8 |
| Pob sianel Sky | **6.3** | 6.5 | **9.2** | 10.2 | – | – |
| Sky One | **1.4** | 1.5 | **1.9** | 2.2 | – | – |
| Sky News | **0.4** | 0.4 | **0.6** | 0.6 | – | – |
| Discovery[7] | **0.5** | 0.4 | **0.7** | 0.7 | – | – |
| Nickelodeon[7] | **0.4** | 0.4 | **0.5** | 0.6 | – | – |
| Nick Jr. | **0.4** | 0.3 | **0.5** | 0.5 | – | – |
| UK Gold[7] | **1.1** | 1.2 | **1.6** | 1.8 | – | – |
| UKTV | **2.9** | 2.6 | **4.0** | 4.0 | – | – |
| **Radio'r BBC** | **54.9** | 54.0 | | | | |
| BBC Radio 1 | **9.3** | 8.5 | | | | |
| BBC Radio 2 | **15.9** | 16.3 | | | | |
| BBC Radio 3 | **1.2** | 1.2 | | | | |
| BBC Radio 4 | **11.7** | 11.3 | | | | |
| BBC Radio Five Live | **4.4** | 4.6 | | | | |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | **0.1** | 0.1 | | | | |
| 1Xtra | **0.2** | 0.1 | | | | |
| BBC 6 Music | **0.2** | 0.1 | | | | |
| BBC 7 | **0.3** | 0.2 | | | | |
| BBC Asian Network | **0.3** | 0.3 | | | | |
| Radio Lleol y BBC (yn cynnwys y Gwledydd) | **10.9** | 10.9 | | | | |
| BBC World Service[9] | **0.6** | 0.6 | | | | |
| **Pob sianel radio fasnachol** | **43.1** | 44.1 | | | | |
| Virgin AM/FM | **1.6** | 1.5 | | | | |
| Classic FM | **4.2** | 4.2 | | | | |
| talkSPORT | **1.8** | 1.7 | | | | |
| Pob sianel radio fasnachol leol | **32.8** | 34.3 | | | | |

Ffynhonnell: Teledu: BARB TNS/Infosys, 4+ oed; Radio: RAJAR, 15+ oed, y ddau yn gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn

[1] Pobl 4+ oed ym mis Mawrth, ffynhonell: BARB

[2] Cyfran gyfun gwylio a gwrando ar gyfer Teledu a Radio'r BBC, 4+ oed, ffynhonell: BARB/RAJAR

[3] Heb gynnwys BBC One, BBC Two, ITV1, Channel 4 a five

[4] Lansiwyd ITV3 ym mis Tachwedd 2004

[5] Mae data ITV4 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Tachwedd 2005 i fis Mawrth 2006

[6] Mae data CITV yn cwmpasu cyfnod mis Mawrth 2006

[7] Yn cynnwys y darllediad cyntaf a sianelau y newidiwyd eu hamseroedd + 1 awr

[8] Mae data More 4 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Hydref 2005 i fis Mawrth 2006

[9] Y DU yn unig

Tabl 3: Allbwn isdeitlo ar Deledu'r BBC

| | Oriau ag isdeitlau | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | | Targed ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006 %** | 2004/2005 % | **2005/2006 %** | 2004/2005 % |
| BBC One | **13,144** | 12,643 | **91.6** | 87.4 | **90.0** | 85.0 |
| BBC Two | **9,516** | 9,355 | **91.7** | 88.5 | **90.0** | 85.0 |
| BBC Three | **2,542** | 2,293 | **78.3** | 69.0 | **70.0** | 60.0 |
| BBC Four | **2,534** | 2,162 | **77.0** | 65.4 | **70.0** | 60.0 |
| Sianel CBBC | **3,286** | 2,912 | **75.7** | 65.8 | **70.0** | 60.0 |
| CBeebies | **3,866** | 3,768 | **82.3** | 78.6 | **70.0** | 60.0 |
| BBC News 24 | **6,149** | 5,382 | **70.4** | 60.4 | **70.0** | 60.0 |

Noder: Nid yw BBC Parliament yn destun targedau isdeitlo Ofcom ar sail maint y gynulleidfa

Tabl 4: Disgrifiadau sain ar Deledu'r BBC

| | Oriau â disgrifiadau sain | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | | Targed ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006 %** | 2004/2005 % | **2005/2006 %** | 2004/2005 % |
| BBC One | **719** | 599 | **8.2** | 6.7 | **6.9** | 6.0 |
| BBC Two | **628** | 540 | **7.4** | 6.1 | **6.9** | 6.0 |
| BBC Three | **615** | 452 | **18.9** | 13.6 | **6.9** | 6.0 |
| BBC Four | **332** | 251 | **10.1** | 7.6 | **6.9** | 6.0 |
| Sianel CBBC | **552** | 271 | **12.7** | 6.1 | **6.9** | 6.0 |
| CBeebies | **431** | 384 | **9.2** | 8.0 | **6.9** | 6.0 |

Noder: Pennwyd targedau i ddarparu disgrifiadau sain ar gyfer 10% o'r allbwn rhaglennu erbyn 2008/2009
Noder: Nid yw BBC News 24 yn destun targedau disgrifiadau sain oherwydd natur naratif yr allbwn
Noder: Nid yw BBC Parliament yn destun targedau disgrifiadau sain Ofcom ar sail maint y gynulleidfa

Tabl 5: Arwyddeg ar Deledu'r BBC

| | Oriau a ddehonglwyd drwy arwyddeg | | Gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn | | Targed ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006 %** | 2004/2005 % | **2005/2006 %** | 2004/2005 % |
| BBC One | **308** | 269 | **3.5** | 3.0 | **3.4** | 3.0 |
| BBC Two | **312** | 269 | **3.7** | 3.0 | **3.4** | 3.0 |
| BBC Three | **117** | 104 | **3.6** | 3.1 | **3.4** | 3.0 |
| BBC Four | **129** | 112 | **3.9** | 3.4 | **3.4** | 3.0 |
| Sianel CBBC | **172** | 146 | **4.0** | 3.3 | **3.4** | 3.0 |
| CBeebies | **176** | 200 | **3.8** | 4.2 | **3.4** | 3.0 |
| BBC News 24 | **336** | 276 | **3.8** | 3.1 | **3.4** | 3.0 |

Noder: Pennwyd targedau i ddarparu arwyddeg ar gyfer 5% o'r allbwn rhaglennu erbyn 2008/2009
Noder: Nid yw BBC Parliament yn destun targedau arwyddeg Ofcom ar sail maint y gynulleidfa

**Tabl 6: Oriau allbwn Teledu Rhwydwaith y BBC yn ôl genre**

Mae'r tabl yn dangos nifer yr oriau ar gyfer pob genre a ddarlledwyd ar bob sianel. Mae'n cynnwys rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol, rhaglenni a gaffaelwyd ac ailddarllediadau.

| | BBC One | | BBC Two | | BBC Three | | BBC Four | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 |
| Ffeithiol a dysgu | **1,880** | 1,748 | **1,438** | 1,343 | **1,419** | 1,321 | **1,100** | 997 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | **–** | – | **1,579** | 1,567 | **–** | 2 | **–** | 1 |
| Newyddion a'r tywydd | **2,508** | 2,446 | **673** | 620 | **114** | 143 | **8** | 9[2] |
| Materion cyfoes | **159** | 160 | **259** | 267 | **62** | 87 | **234** | 245[2] |
| Adloniant | **433** | 559 | **810** | 781 | **903** | 882 | **234** | 187 |
| Chwaraeon | **670** | 787 | **1,028** | 946 | **36** | 4 | **–** | – |
| Plant | **672** | 675 | **1,168** | 1,353 | **–** | – | **–** | – |
| Drama | **1,036** | 880 | **166** | 173 | **258** | 368 | **295** | 190 |
| Ffilm | **654** | 839 | **735** | 964 | **200** | 191 | **199** | 258 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **82** | 53 | **350** | 297 | **145** | 145 | **1,136** | 1,261 |
| Crefydd | **92** | 86 | **47** | 33 | **1** | 10 | **16** | 26 |
| Parhad | **259** | 234 | **322** | 320 | **119** | 118 | **82** | 80 |
| **Cyfanswm yr oriau rhwydwaith (heb gynnwys rhaglenni eithrio)** | **8,445** | 8,467 | **8,575** | 8,664 | **3,257** | 3,271 | **3,304** | 3,254 |
| Mae cyfanswm yr oriau rhwydwaith yn cynnwys rhaglenni a gaffaelwyd ar | **1,476** | 1,471 | **1,597** | 1,919 | **287** | 299 | **522** | 542 |
| Mae cyfanswm yr oriau rhwydwaith yn cynnwys rhaglenni seneddol ar | **64** | 51 | **131** | 145 | **–** | – | **–** | – |

| | Sianel CBBC | | CBeebies | | BBC News 24 | | BBC Parliament | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | **583** | 562 | **88** | 77 | **–** | – | **–** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **–** | – | **–** | – | **8,468** | 8,468 | **8,760** | 8,760 |
| Plant | **3,458** | 3,468 | **4,107** | 4,110 | **–** | – | **–** | – |
| Parhad | **313** | 320 | **516** | 530 | **292** | 292 | **–** | – |
| **Cyfanswm oriau rhwydwaith** | **4,354** | 4,350 | **4,711** | 4,717 | **8,760** | 8,760 | **8,760** | 8,760 |
| Mae cyfanswm yr oriau rhwydwaith yn cynnwys rhaglenni a gaffaelwyd ar | **646** | 762 | **866** | 700 | **178** | 178 | **135** | 327 |
| Mae cyfanswm yr oriau rhwydwaith yn cynnwys rhaglenni seneddol ar | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **8,760** | 8,760 |

[1]Mae addysg (ffurfiol) yn cynnwys Addysg i blant, y Brifysgol Agored a BBC Learning Zone
[2]Ailddatganwyd yr oriau o 2004/2005 o ganlyniad i ailddosbarthu

**Tabl 7: Oriau allbwn Teledu'r BBC yn ôl tarddiad**

Mae'r tabl yn dangos lle y gwnaed ac y darlledwyd rhaglenni.

| | Oriau o raglenni a wnaed yn: | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llundain | | Lloegr (heb gynnwys Llundain) | | Gogledd Iwerddon | | Yr Alban | | Cymru | | Cyfanswm | |
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 |
| **Darllediad Cyntaf: Rhaglenni Rhwydwaith BBC One a BBC Two a gynhyrchwyd yn fewnol** | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | 852 | 859 | 678 | 688 | 4 | 2 | 67 | 71 | 37 | 23 | 1,638 | 1,643 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | 36 | 23 | 16 | 7 | 1 | 1 | 4 | 7 | 1 | 2 | 58 | 40 |
| Newyddion a'r tywydd | 3,176 | 3,062 | – | – | – | – | – | – | – | – | 3,176 | 3,062 |
| Materion cyfoes | 339 | 343 | 62 | 55 | 2 | 1 | 2 | 2 | – | – | 405 | 401 |
| Adloniant | 575 | 630 | 135 | 112 | 10 | 1 | 6 | 6 | – | 2 | 726 | 751 |
| Chwaraeon | 1,437 | 1,496 | – | – | – | – | – | – | – | – | 1,437 | 1,496 |
| Plant | 278 | 332 | 8 | 22 | – | – | 48 | 47 | – | – | 334 | 401 |
| Drama | 281 | 255 | 174 | 157 | 9 | 9 | 21 | 23 | 25 | 9 | 510 | 453 |
| Ffilm | – | 2 | – | – | – | – | – | – | – | – | – | 2 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | 190 | 157 | 14 | 5 | – | – | 34 | 32 | 15 | 10 | 253 | 204 |
| Crefydd | 13 | 7 | 103 | 101 | 1 | 1 | 3 | 3 | 1 | 1 | 121 | 113 |
| **Is-gyfanswm** | 7,177 | 7,166 | 1,190 | 1,147 | 27 | 15 | 185 | 191 | 79 | 47 | 8,658 | 8,566 |
| **Darllediad Cyntaf: Rhaglenni Sianelau digidol a gynhyrchwyd yn fewnol** | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | 235 | 149 | 80 | 60 | – | 1 | 23 | 14 | 11 | 5 | 349 | 229 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | – | 11 | – | – | – | – | – | 1 | – | – | – | 12 |
| Newyddion a'r tywydd | 11,191 | 11,822[2] | – | – | – | – | 162 | 112 | 159 | 109 | 11,512 | 12,043[2] |
| Materion cyfoes | 148 | 157[2] | 4 | 12 | 2 | 5 | – | – | – | – | 154 | 174[2] |
| Adloniant | 109 | 140 | 21 | 30 | – | – | – | 5 | – | – | 130 | 175 |
| Chwaraeon | 36 | 2 | – | – | – | – | – | – | – | – | 36 | 2 |
| Plant | 575 | 766 | 64 | 23 | – | – | 34 | 33 | 5 | 5 | 678 | 827 |
| Drama | 12 | 2 | 1 | 23 | – | 1 | – | – | 12 | 10 | 25 | 36 |
| Ffilm | 1 | – | – | – | – | – | – | – | – | – | 1 | – |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | 177 | 214 | 29 | 18 | – | – | 44 | 68 | 23 | 23 | 273 | 323 |
| Crefydd | – | 3 | 1 | 5 | – | – | – | – | 1 | – | 2 | 8 |
| **Is-gyfanswm** | 12,484 | 13,266 | 200 | 171 | 2 | 7 | 263 | 233 | 211 | 152 | 13,160 | 13,829 |
| **Darllediad Cyntaf: Rhaglenni Y Gwledydd a'r Rhanbarthau a gynhyrchwyd yn fewnol** | | | | | | | | | | | | |
| Ffeithiol a dysgu | 1 | 3 | 14 | 21 | 103 | 70 | 85 | 64 | 89 | 88 | 292 | 246 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | – | – | – | – | 2 | 2 | 12 | 9 | 7 | 4 | 21 | 15 |
| Newyddion a'r tywydd | 303 | 297 | 3,640 | 3,365 | 350 | 336 | 452 | 438 | 470 | 461 | 5,215 | 4,897 |
| Materion cyfoes | 9 | 9 | 90 | 96 | 36 | 36 | 64 | 66 | 39 | 40 | 238 | 247 |
| Adloniant | – | – | – | 2 | 50 | 70 | 23 | 17 | 15 | 17 | 88 | 106 |
| Chwaraeon | – | – | 29 | 38 | 93 | 108 | 141 | 154 | 190 | 215 | 453 | 515 |
| Plant | – | – | – | – | – | – | 19 | 15 | – | – | 19 | 15 |
| Drama | – | – | – | – | – | 5 | 53 | 53 | 7 | 6 | 60 | 64 |
| Ffilm | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | 1 | – | 6 | 2 | 1 | 6 | 42 | 31 | 24 | 33 | 74 | 72 |
| Crefydd | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Is-gyfanswm** | 314 | 309 | 3,779 | 3,524 | 635 | 633 | 891 | 847 | 841 | 864 | 6,460 | 6,177 |
| Rhaglenni a gaffaelwyd | 1,148 | 1,188 | 11 | 5 | – | 4 | – | – | 4 | 11 | 1,163 | 1,208 |
| **Cyfanswm y darllediadau cyntaf*** | 21,123 | 21,929 | 5,180 | 4,847 | 664 | 659 | 1,339 | 1,271 | 1,135 | 1,074 | 29,441 | 29,780 |
| **Ailddarllediadau** | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith | 20,287 | 19,689 | 2,974 | 3,118 | 24 | 33 | 737 | 859 | 333 | 184 | 24,355 | 23,883 |
| Y Gwledydd a'r Rhanbarthau | – | 0 | 2 | 2 | 221 | 146 | 237 | 199 | 281 | 278 | 741 | 625 |
| Parhad | 1,907 | 1,897 | 32 | 31 | 170 | 255 | 182 | 188 | 163 | 169 | 2,454 | 2,540 |
| Y Brifysgol Agored | 352 | 360 | – | – | – | – | – | – | – | – | 352 | 360 |
| BBC Learning Zone | 565 | 515 | – | – | – | – | – | – | – | – | 565 | 515 |
| **Cyfanswm yr oriau darlledu** | 44,234 | 44,390 | 8,188 | 7,998 | 1,079 | 1,093 | 2,495 | 2,517 | 1,912 | 1,705 | 57,908 | 57,703 |
| *O'u plith sy'n annibynnol | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith | 1,880 | 1,716 | 401 | 342 | 18 | 12 | 98 | 112 | 54 | 26 | 2,451 | 2,208 |
| Y Gwledydd a'r Rhanbarthau | 13 | – | 60 | 57 | 97 | 84 | 164 | 148 | 129 | 124 | 463 | 413 |
| *O'u plith yn rhaglennu seneddol | 3,751 | 4,317 | 111 | – | 28 | – | 251 | 112 | 255 | 109 | 4,396 | 4,538 |

[1] Mae addysg (ffurfiol) yn cynnwys Addysg i blant, y Brifysgol Agored a BBC Learning Zone

[2] Ailddatganwyd oriau newyddion a materion cyfoes ar BBC Four o 2004/2005 o ganlyniad i ailddosbarthu

**Tabl 8: Oriau o ailddarllediadau ar Deledu Rhwydwaith y BBC**
Mae'r tabl yn dangos nifer yr oriau o ailddarllediadau a ddangoswyd ar BBC One a BBC Two.

| | BBC One | | BBC Two | |
|---|---|---|---|---|
| | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 |
| Oriau o raglenni yn ystod oriau brig | 1,643 | 1,643 | 1,643 | 1,643 |
| Ailddarllediadau yn ystod oriau brig | 146 | 159 | 450 | 533 |
| O'u plith yn ailddarllediadau naratif | 4 | 2 | 47 | 38 |
| O'u plith yn drosglwyddiadau digidol | 12 | 5 | 70 | 99 |
| **% ailddarllediadau yn ystod oriau brig** | 8.9% | 9.7% | 27.4% | 32.5% |
| Cyfanswm oriau rhaglenni rhwydwaith | 8,445 | 8,467 | 8,575 | 8,664 |
| Ailddarllediadau | 2,602 | 2,683 | 4,567 | 4,771 |
| O'u plith yn ailddarllediadau naratif | 337 | 457 | 187 | 175 |
| O'u plith yn drosglwyddiadau digidol | 176 | 175 | 453 | 379 |
| **% ailddarllediadau yn ystod yr holl oriau** | 30.8% | 32.0% | 53.3% | 54.0% |

Mae ailddarllediadau yn cynnwys trosglwyddiadau o sianelau digidol y BBC (ond nid 'premieres' digidol)

**Tabl 9: Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl genre**
Mae'r tabl yn dangos nifer yr oriau o bob genre a ddarlledwyd ar bob gorsaf radio.

| | BBC Radio 1 | | BBC Radio 2 | | BBC Radio 3 | | BBC Radio 4 | | BBC Radio Five Live | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 |
| Cerddoriaeth | 8,219 | 8337[1] | 7,328 | 7,375 | 8,073 | 8,068 | – | – | – | – |
| Newyddion a'r tywydd | 304 | 307 | 476 | 455 | 75 | 80 | 2,374 | 2,380 | 6,549 | 6,423 |
| Chwaraeon | 35 | 30 | – | – | – | – | 655 | 502 | 2,009 | 2,138 |
| Ffeithiol | 89 | 63 | 21 | 10 | – | – | 1,305 | 1,283 | – | – |
| Materion cyfoes | – | – | 353 | 340 | – | – | 1,194 | 1,210 | 56 | 53 |
| Drama | – | – | 12 | 13 | 89 | 93 | 1,081 | 1,074 | – | – |
| Y celfyddydau | 115 | 84[1] | 112 | 105 | 309 | 315 | 430 | 448 | – | – |
| Adloniant | 73 | 44[1] | 69 | 78 | – | – | 509 | 486 | – | – |
| Crefydd | – | – | 192 | 187 | 59 | 67 | 298 | 289 | – | – |
| Ysgolion | – | – | – | – | – | – | 209 | 208 | – | – |
| Plant | – | – | – | – | 99 | 86 | 26 | 26 | – | – |
| Cyflwyniadau | 148 | 148 | 197 | 197 | 56 | 51 | 54 | 54 | 146 | 146 |
| **Cyfanswm yr oriau** | 8,983[2] | 9,013[2] | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 8,135 | 7,960 | 8,760 | 8,760 |

| | BBC Five Live Sports Extra | | 1Xtra | | BBC 6 Music | | BBC 7 | | BBC Asian Network | | Cyfanswm radio rhwydwaith | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 | 2005/2006 | 2004/2005 |
| Cerddoriaeth | – | – | 7,718 | 7,726 | 8,238 | 8,203 | – | – | 2,844 | 2,746 | 42,420 | 42,455 |
| Newyddion a'r tywydd | – | – | 306 | 306 | 325 | 326 | – | – | 1,240 | 1,246 | 11,649 | 11,523 |
| Chwaraeon | 1,209 | 1,001 | 80 | 77 | – | – | – | – | 390 | 390 | 4,378 | 4,138 |
| Ffeithiol | – | – | – | – | – | 5 | – | – | 6 | 6 | 1,421 | 1,367 |
| Materion cyfoes | – | – | 510 | 505 | – | – | – | – | 1,690 | 1,704 | 3,803 | 3,812 |
| Drama | – | – | – | – | – | – | 3,495 | 3,184 | 120 | 122 | 4,797 | 4,486 |
| Y celfyddydau | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | 966 | 952 |
| Adloniant | – | – | – | – | – | – | 3,158 | 3,466 | – | – | 3,809 | 4,074 |
| Crefydd | – | – | – | – | – | – | – | – | 572 | 643 | 1,121 | 1,186 |
| Ysgolion | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – | 209 | 208 |
| Plant | – | – | – | – | – | – | 1,457 | 1,460 | – | – | 1,582 | 1,572 |
| Cyflwyniadau | – | – | 146 | 146 | 197 | 226 | 650 | 650[1] | 234 | 235 | 1,828 | 1,853 |
| **Cyfanswm yr oriau** | 1,209 | 1,001 | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 8,760 | 7,096 | 7,092 | 77,983 | 77,626 |

[1]Ailddatganwyd yr oriau o 2004/2005 o ganlyniad i ailddosbarthu
[2]Mae BBC Radio 1 yn darlledu rhaglenni dewisol i'r gwledydd

## Tabl 10: Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl tarddiad

Mae'r tabl yn dangos lle yn y DU y gwnaed ac y darlledwyd rhaglenni.

| | Rhaglenni a gynhyrchwyd yn: | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llundain | | Lloegr (heb gynnwys Llundain) | | Gogledd Iwerddon | | Yr Alban | | Cymru | | Cyfanswm | |
| | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 | **2005/2006** | 2004/2005 |
| BBC Radio 1 | **8,763** | 8,755 | **2** | 3 | **72** | 81 | **73** | 91 | **73** | 83 | **8,983** | 9,013 |
| BBC Radio 2 | **5,529** | 5,561 | **3,150** | 3,115 | **13** | 2 | **64** | 80 | **4** | 2 | **8,760** | 8,760 |
| BBC Radio 3 | **6,496** | 6,572 | **1,064** | 1,050 | **78** | 70 | **361** | 327 | **761** | 741 | **8,760** | 8,760 |
| BBC Radio 4 | **6,339** | 6,080 | **1,553** | 1,602 | **41** | 47 | **133** | 161 | **69** | 70 | **8,135** | 7,960 |
| BBC Radio Five Live | **8,505** | 8,529 | **252** | 228 | **3** | 3 | **–** | – | **–** | – | **8,760** | 8,760 |
| BBC Five Live Sports Extra | **1,209** | 1,001 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **1,209** | 1,001 |
| 1Xtra | **8,758** | 8,758 | **2** | 2 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **8,760** | 8,760 |
| BBC 6 Music | **8,500** | 8,500 | **260** | 260 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **8,760** | 8,760 |
| BBC 7 | **8,737** | 8,730 | **10** | 3 | **13** | 17 | **–** | 10 | **–** | – | **8,760** | 8,760 |
| BBC Asian Network | **780** | 780 | **6,316** | 6,312 | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **7,096** | 7,092 |
| Cyfanswm oriau radio rhwydwaith | **63,616** | 63,266 | **12,609** | 12,575 | **220** | 220 | **631** | 669 | **907** | 896 | **77,983** | 77,626 |
| Oriau'r gwledydd a'r rhanbarthau | **8,760** | 8,760 | **227,619** | 222,772 | **8,809** | 8,740 | **11,961** | 11,617 | **15,375** | 15,367 | **272,524** | 267,256 |
| Cyfanswm oriau radio | **72,376** | 72,026 | **240,228** | 235,347 | **9,029** | 8,960 | **12,592** | 12,286 | **16,282** | 16,263 | **350,507** | 344,882 |

## Tabl 11: Cyfartaledd ymweliadau wythnosol â thudalennau bbc.co.uk

Mae'r tabl yn dangos nifer yr ymweliadau â thudalennau mewn wythnos arferol gan gynnwys tudalennau y ceir mynediad iddynt o'r DU a thramor.

| Ymweliadau â thudalennau o'r DU a thramor[1] | 2005/2006 Miliynau | 2004/2005 Miliynau |
|---|---|---|
| Newyddion a chwaraeon | **268.1** | 187.0 |
| Addysg[2] | **27.5** | 15.5 |
| Tudalennau eraill bbc.co.uk | **343.2** | 228.1 |
| **Cyfanswm bbc.co.uk** | **638.8** | 430.6 |
| BBC World Service, drwy safleoedd bbc.co.uk | **29.0** | 19.2 |
| BBC World Service, drwy bartneriaid allweddol[3] | **3.1** | 1.2 |
| **Cyfanswm BBC World Service** | **32.1** | 20.4 |

Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd y BBC, BBC World Service

[1]Yn cynnwys ymweliadau â thudalennau o'r safle rhyngwladol (y ffigur wythnosol ar gyfartaledd ar gyfer 2005/2006 oedd 55.4 miliwn), wedi'i ariannu gan Grant-mewn-Cymorth, hefyd yn cynnwys ymweliadau â thudalennau ar gyfer tudalennau hafan Is-adran Global News o fis Rhagfyr 2005 (y cyfanswm wythnosol ar gyfartaledd oedd 35.2 miliwn)

[2]Mae Addysg yn cynnwys yr holl safleoedd ysgolion a sgiliau byw (heb gynnwys BBC jam)

[3]Mae gwefannau partneriaid allweddol yn cynnal testun a sain BBC World Service

## Tabl 12: Cyrhaeddiad wythnosol Cyfryngau Newydd y BBC ar gyfartaledd (miliynau o ddefnyddwyr)

| Defnyddwyr unigryw (yn seiliedig ar gofnodion y gwasanaethydd)[1] | 2005/2006 Miliynau | 2004/2005 Miliynau |
|---|---|---|
| Defnyddwyr unigryw bbc.co.uk (DU yn unig) | **12.3** | 8.7 |
| Defnyddwyr unigryw bbc.co.uk (DU a rhyngwladol) | **24.3** | 17.3 |

| Defnydd honedig (yn seiliedig ar arolwg) | 2005/2006 Miliynau | 2004/2005 Miliynau |
|---|---|---|
| bbc.co.uk[2] | **13.7** | 10.6 |
| BBCi (teledu rhyngweithiol – 24/7)[3] | **10.7**[4] | dd/g[5] |

| Cyrhaeddiad misol ar gyfartaledd | 2005/2006 Miliynau | 2004/2005 Miliynau |
|---|---|---|
| BBCi (teledu rhyngweithiol – rhaglenni teledu datblygedig)[6] | **3.2** | 3.5 |

[1]Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd y BBC, yn seiliedig ar ddata cwcis

[2]Ffynhonnell: BMRB Access, Arolwg Omnibws Misol, oedolion Prydain Fawr 15+ oed

[3]Perfformiad lloeren ddigidol yn unig gwasanaethau testun digidol 24 awr BBCi 24/7 ar gael ar Loeren Ddigidol, Freeview a Chebl Digidol.
Ffynhonnell: TNS News Media Tracker, Prydain Fawr 16+ oed

[4]Dim ond o fis Hydref 2005 ymlaen y bu mesurau ar gael ar gyfer rhaglenni traws lwyfan (Lloeren Ddigidol, Freeview a Chebl Digidol)

[5]Data cymharol ddim ar gael. Methodoleg newydd o fis Hydref 2005

[6]Perfformiad lloeren ddigidol yn unig rhaglenni teledu rhyngweithiol BBCi (ee Gemau Olympaidd, *Little Britain*). Mae nifer a maint y gwasanaethau sydd ar gael bob mis yn amrywio ynghyd â nifer y gwylwyr sy'n rhyngweithio
Ffynhonell: BARB, gwylwyr 4+ oed mewn cartrefi lloeren ddigidol

**Tabl 13: Ceisiadau clyweledol wythnosol gan bbc.co.uk**
Mae'r tabl yn dangos nifer yr oriau o ffrydio a rhaglennu'r BBC a lawrlwythwyd i lawr bob wythnos.

| | 2005/2006 Miliynau | 2004/2005 Miliynau |
|---|---|---|
| Oriau gwylio/gwrando'r DU a rhyngwladol mewn miliynau | | |
| Radio – ffrydiau byw | **2.3** | 1.4 |
| Sain a lawrlwythwyd ar gais | **1.3** | 0.9 |
| Ffrydiau gwylio a sain band eang a band cul eraill | **1.0** | 0.6 |
| Cyfanswm gwylio/gwrando o bbc.co.uk | **4.6** | 2.9 |

Ffynhonnell: Cofnodion gwasanaethydd y BBC

**Tabl 14: Cost gymharol gwylio/gwrando yr awr**
Mae'r tabl yn dangos cost gwylio/gwrando yr awr i wyliwr/gwrandäwr.

| | 2005/2006 ceiniog | 2004/2005 ceiniog |
|---|---|---|
| BBC[1] | **5.4** | 5.0 |
| Amlsianelau Sky[2] | **50.6** | 44.0 |
| Hurio fideo/DVD[3] | **81.8** | 81.5 |

Ffynhonnell: BARB, RAJAR, amcangyfrifon Strategaeth y BBC
[1]Yn seiliedig ar gost ffi'r drwydded i gartref (£126.50 y flwyddyn yn 2005/2006), cyfanswm yr oriau gwylio/gwrando ar allbwn y BBC a chyfartaledd o 2.32 person ym mhob cartref
[2]Yn seiliedig ar gost amlsianelau sylfaenol (pecyn teulu), cyfanswm oriau gwylio sianelau Sky a chyfartaledd o 2.73 person ym mhob cartref
[3]Yn seiliedig ar gyfartaledd cost hurio fideo/DVD (£2.94)

**Tabl 15: Cost rhaglenni a gynhyrchwyd gan y BBC fesul awr yn ôl gwasanaeth**

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| **Sianelau teledu** | | |
| BBC One | **162.9** | 174.4 |
| BBC Two | **99.3** | 97.7 |
| BBC Three | **146.4** | 157.5 |
| BBC Four | **73.6** | 62.6 |
| Sianel CBBC | **75.3** | 42.2 |
| CBeebies | **59.1** | 63.3 |
| BBC News 24 | **5.0** | 5.3 |
| BBC Parliament | **0.5** | 0.5 |
| **Gorsafoedd radio** | | |
| BBC Radio 1 | **3.3** | 3.1 |
| BBC Radio 2 | **4.0** | 3.9 |
| BBC Radio 3 | **4.1** | 4.3 |
| BBC Radio 4 | **11.5** | 11.4 |
| BBC Radio Five Live | **6.6** | 7.3 |
| BBC Five Live Sports Extra | **1.3** | 1.6 |
| 1Xtra | **0.7** | 0.7 |
| BBC 6 Music | **0.5** | 0.5 |
| BBC 7 | **3.7** | 3.8 |
| BBC Asian Network | **1.1** | 0.8 |
| **Y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | | |
| Teledu (BBC One/BBC Two/BBC Three/BBC Four) | **31.7** | 31.2 |
| Radio (Radio lleol/radio'r Gwledydd) | **0.6** | 0.6 |

### Tabl 16: Cost rhaglenni a gynhyrchwyd gan y BBC fesul awr yn ôl genre

| | 2005/2006 £000 | 2004/2005 £000 |
|---|---|---|
| **Rhaglenni teledu analog** | | |
| Ffeithiol a dysgu | **108.5** | 110.6 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | **107.1** | 93.0 |
| Newyddion a'r tywydd | **43.3** | 42.8 |
| Materion cyfoes | **130.6** | 116.8 |
| Adloniant | **199.3** | 196.1 |
| Chwaraeon | **158.4** | 199.8 |
| Plant | **80.2** | 93.3 |
| Drama | **526.3** | 505.4 |
| Ffilm | **–** | 280.3 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **133.6** | 151.0 |
| Crefydd | **105.3** | 108.3 |
| **Rhaglenni teledu digidol** | | |
| Ffeithiol a dysgu | **143.1** | 132.8 |
| Addysg (ffurfiol)[1] | **116.0** | – |
| Newyddion a'r tywydd | **4.1** | 4.0 |
| Materion cyfoes | **117.5** | 123.6 |
| Adloniant | **226.3** | 190.8 |
| Chwaraeon | **27.6** | 73.9 |
| Plant | **72.7** | 44.3 |
| Drama | **500.3** | 582.8 |
| Ffilm | **104.3** | – |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **65.4** | 74.6 |
| Crefydd | **124.1** | 102.1 |

[1]Mae addysg (ffurfiol) yn cynnwys addysg i blant, y Brifysgol Agored a BBC Learning Zone

### Tabl 17: Costau BBC News 24

Mae nodyn 2b (tudalen 107) yn nodi cost gwasanaethau a sianelau'r BBC. Ni chaiff rhai categorïau o wariant, gan gynnwys casglu newyddion, eu dyrannu i wasanaethau a sianelau unigol. Pe byddai rhan o'r gwariant hwn wedi cael ei ddyrannu i BBC News 24, byddai ei gostau fel a ganlyn:

| | 2005/2006 £m | 2004/2005 £m |
|---|---|---|
| Cyfanswm costau cynhyrchu | **23.1** | 23.0 |
| Casglu newyddion[1] | **19.1** | 18.4 |
| Costau canolog | **6.6** | 6.7 |

[1]Mae £3.3miliwn o wariant rhanbarthol (2004/2005 £3.2miliwn) wedi'i gynnwys yn y dyraniad casglu newyddion
Noder: Darlledwyd 1,049 awr o raglennu BBC News 24 ar BBC One a 268 awr ar BBC Two (2004/2005: 928 awr ar BBC One a 225 awr ar BBC Two)

### Tabl 18: Costau dosbarthu'r BBC

| | 2005/2006 £m | 2004/2005 £m |
|---|---|---|
| Analog | **76** | 77 |
| Digidol | **89** | 80 |
| Cyfanswm costau dosbarthu | **165** | 157 |

### Tabl 19: Gwariant y BBC y tu allan i Lundain

Mae'r tabl yn dangos costau rhaglenni'r BBC a wnaed yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

| | 2005/2006 £m | 2004/2005 £m |
|---|---|---|
| **Teledu** | | |
| Lloegr | **286** | 266[1] |
| Gogledd Iwerddon | **45** | 41 |
| Yr Alban | **106** | 112[1] |
| Cymru | **68** | 57[1] |
| | **505** | 476 |
| **Radio** | | |
| Lloegr – radio lleol | **128** | 129 |
| Gogledd Iwerddon | **13** | 16 |
| Yr Alban | **26** | 27 |
| Cymru | **23** | 23 |
| | **190** | 195 |
| Costau rhaglenni eraill yr aed iddynt y tu allan i Lundain | **48** | 51 |
| Costau eraill, gan gynnwys darlledu | **122** | 125 |
| **Cyfanswm gwariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau** | **865** | 847[1] |
| Wedi'i gynnwys yn y rhaglenni teledu a gynhyrchwyd yn fewnol mae gwariant rhwydwaith o | **300** | 283[1] |
| Wedi'i gynnwys yn y rhaglenni radio a gynhyrchwyd yn fewnol mae gwariant rhwydwaith o | **47** | 49 |

[1]Ailddatganwyd y ffigurau teledu ar sail darlledu yn hytrach na chyflenwi, yn unol ag adroddiadau Ofcom

### Tabl 20: Gwariant creadigol y tu allan i'r BBC

| | 2005/2006 £m | 2004/2005 £m |
|---|---|---|
| Cynyrchiadau rhaglenni annibynnol a ddarlledwyd | **353** | 328 |
| Cyfleusterau ac adnoddau rhaglenni allanol | **241** | 245 |
| Rhaglenni a gaffaelwyd a ddarlledwyd | **80** | 84 |
| Artistiaid, cyfranwyr a hawlfraint | **276** | 283[1] |
| Grwpiau perfformio | **29** | 28 |
| | **979** | 968 |

[1]Ailddatganwyd y ffigur 2004/2005

### Tabl 21: Rhaglennu teledu a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol fel canran o'r oriau cymwys

| | 2005/2006 % | 2004/2005 % |
|---|---|---|
| Targed | **25** | 25 |
| Gwirioneddol | **31** | 30 |

Mae gofyniad statudol fod 25% o'r oriau cymwys o raglennu teledu yn cael eu cynhyrchu gan gynhyrchwyr annibynnol. Cyfrifoldeb Ofcom yw adrodd ar berfformiad y BBC yn erbyn y gofyniad hwn: ffigur hunan-asesiad y BBC yw'r 31% yn 2005 (gweler yr adran cydymffurfiad, tudalen 91).

**Tabl 22: Y deg cynhyrchydd allanol uchaf ar gyfer Teledu'r BBC yn ôl gwariant**

1 Hat Trick Productions
2 Kudos Film and Television
3 Talkback Thames
4 Tiger Aspect Productions
5 Endemol
6 Lion Television
7 Wall to Wall
8 Zenith Entertainment
9 Open Mike Productions
10 Mentorn

Gwariodd y BBC £335miliwn ar gynhyrchu rhaglenni allanol yn y flwyddyn ariannol 2005/2006 (£311miliwn yn 2004/2005).

**Tabl 23: Rhaglennu radio a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol fel canran o'r oriau cymwys**

| | 2005/2006 % | 2004/2005 % |
|---|---|---|
| Targed | **10.0** | 10.0 |
| Gwirioneddol | **14.2** | 13.4 |

Mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiad gwirfoddol fod 10% o'r oriau cymwys o raglennu radio yn cael eu cynhyrchu gan gynhyrchwyr annibynnol. Mae'r data yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol.

**Tabl 24: Y pum cynhyrchydd allanol uchaf ar gyfer Radio'r BBC yn ôl gwariant**

1 Unique
2 Somethin' Else
3 Smooth Operations
4 Pier Productions
5 Classic Arts Productions

Gwariodd y BBC £16.0miliwn ar gynhyrchu rhaglenni allanol yn y flwyddyn ariannol 2005/2006 (£15.3miliwn yn 2004/2005).

**Tabl 25: Cynnwys y Cyfryngau Newydd a gynhyrchwyd y tu allan i'r BBC fel canran o'r gwariant cymwys**

| | 2005/2006 % | 2004/2005 % |
|---|---|---|
| Targed | – | dd/g |
| Gwirioneddol | **17.2** | – |

Mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiad gwirfoddol fod 25% (yn ôl gwerth) o gynnwys ar-lein cymwys yn cael ei gynhyrchu yn allanol o 2006/2007. Roedd gan Cyfryngau Newydd y BBC wariant allanol o £8.3miliwn yn 2005/2006.

**Nodiadau cyffredinol**

– caiff genres newydd Ofcom eu cyflwyno yn *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* nesaf y BBC (2006/2007)

**Termau**

| | |
|---|---|
| Oriau brig (teledu) | 18:00-22:30 BBC One a BBC Two |
| Ailddarllediad | Ailddarllediad o raglen a ddarlledwyd eisoes ar yr un sianel neu un o sianelau teledu eraill y BBC |
| Ailddarllediad naratif | Ailddarllediad o raglen o fewn saith diwrnod i'r darllediad cyntaf |
| Trosglwyddiadau digidol | Ailddarllediad o raglen ar BBC One neu BBC Two a ddarlledwyd eisoes ar un o sianelau digidol y BBC (ee BBC Three neu BBC Four) |
| 'Premiere' digidol | Rhaglen a gomisiynwyd ar gyfer BBC One neu BBC Two ond a ddangoswyd am y tro cyntaf ar un o sianelau teledu digidol y BBC (ee *Spooks*) |
| Rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol | Rhaglenni a gynhyrchwyd i'w darlledu ar y BBC |
| Rhaglenni a gaffaelwyd | Rhaglenni a gynhyrchwyd yn wreiddiol i'w darlledu gan ddarlledwr gwahanol, naill ai yn y DU neu dramor |
| Cyrhaeddiad Wythnosol (Radio) | Canran yr oedolion yn y DU 15+ oed sy'n gwrando ar orsaf radio o fewn o leiaf un cyfnod o 15 munud mewn wythnos arferol (fel y'i mesurwyd gan RAJAR) |
| Cyrhaeddiad Wythnosol (Teledu) | Canran yr oedolion yn y DU 4+ oed sydd wedi gwylio o leiaf 15 munud yn olynol o deledu mewn wythnos arferol (fel y'i mesurwyd gan BARB) |
| Cyfran (Radio) | Canran cyfanswm yr oriau o wrando mewn wythnos arferol |
| Cyfran (Teledu) | Canran cyfanswm y gynulleidfa sy'n gwylio |

# Cysylltu â'r BBC

**BBC Gwybodaeth**
Os oes gennych gwestiwn neu sylw am raglenni neu wasanaethau'r BBC, gallwch gysylltu â BBC Gwybodaeth.
Ysgrifennwch at:
BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 222*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffôn testun: 08700 100 212
Ffacs: 0141 307 5770
Gwefan: bbc.co.uk/info

**I gael gwybodaeth am sut i dderbyn gwasanaethau digidol y BBC**
Ffôn: 08700 10 10 10*
Gwefan: bbc.co.uk/digital

**I gael cyngor cyffredinol ar dderbyn teledu a radio**
Ysgrifennwch at:
BBC Reception Advice
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 123*
Ffôn testun: 08700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/reception

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni teledu**
Ysgrifennwch at:
*Points of View*
BBC Birmingham
Birmingham B1 1RF
Ffôn: 0870 908 3199 (yn weithredol pan fydd y rhaglen ar yr awyr)
Ebost: pov@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/pov

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni radio**
Ysgrifennwch at:
*Feedback*
BBC
PO Box 2100
London W1A 1QT
Ffôn: 08700 100 400*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffacs: 020 7436 2800
Ebost: feedback@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/radio4/feedback

**Cwynion am raglenni a chwynion golygyddol**
Os byddwch o'r farn bod un o raglenni neu wefannau'r BBC wedi gostwng yn ddifrifol islaw safonau golygyddol y BBC
Ysgrifennwch at:
BBC Complaints
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 222
Ffôn testun: 08700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/complaints

Neu gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom), sy'n gorff rheoleiddiol annibynnol, sy'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am ystyried cwynion am safonau, tegwch a phreifatrwydd wrth ddarlledu.

Ysgrifennwch at:
Ofcom Contact Centre
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
Ffôn: 020 7981 3040
Ffacs: 020 7981 3334
Ebost: contact@ofcom.org.uk
Gwefan: www.ofcom.org.uk

**Cynghorau Darlledu a Chynghorau Ymgynghorol y BBC**
Mae'r Cynghorau Darlledu Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol a Lleol Lloegr yn cynorthwyo Llywodraethwyr y BBC wrth iddynt oruchwylio'r BBC. O dan y Siarter bresennol, gallwch ysgrifennu atynt i ddatgan eich barn drwy:

Yr Ysgrifennydd
Cyngor Darlledu'r BBC yng Nghymru
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

The Secretary
BBC Broadcasting Council for Scotland
Room 3152
BBC Broadcasting House
Queen Margaret Drive
Glasgow G12 8DG

The Secretary
BBC Broadcasting Council for Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

The Secretary
BBC English Regions
BBC Birmingham
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Canolog ar Grefydd (CRAC) yn cynghori'r BBC ar bolisi darlledu a rhaglenni crefyddol. Gallwch ysgrifennu at CRAC i ddatgan eich barn drwy:

Head of Performance
BBC Governance Unit
Room 211
35 Marylebone High Street
London W1U 4AA

**Tocynnau am ddim**
I gael tocynnau am ddim i sioeau radio a theledu'r BBC
Ysgrifennwch at:
BBC Studio Services
PO Box 3000
BBC Television Centre
London W12 7RJ
Ffôn: 020 8576 1227
Ffôn testun: 020 8225 8090
Ffacs: 020 8576 8802
Ebost: tv.ticket.unit@bbc.co.uk neu radio.ticket.unit@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/tickets

**Ymweld â'r BBC**
Mae'r BBC yn trefnu teithiau o amgylch Canolfan Deledu'r BBC yn Llundain.
I gael rhagor o wybodaeth ac i drefnu ymweliad
Ffôn: 0870 603 0304*
Ffôn testun: 0870 903 0304
Ebost: bbctours@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/tours

Gall BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a chanolfannau rhanbarthol a gorsafoedd radio lleol yn Lloegr drefnu teithiau ar gyfer myfyrwyr y cyfryngau, sefydliadau proffesiynol a grwpiau eraill. Cysylltwch â'ch canolfan leol am fanylion.

**Cynnyrch y BBC**
Gallwch brynu DVDs, fideos, llyfrau, teganau a nwyddau eraill ar gyfer rhai o raglenni'r BBC. Am resymau hawlfraint, yn gyffredinol nid yw'n bosibl cael tapiau o raglenni eraill y BBC. I gael gwybodaeth am gynnyrch a gwerthiannau
Ffôn: 0870 600 7080*

Gallwch hefyd brynu cynnyrch y BBC o Siopau'r BBC a leolir o amgylch y wlad.
Ysgrifennwch at:
BBC Shop
PO Box 308
Sittingbourne
Kent ME9 8LW
Ffôn: 08700 777 001*
(8.30am-6pm Llun - Gwener)
Gwefan: www.bbcshop.com

**Cyfrannu at raglenni**
Mae gan y BBC Gronfa Ddata Amrywiaeth o gyfranwyr posibl i helpu gwneuthurwyr rhaglenni'r BBC i ddod o hyd i wynebau a lleisiau newydd, ac i adlewyrchu amrywiaeth llawn cymdeithas y DU yn well. Mae gennym ddiddordeb penodol i glywed gan bobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl hŷn. Cysylltwch â ni os hoffech gael eich cynnwys fel cyfrannwr posibl.
Ysgrifennwch at:
Diversity Database Project Administrator
BBC
MC2 C5 Media Centre
Media Village
201 Wood Lane
London W12 7TQ
Ffôn: 020 8008 4287
Ffacs: 020 8008 4282
Ebost: diversity.database@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/info/policies

**I gael gwybodaeth am gael profiad gwaith yn y BBC**
Ysgrifennwch at:
BBC Work Experience
MC2 C6 Media Centre
Media Village
201 Wood Lane
London W12 7TQ
Ebost: work.experience@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/jobs/workexperience

**I gael gwybod am swyddi gwag o fewn y BBC**
Ysgrifennwch at:
BBC Recruitment
PO Box 48305
London W12 6YE
Ffôn: 0870 333 1330*
(9.30am–5.30pm Llun – Gwener)
Ebost: recruitment@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/jobs

**Ar gyfer ymholiadau am eich Trwydded Deledu**
Ar gyfer ymholiadau cyffredinol neu daliadau debyd uniongyrchol
Ffôn: 0870 240 3294
Ffacs: 0870 240 1187
Ebost: tvlcsc@capita.co.uk
Gwefan: www.tvlicensing.co.uk

Mae copïau o *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* y BBC ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU ac ar wefan Llywodraethwyr y BBC yn bbcgovernors.co.uk. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain, mewn Braille ac fel taflen gryno. Cyhoeddir *Arolygon Blynyddol* gan BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland, BBC English Regions a BBC World Service hefyd.

Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi *Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC,* sy'n nodi ymrwymiadau a chynlluniau'r BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hwn ar gael ar wefan y BBC yn bbc.co.uk/info/statements2006. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain ac mewn Braille.

**Efallai y caiff galwadau i'r rhif hwn eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddi*

# Gwybodaeth arall

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Sheppard Day.

Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg.

Atgynhyrchwyd y ffotograffau canlynol drwy garedigrwydd:

Rixphotos.com
Tudalen 2 (Michael Grade)
Tudalen 4 (Mark Thompson)
Tudalen 10 (Llywodraethwyr y BBC)
Tudalen 12 (Bwrdd Gweithredol y BBC)

Jeff Overs
Tudalen 17 (BBC News 24)
Tudalen 53 (BBC Monitoring)

Neil Bennett
Tudalen 19 (Cyfarfod cyhoeddus y Llywodraethwyr, Caerdydd)
Tudalen 61 (Cyfarfod cyhoeddus y Llywodraethwyr, Caerdydd)

Getty Images
Tudalen 26 (Live 8)

François Savigny/naturepl.com
Tudalen 26 *(Planet Earth)*

Mark Pinder
Tudalen 28 (*Naked City,* Spencer Tunick, gosodiadau NewcastleGateshead)

Empire Media Productions
Tudalen 30 *(Jonny's Hotshots)*

Tiger Aspect Productions
Tudalen 31 *(Charlie and Lola)*

AFP/Getty Images
Tudalen 36 (llwyddiant y cais Olympaidd)
Tudalen 52 (Daeargryn Kashmir)

Associated Press
Tudalen 51 (Corwynt Katrina)

BBC/Colin Bell
Tudalen 56 *(Doctor Who)*

BBC/William Cherry
Tudalen 57 *(Facing the Truth)*

Datganiad amgylcheddol
Argraffwyd yr adroddiad hwn ar bapur a wnaed o gymysgedd o fwydion o 75% o wastraff ôl-ddefnyddwyr nad ydynt yn cynnwys inciau a 25% o ffeibrau newydd ECF (elfennol di-glorin). Daw'r ffeibrau newydd o ffermydd a reolir sydd â rhaglen ailblannu lem. Ni ddefnyddiwyd mwydion o goedwigoedd glaw.

Argraffwyd yr adroddiad gan ddefnyddio inciau a wnaed o soia, sy'n pydru'n naturiol, sy'n adnewyddadwy ac sy'n gollwng llai o gyfansoddion organig anweddol nag inciau a wnaed o fwynau. Mae gan yr argraffwr Ardystiad Rheoli Amgylcheddol ISO 14001.

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
ⓗ BBC 2006